# Bundle Health Board - Welsh 30 November 2023

Agenda attachments

23.0 Agenda Cymraeg 30.11.23

1.0 Gweinyddu Cychwynnol

1.1 23.247 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau am absenoldeb
*Cadeirydd*

1.2 23.248 Datgan buddiannau ar yr agenda presennol
*Cadeirydd<br>*

1.3 23.249 Cofnodion drafft y Cyfarfod diweddaf a cynhalwyd 28.9.23 a Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 27.9.23
*Cadeirydd<br>*

23.249a Draft Health Board Minutes 28.09.23 Public v0.3_Cymraeg

23.249b AGM Minutes 27.09.23 Public v.03 draft Cym

1.4 23.250 Materion yn codi a chofnod cryno o'r Camau Gweithredu
*Cadeirydd<br>*

23.250 Action Tracker Cym

1.5 23.251 Stori Claf - Gwasanaeth Clefyd Llidiol y Coluddyn (IBD)
*Matthew Joyes*

23.251 Patient Story - November 2023_Cym

1.6 23.252 Adroddiad y Cadeirydd
*Cadeirydd<br>*

23.252 Chair report v1.0_Cym

1.7 23.253 Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro
*Prif Weithredwr Dros Dro<br>*

23.253 CEO report v1.0_Cym

2.0 Eitemau i'w cymeradwyo / cadarnhau / penderfynu

2.1 23.254 Y Diweddaraf ar y Mesurau Arbennig
*Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio*

23.254 Special Measures Update Board Paper v04_Cym

2.3 23.255 "Gweithredu ar y Cyd ar gyfer Gogledd Cymru Iachach - Mabwysiadu Dull Gweithredu System Gyfan"; Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd 2023
*Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd*

23.255a Annual DPH report_Cym

23.255b BCUHB DPH Report Cym

23.255c BCUHB DPH Annual Report Board Presentation_Dwyiethog

2.4 23.256 Adroddiad Cyllid Mis 7 2023/24
*Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro*

2.5 23.257 Adolygu Cynllun Dirprwyo Neilltuedig (SoRD) y Bwrdd Iechyd
*Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro*

23.257a SoRD Nov 23 Final Cym

2.6 23.258 Adolygu Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd
*Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro*

23.258a SFI Nov 23 v1.0_Cym

2.7 23.259 Diweddaru'r Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy a Meddygon Adran 12(2)
*Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol<br>*

23.259a AC and S12 report _Cym

23.259b Appendix 1 - Approved Clinicians Data_Cym

23.259c Appendix 2 - Section 12(2) Doctors Data_Cym

3 Egwyl

4 Eitemau i'w trafod / sicrwydd

4.1.0 23.260 Cynlluniau Gwytnwch ar gyfer y Gaeaf BIPBC 2023-2024
*Cyfarwyddwr Gweithrediadau Gweithredol Dros Dro*

23.260a Winter Resilience

23.260b Winter resilience Board November 23 final CYMRAEG pdf

4.1.1 23.261 Adroddiad Cadeirydd : Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth
*Cadeirydd : Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth*

23.261 Committee Chairs Report PFIG 2.11.23 v1.0 Cym

4.1.2 23.262 Adroddiad Cadeirydd : Pwyllgor Archwilio
*Cadeirydd : Pwyllgor Archwilio*

23.262 AC Committee Chairs Report 16.11.223 Final Cym

4.2 23.263 Adroddiad Perfformiad Integredig
*Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro*

4.2.1 23.264 Monitro Cynllun Blynyddol 2023/24
*Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio*

23.264 Annual Plan Monitoring Q2 - 2023-10-20 Cym

4.3 23.265 Adroddiad Ansawdd Integredig
*Mandy Jones Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio*

23.265a Quality Report - November 2023_Cym

23.265b Quality Report - Appendix - November 2023

4.3.1 23.266 Adroddiad Cadeirydd : Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau
*Cadeirydd : Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau*

QSE Committee Chairs Report 27.10.23 v1.1 Cym

4.4 23.267 Adroddiad Lefelau Staff Nyrsio
*Mandy Jones Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio*

23.267a Nurse Staffing Levels_Cym

23.267b Appendix 1 - Annual Presentation of Nurse Staffing Levels to the Board (Autumn 2023 V3)

Appendix 2 - Summary of Nurse Staffing Levels for wards where 25B applies Autumn 2023 - Welsh

4.5 23.268 Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2022/23
*Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl*

23.268 Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2022-23 v1.0_Cym

4.6 23.269 Adroddiad Cadeirydd : Pwyllgor Cyflogau
*Cadeirydd*

23.269 Committee Chair report Rem Com 14.11.23 1.0_Cym

4.7 23.270 Adroddiad Cadeirydd : Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid
*Cadeirydd : Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid*

23.270 Stakeholder Reference Group Chairs Report 4.9.23 v2 Cym

4.8 23.271 Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol
*Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd*

5 Er gwybodaeth

5.2 23.272 Crynodeb o fusnes preifat y Bwrdd

23.272 Summary of private board business wef May 2023_Cym

6 Materion eraill

6.1 23.273 Unrhyw fater brys arall

6.2 23.274 Dyddiad y cyfarfod nesaf 25.1.24 Venue Cymru Llandudno & livestream
*Cadeirydd<br>*

6.3 Eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd Penderfyniad i Eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd –
*"Bod cynrychiolwyr y wasg ac aelodau eraill o'r cyhoedd yn cael eu heithrio o weddill y cyfarfod hwn o gofio natur gyfrinachol y busnes sydd i'w drafod, ac y byddai cyhoeddusrwydd yn niweidiol i fudd y cyhoedd yn unol ag Adran 1(2) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960."<br>*

**BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR**

**CYFARFOD Y BWRDD**
**DYDD IAU 30.11.23**
**9.30 – 13.30**
**Canolfan Optic, Llanelwy**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **AGENDA'R BWRDD** | | | | |
| **1. MATERION RHAGARWEINIOL** | | | | |
| 9.30 | 1.1 | Gair o groeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau am absenoldeb | Ar lafar | Cadeirydd |
| 9:32 | 1.2 | Datganiadau o fuddiant yn ymwneud â'r agenda | Ar lafar | Cadeirydd |
| 9:33 | 1.3 | Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2023 a 24 Awst 2023 | Mewn Atodiad | Cadeirydd |
| 9:40 | 1.4 | Materion yn codi a chofnod cryno o'r Camau Gweithredu Cadeirydd | Mewn Atodiad | Cadeirydd |
| 9:39 | 1.5 | Stori Claf – Gwasanaeth Clefyd Llidiol y Coluddyn (IBD) | **Cyflwyniad & Mewn Atodiad** | Mandy Jones Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio |
| 9:54 | 1.6 | Adroddiad y Cadeirydd | Mewn Atodiad | Cadeirydd |
| 10:04 | 1.7 | Adroddiad y Prif Weithredwr | Mewn Atodiad | Prif Weithredwr dros dro |
| **2. EITEMAU I'W CYMERADWYO/CADARNHAU/PENDERFYNU** | | | | |
| 10.15 | 2.1 | Adroddiad Mesurau Arbennig<br>.1 Adolygiad Diogelwch Unedau Cleifion Mewnol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu BIPBC (Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad<br>.2 Adolygiad o bryderon a godwyd yngylch diogelwch cleifion sy'n gysylltiedig â BIPBC (Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad)<br>.3 Adolygiad cyflym o swyddi gweithredol dros dro yn BIPBC (Y Pwyllgor Tâl)<br>.4 Adolygiad cyflym o Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd, BIPBC (Y Pwyllgor Archwilio) | Mewn Atodiad | Prif Weithredwr dros dro |
| 10.39 | 2.3 | "Gweithredu ar y Cyd ar gyfer Gogledd Cymru Iachach – Mabwysiadu Dull Gweithredu System Gyfan"; Adroddiad | **Cyflwyniad & Mewn Atodiad** | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd 2023 | | |
| 10.54 | 2.4 | Adroddiad Cyllid Mis 7 2023/24 | Mewn Atodiad | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid dros dro |
| 11.09 | 2.5 | Adolygu Cynllun Dirprwyo Neilltuedig (SoRD) y Bwrdd Iechyd | Mewn Atodiad | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid dros dro |
| 11:14 | 2.6 | Adolygu Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd | Mewn Atodiad | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid dros dro |
| 11.19 | 2.7 | Diweddaru'r Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy a Meddygon Adran 12(2) | Mewn Atodiad | Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol |
| 11.21 | **3. EGWYL** | | | |
| **4.EITEMAU I'W TRAFOD/SICRHAU** | | | | |
| 11.31 | 4.1.0 | Cynlluniau Gwytnwch ar gyfer y Gaeaf BIPBC 2023-2024 | **Cyflwyniad & Mewn Atodiad** | Cyfarwyddwr Gweithrediadau Gweithredol Dros Dro |
| 11.51 | 4.1.1 | Adroddiad Cadeirydd : Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth | Mewn Atodiad | Cadeirydd – Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth |
| 11.53 | 4.1.2 | Adroddiad Cadeirydd : Pwyllgor Archwilio | Mewn Atodiad | Cadeirydd - Pwyllgor Archwilio |
| 11.55 | 4.2 | Adroddiad ar Berfformiad Integredig | Mewn Atodiad | Cyfarwyddwr Gweitredol Cyllid dros dro |
| 12.10 | 4.2.1 | Monitro Cynllun Blynyddol 2023/24 | Mewn Atodiad | Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio |
| 12:35 | 4.3 | Adroddiad ar Ansawdd Integredig | Mewn Atodiad | Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol a Chyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddor Iechyd dros dro |
| 12.35 | 4.3.1 | Adroddiad y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau | Mewn Atodiad | Cadeirydd – Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau |
| 12:37 | 4.4 | Adroddiad Lefelau Staff Nyrsio | Mewn Atodiad | Mandy Jones Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio |
| 12:47 | 4.5 | Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2022/23 | Mewn Atodiad | Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl |
| 12.57 | 4.6 | Adroddiad Cadeirydd : Pwyllgor Cyflogau | Mewn Atodiad | Cadeirydd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 12.59 | 4.7 | Adroddiad Cadeirydd : Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid | Mewn Atodiad | Cadeirydd Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid |
| 13:01 | 4.8 | Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol | Mewn Atodiad | Ysgrifennydd Y Bwrdd dros dro |
| **5. Er GWYBODAETH** | | | | |
| 13.08 | 5.1 | Crynodeb o fusnes preifat y Bwrdd | Ar lafar | Ysgrifennydd Y Bwrdd dros dro |
| **6. MATERION ERAILL** | | | | |
| 13:08 | 6.1 | Unrhyw fater brys arall | Ar lafar | Cadeirydd |
| 13:10 | 6.2 | Dyddiad y Cyfarfod Nesaf<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf 25.1.24 Venue Cymru Llandudno & livestream | Ar lafar | Cadeirydd |
| Penderfyniad i Eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd - "Bod cynrychiolwyr y wasg ac aelodau eraill o'r cyhoedd yn cael eu heithrio o weddill y cyfarfod hwn o gofio natur gyfrinachol y busnes sydd i'w drafod, ac y byddai cyhoeddusrwydd yn niweidiol i fudd y cyhoedd yn unol ag Adran 1(2) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960." | | | | |

| **AELODAU O'R BWRDD** | **SWYDD** |
|---|---|
| Dyfed Edwards | Aelod Annibynnol/Cadeirydd |
| Karen Balmer | Aelod Annibynnol |
| Jason Brannan | Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl |
| Clare Budden | Aelod Annibynnol |
| Russell Caldicott | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro |
| Gareth Evans | Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwasanaethau Iechyd Dros Dro |
| Urtha Felda | Aelod Annibynnol |
| Adele Gittoes | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Dros Dro |
| Y Cyng. Dyfed Jones | Aelod Annibynnol |
| Yr athro Mike Larvin | Aelod Annibynnol |
| Dr Nick Lyons | Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol |
| Teresa Owen | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus |
| Mike Parry | Aelod Cyswllt, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid |
| Fôn Roberts | Aelod Cyswllt, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Carol Shillabeer | Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro |
| Dr Chris Stockport | Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio |
| Dr Caroline Turner | Aelod Annibynnol |
| Rhian Watcyn Jones | Aelod Annibynnol |
| Gareth Williams | Aelod Annibynnol |
| Jane Wild | Aelod Cyswllt, Fforwm Proffesiynau Gofal Iechyd |
| Angela Wood | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth |
| **YN BRESENNOL** | |
| Phil Meakin | Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro |
| Helen Stevens-Jones | Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu |
| Dylan Roberts | Prif Swyddog Gwybodaeth Ddigidol |

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)**
**Cofnodion Drafft cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar 28 Medi 2023 yn Venue Cymru, Llandudno a thrwy ffrwd fyw zoom**

| **Aelodau'r Bwrdd yn Bresennol** | |
|---|---|
| **Enw** | **Teitl** |
| Dyfed Edwards (DE) | Cadeirydd |
| Karen Balmer | Aelod Annibynnol |
| Jason Brannan (JB) | Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl |
| Clare Budden | Aelod Annibynnol |
| Russell Caldicott (RC) | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro ar gyfer Cyllid |
| Gareth Evans (GE) | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro ar gyfer Therapïau a Gwyddorau Iechyd |
| Dyfed Jones | Aelod Annibynnol |
| Yr Athro Mike Larvin | Aelod Annibynnol |
| Dr Nick Lyons | Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol / Dirprwy Brif Weithredwr |
| Phil Meakin | Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd |
| Dylan Roberts | Prif Swyddog Digidol a Gwybodaeth |
| Fôn Roberts | Aelod Cyswllt |
| Carol Shillabeer (Prif Swyddog Gweithredol) | Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro |
| Helen Stevens-Jones (HSJ) | Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu |
| Dr Chris Stockport | Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio |
| Rhian Watcyn Jones | Aelod Annibynnol |
| Jane Wild | Aelod Cyswllt |
| Gareth Williams | Aelod Annibynnol |
| Angela Wood | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth |
| **Yn Bresennol** | |
| Rob Atenstaedt | Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus/Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd |
| Dave Beard<br>Luke Parry | I gael cymorth TG a ffrydio byw |
| John Bowden | I gael cymorth clyweledol |
| Jody Evans | I gael cymorth ffrydio byw |
| Lowri Gwyn<br>Sioned Jones | Cyfieithu ar y pryd |
| Dave Harries | Pennaeth Archwilio Mewnol i arsylwi |

| | |
|---|---|
| Eleri Hughes-Jones | Pennaeth Gwasanaethau Cymraeg (eitem HB23.226 yn unig) |
| Diane Davies | Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol (cofnodion) |

| Eitem ar yr Agenda | Cam gweithredu |
|---|---|
| **MATERION AGORIADOL** | |
| **HB23/206 Gair o groeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau am absenoldeb**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod dwyieithog ac annog cyfranogiad llawn. Nodwyd ymddiheuriadau gan Teresa Owen, sef Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd y dirprwyodd Robert Atenstaedt ar ei rhan, ac Adele Gittoes, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Gweithredol Dros Dro. | |
| **HB23/207 Datganiadau o Fuddiant ar yr agenda gyfredol**<br><br>Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant. | |
| **HB23/208 Cofnodion drafft y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2023 a 24 Awst 2023**<br><br>Cafodd cofnodion drafft y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 31.7.23 a 24.8.23 eu cymeradwyo fel cofnod cywir. | |
| **HB23/209 Tabl camau gweithredu**<br><br>Cytunwyd ar y ddogfen a chofnodwyd diweddariadau pellach ar lafar i'r tabl camau gweithredu. | |
| **HB23/210 Profiad/Stori'r Claf**<br><br>**HB23/210.1** Cafodd y Bwrdd adroddiad manwl am glaf a oedd wedi cael triniaeth canser y fron ac a oedd wedi dod ar draws nifer o broblemau yn ystod y cyfnod hwn. Roedd wedi gofyn, o ystyried hanes ei theulu, am y cyfle i dynnu ei bronnau'n llwyr yn hytrach na'r llawdriniaeth a gafodd i dynnu'r lwmp ar ôl ymgynghori â'i llawfeddyg ymgynghorol. Yn anffodus iawn, dychwelodd y canser ac roedd wedi datblygu'n sylweddol cyn cael ei ganfod unwaith eto.<br><br>**HB23/210.2** Clywodd y Bwrdd sut roedd y profiad trist iawn o deimlo nad oedd neb yn gwrando arni wedi effeithio arni. Roedd hi'n teimlo ei bod "wedi cael triniaeth, ond heb gael gofal".<br><br>**HB23/210.3** Roedd y Bwrdd yn hynod ddiolchgar bod y claf wedi bod yn fodlon rhannu'r profiad hwn ac roedd am glywed gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth sut roedd BIPBC wedi mynd i'r afael â phrofiad y claf o'r gwasanaethau dan sylw, a chael sicrwydd bod dysgu wedi'i wreiddio ynddynt er mwyn osgoi'r risg o unrhyw brofiad tebyg i gleifion yn eu gofal. Pwysleisiwyd | |

DRAFT

| | |
|---|---|
| pwysigrwydd gwrando ar gleifion ac ymgysylltu â nhw ynghylch eu cynlluniau triniaeth.<br><br>**HB23/210.4** Cafwyd trafodaeth lle cytunodd y Bwrdd hefyd ar bwysigrwydd cefnogi clinigwyr gyda chofnodion digidol effeithiol am gleifion, a oedd yn cael ei symud ymlaen, ynghyd â mesurau cefnogol eraill fel cyflwyno rôl y llywiwr gofal. Roedd meysydd eraill a awgrymwyd i'w datblygu yn cynnwys gwella'r dysgu hwn yn hyfforddiant Hanfodion Gofal staff, a chyflwyno straeon am brofiad cleifion yn sesiynau ymgyfarwyddo BIPBC. O ran sicrwydd, eglurodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth lwybr llywodraethu profiadau cleifion i'r Bwrdd. Dywedodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod dysgu ac ymgysylltu yn feysydd allweddol o Fesurau Arbennig ac y byddai'n mynd i'r afael â'r angen systemig i amlygu a delio â themâu sy'n peri pryder.<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd wedi<br>• **nodi** profiad y claf<br>• **wedi cael** sicrwydd bod dysgu wedi'i wreiddio yn y gwasanaeth er mwyn osgoi profiad tebyg i unrhyw glaf yn y dyfodol | |
| **HB23/211 Adroddiad y Cadeirydd**<br><br>**HB23/211.1** Roedd y Cadeirydd yn falch o adrodd ar nifer yr ymweliadau yr oedd wedi ymgymryd â nhw ers cyfarfod blaenorol y Bwrdd Iechyd. Pwysleisiodd bwysigrwydd cysylltu â staff, cleifion a gwasanaethau yn y gymuned ac roedd yn arbennig o falch o adrodd ar y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a'r Ffair Iechyd a gynhaliwyd yn llwyddiannus y diwrnod blaenorol yn Llandudno.<br><br>**HB23/211.2** Dywedodd fod y Gweinidog yn bwriadu canolbwyntio ar atal yn gynnar er mwyn helpu'r boblogaeth i fyw'n iachach, ac y byddai angen i BIPBC symud hyn ymlaen.<br><br>**HB23/211.3** Roedd y Cadeirydd yn awyddus i bwysleisio'r uchelgais sydd ei angen yn BIPBC i ddarparu'r gofal a'r gwasanaethau gorau i boblogaeth Gogledd Cymru, ynghyd â'r gallu i gael gafael ar y rhain. Dyma'r cyfleoedd mae poblogaeth ein cymunedau yn haeddu eu cael.<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd wedi<br>**nodi'r** adroddiad | |
| **HB23/212 Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol**<br><br>**HB23/212.1** Tynnodd y Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro sylw yn yr adroddiad at bwysigrwydd ei hymweliadau â'r gwasanaeth, cydnabyddiaeth o | |

DRAFFT

| | |
|---|---|
| ymrwymiad mewn seremonïau Gwobrwyo Gwasanaeth Hir diweddar, a phwysigrwydd cael y brechiad rhag y ffliw i ddiogelu cleifion, cydweithwyr a phobl eraill yn eu teuluoedd a'u cymunedau. Yn ogystal, roedd heriau amgylcheddol i fynd i'r afael â nhw yn y Bwrdd. Amlinellodd sut y rhoddwyd sylw i'r adroddiad anffafriol diweddar ar draws y GIG ar ymddygiad rhywiol amhriodol drwy sefydlu systemau diogelu yn BIPBC, gan bwysleisio na fyddai ymddygiad o'r fath yn cael ei oddef yn y sefydliad.<br><br>**HB23/212.2** Dywedodd y Prif Weithredwr Dros Dro y byddai Cynllun y Gaeaf, a gyflwynir i'r Bwrdd yn ystod y cyfnod hwn fel arfer, yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd er mwyn cynnwys cynllunio mwy cadarn a fyddai hefyd yn cynnwys trafodaeth rhwng partneriaid a oedd fod i gael ei chynnal yn fuan.<br><br>**HB23/212.3** Mewn trafodaeth ehangach ar argaeledd a fforddiadwyedd llety, cytunwyd y byddai'r Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu yn cysylltu â'r Aelod Annibynnol a oedd wedi awgrymu rhannu cyfleoedd posibl i staff geisio cymorth. Byddai'r Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro hefyd yn archwilio'r maes hwn ymhellach.<br><br>**HB23/212.4** Roedd y Bwrdd yn falch o glywed bod 6 enwebiad BIPBC yn cael eu hystyried yng Ngwobrau Arloesi mewn Gofal Iechyd, a chytunodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro ar gyfer Therapïau a Gwyddor Iechyd i ddosbarthu rhagor o wybodaeth am gynnydd i aelodau'r Bwrdd. O ran adroddiadau'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth ar welliannau wrth fonitro sut mae camau gweithredu yn cael eu holrhain yn adroddiadau diweddar Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, pwysleisiodd y Cadeirydd fod y rhain, ac adroddiadau eraill, yn gyfleoedd pwysig iawn i sicrhau bod dysgu wedi'i wreiddio'n effeithiol yn y sefydliad.<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd wedi<br>**nodi'r** adroddiad | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>HSJ<br><br><br><br><br><br>GE |
| **HB23/213 Cwestiynau gan y Cyhoedd**<br><br>**HB23/213.1** Dywedodd y Cadeirydd fod rhai cwestiynau wedi cael eu cyflwyno gan ddwy ffynhonnell. Fodd bynnag, nid oedd hyn wedi'i wneud o fewn yr amserlen y cytunwyd arni er mwyn gallu paratoi ymatebion. Dywedodd y byddai'r rhain yn cael eu cyhoeddi ar y wefan cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfarfod. Nodwyd hefyd bod cyfarfod wedi ei drefnu i ymateb i gwestiynau manwl a gafodd y Bwrdd gan aelod o'r cyhoedd.<br><br>**HB23/213.2** Roedd y Cadeirydd yn gwahodd adborth gan y cyhoedd ar sut y gallai'r Bwrdd ymateb yn fwy effeithiol i'w cwestiynau drwy'r fforwm hwn. Roedd | |

| | |
|---|---|
| hefyd wedi bwriadu ceisio adborth ar broses fwy effeithiol gyda Llais a sefydliadau partner eraill. Roedd yn croesawu i ohebiaeth ar unrhyw faterion sy'n peri pryder gael ei anfon ato ef neu'r Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro unrhyw bryd rhwng cyfarfodydd.<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd wedi<br>**nodi'r** adroddiad ar lafar | |
| **HB23/214 EITEMAU I'W CYMERADWYO/CADARNHAU/PENDERFYNU** | |
| **HB23/215 Mesurau Arbennig – Adroddiad cylch 90 diwrnod llawn**<br><br>**HB23/215.1** Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol yr adroddiad. Roedd yn croesawu'r adborth adeiladol a gafwyd gan y Pwyllgorau ac roedd yn awyddus i weithio at amserlennu adroddiadau yn well er mwyn gwella prydlondeb yn y dyfodol. Rhoddwyd sicrwydd bod unrhyw gamau gweithredu heb eu cwblhau yn ystod y 90 diwrnod wedi cael eu symud ymlaen i gynllun gweithredu'r ail gylch 90 diwrnod, a byddai'r rhain hefyd yn cynnwys llithriadau sy'n codi o'r Adolygiadau Annibynnol mwy cymhleth.<br><br>**HB23/215.2** Cododd y Bwrdd nifer o gwestiynau. Mewn ymateb i ymholiadau ynghylch realaeth y targedau Arbedion a amlinellwyd, dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro ar gyfer Cyllid fod cyfarfodydd uwchgyfeirio'n cael eu cynnal i fynd i'r afael â llithriant y perfformiad presennol o £18.5m yn erbyn y targed o £25.2m. Rhannodd y pryder, ond roedd yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni yn ystod y flwyddyn ac ni fyddai manteision yn cael eu colli wrth barhau i symud y rhain yn eu blaen. O ran llithriant yr Adolygiad Caffael, roedd gwaith yn mynd rhagddo i dderbyn drafft o fewn 2 i 3 wythnos a fyddai'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth. Nodwyd bod cynnydd yn cael ei wneud mewn perthynas ag achosion Adnoddau Dynol uwch a oedd yn effeithio ar gynnydd rhai camau gweithredu, ac roedd adolygiad o'r portffolio gweithredol yn dal i gael ei archwilio.<br><br>**HB23/215.3** Cafwyd trafodaeth ar lithriant mewn nifer o feysydd, a phryderon am y gallu i fynd i'r afael â nifer y camau gweithredu 'Coch' a oedd yn cronni. Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro fod BIPBC ar hyn o bryd mewn cyfnod sefydlogi/darganfod a oedd yn ofynnol i sefydlu sylfaen gadarn ar gyfer adeiladu asesiad effeithiol o effeithiau a chanlyniadau, a gwreiddio newid cynaliadwy hirdymor. Pwysleisiodd y Cadeirydd yr angen i sicrhau bod y camau i'w cymryd yn rhoi sylw effeithiol i "Gwneud Pethau'n Iawn ar gyfer y Bwrdd *hwn*".<br><br>**HB23/215.4** Cafwyd trafodaeth fer ar lefel y manylder a ddarparwyd yn yr adroddiad. Roedd y Bwrdd hefyd wedi myfyrio ar yr angen am well fformat ar | |

DRAFT

gyfer yr adroddiad Perfformiad Integredig er mwyn cael gwell dealltwriaeth o wasanaethau'r Bwrdd. Deallwyd bod hyn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

**Penderfynwyd** bod y Bwrdd wedi

**cael sicrwydd** ar y cynnydd a wnaed yng nghylch 1, gan gydnabod y meysydd heriol, ynghyd â pha elfennau o'r cynllun fyddai'n gorfod parhau yn yr ail gylch o 90 diwrnod

**cymeradwyo'r** meysydd gwaith arfaethedig ar gyfer yr ail gylch o 90 diwrnod

**HB23/216 Datblygu Canolfan Llawfeddygaeth Orthopedig Ddewisol yn Ysbyty Llandudno - Achos Busnes Un Cam**

**HB23/216.1** Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol. Tynnodd sylw at fanteision datblygu'r ganolfan ar gyfer nifer fawr o achosion orthopedig cymhleth iawn, a oedd yn cynnwys diogelu gweithgarwch wedi'i gynllunio a gwella gwasanaethau cymorth arbenigol ar y safle ee radioleg. Byddai datblygu'r Ganolfan Ragoriaeth hefyd yn gwella rhagolygon recriwtio a'r potensial i gyfrannu at statws Prifysgol y Bwrdd o ran addysg ac arloesedd. Yn ogystal, roedd potensial i ddatblygu ail gam, yn dilyn trafodaeth gyda chlinigwyr a'r cyhoedd a allai gryfhau dyfodol safle ysbyty Llandudno.

**HB23/216.2** Cafwyd trafodaeth. Pwysleisiwyd yn gryf bod y datblygiad wedi cael ei arwain gan glinigwyr a bod dull hynod gydweithredol wedi'i ddefnyddio. O ran dyfodol safle Abergele, gwrandawodd y Bwrdd ar yr hanesion o ran ymgysylltu'n sylweddol â staff, brwdfrydedd a chefnogaeth ar gyfer datblygiad safle Llandudno, a ffabrig heriol safle presennol Abergele. Roedd aelodau'r Bwrdd Gweithredol clinigol wedi'u cyffroi ac roeddent yn gefnogol iawn o'r gwaith tîm ymroddedig iawn a oedd yn parhau i gefnogi a symud y datblygiad yn ei flaen.

**HB23/216.3** Roedd gan aelodau'r Bwrdd nifer o gwestiynau ynghylch sefyllfa'r refeniw, a chafodd y rhain eu hateb gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro ar gyfer Cyllid. Dywedodd hefyd fod angen gwneud llawer o waith paratoi i sicrhau bod gwasanaeth cynhyrchiol ac effeithlon yn cael ei alluogi.

**HB23/216.4** Diolchodd y Prif Weithredwr Dros Dro i'r clinigwyr dan sylw ac roedd hi'n edrych ymlaen at gyflwyno'r achos busnes i'r Bwrdd Buddsoddi yn fuan.

**Penderfynwyd** bod y Bwrdd wedi

- **cymeradwyo** cynnwys yr achos busnes, gan gynnwys yr opsiwn a argymhellir i ddatblygu capasiti canolfan lawfeddygol Orthopedig ar un safle

DRAFT

| | |
|---|---|
| yn Llandudno, y cyfalaf gofynnol (amcangyfrif presennol) a'r gofynion refeniw.<br>• **nodi** a **chefnogi** bwriad Tîm y Rhaglen i fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu cynnig cam dau i ehangu'r model ymhellach petai'r achos busnes yn cael ei gymeradwyo | |
| **HB23/217 Fframwaith i'w gymeradwyo: Fframwaith Rheoli Risg**<br><br>**HB23/217.1** Dywedodd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd fod y Fframwaith wedi ystyried yr adborth a gafwyd mewn sesiwn Datblygu'r Bwrdd yn ddiweddar ac yn ystod y Pwyllgor Archwilio hefyd.<br><br>**HB23/217.2** Gwnaeth sawl aelod o'r Bwrdd sylw ar y Fframwaith Rheoli Risg. Roedd angen dull nad yw'n osgoi risgiau a dylai gweithwyr ar bob lefel yn y sefydliad fod yn gyfforddus wrth adrodd am risgiau. Cyfeiriodd Cadeirydd y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth at yr angen i flaenoriaethu adnoddau mewn perthynas â datblygiadau achosion busnes cyfalaf, gan gynnwys ystyried y rhai a nodwyd fel rhai tymor canolig i dymor hwy. Derbyniodd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd awgrymiadau cadarnhaol ynghylch y Gymraeg ac roedd wedi ystyried y posibilrwydd y byddai'r rheini sy'n ddall i liwiau'n cael problemau wrth ddehongli data'r adroddiad. Roedd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd yn cydnabod yr adborth cefnogol a gafodd mewn trafodaeth â chydweithwyr y Bwrdd yn ystod cyfnod paratoi'r fframwaith hwn.<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd wedi<br>• **cymeradwyo** parodrwydd y Bwrdd ar gyfer mathau o risgiau 2023/24<br>• **cymeradwyo'r** fframwaith rheoli risg | |
| **HB23/218 Fframwaith i'w gymeradwyo: Fframwaith Perfformiad**<br><br>**HB23/218.1** Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro ar gyfer Cyllid yr eitem a oedd yn nodi sut byddai'r Fframwaith Perfformiad Integredig yn cefnogi'r gwaith o gyflawni cynlluniau'r Bwrdd Iechyd, a mynegodd sut byddai perfformiad yn cael ei fonitro yn ystod y flwyddyn mewn cyfarwyddiaethau, is-adrannau a chymunedau gofal iechyd integredig. Tynnodd sylw arbennig at swyddogaeth y Grŵp Cyflawni Gweithredol yn y broses.<br><br>**HB23/218.2** Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o'r Bwrdd, dywedwyd y byddai'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau yn cael manylion am gomisiynu gwasanaethau. Roedd y Cadeirydd yn awyddus i sicrhau eglurder yn y maes hwn. Yn dilyn trafodaeth fer, nodwyd y byddai angen ystyried rôl proses PADR effeithiol ymhellach o fewn y Fframwaith Integredig. Cytunodd y Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro y byddai angen gwneud rhagor o waith i gryfhau'r Fframwaith Integredig. | |

| | |
|---|---|
| **Penderfynwyd** bod y Bwrdd wedi<br>• **adolygu** cynnwys yr adroddiad<br>• **cymeradwyo'r** Fframwaith ar gyfer adrodd ar Berfformiad Integredig y Bwrdd Iechyd | |
| **HB23/219 Fframwaith i'w gymeradwyo: Fframwaith Cynllunio**<br><br>**HB23/219.1** Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol yr eitem a oedd yn egluro bod cysoni â fframwaith blynyddol y GIG hefyd wedi cael ei ystyried. Nododd y Bwrdd yr angen i sicrhau bod capasiti a sgiliau ar gael i sicrhau darpariaeth. Cafwyd trafodaeth ar ba mor hawdd oedd cyflawni'r amserlen a gyflwynwyd, a chytunwyd y byddai llinell amser safonol yn cael ei hymgorffori nad yw'n cael ei dylanwadu gan y materion llithriant presennol sy'n peri i'r llinell amser ymddangos yn dynn.<br><br>**HB23/219.2** Atgoffodd y Prif Weithredwr Dros Dro bawb fod y Fframwaith yn cael ei ddatblygu ar draws y sefydliad ac nid yn unig yn canolbwyntio ar y cynllun blynyddol, i sicrhau bod sgiliau cynllunio ar waith ar draws y sefydliad. Byddai'n allweddol symud y tri Fframwaith ymlaen gyda'i gilydd.<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd wedi<br>• **cael** yr adroddiad<br>• **cymeradwyo'r** Fframwaith i'w fabwysiadu yn y Bwrdd Iechyd yn amodol ar yr adborth a roddwyd i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol | |
| **HB23/220 Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol**<br><br>**HB23/220.1** Dywedodd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd fod y Rheolau Sefydlog diweddaraf a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru wedi cynnwys diwygiadau sylweddol ac y byddai newidiadau wedi'u teilwra'n lleol yn cael eu rhoi ar waith cyn bo hir. Roedd y ddogfen Rheolau Sefydlog hefyd yn cynnwys fframweithiau Llywodraethu ac Atebolrwydd wedi'u diweddaru ar gyfer Cyd-bwyllgorau'r Bwrdd Iechyd. (Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru / Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys)<br><br>**HB23/220.2** Dywedodd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd y byddai strwythur y Pwyllgor yn cael ei sefydlu pan fyddai digon o Aelodau Annibynnol wedi cael eu recriwtio pe bai'r Bwrdd yn cymeradwyo'r cynnig a amlinellwyd. Dywedodd Aelod o'r Bwrdd nad oedd hysbysebion rôl Aelodau Annibynnol yn adlewyrchu'n onest yr ymrwymiad amser angenrheidiol i gyflawni hyd a lled y dyletswyddau sy'n ofynnol. Nid oedd y 4 diwrnod y mis a hysbysebwyd yn adlewyrchiad cywir o'r amser sydd ei angen i fynd i gyfarfodydd datblygu'r Bwrdd, gweithdai, cyfarfodydd y Bwrdd, paneli cyfweld, cyfarfodydd y Pwyllgor a gweithgareddau | |

DRAFT

| | |
|---|---|
| eraill fel gwaith paratoi, ac ymweld â staff a gwasanaethau ar draws y sefydliad. Roedd achos cryf y gallai hyn atal rhai ymgeiswyr rhag dod ymlaen a thrwy hynny adlewyrchu anghydraddoldeb ym mhroses recriwtio Llywodraeth Cymru.<br><br>**HB23/220.3** Cytunodd y Cadeirydd i godi'r pryderon hyn yn uniongyrchol gyda'r Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol a phwysleisiodd yr angen i sicrhau capasiti o fewn BIPBC i wasanaethu'r strwythur Pwyllgor a amlinellwyd.<br><br>**HB23/220.4** Nodwyd bod y Cadeirydd Archwilio yn awyddus i ychwanegu Pwyllgor arall oherwydd maint y sefydliad. Dywedodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod y Tîm Gweithredol wedi bod yn cael adroddiadau'r Ddeddf Iechyd Meddwl tra bod y Pwyllgor Cydymffurfiaeth a Galluedd Meddyliol wedi cael ei roi o'r neilltu oherwydd diffyg capasiti Aelodau Annibynnol. Fodd bynnag, roedd yn flaenoriaeth uchel sefydlu'r Pwyllgor priodol ar ôl recriwtio digon o Aelodau Annibynnol.<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd wedi<br>• **cael sicrwydd** bod Cam Gweithredu'r Cadeirydd a'r Sêl Gyffredin a roddwyd ar waith ers cyfarfod blaenorol y Bwrdd Iechyd wedi cael eu nodi yn yr adroddiad.<br>• **cymeradwyo** ymgorffori a mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog enghreifftiol.<br>• **cael sicrwydd** bod gwaith yn cael ei wneud ar Atodlenni penodol y Rheolau Sefydlog ar gyfer BIPBC.<br>• **cymeradwyo** sefydlu'r Pwyllgorau a nodir yn Fframwaith y Pwyllgorau Amlinellol.<br>• **cael sicrwydd** y byddai Fframwaith y Pwyllgor Amlinellol a'r camau nesaf a nodwyd yn cael eu datblygu i fodloni gofynion y Bwrdd Iechyd.<br><br>**HB23/220.5 Adroddiad y Pwyllgor Archwilio**<br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd wedi<br>**nodi'r** adroddiad<br><br>**HB23/220.6 Adroddiad y Pwyllgor Taliadau**<br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd wedi<br>**nodi'r** adroddiad; | <br><br><br><br>DE |
| **HB23/221 EITEMAU I'W TRAFOD/SICRWYDD** | |
| **HB23/222 Perfformiad Ariannol 2023/24**<br><br>**HB23/221.1** Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro ar gyfer Cyllid yn nodi'r sefyllfa ariannol bresennol, gan dynnu sylw at y lefel debyg o ddirywiad (£5m (£20m ar gyfartaledd) ar ragolwg y mis blaenorol. Dywedodd fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal i ddelio â hyn a sut mae mynd i'r afael â'r sefyllfa diffyg o £134m, a rhoddodd enghreifftiau o'r camau a gymerwyd i wella'r sefyllfa ee grŵp rheoli'r Sefydliad, cyfarfodydd wythnosol i fynd i'r afael â defnydd dros dro o'r gweithlu, | |

| | |
|---|---|
| blaenoriaethu cyfarfodydd uwchgyfeirio perfformiad. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro ar gyfer Cyllid hefyd wedi nodi'r camau allweddol sy'n cael eu cymryd o ran perfformiad arbedion a'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Grŵp Cyflawni Gweithredol i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol sydd o'n blaenau. Rhoddodd sicrwydd y byddai Archwilio Cymru yn cael yr wybodaeth briodol.<br><br>**HB23/221.2** Gofynnodd y Bwrdd am ddata cymharol ynghylch pryd, yn ystod y blynyddoedd blaenorol, y gellid sicrhau cydbwysedd ariannol.<br><br>**HB23/221.3** Codwyd nifer o gwestiynau gan aelodau'r Bwrdd. Roedd y Bwrdd yn awyddus i ddeall sut gallai gefnogi'r tîm gyda'i heriau a pham roedd rhai is-adrannau'n gallu cyflawni arbedion. Nodwyd bod y Tîm Gweithredol a'r Grŵp Cyflawni Gweithredol yn edrych ar sut gellid cefnogi'r Cymunedau Gofal Iechyd Integredig sy'n wynebu heriau i wella eu perfformiad ariannol. Tynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro ar gyfer Cyllid sylw at yr heriau sy'n gysylltiedig â darparu gofal brys ar unwaith a'r effeithiau dilynol ar wasanaethau eraill. Roedd angen gweithredu model gwell o ran sut roedd cleifion yn cael eu gweld i helpu i fynd i'r afael â pherfformiad. Nodwyd bod Cadeirydd y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth wedi cynnwys ymchwiliadau manwl i berfformiad y Cymunedau Iechyd Integredig yn ei Gylch Busnes.<br><br>**HB23/221.4** Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro fod angen gwaith tymor hir i fynd i'r afael â'r heriau ariannol sylweddol, ond bod dull gweithredu 'gyda'i gilydd' yn cael ei fabwysiadu. Byddai angen gwneud dewisiadau anodd ac roedd angen mynd i'r afael â'r newid diwylliannol tymor hwy sydd ei angen i fynd i'r afael â disgyblaeth gwariant.<br><br>**HB23/221.5** Dywedodd y Cadeirydd fod hwn yn gyfnod ar gyfer arweinyddiaeth. Pwysleisiodd yr angen i staff BIPBC gael sicrwydd y byddai'r heriau hyn yn cael eu diwallu mewn dull partneriaeth gydweithredol. Roedd angen rhoi'r gorau i orwario ac roedd angen gwneud arbedion ariannol i fynd i'r afael â'r diffyg.<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd wedi<br>• **cael** yr adroddiad a chraffu arno<br>• **cefnogi'r** addasiadau arfaethedig i'r rhaglen gyfalaf. | <br><br><br><br><br><br>RC |
| **HB23/223 Adroddiad Perfformiad Integredig**<br><br>**HB23/223.1** Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro yr adroddiad yn nodi bod y fformat yn cael ei ailwampio ac y byddai'n ystyried adborth gan gydweithwyr. Tynnodd sylw at feysydd pryder a amlygwyd yn yr adroddiad gan gynnwys gofal brys, trosglwyddiadau ambiwlansys, orthodonteg, cynyddu apwyntiadau cleifion allanol a risgiau dermatoleg. | |

DRAFFT

| | |
|---|---|
| **HB23/223.2** Cafwyd trafodaeth. Mewn ymateb i gwestiynau a godwyd, dywedodd y Prif Weithredwr Dros Dro y byddai'r system archebu well yn cael ei monitro drwy'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth yn y dyfodol a bydd yn trefnu bod mwy o fanylion am berfformiad Offthalmoleg yn cael eu rhannu ag aelodau'r Bwrdd. Roedd hi'n falch o nodi bod gostyngiad sylweddol wedi bod yn nifer yr ambiwlansys sy'n aros mewn Adrannau Achosion Brys. Rhannodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth newyddion cadarnhaol am gydweithio gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau Gweithredol Dros Dro i fynd i'r afael â throsglwyddo pobl o Gartrefi Gofal i ddrysau blaen BIPBC.<br><br>**HB23/223.3** Yn dilyn pryderon a godwyd ynghylch cyfraddau absenoldeb Ystadau a Chyfleusterau, penderfynodd Cadeirydd y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth ystyried y rhain a manylion pellach am yr holl gyfraddau absenoldeb yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth gyda'r Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl.<br><br>**HB23/223.4** Dywedodd y Prif Weithredwr Dros Dro y byddai'r Fframwaith Perfformiad Integredig cymeradwy yn rhoi mwy o sylfaen ar gyfer gwella dealltwriaeth y Bwrdd o berfformiad y gwasanaeth. Gofynnodd y Cadeirydd am sicrwydd y byddai'r adroddiad IP sy'n cael ei ddatblygu yn egluro "Beth sydd wedi gweithio a Beth sydd ddim wedi gweithio" mewn adroddiadau i'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth yn y dyfodol.<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd wedi<br>**nodi'r** adroddiad; | Prif Swyddog Gweithredol<br><br>JB<br><br>RC |
| **HB23/224 Adroddiad Ansawdd Integredig**<br><br>**HB23/224.1** Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Therapïau a Gwyddorau Iechyd yr adroddiad ar ran y swyddogion gweithredol clinigol. Tynnodd sylw at y lefelau o ddigwyddiadau diogelwch cleifion a nodwyd, digwyddiadau byth, gostyngiadau nodedig mewn pryderon ynghylch profiad cleifion, y cyfraddau heriol o ran ymchwiliadau hwyr, a chynnydd mewn adroddiadau adborth cleifion a oedd o fudd i ddysgu o fewn gwasanaethau BIPBC.<br><br>**HB23/224.2** Rhoddwyd diweddariad hefyd ar erlyniad diweddar yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a nodwyd bod gorchymyn tor-amod wedi'i gyflwyno.<br><br>**HB23/224.3** Yn y drafodaeth a oedd yn dilyn, codwyd pryderon yn benodol mewn perthynas ag amseroedd ymchwilio hir a oedd yn niweidiol o ran sicrhau bod y dysgu'n cael ei ledaenu'n gyflym er mwyn osgoi risgiau tebyg i gleifion eraill. Deallwyd y byddai hyn, a meysydd eraill o ymchwiliadau manwl a | |

DRAFT

awgrymwyd, yn cael eu harchwilio ymhellach drwy'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau.

**Penderfynwyd** bod y Bwrdd wedi
**nodi'r** adroddiad

**HB23/224.4 Adroddiad y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau**
Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor y byddai'r Pwyllgor yn ystyried Codymau yn y cyfarfod nesaf ac roedd hefyd wedi ystyried dau adolygiad arbennig mewn sesiwn ddatblygu ddiweddar. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i fireinio agenda'r Pwyllgor.

**Penderfynwyd** bod y Bwrdd wedi
**nodi'r** adroddiad;

**HB23/225 Adroddiad Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltiad**

**HB23/225.1** Cyflwynwyd yr eitem gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl. Roedd yr adroddiad yn nodi cynigion ar gyfer gwaith i'w wneud mewn partneriaeth yn BIPBC i ddeall a gwella diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltiad y sefydliad drwy gyfranogiad gweithredol y Bwrdd fel rhan o'r gwaith o fynd i'r afael â mesurau arbennig Llywodraeth Cymru.  Byddai angen i'r dull systemig fod yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau diogel a dibynadwy i bobl Gogledd Cymru a bod yn fesuradwy i ddangos gwelliant yn y maes hollbwysig hwn.

**HB23/225.2** Roedd y Bwrdd yn hynod falch o gael y cynigion ac roedd yn awyddus i groesawu'r gwaith o gryfhau cysylltiadau diwylliannol gyda darpariaeth Gymraeg a darpariaeth amlieithog, yn ogystal â bod yn sefydliad sy'n dangos yn weithredol pa mor bwysig yw gweithredu a chynnal dysgu. Cafwyd trafodaeth a oedd yn cynnwys effaith y gwahanol fathau o ddiwylliant cyffredin ar sefydliad ee tosturiol, cefnogol ac ati. Roedd y Bwrdd yn cydnabod y byddai angen amynedd ac adnoddau i sicrhau gwell newid diwylliannol hirdymor ar bob lefel.

**Penderfynwyd** bod y Bwrdd wedi
**cymeradwyo'r** cynnig

**HB23/226 Adroddiad Monitro Blynyddol ar y Gymraeg 2022/23**

**HB23/226.1** Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau'r Gymraeg yr adroddiad monitro blynyddol a oedd yn cynnwys manylion y cwmpas eang o weithgareddau a gynhaliwyd gan Dîm y Gymraeg, yn ogystal ag asesiad o gydymffurfiaeth yn erbyn safonau'r Gymraeg i'w gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg yn yr adroddiad diweddaru 'Mwy na Geiriau'.

DRAFT

| | |
|---|---|
| **HB23/226.2** Mewn ymateb i gwestiynau'r Bwrdd, eglurodd Pennaeth Gwasanaethau'r Gymraeg fod nifer y dysgwyr newydd ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn unig ac nad oeddent yn cynnwys blynyddoedd blaenorol. O ran y drafodaeth ar bwysigrwydd magu hyder i siarad Cymraeg ar bob lefel cymhwysedd, roedd hi'n falch o roi gwybod am gynlluniau i gyflwyno rôl i fynd i'r afael â hyn yn BIPBC, drwy gynllun peilot cenedlaethol Cymraeg yn y Gwaith.<br><br>**HB23/226.3** Roedd y Bwrdd yn gefnogol iawn o bob cyfle i annog staff i allu siarad Cymraeg, ac ieithoedd eraill, er mwyn eu galluogi i ddarparu gwasanaethau i gleifion a chydweithwyr yn eu hiaith gyntaf. Trafodwyd llawer o enghreifftiau, yn enwedig cleifion â dementia. Nododd y Cadeirydd a'r Bwrdd eu huchelgais i fod y gorau yng Nghymru o ran darpariaeth Gymraeg er budd poblogaeth Gogledd Cymru.<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd wedi<br>• **cymeradwyo'r** Adroddiad Blynyddol i'w gyhoeddi a'i gyflwyno i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.<br>• **cymeradwyo** adroddiad diweddaru Mwy na Geiriau i'w gyflwyno i'r Uned Polisi Iaith Gymraeg yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. | |
| **HB23/227 Adroddiad Partneriaethau**<br><br>**HB23/227.1** Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu yr eitem hon. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod y trafodaethau a'r rhaglenni gwaith yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau yn fforymau allweddol lle mae'r Bwrdd Iechyd yn cwrdd â phartneriaid ar draws Gogledd Cymru, gan gynnwys y chwe awdurdod lleol, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.<br><br>**HB23/227.2** Roedd meysydd ffocws diweddar yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynnwys y Cynllun Cymunedau Cyfeillgar i Ddementia, strategaeth interim ddrafft Law yn Llaw at Iechyd Meddwl Gogledd Cymru a'r Cynllun Cyflawni Blynyddol. Yn y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, roedd y gwaith wedi canolbwyntio'n ddiweddar ar y Cynlluniau Llesiant a'r trafodaethau ynghylch y gyfraith gofal gwrthgyfartal.<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd wedi<br>**nodi'r** adroddiadau | |
| **HB23/228 Adroddiad Cyd-bwyllgorau**<br><br>**HB23/228.1** Darparwyd yr adroddiadau canlynol er gwybodaeth: Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, a Gwasanaethau cysylltiedig Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol | |

| | |
|---|---|
| Cymru mewn adroddiadau uwchgyfeirio hy Burns, Tŷ Llidiard, Llawfeddygaeth Bediatrig a sefydliad ffrwythlondeb Cymru.<br><br>**HB23/228.2** Tynnodd y Prif Weithredwr Dros Dro sylw at ail gam ymgynghori'r Gwasanaethau Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys a gynhelir yn ystod tymor yr Hydref y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys. Dywedodd y byddai'r Bwrdd yn paratoi ymateb maes o law.<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd wedi<br>**nodi'r** adroddiadau | |
| **HB23/229 Adroddiadau Fforymau Cynghori**<br><br>Derbyniwyd adroddiadau am weithgarwch diweddar y Fforwm Proffesiynau Iechyd, y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a'r Fforwm Partneriaeth Lleol. Tynnodd yr Aelod Cyswllt (Cadeirydd y Fforwm Proffesiynau Iechyd) sylw arbennig at drafodaeth a gafwyd am y Strategaeth Ddigidol a'r effaith gadarnhaol bosibl ar recriwtio yn y dyfodol.<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd wedi<br>**nodi'r** adroddiadau | |
| **HB23/230 MATERION ERAILL** | |
| **HB23/231 Unrhyw fater brys arall**<br><br>Doedd dim mater arall i'w drafod. | |
| **HB23/232 Dyddiad y cyfarfod nesaf**<br><br>30 Tachwedd 2023, lleoliad i'w gadarnhau. | |
| **Penderfyniad i Eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd**<br><br>**Penderfynwyd** eithrio'r wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn o gofio natur gyfrinachol y busnes sydd i'w drafod, ac y byddai cyhoeddusrwydd yn niweidiol i fudd y cyhoedd yn unol ag Adran 1(2) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960. | |

DRAFT

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)**
**Cofnodion drafft y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 27 Medi 2023 yng Nghanolfan Gymunedol y Drindod, Llandudno**

| Aelodau'r Bwrdd yn Bresennol | |
|---|---|
| **Enw** | **Teitl** |
| Dyfed Edwards | Cadeirydd |
| Karen Balmer | Aelod Annibynnol |
| Jason Brannan | Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Pobl |
| Clare Budden | Aelod Annibynnol |
| Russell Caldicott | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro ar gyfer Cyllid |
| Gareth Evans | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro ar gyfer Therapïau a Gwyddorau Iechyd |
| Dyfed Jones | Aelod Annibynnol |
| Yr Athro Mike Larvin | Aelod Annibynnol |
| Dr Nick Lyons | Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol / Dirprwy Brif Weithredwr |
| Phil Meakin | Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro |
| Dylan Roberts | Prif Swyddog Digidol a Gwybodaeth |
| Carol Shillabeer | Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro |
| Helen Stevens-Jones | Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu |
| Dr Chris Stockport | Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol |
| Rhian Watcyn Jones | Aelod Annibynnol |
| Gareth Williams | Aelod Annibynnol |
| Angela Wood | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth |

| Yn Bresennol | |
|---|---|
| Muthu Ganapathi | Llawfeddyg Orthopedig Ymgynghorol |
| Eira Parry | Cyfieithydd |
| Rachael Page | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol |
| Alberto Salmoiraghi | Seiciatrydd Ymgynghorol / Cyfarwyddwr Meddygol Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (MHLDS) |
| | Tîm Cyfathrebu |
| Diane Davies | Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol (cofnodion) |

| Sylwedyddion a gwasanaethau a gyflwynwyd yn sesiwn y Ffair Iechyd | |
|---|---|
| Dave Harries | Pennaeth Archwilio Mewnol |
| Aelodau o'r Cyhoedd | |
| Gwasanaethau | Gwasanaethau Strôc<br>Gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu<br>Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc |

| | |
|---|---|
| | Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu<br>Gwasanaeth Trawsnewid a Gwella<br>Arwyddo, golwg a sain<br>Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS)<br>Cydraddoldeb<br>Gwasanaethau Digidol, Data a Thechnoleg<br>Gwasanaethau dementia<br>Fferyllfa Gymunedol<br>Rhwydwaith Orthopedeg a Chyhyrysgerbydol |

| **Eitem ar yr Agenda** | **Cam gweithredu** |
|---|---|
| **AGM23/1 MATERION AGORIADOL** | |
| **AGM23/1.1** Rhoddodd y Cadeirydd groeso i bawb a nodi ymddiheuriadau gan:<br>• Adele Gittoes, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro ar gyfer Gweithrediadau<br>• Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd<br>• Fôn Roberts, Aelod Cyswllt<br>• Jane Wild, Aelod Cyswllt<br><br>**AGM23/1.2** Roedd y Cadeirydd yn falch bod presenoldeb da yn y dull amgen o gynnal ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol a bod llawer o wahanol wasanaethau'n bresennol i rannu eu cyfraniadau cadarnhaol gyda'r cyhoedd ac aelodau'r Bwrdd mewn lleoliad 'ffair iechyd'. Roedd y Bwrdd yn awyddus i bwysleisio ei neges ei fod yn dymuno manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i estyn allan a gwrando yng nghymunedau PBC. Er bod taith bresennol PBC yn heriol, roedd y Cadeirydd yn croesawu'r gwelliannau cadarnhaol iawn a oedd yn cael eu datblygu a'u harddangos yn y cyfarfod.<br><br>**AGM23/1.3** Diolchodd y Cadeirydd i Carol Marubbi a Thîm Canolfan Gymunedol y Drindod am gynnal y digwyddiad ac am y rhan bwysig y maent yn ei chwarae yng nghymuned Llandudno. | |
| **AGM23/2 Trosolwg o'r flwyddyn 2022/23, gan gynnwys cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol a chan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.**<br><br>**AGM23/2.1** Cyflwynwyd yr eitem hon gan y Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Cyllid. Roedd hi'n ategu'n gryf ymrwymiad y Bwrdd i wrando ar wahanol gymunedau ar draws Gogledd Cymru ac i roi lle canolog iddo'i hun ynddynt. Croesawyd brwdfrydedd y gwasanaethau a oedd yn bresennol, ynghyd â'r cyfle i rannu'r agwedd gadarnhaol hon gydag aelodau'r Bwrdd ac aelodau o'r cyhoedd. | |

| | |
|---|---|
| **AGM23/2.2** Fe wnaeth y Prif Weithredwr Dros Dro gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2022/23, gan dynnu sylw at y fersiwn copi caled cryno a ddarparwyd i aelodau'r cyhoedd a oedd yn bresennol. Wrth amlinellu'n gryno yr amrywiaeth a'r nifer enfawr o wasanaethau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd i boblogaeth Gogledd Cymru, pwysleisiodd natur integredig y system a'r lefel uchel o waith partneriaeth sy'n cael ei wneud. Cydnabu'r heriau allweddol yn ystod y flwyddyn a arweiniodd at sefyllfa lle roedd Llywodraeth Cymru wedi gosod y Bwrdd Iechyd mewn Mesurau Arbennig, gan dynnu sylw at y meysydd sy'n achosi'r pryder mwyaf.<br><br>**AGM23/2.3** Roedd yn bwysig cydnabod bod cyfrifyddu ariannol yn her allweddol yn nhaith wella PBC ac roedd PBC yn ymwybodol iawn o'i ddyletswydd fel ceidwad arian cyhoeddus. Diolchodd i'r staff y cyfarfu â nhw yn ystod y pum mis diwethaf am eu balchder yn eu gwasanaethau. Roedd y Bwrdd yn ddiolchgar iawn i aelodau'r staff am eu hymrwymiad. Byddai cynlluniau uchelgeisiol yn cael eu datblygu i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy yn y dyfodol.<br><br>**AGM23/2.4** Nodwyd bod copïau llawn o'r Adroddiad Blynyddol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, a hynny ar-lein ac yn y lleoliad. | |
| **AGM23/3 Cyflwyniadau gan gydweithwyr o'r gwasanaethau orthopedig, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau cymunedol.**<br><br>**AGM23/3.1** Rhoddodd Mr Muthu Ganapathi, Meddyg Ymgynghorol Trawma ac Orthopedeg, gyflwyniad cadarnhaol iawn ar ddatblygiadau a oedd wedi arwain at gleifion yn cael pen-gliniau a chluniau newydd, gan arwain at ryddhau cleifion o'r un diwrnod neu dderbyniadau llawer byrrach i'r ysbyty. Pwysleisiodd fod y gwelliannau hyn wedi cael eu rhoi ar waith yn ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi gan waith tîm gwych. Y dull gweithredu oedd gwneud popeth yn well, yn gyflymach ac yn gydlynus. Rhannwyd llawer o enghreifftiau cadarnhaol am gleifion gyda'r rhai a oedd yn bresennol.<br><br>**AGM23/3.2** Diolchodd y Cadeirydd yn ddiffuant i Mr Ganapathi a'r timau ategol am fod yn greadigol a gwneud pethau'n wahanol er mwyn gwneud gwelliannau sylweddol i gleifion a hefyd er mwyn cael arbedion effeithlonrwydd cadarnhaol mewn gwasanaeth sydd â galw mawr amdano.<br><br>**AGM23/3.3** Dywedodd Dr Alberto Salmoiraghi, Seiciatrydd Ymgynghorol/Cyfarwyddwr Meddygol Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (MHLDS) ei fod yn ymfalchïo mewn gweithio gyda chydweithwyr PBC mewn gwasanaeth heriol iawn a oedd wedi bod yn destun mwy o alw oherwydd yr epidemig covid a'r cynnydd yn y pwysau ariannol yr oedd pobl yn delio â nhw. Disgrifiodd ddyfodiad niwroamrywiaeth a chynlluniau PBC i | |

fynd i'r afael â nhw. Tynnwyd sylw yn y cyflwyniad at sawl datblygiad a gwelliant cadarnhaol arall.

**AGM23/3.4** Diolchodd y Cadeirydd iddo am rannu'r cynnydd cadarnhaol a wnaed a'r datblygiadau yn y dyfodol sy'n cael eu datblygu yn MHLDS.

**AGM23/3.5** Rhoddodd Rachael Page, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol, gyflwyniad ar arferion a reolir gan y Bwrdd Iechyd a'r gwelliannau cadarnhaol a roddwyd ar waith ac a oedd wedi bod o fudd i gleifion a staff. Rhannwyd adborth cadarnhaol iawn o ymweliadau Arolygiaeth Iechyd Cymru gyda'r rhai a oedd yn bresennol. Tynnwyd sylw at welliannau Therapi Galwedigaethol Cymunedol a oedd yn cyd-fynd â lleoliadau gofal sylfaenol ac a oedd wedi arwain at amseroedd aros sylweddol is i gleifion yn ardal y Dwyrain. Fe wnaeth dau Uwch Ymarferydd Nyrsio o fewn Nyrsio Ardal gyflwyno'r Cynllun Bagiau Coch a ddatblygwyd ganddynt ac a oedd yn llwyddiannus iawn i gleifion Cartrefi Gofal sy'n defnyddio gwasanaethau acíwt ac yn cael eu rhyddhau ohonynt, gan ddarparu holl gofnodion angenrheidiol cleifion ar gyfer unigolion. Dywedodd fod gwasanaethau eraill hefyd yn ystyried mabwysiadu cynllun tebyg ar gyfer eu cleifion.

**AGM23/3.6** Diolchodd y Cadeirydd i'r rhai a oedd yn bresennol am eu cyflwyniadau craff ac am rannu ag aelodau o'r cyhoedd, cydweithwyr ac aelodau'r Bwrdd enghreifftiau gwych o welliannau sy'n digwydd i gleifion PBC.

**AGM23/4 Cyfrifon Ariannol Blynyddol a Barn yr Archwilydd**

**AGM23/4.1** Cyflwynwyd yr eitem hon gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro ar gyfer Cyllid. Dywedodd fod Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyhoeddi barn archwilio amodol anffafriol "gwir a theg". Mae'r amod mewn dwy ran, sef rhan 1 – balansau agoriadol croniadau a symiau taladwy o flwyddyn ariannol 2021-22, a rhan 2 – amod rheoleiddio mewn perthynas â phenodiad Gweithredol dros dro y mae angen cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar ei gyfer. Nodwyd bod Archwilio Cymru wedi datgan bod sefyllfa cau'r fantolen ar gyfer 2022/23 yn cynrychioli darlun cywir a theg (holliach), gyda'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cyflawni'r ddyletswydd ariannol allweddol gyntaf, sef bod mewn gwarged dros y tair blynedd ariannol.

**AGM23/4.2** Tynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro ar gyfer Cyllid sylw at y modd yr oedd gwariant yn cael ei rannu rhwng gwasanaethau ac adnoddau BIPBC, a rhoddodd gyd-destun i nifer enfawr yr anfonebau a broseswyd wrth gyrraedd ei dargedau statudol. Dywedodd y byddai angen ystyried costau cynnal a chadw'r ystad yn y dyfodol. Er bod rhagolygon diffyg 2023/24 ar draws Byrddau Iechyd Cymru wedi cael eu nodi fel £648m, roedd PBC yn cyfrif am £134m o'r swm hwn. Nodwyd hefyd nad oedd gan PBC, ynghyd â llawer o Fyrddau Iechyd

DRAFT

eraill yng Nghymru sy'n wynebu heriau ariannol, Gynllun Tymor Canolig Integredig ar waith, er bod Cynllun Blynyddol wedi cael ei gymeradwyo.

**AGM23/4.3** I gloi, dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro ar gyfer Cyllid y byddai'r Bwrdd Iechyd yn ceisio cyflwyno set lân o gyfrifon ar gyfer 2023/24 (barn ddiamod), gan nodi'r cynllun yn mynegi diffyg o £134.1m ar gyfer y flwyddyn ariannol

**M23/5 Cwestiynau ac atebion i'r Bwrdd Iechyd**

**AGM23/5.1** Croesawodd y Cadeirydd gwestiynau gan y cyhoedd yn gyffredinol neu mewn perthynas â'r cyflwyniadau a ddarparwyd. Amlinellodd hefyd y byddai'r Bwrdd Iechyd yn awyddus i dderbyn cwestiynau drwy gydol y flwyddyn, nid dim ond mewn cyfarfodydd Bwrdd neu Gyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol.

**AGM23/5.2** Roedd aelod o'r cyhoedd wedi cwestiynu lefelau staffio nyrsys Iechyd Meddwl, o ystyried bod BIPBC wedi cael adroddiadau anffafriol ar yr un mater dros 10 mlynedd yn ôl. Cyfeiriodd at adroddiad Holden ynghyd ag adroddiadau diweddar Arolygiaeth Iechyd Cymru (AGIC). I ymateb, dywedodd y Cadeirydd fod staffio nyrsys yn fater enfawr yr oedd y Bwrdd wrthi'n mynd i'r afael ag ef. Cytunodd y Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro mai'r gweithlu oedd her fwyaf y GIG, nid oedd hi wedi dod ar draws problemau recriwtio mor anodd drwy gydol ei gyrfa. Dywedodd hefyd fod PBC yn annog ymgysylltiad lleol yn y gwasanaeth ac er bod mwy o waith i'w wneud ei gobaith hi oedd y byddai mwy yn ystyried yr llawenydd a'r heriau sy'n gysylltiedig â gweithio yn yr ardal hon wrth ddatblygu eu gyrfaoedd yn y maes gofal iechyd yng Ngogledd Cymru. Dywedodd y Cadeirydd hefyd fod mwy o bobl yn chwilio am yrfaoedd mewn gwasanaethau Iechyd Meddwl yn dilyn effaith pandemig Covid. Roedd gwaith yn mynd ymlaen hefyd gyda'r Brifysgol leol i ddatblygu hyn ymhellach.

**AGM23/5.3** Roedd aelod o'r cyhoedd wedi cwestiynu cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran y 35 o argymhellion a gyflwynwyd mewn adroddiad gan y Gwasanaeth Cynghori ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HASCAS) a gynhaliwyd yn 2018. Dywedodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod adolygiad wrthi'n cael ei gynnal o'r adroddiad, ac y byddid yn adrodd ar yr hyn a ddysgir gyda thryloywder pan fydd yr adolygiad wedi dod i ben.

**AGM23/5.4** Gofynnodd aelod o'r cyhoedd am fwy o fanylion am ddyfodol Ysbyty Llandudno. Roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr Dros Dro yn falch o ddweud y byddai'r Bwrdd Iechyd yn ystyried achos busnes y diwrnod canlynol i fuddsoddi mewn Gwasanaethau Orthopedig ar y safle, anogwyd yr aelodau o'r cyhoedd i fynychu'r drafodaeth.

DRAFT

| | |
|---|---|
| **AGM23/5.5** Roedd aelod o'r cyhoedd wedi canmol datblygiad posibl Ysbyty Llandudno, ar ôl gwrthwynebu penderfyniadau blaenorol i ostwng nifer y gwelyau cymunedol a oedd yn ei barn hi yn ffactor mewn 'blociau gwelyau' ar hyn o bryd ar safleoedd acíwt. Roedd hi wedi cael ei chalonogi gan y Bwrdd newydd ac roedd hi'n dymuno pob llwyddiant iddo yn y dyfodol.<br><br>**AGM23/5.6** Roedd y Cadeirydd yn cydnabod bod llawer o heriau o'n blaenau, ond roedd yn ailadrodd ymrwymiad y Bwrdd i estyn allan a gweithio gyda llawer o gymunedau PBC. Pwysleisiodd fod gweithio mewn partneriaeth yn bwysig iawn iddo ef a'r Bwrdd ac mai'r digwyddiad hwn fyddai'r cyntaf o lawer a fyddai'n galluogi'r Bwrdd Iechyd i fynd allan i'r Gymuned i wrando. | |
| **AGM23/6 Trafodaethau o gwmpas y bwrdd**<br><br>Cynhaliwyd trafodaethau o gwmpas y bwrdd gydag aelodau o'r cyhoedd ac aelodau'r Bwrdd, a byddai'r tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn y Bwrdd Iechyd yn casglu canlyniadau'r rhain. | |

DRAFT

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

# Bwrdd Iechyd

## Tabl o gamau gweithredu – yn codi o gyfarfodydd a gynhaliwyd yn gyhoeddus

diweddarwyd 22.11.23

| Cyf | Swyddog Gweithredol Arweiniol / Aelod | Cyfeirnod y cofnod a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt | Gwreiddiol Amserlen | Diweddariad (dyddiad) | Statws gweithredu | Statws Coch Melyn Gwyrdd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| HB23/137.16 | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd | **Gweithio mewn partneriaeth** Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd i drafod gyda Phrifysgol Bangor (a phrifysgolion eraill) ac adrodd yn ôl i'r Bwrdd ar ddefnyddio/hyfforddi Eiriolwyr Iechyd. | Medi 2023 | **Diweddarwyd 20.09.23** Mae Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd wedi cysylltu â chydweithwyr ym Mhrifysgol Bangor (Medi 2023) a bydd yn adrodd yn ôl wrth i sgyrsiau fynd rhagddynt.<br>**21.11.23** Dywedodd Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd fod sgyrsiau ynghylch cyfleoedd Iechyd y Cyhoedd wrthi'n cael eu cynnal gyda'r Brifysgol. | Cynnig ei gau | |
| HB23/155 | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth | **Ymweliadau safle'r Bwrdd** Y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth i ddosbarthu'r rhaglen arfaethedig o ymweliadau â'r Bwrdd | Medi 2023 | **28.9.23** Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth yng nghyfarfod y Bwrdd fod rhai ymweliadau wedi cael eu cynnal. Roedd rhaglen yn cael ei datblygu a fyddai'n cael ei rhoi i QSEC i gytuno ar ddull gweithredu cydlynol. | Wedi Cwblhau. Cynnig ei gau | |
| HB23/159.5 | Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Gweithredu wedi'i drosglwyddo i'r | **Data Orthodonteg** Y Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio i adolygu'r | Hydref 2023 | **Diweddarwyd 19.09.23** Mae problemau capasiti sylweddol o fewn Orthodonteg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac er bod y Bwrdd Iechyd wedi | Cynnig ei gau | |

| Cyf | Swyddog Gweithredol Arweiniol / Aelod | Cyfeirnod y cofnod a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt | Gwreiddiol Amserlen | Diweddariad (dyddiad) | Statws gweithredu | Statws Coch Melyn Gwyrdd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfarwyddwr Gweithrediadau Gweithredol Dros Dro | data ar Orthodonteg a gafodd ei eithrio o'r matrics cenedlaethol. Addawodd archwilio'r data ymhellach ac adrodd yn ôl | | cyrraedd ei darged 156 wythnos, nid yw hyn yn cynnwys orthodonteg (106 o gleifion). Mae cynllun tymor byr i drin yr ôl-groniad hwn yn cael ei drafod ag arweinwyr clinigol a bydd yn cael ei ystyried gan y Tîm Gweithredol ddechrau mis Hydref. Mae trafodaethau pellach yn cael eu cynnal ar draws y system i ddatblygu model gwasanaeth integredig cynaliadwy ar gyfer darparu orthodonteg. **22.11.23** Mae gwaith yn parhau i sicrhau capasiti ychwanegol ac mae cyfarfod ag Ysbyty Iarlles Caer wedi'i drefnu er mwyn ystyried y potensial am gapasiti ychwanegol yn y tymor byr. Bydd y sefyllfa'n parhau i fod yn heriol, a hynny hefyd oherwydd cyfnod sydd i ddod o absenoldeb yn yr adran mamolaeth a fydd yn golygu mai dim 1.3 o orthodontyddion ymgynghorol cyfwerth ag amser cyflawn (WFE) fydd ar gael yn y Bwrdd Iechyd. Mae'n bosibl y bydd modd denu meddyg ymgynghorol newydd gymhwyso ym mis Ebrill ac mae'r swyddi gwag presennol yn parhau i gael eu hysbysebu. Mae'r holl gleifion sydd wedi bod yn aros yn | | |

| Cyf | Swyddog Gweithredol Arweiniol / Aelod | Cyfeirnod y cofnod a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt | Gwreiddiol Amserlen | Diweddariad (dyddiad) | Statws gweithredu | Statws Coch Melyn Gwyrdd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | hir yn cael eu dilysu ar lefel glinigol a chlercyddol fel mater o drefn | | |
| HB23/161 | Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd | **Adran 3 Diweddariadau Archwilio** Dywedodd fod angen ymgorffori diweddariadau pellach ac y byddai Archwilio Cymru yn adolygu ac yn trafod ymateb y Bwrdd Iechyd ymhellach fel rhan o'i waith asesu strwythur arferol. Byddai Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro yn darparu fersiwn derfynol yr ymateb i Archwilio Cymru ar ôl cwblhau diweddariadau adran 3. | Hydref 2023 | **Diweddarwyd 20.09.23** Mae'r asesiad strwythuredig wedi'i ddiweddaru a cafodd ei dderbyn gan y Tîm Gweithredol cyn ei anfon at Archwilio Cymru | Cynnig ei gau | |
| HB23/168 | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol | **Trosglwyddo cleifion sydd wedi cael strôc** Mewn ymateb i ymholiad gan aelod annibynnol yn ymwneud â throsglwyddo cleifion sydd wedi cael strôc i ofal arbenigol a allai | Hydref 2023 | **28.9.23**<br>Rhoddodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol amlinelliad byr yng nghyfarfod y Bwrdd o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan WAST gyda throsglwyddiadau blaenoriaeth uchel a oedd hefyd yn cael ei ystyried ar gyfer cleifion sydd wedi cael strôc. | Cynnig ei gau | |

| Cyf | Swyddog Gweithredol Arweiniol / Aelod | Cyfeirnod y cofnod a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt | Gwreiddiol Amserlen | Diweddariad (dyddiad) | Statws gweithredu | Statws Coch Melyn Gwyrdd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | fod yn hanfodol i'w hadferiad, aeth y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol ati i roi adborth ar y weithdrefn sydd ei hangen. Byddai'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yn darparu ymateb llawn ynghylch trosglwyddo cleifion sydd wedi cael strôc | | | | |
| HB23/212.3 | Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu | **Llety**<br>Cysylltu ag Aelod Annibynnol i rannu cyfleoedd posibl i staff o ran llety fel y trafodwyd | 13.10.23 | 16.11.23<br>Mae Cyfarwyddwr PEC yn dweud ei bod hi wedi cysylltu â chydweithwyr yn Clwyd Alyn ac rydym yn rhannu'r wybodaeth gyda'n staff drwy'r fewnrwyd a hefyd gyda grwpiau priodol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i'w dosbarthu'n eang. | Cynnig ei gau | |
| HB23/212.4 | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapïau a Gwyddor Iechyd | **Gwobrau Arloesi mewn Gofal Iechyd**<br>Rhannu cynnydd gyda'r Bwrdd ynghyd â gwybodaeth bellach | 31.10.23 | 10.10.23 - mae manylion y digwyddiad a'r enwebiadau wedi'u rhoi i'r tîm Cyfathrebu a fydd yn sicrhau bod canlyniad y gwobrau'n cael ei rannu yn | Cynnig ei gau | |

| Cyf | Swyddog Gweithredol Arweiniol / Aelod | Cyfeirnod y cofnod a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt | Gweireiddiol Amserlen | Diweddariad (dyddiad) | Statws gweithredu | Statws Coch Melyn Gwyrdd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | am 6 enwebiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sy'n cael eu hystyried | | ystod, neu ar ôl, y digwyddiad ar 20 Hydref.<br>21.11.23 Dosbarthwyd manylion i aelodau'r Bwrdd drwy e-bost | | |
| HB23/220.3 | Cadeirydd | **Capasiti Aelodau Annibynnol**<br>Rhannu'r pryderon a leisiwyd gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol. | 31.10.23 | Mae'r Cadeirydd wedi anfon llythyr at y Gweinidog. | Cynnig ei gau | |
| HB23/221.2 | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro ar gyfer Cyllid | **Balans Ariannol**<br>Darparu data cymharol ynghylch pryd, yn ystod y blynyddoedd blaenorol, y deellir y gellid sicrhau cydbwysedd ariannol. | 20.10.23 | Yn 2022/23, cytunwyd ar gyllideb gytbwys, ym mis 6, adroddwyd ar ddiffyg o £3.2 a rhagwelwyd diffyg o £10m fel yr alldro ar gyfer y flwyddyn ariannol. Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd warged o £0.4m. | Cynnig ei gau | |
| HB23/223.2 | Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro | **Offthalmoleg**<br>Trefnu bod mwy o fanylion am berfformiad Offthalmoleg yn cael | 23.10.23 | **21.11.23** Mae'r Prif Weithredwr Dros Dro yn cynghori: Mae fersiynau manwl pellach o'r adroddiadau perfformiad integredig ar gyfer arbenigeddau penodol yn cael | Cynnig ei gau | |

| Cyf | Swyddog Gweithredol Arweiniol / Aelod | Cyfeirnod y cofnod a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt | Gwreiddiol Amserlen | Diweddariad (dyddiad) | Statws gweithredu | Statws Coch Melyn Gwyrdd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | eu rhannu ag aelodau'r Bwrdd | | eu datblygu ar hyn o bryd. Bydd y rhain yn cael eu rhannu i ddechrau drwy'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth ac wedyn i Bwyllgorau eraill y Bwrdd, e.e. y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau. Adroddiad perfformiad integredig - mae hwn yn cael ei ddatblygu a bydd naratif ynghylch effaith/gwerthuso camau gweithredu yn cael ei gynnwys mewn fersiynau o'r adroddiad yn y dyfodol. | | |
| HB23/223.3 | Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl. | **Absenoldeb Staff** Darparu rhagor o fanylion am yr holl gyfraddau absenoldeb yn y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth nesaf gyda ffocws arbennig ar Ystadau a Chyfleusterau. | 23.10.23 | **21.11.23** Mae'r data'n cael ei gipio'n rheolaidd ac mae ar gael trwy ein dangosfyrddau gweithlu ar gyfer aelodau'r bwrdd ac uwch reolwyr ar draws y sefydliad. Caiff y sefyllfa fanwl ei chyflwyno yng nghyfarfod nesaf y PFIG ar 18.1.24. | Cynnig ei gau | |

| Cyf | Swyddog Gweithredol Arweiniol / Aelod | Cyfeirnod y cofnod a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt | Gwreiddiol Amserlen | Diweddariad (dyddiad) | Statws gweithredu | Statws Coch Melyn Gwyrdd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| HB23/223.4 | Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro | **Adroddiad ar Berfformiad Integredig** Rhoi sicrwydd y byddai'r adroddiad IP sy'n cael ei ddatblygu yn egluro "Beth sydd wedi gweithio a Beth sydd ddim wedi gweithio" mewn adroddiadau i'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth yn y dyfodol. | 23.10.23 | **21.11.23** Mae'r Prif Weithredwr Dros Dro yn cynghori: Mae hwn yn cael ei ddatblygu a bydd naratif ynghylch effaith/gwerthuso camau gweithredu yn cael ei gynnwys mewn fersiynau o'r adroddiad yn y dyfodol. | Cynnig ei gau | (melyn) |

| **Statws Coch Melyn Gwyrdd** | |
|---|---|
| Cam Gweithredu wedi'i Gau | (gwyrdd) |
| Cam gweithredu'n Parhau | (melyn) |
| Cam gweithredu heb ei Gwblhau | (coch) |

<table>
<tr><td>Teitl adroddiad:<br>Report title:</td><td colspan="4">Stori Claf – Gwasanaeth Clefyd Llidiol y Coluddyn (IBD)</td></tr>
<tr><td>Adrodd i:<br>Report to:</td><td colspan="4">Bwrdd Iechyd</td></tr>
<tr><td>Dyddiad y Cyfarfod:<br>Date of Meeting:</td><td colspan="4">30 Tachwedd 2023</td></tr>
<tr><td>Crynodeb Gweithredol:<br>Executive Summary:</td><td colspan="4">Cyflwynir stori claf neu ofalwr i'r Bwrdd er mwyn dod â llais y bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu'n uniongyrchol i'r cyfarfod. Bydd y stori ddigidol yn cael ei chwarae yn y cyfarfod. Mae crynodeb byr wedi'i gynnwys yn y papur sydd wedi'i atodi.</td></tr>
<tr><td>Argymhellion:<br>Recommendations:</td><td colspan="4">Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad hwn.</td></tr>
<tr><td>Arweinydd Gweithredol:<br>Executive Lead:</td><td colspan="4">Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth</td></tr>
<tr><td>Awdur yr Adroddiad:<br>Report Author:</td><td colspan="4">Mandy Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio<br>Leon Marsh, Pennaeth Profiad Cleifion a Gofalwyr<br>Rachel Wright, Rheolwr Arweiniol Profiad Cleifion a Gofalwyr</td></tr>
<tr><td>Pwrpas yr adroddiad:<br>Purpose of report:</td><td>I'w Nodi<br>For Noting<br>☐</td><td colspan="2">I Benderfynu arno<br>For Decision<br>☐</td><td>Am sicrwydd<br>For Assurance<br>☒</td></tr>
<tr><td>Lefel sicrwydd:<br>Assurance level:</td><td>Arwyddocaol<br>Significant<br>☐<br>Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives</td><td>Derbyniol<br>Acceptable<br>☒<br>Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</td><td>Rhannol<br>Partial<br>☐<br>Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</td><td>Dim Sicrwydd<br>No Assurance<br>☐<br>Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>No confidence / evidence in delivery</td></tr>
<tr><td colspan="5">Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' neu uwch, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:<br>Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:</td></tr>
<tr><td colspan="5">Yn unol â'r arferion gorau, mae stori claf neu ofalwr yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd er mwyn dod â llais y bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu, yn uniongyrchol i'r cyfarfod, ond nid yw'n cael ei chyflwyno fel eitem sicrwydd. Fodd bynnag, mae'r papur cysylltiedig yn disgrifio rhywfaint o'r dysgu a'r camau a gymerwyd i ymateb i'r stori.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:<br>Link to Strategic Objective(s):</td><td colspan="3">Ansawdd</td></tr>
<tr><td colspan="2">Goblygiadau rheoleiddiol a chyfreithiol:<br>Regulatory and legal implications:</td><td colspan="3">Amh.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Yn unol â WP7, a oedd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?<br>In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?</td><td colspan="3">Amh.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Yn unol â WP68, a oedd Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?</td><td colspan="3">Amh.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| ***In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?*** | |
| **Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)**<br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks (cross reference to the BAF and CRR)*** | BAF21-10 – Gwrando a Dysgu |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith***<br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Amh. |
| **Goblygiadau i'r gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Amh. |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | Amh. |
| **Cysylltiadau â risgiau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)<br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | BAF21-10 – Gwrando a Dysgu |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br>***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)*** | Amh. |

**Y Camau Nesaf: Gweithredu argymhellion**
***Next Steps: Implementation of recommendations***
Amh.

**Rhestr o Atodiadau:**

FINAL IBD Service Patient Story.mov

***List of Appendices:***
Atodiad A - Crynodeb o Stori'r Claf

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

***Gwasanaeth Clefyd Llidus y Coluddyn (IBD)***
***a manteision Presgripsiynu Anfeddygol (NMP)***
*Bydd fideo o'r stori yn cael ei chwarae yn ystod y cyfarfod.*

## Trosolwg o Stori'r Claf:

Mae'r storïwr yn disgrifio ei brofiad o Glefyd Crohn. Gan ddechrau gyda symptomau yn 2016, mae'r storïwr yn disgrifio taith 6 mis gyda'i feddyg teulu, yn wynebu symptomau, triniaethau a diagnosis amrywiol, gan orffen yn y pen draw gyda diagnosis o Glefyd Crohn. Mae'n disgrifio teimlo 'gorfoledd' o gael diagnosis, lle'r oedd gan ei gyflwr enw erbyn hyn; cafodd ei gysylltu ag arbenigwyr ac roedd yn gallu dechrau triniaeth.

Mae'r stori'n disgrifio profiad o 'ofal iechyd cydgysylltiedig mewn Gofal Sylfaenol ac Eilaidd', gyda meddyg teulu sy'n ymwybodol o glefyd Crohn, Fferyllydd, Gastroenterolegydd, Nyrsys Arbenigol IBD a Hematolegydd yn Ysbyty Maelor Wrecsam, Orthopedeg yn Gobowen a Phodiatreg yn Ysbyty Llandudno ac mae'n 'ddiolchgar am y cymorth cydgysylltiedig rwy'n ei gael gan fy ngweithwyr gofal iechyd proffesiynol'.

Mae'r gŵr yn disgrifio'r gefnogaeth ragorol y mae'n ei chael gan y Nyrsys Arbenigol IBD sy'n ei alluogi i reoli ei gyflwr ochr yn ochr â nifer o gyflyrau sylfaenol eraill i atal 'fflamychiadau' ac i helpu i ysgafnhau ei gyflyrau.

Mae'r storïwr yn disgrifio ei gysylltiad ag elusen Crohn's and Colitis UK, a chael gafael ar wybodaeth, gweithdai addysg cleifion a chwrdd â phobl eraill sydd â'r un cyflwr. Mae'r storïwr bellach yn gweithio gyda Crohn's and Colitis UK fel cynghorydd cleifion gwirfoddol ar amrywiol brosiectau ac yn defnyddio ei brofiad 'bywyd go iawn' er budd eraill.

Mae'r Gwasanaeth IBD yn gofalu am gleifion â Chlefyd Crohn a Cholitis Wlserol. Y Nyrs Arbenigol Arweiniol ar gyfer IBD yn Ysbyty Maelor Wrecsam yw Nyrs Arbenigol Crohn's and Colitis UK yng Ngogledd Cymru hefyd. Ar hyn o bryd mae dwy Nyrs Arbenigol IBD yn y tîm yn Wrecsam ac maent yn rheoli llwyth achosion o dros 2000 o gleifion.

Mae'r Gwasanaeth IBD yn cynnwys Clinigau IBD a Llinell Gyngor IBD. Gall cleifion ffonio'r Llinell Gyngor bwrpasol i gael cymorth a chefnogaeth, gan atal cleifion rhag mynd i Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys a Gofal Sylfaenol. Mae'r Nyrsys Arbenigol IBD yn cefnogi cleifion gyda'r meddyginiaethau sydd eu hangen arnynt drwy Bresgripsiynu Anfeddygol 'gan roi mynediad cyflym i'r claf at driniaeth a hefyd parhad gofal'. Yn ddiweddar, mae Nyrs Arbenigol IBD yn y tîm wedi cwblhau Gradd Meistr mewn Ymarfer Clinigol Uwch a Chymhwyster NMP i gefnogi cleifion ac mae'r tîm yn edrych ar ffyrdd o addasu ei wasanaeth i gefnogi anghenion y nifer cynyddol o gleifion sy'n cael diagnosis o glefyd Crohn a Cholitis.

## Crynodeb o Ddysgu a Gwelliannau

Mae'r stori wedi cael ei rhannu â gwasanaethau priodol BIPBC ar gyfer dysgu a datblygu, gan gynnwys Nyrsys Arbenigol IBD yn Ysbyty Maelor Wrecsam, y Pennaeth Nyrsio (Cyfarwyddiaeth Feddygol) yn Ysbyty Maelor Wrecsam a Chyfarwyddwr Cyswllt Nyrsio'r Gymuned Iechyd Integredig a thimau cysylltiedig.

Bydd y stori'n cael ei rhannu'n eang ar draws BIPBC fel rhan o #WythnosDiogelwchMeddyginiaethau (6 – 12 Tachwedd 2023). Ymgyrch flynyddol ar y cyfryngau cymdeithasol yw hon. Mae'r ffocws eleni ar 'pwy all adrodd' ac mae'n hyrwyddo sut gall cleifion, Meddygon, Fferyllwyr, Nyrsys a Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol eraill gyfrannu at wyliadwriaeth ffarmacolegol. Mae'r stori'n canolbwyntio ar hyrwyddo gwaith Nyrsys Arbenigol IBD a'u rôl hanfodol fel Presgripsiynwyr Anfeddygol, gan gefnogi diogelwch meddyginiaethau.

**Mae'r storïwr yn disgrifio ei brofiad o Glefyd Crohn a phwysigrwydd elusen Crohn's and Colitis UK ar gyfer cael gafael ar wybodaeth, addysg a chwrdd â phobl sydd â'r un cyflwr.**

Clefyd Crohn a Cholitis Wlserol yw'r ddau brif fath o Glefyd Llidus y Coluddyn. Crohn's and Colitis UK (CCUK) yw prif elusen y DU ar gyfer clefyd Crohn a Cholitis. Mae CCUK yn rhoi cymorth i gleifion drwy ddarparu amrywiaeth o wybodaeth ac adnoddau sy'n helpu cleifion i ddeall eu cyflyrau'n well ac i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd. Mae CCUK hefyd yn cefnogi Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol sy'n gysylltiedig â thrin pobl â chlefyd Crohn a Cholitis, gan gynnwys Meddygon Teulu, Fferyllwyr, Nyrsys a Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd eraill. Maent yn darparu mynediad at adnoddau o safon yn seiliedig ar ymchwil a thystiolaeth, yn ogystal â darparu cymuned o gefnogaeth i weithwyr proffesiynol. Mae adnoddau CCUK yn cael eu defnyddio'n eang gan y Gwasanaeth IBD yn Ysbyty Maelor Wrecsam.

**Mae'r storïwr yn disgrifio teimlo 'gorfoledd' o gael diagnosis a bod mewn cysylltiad ag arbenigwyr. Mae'r gŵr yn disgrifio'r gefnogaeth ragorol y mae'n ei chael gan y Nyrsys Arbenigol IBD sy'n ei alluogi i reoli ei gyflwr ochr yn ochr â nifer o gyflyrau sylfaenol eraill.**

Ar hyn o bryd mae dwy Nyrs Arbenigol IBD yn y tîm yn Wrecsam. Mae'r Nyrs Arbenigol Arweiniol ar gyfer IBD yn Endosgopydd Clinigol hefyd ac yn Nyrs Arbenigol Crohn's and Colitis UK yng Ngogledd Cymru. Mae rheoli a thrin clefyd Crohn a Cholitis yn effeithiol yn gofyn am lefel arbenigol o wybodaeth a phrofiad. Mae'r Nyrsys Arbenigol IBD yn darparu cymorth a chyngor arbenigol penodol i bobl sy'n byw gyda chlefyd Crohn a Cholitis sydd o dan ofal eu gwasanaeth IBD arbenigol. Mae Rhaglen Hyfforddiant Arbenigol Nyrsys IBD CCUK yn darparu hyfforddiant ac arweiniad ar sut mae adeiladu Tîm IBD arbenigol yn unol â'r Safonau IBD.

**Mae cleifion yn cael eu cefnogi drwy Glinigau IBD a Llinell Gyngor IBD bwrpasol i sicrhau bod triniaeth yn cael ei rheoli'n gyflym, gan atal cleifion rhag mynd i Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys a Gofal Sylfaenol.**

Gwasanaeth ateb ffôn yw'r Llinell Gyngor IBD lle gall claf adael neges yn gofyn am help, cyngor a chefnogaeth. Mae'n cael ei redeg gan Nyrsys Arbenigol IBD sydd â gwybodaeth uwch am IBD ac sy'n gallu asesu a chynghori cleifion dros y ffôn. Mae ar gyfer cleifion IBD

sy'n cael 'fflamychiad' neu sy'n poeni am symptomau niweidiol, sy'n wael rhwng apwyntiadau neu sydd angen cyngor yn uniongyrchol gan Nyrs Arbenigol IBD. Nid yw Llinellau Cyngor i'w defnyddio mewn argyfwng, ar gyfer aildrefnu apwyntiadau nac ar gyfer gwybodaeth gyffredinol am glefyd Crohn a Cholitis. Gellir cysylltu â Llinell Gyngor IBD yn Ysbyty Maelor Wrecsam ar 03000 858355, 8am – 5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Nod y tîm yw ymateb i bob galwad o fewn 48 awr, ond ymdrinnir â'r rhan fwyaf ohonynt yr un diwrnod. Ar gyfartaledd, mae'r tîm yn derbyn 23 o alwadau i'r llinell hon bob dydd.

**Mae'r Gwasanaeth IBD yn gofalu am gleifion sydd â Chlefyd Crohn a Cholitis Wlserol ac yn rheoli llwyth achosion o dros 2000 o gleifion.**

Mae'r ddwy Nyrs Arbenigol IBD yn Wrecsam yn rheoli llwyth achosion o dros 2000 o gleifion. Yn ôl CCUK, ar hyn o bryd mae 15,000 o gleifion yng Nghymru yn cael diagnosis o glefyd Crohn a Cholitis, ond mae'r ymchwil newydd honno'n dangos bod grŵp cudd o gleifion ac mae'n dweud bod hyd at 24,000 o gleifion a fydd yn cael diagnosis o glefyd Crohn a Cholitis. Bydd hyn yn effeithio'n sylweddol ar y Gwasanaeth IBD yn Wrecsam ac mae'r tîm yn edrych ar ffyrdd o addasu eu gwasanaeth presennol a recriwtio i'w gweithlu i ddiwallu anghenion a gofynion y cynnydd yn nifer y cleifion sy'n cael diagnosis yn y dyfodol.

Mae'r Gwasanaeth IBD wedi cwblhau darn sylweddol o waith arbed costau. Gyda mwy o ymchwil, mae mwy o ddewis o gyffuriau ar gael bellach i gleifion sydd â chlefyd Crohn a Cholitis. Yn 2018, daeth cyfyngiadau ar nifer o gyffuriau Biologic drud i ben. Roedd hyn yn galluogi cwmnïau cyffuriau i gynhyrchu cyffuriau Biodebyg. Mae'r tîm wedi gallu newid cleifion sy'n derbyn triniaethau Biologic i driniaethau Biodebyg. Mae hyn wedi arwain at arbed costau o £417,000 i'r Bwrdd Iechyd. Mae'r Gwasanaeth IBD yn gobeithio y bydd rhai arbedion costau yn cael eu hail-fuddsoddi yn y gweithlu o fewn y tîm i gefnogi'r nifer cynyddol o gleifion sy'n defnyddio'r Gwasanaeth IBD.

**Mae'r Nyrsys Arbenigol IBD yn cefnogi cleifion gyda'r meddyginiaethau sydd eu hangen arnynt drwy Bresgripsiynu Anfeddygol (NMP), gan gefnogi cleifion drwy roi mynediad cyflym iddynt at driniaeth, presgripsiynau diogel a pharhad gofal.**

Yn ddiweddar, mae BIPBC wedi adnewyddu Polisi Presgripsiynu Anfeddygol y Bwrdd Iechyd. Mae'r Weithdrefn Presgripsiynu Annibynnol (MM03) newydd yn cyfeirio at bresgripsiynu gan Weithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol, yn ogystal â Meddygon a Deintyddion. Mae'r Weithdrefn yn darparu fframwaith llywodraethu clir i alluogi cleifion i gael gafael ar feddyginiaethau'n gyflymach ac yn fwy effeithlon. Mae hefyd yn cynnwys camau i'w gwneud yn haws i bresgripsiynwyr gael eu hychwanegu at gronfa ddata o bresgripsiynwyr BIPBC, yn ogystal â gwaith papur diwygiedig a symlach. Mae cyfrifoldebau Rheolwyr Llinell a Goruchwylwyr hefyd wedi cael eu hegluro a bydd archwiliad blynyddol BIPBC nawr yn gwirio bod y trefniadau hyn ar waith. Mae'r Polisi'n berthnasol i bresgripsiynwyr presennol gan ei fod yn disgrifio eu gofynion blynyddol i gynnal eu statws presgripsiynu yn ogystal ag ymestyn neu newid eu cwmpas ymarfer neu fformiwlâu. Mae hefyd yn rhoi arweiniad cam wrth gam i unrhyw un sy'n ystyried dechrau neu'n ymgymryd â chwrs presgripsiynu ar hyn o bryd.

Yng Ngogledd Cymru, mae gennym tua 900 o bresgripsiynwyr sy'n cael eu cyflogi gan PBC, yn ogystal â'n Meddygon a'n Deintyddion. Mae Amy Cowell (Nyrs Arbenigol IBD) yn y tîm wedi cwblhau ei Gradd Meistr yn ddiweddar mewn Ymarfer Clinigol Uwch a'r Cymhwyster

NMP i gefnogi cleifion IBD sy'n defnyddio'r gwasanaeth, gan sicrhau eu bod yn cael triniaeth amserol a gofal diogel effeithiol. Bob dydd, mae NMP yn gwneud gwahaniaeth go iawn ac yn gwella'r profiad a'r gofal a ddarperir i gleifion ar draws BIPBC.

**Mae'r storïwr yn disgrifio sut mae nawr yn gweithio gyda Crohn's and Colitis UK fel cynghorydd cleifion gwirfoddol ac yn defnyddio ei brofiad 'bywyd go iawn' er budd eraill.**

Mae'r storïwr yn ymwneud â phrosiectau amrywiol ac mae wedi defnyddio ei brofiad 'bywyd go iawn' i sbarduno datblygiadau a gwelliannau ym maes gofal cleifion.

Mae'r storïwr yn ymwneud â'r prosiect AWARE-IBD gyda phartneriaid lleol yn Sheffield o dan raglen newydd y Sefydliad Iechyd o'r enw Common Ambition. Mae'n dod â phobl sydd â chlefyd Crohn a Cholitis, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau at ei gilydd i greu ac arwain gwelliannau i'r Gwasanaeth IBD yn Sheffield. Y nod yw grymuso pobl sydd â chlefyd Crohn a Cholitis i wella eu gofal ar sail yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Mae hyn wedi cynnwys datblygu Ap i gefnogi a chyfeirio cleifion sydd newydd gael diagnosis. Er bod y fenter yn cael ei chyflwyno yn Sheffield, bydd yr hyn a ddysgir ohoni'n arwain yn y pen draw at ganlyniadau a chefnogaeth well i bobl sy'n byw gyda chlefyd Crohn a Cholitis ledled y DU.

Mae'r storïwr yn ymwneud â datblygu Ap GIG Cymru; ffordd syml a diogel i gleifion gael mynediad at amrywiaeth o wasanaethau drwy ddyfais symudol neu borwr gwe. Y nod yw cynyddu cyfranogiad pobl yn eu hiechyd a'u lles a'u rheolaeth drostynt, gan gynnwys y rheini sydd â chyflyrau cronig / hirdymor, fel clefyd Crohn a Cholitis, drwy lwyfan craidd o wasanaethau digidol i alluogi canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol mwy cadarnhaol i bobl Cymru. Mae'r Ap yn cael ei redeg a'i reoli gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Mae'r storïwr yn ymwneud â'r Rhaglen Gwerth mewn Iechyd, sy'n ceisio gwreiddio gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth ar draws darpariaeth gofal iechyd yn GIG Cymru er mwyn sicrhau canlyniadau iechyd o'r radd flaenaf i bobl Cymru. Mae'r storïwr wedi cefnogi addysg gweithwyr proffesiynol ledled Cymru i sicrhau canlyniadau gwell i gleifion sydd â chlefyd Crohn a Cholitis.

Bydd y Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr yn rhannu'r adborth hwn ac yn gofyn am sicrwydd gan bob adran drwy dystiolaeth bod y dysgu wedi ei wreiddio. Mae'r Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr yn estyn eu diolch a'u gwerthfawrogiad i'r storïwr am rannu ei brofiad.

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Teitl yr adroddiad:**<br><br>***Report title:*** | Adroddiad y Cadeirydd | | | |
| **Adrodd i:**<br><br>***Report to:*** | Y Bwrdd Iechyd | | | |
| **Dyddiad y Cyfarfod:**<br><br>***Date of Meeting:*** | 30 Tachwedd 2023 | | | |
| **Crynodeb Gweithredol:**<br><br>***Executive Summary:*** | Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am faterion allweddol yn y sefydliad a gwaith allanol gyda'r Llywodraeth a phartneriaid eraill<br><br>• Cyfarfodydd gyda Chynrychiolwyr Etholedig<br>• Penodiadau<br>• Manylion ymweliadau a chyfarfodydd | | | |
| **Argymhellion:**<br><br>***Recommendations:*** | Bod y Bwrdd yn nodi cynnwys yr adroddiad ac yn codi unrhyw gwestiynau | | | |
| **Arweinydd Gweithredol:**<br><br>***Executive Lead:*** | Cadeirydd | | | |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>***Report Author:*** | Cadeirydd | | | |
| **Pwrpas yr adroddiad:**<br>***Purpose of report:*** | I'w Nodi<br>*For Noting*<br>☒ | I Benderfynu arno<br>*For Decision*<br>☐ | Ar gyfer sicrwydd<br>*For Assurance*<br>☐ | |
| **Lefel sicrwydd:**<br><br>***Assurance level:*** | Arwyddocaol<br>*Significant*<br>☐<br>Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives* | Derbyniol<br>*Acceptable*<br>☐<br>Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Rhannol<br>*Partial*<br>☒<br>Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Dim Sicrwydd<br>*No Assurance*<br>☐<br>Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>*No confidence / evidence in delivery* |
| **Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' neu uwch, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:**<br><br>***Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:*** | | | | |
| **Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:**<br><br>***Link to Strategic Objective(s):*** | Mae'r cyfarfodydd yn ymdrin ag amrywiaeth o flaenoriaethau strategol. | | | |

| | |
|---|---|
| **Goblygiadau rheoleiddiol a chyfreithiol:**<br><br>***Regulatory and legal implications:*** | Nid oes unrhyw oblygiadau penodol yn codi o'r adroddiad hwn. |
| **Yn unol â WP7, a oedd EqIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?*** | Ddim yn berthnasol ar hyn o bryd. |
| **Yn unol â WP68, a oedd SEIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?*** | Ddim yn berthnasol ar hyn o bryd. |
| **Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR)**<br><br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks( cross reference to the BAF and CRR)*** | Mae'r materion a godwyd yn effeithio ar amrywiaeth o risgiau. |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith***<br><br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Nid oes unrhyw oblygiadau penodol yn codi o'r adroddiad hwn. |
| **Goblygiadau i'r gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Nid oes unrhyw oblygiadau penodol yn codi o'r adroddiad hwn. |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br><br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | Amherthnasol. |
| **Cysylltiadau â risgiau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)<br><br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | Mae'r materion a godwyd yn effeithio ar amrywiaeth o risgiau. |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i bwyllgor cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br><br>***Reason for submission of report to confidential Committee (where relevant)*** | Amherthnasol. |
| ***Next Steps:***<br>***Implementation of recommendations***<br>Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn. | |

**Adroddiad y Cadeirydd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**
**30 Tachwedd 2023**

Ceir crynodeb isod o rywfaint o'r gwaith rwyf wedi'i wneud ers fy adroddiad i'r Bwrdd ym mis Medi.

**Penodiadau diweddar**

Fel y gŵyr pawb, cadarnhawyd yn ddiweddar mai Carol Shillabeer yw Prif Swyddog Gweithredol parhaol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Cynhaliwyd proses recriwtio gynhwysfawr gyda diddordeb gan amrywiaeth eang o ymgeiswyr. Roedd y broses gyfweld yn drylwyr ac yn gystadleuol. Mae'r penodiad hwn yn arwyddocaol iawn i ni fel sefydliad, yn enwedig o ystyried hanes diweddar y Bwrdd Iechyd.

Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyhoeddi'n ddiweddar bod Gareth Williams wedi'i benodi'n Is-gadeirydd, a bod Caroline Turner ac Urtha Felda wedi'u penodi'n Aelodau Annibynnol ychwanegol. Mae Gareth eisoes wedi gwasanaethu fel Aelod Annibynnol ac mae mewn sefyllfa dda i gyflawni rôl yr Is-gadeirydd. Mae gan Caroline ac Urtha doreth o wybodaeth a phrofiad, a byddant yn chwarae rhan gadarnhaol fel aelodau o'r Bwrdd. Roedd y broses recriwtio ar gyfer pob swydd wedi denu amrywiaeth o ymgeiswyr ac roedd y cyfweliadau wedi arwain y paneli i gydnabod bod nifer o'r ymgeiswyr yn rhai y gellid eu penodi. Mae'r penodiadau hyn yn rhoi rhywfaint o sefydlogrwydd i ni fel Bwrdd Iechyd ac yn gyfle i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

**Cyfarfodydd â Gweinidogion Llywodraeth Cymru ac eraill**

Mae gwahanol fathau o gyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru: Rwy'n cael cyfarfodydd misol gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghyd â chyfarfodydd gyda'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Lles. Mae'r Bwrdd yn cael Fforymau Mesurau Arbennig rheolaidd gyda'r Gweinidog Iechyd, ac mae'r ddau Weinidog yn trefnu ymweliadau â'r ardal er mwyn gweld y cynnydd a wneir gyda gwasanaethau penodol. Mae'r Prif Weinidog, Mark Drakeford, hefyd yn aml yn trefnu cyfarfod pan fydd yn ymweld â Gogledd Cymru ar fusnes y Llywodraeth. Mae gennym berthynas dda â'r Llywodraeth – mae Gweinidogion yn herio, pan fo'n briodol, ond hefyd yn cefnogi ein cynnydd fel Bwrdd Iechyd mewn Mesurau Arbennig.

Mae gan y Senedd hefyd ddiddordeb yn ein gwaith: Mae Carol a minnau wedi ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ac wedi cael gwahoddiad i fynychu'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ar 23 Tachwedd. Rydym hefyd yn adrodd i amrywiol gyfarfodydd yn ein 6 awdurdod lleol, ac yn cynnal sesiynau briffio rheolaidd ar gyfer Aelodau Seneddol ac Aelodau o'r Senedd ar gyfer y rhanbarth.

**Llywodraethu**

Mae swydd y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol wedi cael ei hysbysebu, a chynhelir cyfweliadau ddechrau mis Rhagfyr. Bydd hwn yn benodiad allweddol arall i'r Bwrdd Iechyd ac yn cadarnhau ein bwriad i sicrhau llywodraethu a datblygiad sefydliadol rhagorol. Bydd recriwtio Aelodau Annibynnol yn ein galluogi i sicrhau cyflenwad llawn o bwyllgorau ac i gefnogi rhywfaint o waith allweddol yn ein datblygiad fel sefydliad. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal ymgyrch recriwtio arall ar gyfer Aelodau Annibynnol dros y misoedd nesaf.

Bydd ein rhaglen Datblygu'r Bwrdd yn ein galluogi i ganolbwyntio ar feysydd allweddol penodol, megis diwylliant, a bydd yn gyfle i ddysgu a thyfu fel tîm. Mae'n bwysig yn bod yn cael amser a chyfle i ystyried cyfeiriad y Bwrdd Iechyd yn y dyfodol, yn ogystal â chyflawni'r rhaglen Mesurau Arbennig

**Cyllid**
Mae'r her o ran cyrraedd ein targed arbedion yn un fawr. Felly hefyd yr arwyddocâd. Rydym wedi sefydlu cyfarfodydd amrywiol i sicrhau bod gennym brosesau a threfniadau llywodraethu digonol, yn ogystal â'r gefnogaeth a'r her briodol ar gyfer unrhyw gynlluniau. Mae angen i ni gael y cydbwysedd cywir rhwng cynllunio ariannol tymor byr a thymor hir, a rhoi pob cyfle i staff gyfrannu at yr agenda hon, ble bynnag y maent yn y sefydliad. Bydd prinder cyllid cyfalaf a refeniw hefyd yn ein hannog i gofleidio ffyrdd gwahanol a mwy effeithlon o weithio.

**Ble ydym ni?**
Wrth i ni symud ymlaen o un cam o'r rhaglen Mesurau Arbennig i un arall, mae cyfle i ni oedi ac ystyried ein cynnydd. Mae'n bwysig ein bod yn cofnodi'r hyn a ddysgwyd o'r cyfnod hwn ac yn sicrhau bod y newid a'r gwelliant yn barhaus ac yn gynaliadwy.
Rwyf o'r farn ein bod yn gwneud cynnydd ond mae llawer i'w wneud. Rydym yn gweld ffocws o'r newydd ar ansawdd a safonau – ac nid ar wasanaethau clinigol yn unig. Mae'n hanfodol ein bod yn cofleidio uchelgais i fod y gorau y gallwn er mwyn darparu gwasanaethau iechyd a lles y bydd pobl Gogledd Cymru yn falch ohonynt.
Yn y pen draw, pobl y cymunedau hyn fydd yn barnu ein cynnydd fel Bwrdd Iechyd.

Ceir crynodeb isod o rai o'm cyfarfodydd a'm hymweliadau yn y cyfnod hyd at 18 Tachwedd 2023

| Dyddiad | Cyfarfod / Ymweliad |
|---|---|
| 20 Medi | Cyfarfod ag Arweinydd Cyngor Wrecsam |
| 20 Medi | Tîm Methiant y Galon Cymuned y Dwyrain, Wrecsam |
| 21 Medi | Cyfarfod â phartneriaid ynglŷn â'r Royal Alexandra, y Rhyl |
| 21 Medi | Cyfarfod â Maer Bangor, y Cynghorydd Elin Walker Jones |
| 25 Medi | Cynhadledd 2025, Cyffordd Llandudno |
| 25 Medi | Cyfarfod strategol â Chyngor Sir y Fflint |
| 27 Medi | Ysbyty Abergele ar gyfer cyfweliad y BBC |
| 27 Medi | Cyfarfod misol â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| 27 Medi | Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Bwrdd, Canolfan Gymunedol y Drindod, Llandudno |
| 27 Medi | Cyfarfod â theuluoedd, Grŵp Cefnogi Fasgwlaidd, Llanelwy |
| 28 Medi | Bwrdd Iechyd, Llandudno |
| 28 Medi | Pwyllgor Taliadau a Sesiwn Ddatblygu |
| 2 Hydref | Cyfarfod â Darren Millar AS, Abergele |
| 2 Hydref | Cyfarfod â Choleg Llandrillo-Menai |
| 3 Hydref | Cyfweliadau Is-gadeirydd |
| 4 Hydref | Cyfweliadau Aelodau Annibynnol |
| 5 Hydref | Is-bwyllgor Cabinet Gogledd Cymru Llywodraeth Cymru, Cyffordd Llandudno |
| 5 Hydref | Cyfarfod ynglŷn ag Ymchwiliad Thirlwall |
| 9 Hydref | Ymweliad ag Ysbyty Penrhos Stanley |
| 9 Hydref | Ymweliad â'r Ganolfan Adnoddau Cymunedol, Caergybi |
| 9 Hydref | Ymweliad â Hwb Iechyd Caergybi |
| 10 Hydref | Cyfarfod Chwarterol â'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Lles |
| 10 Hydref | Digwyddiad Deddf Gofal Gwrthgyfartal, Dinbych |
| 10 Hydref | Cyfarfod â chwmni teledu Chwarel, S4C |

| | |
|---|---|
| 11 Hydref | Digwyddiad Deddf Gofal Gwrthgyfartal yn Sir y Fflint |
| 11 Hydref | Grŵp Goruchwylio Ariannol |
| 11 Hydref | Cyfarfod ag Archwilio Cymru |
| 12 Hydref | Digwyddiad Deddf Gofal Gwrthgyfartal, Ynys Môn |
| 12 Hydref | Digwyddiad Mis Hanes Pobl Ddu, Abergele |
| 13 Hydref | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
| 13 Hydref | Cyfarfod ag Aelodau o’r Senedd ar draws y pleidiau |
| 16 Hydref | Ymweliadau â Safleoedd Deintyddol Penygroes a Phwllheli |
| 17 Hydref | Cyfarfod â phartneriaid ynglŷn â’r Royal Alexandra, y Rhyl |
| 18 Hydref | Digwyddiad Tîm Cymru, Caerdydd |
| 19 Hydref | Ymweliad ag Adran Achosion Brys Wrecsam |
| 19 Hydref | Gwobrau rhoddwyr gwaed, Wrecsam |
| 20 Hydref | Gwobrau Cyrhaeddiad y Bwrdd Iechyd |
| 23 Hydref | Cyfarfod â Thîm yr Iaith Gymraeg |
| 24 Hydref | Fforwm Partneriaeth Leol |
| 24 Hydref | Canolfan Lles Wrecsam |
| 25 Hydref | Cyfarfod â Ros Alstead, Cynghorydd Annibynnol, Iechyd Meddwl |
| 25 Hydref | Cyfarfod misol â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| 25 Hydref | Cyfarfod ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| 25 Hydref | Cyfarfod ag Archwilio Cymru ynglŷn ag Adolygu Effeithiolrwydd y Bwrdd |
| 26 Hydref | Sesiwn ar Ddatblygu’r Bwrdd |
| 30 Hydref – 3 Tachwedd | Absenoldeb |
| 7 Tachwedd | Cyfweliadau Prif Weithredwr |
| 9 Tachwedd | Cyfarfod â Chanllaw, (Gofal a Thrwsio), Penygroes |
| 10 Tachwedd | Digwyddiad Coffa Ysbyty Maelor Wrecsam |
| 11 Tachwedd | Gwasanaeth Coffa Rhoi Organau, Eglwys Gadeiriol Llanelwy |
| 13 Tachwedd | Hosbis Tŷ Gobaith, Conwy |
| 13 Tachwedd | Pwyllgor Craffu Partneriaeth ac Adfywio Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni |
| 13 Tachwedd | Archwilio Cymru |
| 14 Tachwedd | Cyfarfod â Chadeirydd a Phrif Weithredwr Hosbis Dewi Sant |
| 14 Tachwedd | Pwyllgor Taliadau |
| 16 Tachwedd | Y Pwyllgor Archwilio |
| 16 Tachwedd | Fforwm Mesurau Arbennig â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| 16 Tachwedd | Ymweliad â Safle Abergele a’r Gwasanaeth Orthopedeg gyda’r Gweinidog |
| 17 Tachwedd | Digwyddiad Gadael i Tommy Stone, Ysbyty Glan Clwyd |
| 17 Tachwedd | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru |
| 17 Tachwedd | Cyfarfod ag ASau Ceidwadol Gogledd Cymru |
| 18 Tachwedd | Dathliadau Diwali, Neuadd Ogwen Bangor |

| | |
|---|---|
| **Teitl yr adroddiad:**<br>***Report title:*** | Adroddiad y Prif Weithredwr |
| **Adroddiad i:**<br>***Report to:*** | Bwrdd BIPBC |
| **Dyddiad y Cyfarfod:**<br>***Date of Meeting:*** | Dydd Iau, 30 Tachwedd 2023 |
| **Crynodeb Gweithredol:**<br><br>***Executive Summary:*** | Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio i gynnig trosolwg o weithgarwch, cynnydd a materion allweddol gan y Prif Weithredwr. Mae'n cwmpasu'r cyfnod o ddiwedd Medi hyd at 20 Tachwedd 2023. Ymhelaethir ymhellach ynghylch rhywfaint o'r cynnwys mewn adroddiadau eraill sy'n rhan o agenda'r Bwrdd.<br><br>Mae'r adroddiad yn disgrifio rhywfaint o'r gweithgareddau ymgysylltu allweddol sydd wedi digwydd yn y bwrdd iechyd ac yn ehangach gyda phartneriaid a'r cyhoedd.<br><br>Ceir trosolwg o'r gwaith ynghylch y Mesurau Arbennig, yn cynnwys yr ymwneud â Llywodraeth Cymru. Darperir adroddiad ar wahân hefyd yn yr agenda.<br><br>Mae'r adroddiad yn ymdrin â materion yn ymwneud â gwasanaethau, ansawdd ac ariannol sy'n neilltuol o allweddol y cymerir camau penodol ac uwch yn eu cylch. |
| **Argymhellion:**<br>***Argymhellion:*** | Gofynnir i'r Bwrdd **DRAFOD** yr adroddiad a'i **NODI**. |
| **Arweinydd Gweithredol:**<br>***Executive Lead:*** | Prif Weithredwr |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>***Awdur yr Adroddiad:*** | Prif Weithredwr |

| **Diben yr adroddiad:**<br>***Purpose of report:*** | I'w Nodi<br>*For Noting*<br>☒ | I'w Benderfynu<br>*For Decision*<br>☐ | Am Sicrwydd<br>*For Assurance*<br>☐ |
|---|---|---|---|

| **Lefel Sicrwydd:**<br><br>***Assurance level:*** | Arwyddocaol<br>*Significant*<br>☐ | Derbyniol<br>*Acceptable*<br>☐ | Rhannol<br>*Partial*<br>☐ | Dim Sicrwydd<br>*No Assurance*<br>☐ |
|---|---|---|---|---|
| | Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives* | Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*Some confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives* | Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>*No confidence / evidence in delivery* |

**Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' uchod, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:**

***Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:***

| | |
|---|---|
| **Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:**<br><br>***Link to Strategic Objective(s):*** | Mae'n ymwneud â phob amcan |

| | |
|---|---|
| **Goblygiadau rheoleiddiol a chyfreithiol:**<br><br>***Regulatory and legal implications:*** | |
| **Yn unol â WP7, a oedd EqIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?*** | Amh. |
| **Yn unol â WP68, a oedd SEIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?*** | Amh. |
| **Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR)**<br><br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks( cross reference to the BAF and CRR)*** | |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith***<br><br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Os na fydd unrhyw argymhellion, bydd penderfyniad neu oblygiad ariannol yn deillio o hynny |
| **Goblygiadau gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Os na fydd unrhyw argymhellion, bydd penderfyniad neu oblygiad yn ymwneud â'r gweithlu yn deillio o hynny |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br><br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | Amh. |
| **Cysylltiadau â risgiau BAF:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)<br><br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br><br>***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)*** | N/A |

**Camau Nesaf:**
**Gweithredu argymhellion**

***Next Steps:***

Mae amrywiaeth o gamau gweithredu sy'n ymwneud â chynnwys yr adroddiad yn dal i fynd rhagddynt, ac mae'r mwyafrif ohonynt wedi'u cynnwys yn y 5 maes canlyniadau sy'n ymwneud â'r Mesurau Arbennig.

| ***Implementation of recommendations*** <br> . <br> Argymhellir trafod a nodi'r cynnwys. |
|---|
| **Rhestr o Atodiadau:** |

**Cyflwyniad**

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio i gynnig trosolwg o weithgarwch, cynnydd a materion allweddol gan y Prif Weithredwr. Mae'n cwmpasu'r cyfnod o ddiwedd Medi hyd at 20 Tachwedd 2023. Ymhelaethir ymhellach ynghylch rhywfaint o'r cynnwys mewn adroddiadau eraill sy'n rhan o agenda'r Bwrdd.

Ar nodyn personol, rwy'n falch iawn o fod wedi cael cynnig y cyfle i ymuno â'r bwrdd iechyd fel y Prif Weithredwr parhaol yn dilyn y broses recriwtio a dethol. Dros y chwe mis diwethaf fel Prif Weithredwr Dros Dro, rwyf wedi gweld ymrwymiad cydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd drwyddo draw a'r gefnogaeth gan bartneriaid a rhanddeiliaid i gydweithio â'r Bwrdd Iechyd wrth i ni gamu ymlaen. Yn amlwg, mae angen cyflawni llawer iawn rhagor ac wrth i ni barhau i weithio i gyflawni'r cam i sefydlogi'r Bwrdd Iechyd, rydym yn cychwyn edrych ymlaen at ddatblygu sefydliad effeithiol sy'n ymgysylltu'n rhagweithiol â staff a chymunedau ledled Gogledd Cymru ac yn eu cynorthwyo o ran gwella iechyd a lles a darparu gwasanaethau gofal iechyd rhagorol. Dymunaf ddiolch i bawb am eu negeseuon caredig yn ystod yr wythnos sydd wedi mynd heibio ac edrychaf ymlaen at gydweithio â chi dros y blynyddoedd sy'n dod.

**Ymweld â Gwasanaethau**

Mae nifer o ymweliadau â gwasanaethau allweddol wedi'u cynnal er mwyn ymgysylltu â chydweithwyr yn y sefydliad drwyddo draw i ddysgu am eu gwaith, eu llwyddiannau a'u heriau. Bwriedir cynnal rhagor o ymweliadau yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

- **Ymweliadau â Gwasanaethau Cymunedol Ynys Môn**: Cynhaliwyd ymweliadau a thrafodaethau amrywiol â thimau a gwasanaethau, yn cynnwys rhai yn y sector gwirfoddol a'r trydydd sector ac yn yr Awdurdod Lleol i ddysgu am y gwaith sy'n digwydd ar lawr gwlad yn y cymunedau. Yn ystod ymweliad â Chanolfan Glanhwfa, Llangefni, cafwyd cyfle i weld y gwaith buddiol a gynigir gan gydweithwyr yn y trydydd sector offer mewn lleoliad ble gall pobl ddod ynghyd i gyfranogi mewn dosbarthiadau (gan gynnwys dosbarth comedi) a chlwb ciniawau, a chael cymorth ynghylch eu lles. Cyflwynwyd amlinelliad o waith y Tîm Adnoddau Cymunedol a dangoswyd yr elfennau hanfodol sydd eu hangen i gynorthwyo mwy o bobl yn llwyddiannus yn eu cartrefi eu hunain, gan atal pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty a chynorthwyo i ryddhau pobl yn gynnar. Daeth cydweithwyr a rhanddeiliaid o amrywiaeth o sectorau, gwasanaethau a swyddogaethau ynghyd i gyfranogi yn y Gweithdy ynghylch y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal yn M-SParc. Fe wnaeth y gwaith roi sylw i sut y gall cydweithio rhwng partneriaid i wasanaethu cymunedau helpu i leihau anghyfartaleddau. Roedd hyn yn rhagarweiniad priodol ar gyfer cyfarfod cadarnhaol gyda Phrif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol Ynys Môn i sut y gallai cydweithio agosach gynnig mwy o fuddion i'r cymunedau hynny sydd â'r angen mwyaf.

- Cynhaliwyd ymweliad ag Adran Achosion Brys **Ysbyty Maelor Wrecsam** gyda Chadeirydd y Bwrdd, i gael cwrdd â'r staff a deall yr heriau a brofir gan y gwasanaeth. Yn ystod cyfarfod ag uwch glinigwyr, daeth yn amlwg bod y galw am wasanaethau a phwysau ger 'drws ffrynt' yr ysbyty yn bryder allweddol. Roedd galluogi dulliau gwahanol o weithio, cynorthwyo clinigwyr a staff eraill trwy gynnig atebion digidol galluogol a chefnogi'r llwybr gofal cyfan yn themâu

allweddol a ddaeth i’r amlwg yn y drafodaeth. Roedd yr ymweliad hefyd yn cynnwys taith o amgylch yr uned dialysis yr arennau a chyfarfod gyda'r Ymgynghorydd arweiniol, i glywed am yr heriau a'r datblygiadau o ran gwasanaethau a dulliau gweithredu yn y sefydliad. Cynhaliwyd ymweliad dilynol a wnaeth gynnig cyfle i gysgodi’r ‘rownd ward feddygol a gynhelir ar ôl derbyn cleifion’ yn yr Adran Achosion Brys, ac ymuno â rownd ward yn Ward Acton, gwasanaeth sy’n darparu gofal Awyru Anfewnwthiol i gleifion o bob cwr o'r rhanbarth ac o Loegr.

- Cynhaliwyd ymweliad hefyd ag **Ysbyty Gwynedd** gydag aelod o'r Bwrdd fel rhan o Raglen Datblygu'r Bwrdd. Fe wnaeth hyn ein galluogi i ystyried dull cynllunio Cydnerthedd yn ystod y Gaeaf, a chynigodd gyfle i gwrdd â chydweithwyr sy’n gweithio yn y llwybrau gofal brys a gofal mewn argyfwng, gan gynnwys yr Adran Achosion Brys, gwasanaeth Gofal Brys yr Un Diwrnod lle rhannwyd gwybodaeth fanwl am ddatblygiad y gwasanaeth ychwanegol hwn a’r effaith gadarnhaol sy'n cael ei sicrhau er budd cleifion a staff. Rhannodd Tîm Rheoli’r Safle wybodaeth ddefnyddiol ynghylch sut bydd cleifion yn llifo drwy system yr ysbyty ac fe wnaeth y Tîm Rhyddhau/Gofal Cymhleth hwyluso cynnal trafodaeth fuddiol ynghylch y cyfleoedd ar gyfer rhagor o gydweithio, yn enwedig â chydweithwyr yn yr Awdurdod Lleol.

- Ymwelwyd ag **Uned Heddfan** yn Wrecsam, gan gynnwys ymweld â'r wardiau a chael cyfle i weld yn y fan a’r lle beth yw’r gwahaniaeth yn yr amgylchedd gofal o gymharu ag Uned bresennol Ablett. Ymwelwyd â'r swît Adran 136, y swît gofal acíwt, y llecyn Gofal Dwys Seiciatrig ac un o'r wardiau. Cafwyd trafodaeth â'r staff ynghylch heriau’r gweithlu ac roedd yn dda clywed rhai adroddiadau yn nodi bod recriwtio’n dechrau gwella. Da oedd clywed hefyd am feddwl a gweithredu di-oed tîm pan fu digwyddiad a ddifrododd yr amgylchedd ffisegol, ac ymdrechion cydweithwyr i sicrhau y gellid ailddefnyddio'r llecyn hwnnw i wasanaethu cleifion. Mae anawsterau o ran amgylchedd y gofal, ynghyd â’r gweithlu, yn faterion arwyddocaol i wasanaethau iechyd meddwl ac mae’r newyddion cadarnhaol ychwanegol ynghylch caniatâd cynllunio ar gyfer uned iechyd meddwl newydd yn Ysbyty Glan Clwyd yn arwydd o fwriad cryf y bwrdd iechyd i ddatblygu amgylcheddau gofal newydd. Bydd rhagor o gamau yn cael eu gweithredu i wella'r amgylchedd presennol tra bydd yr achos busnes i gyfiawnhau'r adeilad newydd a'r gwasanaeth perthnasol yn cael ei ddatblygu i'w ystyried gan y Bwrdd.

**Materion yn ymwneud â gwasanaethau**

Mae angen dwyn nifer o feysydd allweddol at sylw'r Bwrdd, gan gynnwys:

- Mae’r ymrwymiad i wella mynediad, canlyniadau a phrofiad pobl mewn perthynas â gofal wedi’i gynllunio (gwasanaethau cleifion allanol ac ymyriadau llawfeddygol yn bennaf) wedi’i ategu gan Fwrdd Gofal wedi’i Gynllunio sydd wedi'i sefydlu. Mae GIRFT (Gwneud Pethau'n Iawn y Tro Cyntaf) yn ddull buddiol iawn o weithio, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a chaiff ei gymeradwyo'n benodol gan y Colegau Brenhinol a chyrff proffesiynol. Cynhaliwyd **Uwchgynhadledd GIRFT** ar 5 Hydref 2023, gydag arweinwyr clinigol a rheolwyr, a chafwyd amrywiaeth o gyflwyniadau i amlygu'r cynnydd a wnaed a'r gwersi a ddysgwyd gan bob arbenigedd sy'n gweithio yn unol ag egwyddorion GIRFT, yn ogystal â rhai o'r heriau sy'n atal cynnydd. Mae systemau data, ac yn benodol, datblygu dangosfyrddau sy'n ymwneud â GIRFT, yn ategu dull o wella sy'n cael ei lywio gan ddata.

- Mae **ansawdd gofal** yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i’w datblygu ledled y Bwrdd Iechyd yn unol â’r ddeddfwriaeth newydd sy’n sail i’r Ddyletswydd Ansawdd. Cynhaliodd Gweithredwyr Clinigol Gyfarfod Bord Gron i drafod ansawdd gyda chydweithwyr o Lywodraeth Cymru a Gweithrediaeth y GIG, ac fel rhan o’r gwaith datblygu yn y maes hwn, mae gwaith penodol i asesu/adolygu systemau llywodraethu ansawdd bellach ar y gweill. Yn ychwanegol, mae dirnadaethau, adborth a chyfraniadau cydweithwyr eraill gan gynnwys Crwneriaid EF yn dal i gael eu hystyried wrth helpu i lunio cam nesaf y gwaith.

- Cynhaliwyd ymweliad ag **Ysbyty Brenhinol Alexandra yn y Rhyl** cyn cynnal y Cyfarfod Bord Gron aml-sefydliadol i ystyried y dull o ategu'r datblygiadau a gynigiwyd yn flaenorol. Fe wnaeth cydweithwyr o'r Bwrdd Iechyd, Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Iechyd gyfranogi yn y

drafodaeth fuddiol, ac mae rhagor o waith ar y gweill erbyn hyn i ystyried y potensial ar gyfer datblygiad Cam 1. Mae hwn yn ddatblygiad gofal integredig allweddol ac mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol eisoes wedi nodi ei fod yn flaenoriaeth. Bydd rhagor o ddiweddariadau am gynnydd yn y maes hwn ar gael maes o law.

- Cyflwynir gwybodaeth am **sefyllfa ariannol** y Bwrdd iechyd yn un arall o eitemau agenda'r Bwrdd. Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio bod ehangder y pwysau ariannol yn fwy eglur erbyn hyn. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad ynghylch sefyllfa'r gyllideb a'r gofyniad i adrannau'r llywodraeth leihau lefelau gwariant sylweddol. Mae rhywfaint o wybodaeth am y sefyllfa eisoes wedi'i rhannu yn yr adroddiad cyllid yn un o rannau eraill yr agenda, ond nid yw'r gyllideb sydd wedi'i neilltuo ar gyfer 2024/25 yn eglur. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y cyfyngiadau ariannol a brofwyd yn ystod y flwyddyn hon ac sy'n debygol o barhau yn ystod flwyddyn nesaf yn golygu y bydd angen ymdrech sylweddol i alluogi bodloni gofynion ariannol.

**Gweithio gyda Phartneriaid**

- Mae cyfarfod wedi'i gynnal gydag Ymchwiliad Thirlwall a fydd yn archwilio materion yn ymwneud â throseddau Lucy Letby yn Ysbyty Iarlles Caer. Mae'r Bwrdd Iechyd eisoes wedi cynnig sylwadau cyhoeddus ynghylch yr ymrwymiad i ymgysylltu'n llawn â'r Ymchwiliad ac mae mecanweithiau mewnol wedi'u sefydlu i hwyluso hyn.
- Mae cyfarfod wedi'i gynnal gyda Grŵp Llandrillo Menai, darparwr addysg bellach allweddol i boblogaeth Gogledd Cymru, i ystyried potensial a allai ddeillio o berthynas strategol a chydweithio agosach. Mae'r sefydliad fel bwrdd iechyd 'Prifysgol' wedi ymrwymo i gefnogi addysg a hyfforddiant cydweithwyr mewn amrywiaeth eang o leoliadau, ac wrth i'r sefydliad gamu ymlaen, daw hyn yn nodwedd amlycach o'r gwaith datblygu.
- Mae cyfarfodydd wedi'u cynnal gydag Aelodau Senedd Cymru ac Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli Gogledd Cymru ynghylch gwaith y Bwrdd Iechyd ac yn benodol ynghylch y cynnydd sy'n digwydd o ran meysydd yn y Cynllun Ymateb i'r Mesurau Arbennig. Disgwylir i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gynnig tystiolaeth yng nghyfarfod Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Senedd Cymru ar 23 Tachwedd.
- Cyfranogodd Cyfarwyddwyr Gweithredol o sefydliadau'r GIG a chydweithwyr o Lywodraeth Cymru mewn digwyddiad Tîm Cymru i ystyried yr heriau a'r cyfleoedd o ran gwella'r dull o wella iechyd a lles y boblogaeth a darparu gwasanaethau rhagorol. Nodwyd y bydd Strategaeth 'Cymru Iachach' Llywodraeth Cymru yn cael ei hadolygu â'r bwriad o'i diweddaru at y dyfodol.
- Yn olaf yn yr adran hon, mae'r Gwasanaeth Codi Llais yn Ddiogel wedi bod yn recriwtio Gwarcheidwaid. Roedd yn bleser cyfarfod â sawl cydweithiwr a ymgeisiodd yn llwyddiannus am y rolau rhan-amser. Mae hwn yn fecanwaith allweddol yn y sefydliad i alluogi siarad a bydd yn parhau i fod yn rhan greiddiol o'r gwaith diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltu a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Medi.

**Cydnabod staff a datblygu arweinwyr**

- Yn ddiweddar gwahoddwyd cydweithwyr o fewn Tîm Iechyd Cyhoeddus BIPBC i roi cyflwyniad yng nghynhadledd genedlaethol *'How can Planning and Health reunite? Working together for a whole systems approach to Wellbeing'*. Gwahoddwyd y tîm i roi cyflwyniad am eu gwaith gan ddefnyddio ymagwedd system gyfan at bwysau iach trwy ddylanwadu ar y system cynllunio gofodol. Mae'r gwaith yn cynnwys proses sydd newydd ei chyflwyno o ddarparu ymateb iechyd cyhoeddus i bob cais cynllunio gofodol yng Ngogledd Cymru sy'n berthnasol o ran iechyd y cyhoedd, er enghraifft, siopau cludfwyd poeth. Dechreuodd y gwaith ym mis Ionawr 2023, ac yn sgil hynny, mae nifer o amodau wedi'u pennu ar eiddo yn dilyn cyngor yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd, ac mae'n rhan o raglen waith ehangach i wella mynediad at fwyd iach fforddiadwy yng Ngogledd Cymru drwy fynd i'r afael â dwysedd y ddarpariaeth bwyd afiach a gynigir mewn cymunedau. Mae cydweithio â chydweithwyr yng ngwasanaethau cynllunio'r Awdurdodau Lleol wedi cynnig cyfle i'r Bwrdd Iechyd ddylanwadu ar iechyd a lles y boblogaeth drwy fynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd, megis yr amgylchedd yr

ydym yn byw ynddo. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ystyried yn enghraifft o arferion gorau, a bellach, mae Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru yn ystyried mabwysiadu'r dull.

- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn cydweithio â chydweithwyr o Sri Lanca dan arweiniad y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, a threuliodd Dr Karthi 12 mis gyda'r sefydliad yn cyfranogi mewn rhaglen cymrawd arweinyddiaeth. Mae Dr Karthi bellach wedi'i benodi i swydd uwch yn Sri Lanca a dywed fod ei brofiad buddiol iawn yma yn BIPBC wedi bod yn rhan o'i ddatblygiad. Bydd cydweithiwr arall o Sri Lanca yn ymuno â'r Bwrdd Iechyd yn fuan yn ystod y flwyddyn newydd. Mae hyn yn cynnig cyfle gwych i ddysgu gyda'n gilydd wrth ddatblygu arweinyddiaeth, gan alluogi meithrin perthnasoedd cryf â system gofal iechyd Sri Lanca.
- Mae cydweithwyr wedi ennill un o Wobrau GIG Cymru yn y seremoni gydnabod ddiweddar. Canfu ymchwil yn 2018 fod 23% o oedolion anabl a 47% o blant anabl yn cyfranogi mewn gweithgarwch corfforol deirgwaith yr wythnos neu'n amlach na hynny. Mae hyn yn awgrymu sefyllfa gadarnhaol o ran eu cyfranogiad, ond mae'n golygu hefyd NAD yw cyfran fawr o oedolion a phlant anabl yn gwneud digon o weithgarwch corfforol i sicrhau dylanwad cadarnhaol ar eu hiechyd. Sefydlwyd cynllun peilot gan Bartneriaeth Gweithgarwch Anabledd Iechyd (HDAP) i ystyried sut y gallai 'chwaraeon' Anabledd ac Iechyd gydweithio i gynorthwyo pobl anabl yn well i wella lefelau eu gweithgarwch corfforol. Cynhaliwyd y cynllun peilot dros dair blynedd, ac yn sgil hynny, sefydlwyd Llwybr a luniwyd ar y cyd a lluniwyd sesiwn gwella sgiliau. Llwyddwyd i wella sgiliau 1190 o weithwyr proffesiynol gofal iechyd, a chyfeiriwyd 560 o bobl anabl at wasanaethau. Fe wnaeth Dadansoddiad o Enillion Cymdeithasol o Fuddsoddi ganfod fod gwerth £124 o enillion cymdeithasol wedi'u sicrhau am bob £1 a fuddsoddwyd. Yn ogystal â'r canlyniadau ehangach, nodwyd pedwar athletwr dawnus a aeth ati i gystadlu gan gynrychioli Cymru.
- Mae'r agwedd olaf yn yr adran hon yn ymwneud â Gwobrau Staff gwych BIPBC. Cynhaliwyd y rhain yn ddiweddar, yng nghanol Storm Babet, a llwyddodd cannoedd o gydweithwyr i fynychu'r digwyddiad. Diolch i nawdd hael, llwyddwyd i sicrhau bod y digwyddiad yn un arbennig iawn i gymaint o gydweithwyr, gan gydnabod yr ymdrechion a'r llwyddiannau campus mewn sawl maes. Er bod y GIG yn dal i ymateb i'r heriau niferus iawn y mae'n eu hwynebu, roedd cryfder yr ymrwymiad a'r arloesi yn amlwg iawn. Llongyfarchiadau i bawb a gyfranogodd, a diolch yn arbennig i'r trefnwyr (aelodau o'r Tîm Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Chyfathrebu yn bennaf) a arweiniodd y digwyddiad hynod lwyddiannus hwn.

## Casgliad

Bwriad yr adroddiad yw cynnig trosolwg o weithgareddau allweddol y Prif Weithredwr yn ogystal â materion pwysig y dylid dwyn sylw atynt. Mae'n bosibl bod y materion hynny yn cael sylw mewn adroddiadau manylach eraill. Croesawir unrhyw ymatebion i'r adroddiad.

| | |
|---|---|
| **Teitl adroddiad:**<br><br>***Report title:*** | Y Diweddaraf ar y Mesurau Arbennig |
| **Adrodd i:**<br><br>***Report to:*** | Y Bwrdd Iechyd |
| **Dyddiad y Cyfarfod:**<br><br>***Date of Meeting:*** | Dydd Iau, 30 Tachwedd 2023 |
| **Crynodeb Gweithredol:**<br><br>***Executive Summary:*** | Pwrpas y papur hwn yw:<br><br>1) Darparu diweddariad ar gynnydd yn erbyn yr ail gylch 90 diwrnod (Medi – Tachwedd 2023)<br>2) Egluro'r dull gweithredu ar gyfer cau'r ail gylch 90 diwrnod a chychwyn y trydydd cylch 90 diwrnod (Rhagfyr 2023 i Chwefror 2024) |
| **Argymhellion:**<br><br>***Recommendations:*** | Gofynnir i'r Bwrdd wneud y canlynol:<br><br>1) **DERBYN SICRWYDD** ar y cynnydd a wnaed yn yr ail gylch 90 diwrnod, gan gydnabod y meysydd sy'n peri her<br>2) **CYMERADWYO'R** dull gweithredu ar gyfer cau'r cylch 90 diwrnod a chychwyn y trydydd cylch 90 diwrnod<br>3) **CYMERADWYO'R** eitemau rheoli newid a restrir yn y papur<br>4) **NODER** adolygiadau annibynnol Llywodraeth Cymru ac ymatebion rheolwyr sydd wedi cael eu hystyried ym Mhwyllgorau BIPBC fel y'i nodir isod<br>• 23/254.1 Adolygiad Diogelwch Unedau Cleifion Mewnol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu BIPBC (Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad)<br>• 23/254.2 Adolygiad o bryderon a godwyd yngylch diogelwch cleifion sy'n gysylltiedig â BIPBC (Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad)<br>• 23/254.3 Adolygiad cyflym o swyddi gweithredol dros dro yn BIPBC (Y Pwyllgor Tâl)<br>• 23/254.4 Adolygiad cyflym o Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd, BIPBC (Y Pwyllgor Archwilio) |
| **Arweinydd Gweithredol:**<br><br>***Executive Lead:*** | Carol Shillabeer, Prif Weithredwr (Swyddog Atebol)<br><br>Dr Chris Stockport, Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol (Swyddog Gweithredol Arweiniol) |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>***Report Author:*** | Paolo Tardivel, Cyfarwyddwr Trawsnewid a Gwella<br>Geraint Parry, Rhaglen Mesurau Arbennig |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Pwrpas yr adroddiad:** | I'w Nodi<br>*For Noting* | I Benderfynu arno<br>*For Decision* | Am sicrwydd<br>*For Assurance* |

| **_Purpose of report:_** | ☐ | ☐ | ☒ | |
|---|---|---|---|---|
| **Lefel sicrwydd:**<br><br>***Assurance level:*** | Arwyddocaol<br>*Significant*<br>☐<br><br>Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives* | Derbyniol<br>*Acceptable*<br>☒<br><br>Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Rhannol<br>*Partial*<br>☐<br><br>Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Dim Sicrwydd<br>*No Assurance*<br>☐<br><br>Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>*No confidence / evidence in delivery* |
| **Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' neu uwch, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:**<br><br>***Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:*** | | | | |
| **Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:**<br><br>***Link to Strategic Objective(s):*** | Cefnogi'r Mesurau Arbennig | | | |
| **Goblygiadau rheoleiddiol a chyfreithiol:**<br><br>***Regulatory and legal implications:*** | Amherthnasol | | | |
| **Yn unol â WP7 (sydd bellach yn cynnwys WP68), a oedd EqIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP7 (which now incorporates WP68) has an EqIA been identified as necessary and undertaken ?*** | Amherthnasol | | | |
| **Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR)**<br><br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks( cross reference to the BAF and CRR)*** | Amherthnasol | | | |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith***<br><br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Amherthnasol | | | |
| **Goblygiadau i'r gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Amherthnasol | | | |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori** | Amherthnasol | | | |

| | |
|---|---|
| ***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | |
| **Cysylltiadau â risgiau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol)<br><br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | Amherthnasol |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br><br>***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)*** | Amherthnasol |

**Y Camau Nesaf:**
Gweithredu argymhellion

***Next Steps:***
*Implementation of recommendations*

**Rhestr o Atodiadau:**

***List of Appendices:***

Atodiad 1: Pwyntiau data sy'n dangos cynnydd yng Nghylch 2
Atodiad 2: Crynodeb o Elfennau i'w Cyflawni yng Nghylch 2
Atodiad 3: Ceisiadau Rheoli Newid

Link i'r isod ar gael o 24.11.23 [Health Board Meetings - Betsi Cadwaladr University Health Board (nhs.wales)] Adolygiadau annibynnol Llywodraeth Cymru ac ymatebion rheolwyr sydd wedi cael eu hystyried ym Mhwyllgorau BIPBC fel y'i nodir isod

- 23/254.1 Adolygiad Diogelwch Unedau Cleifion Mewnol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu BIPBC (Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad)
- 23/254.2 Adolygiad o bryderon a godwyd yngylch diogelwch cleifion sy'n gysylltiedig â BIPBC (Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad)
- 23/254.3 Adolygiad cyflym o swyddi gweithredol dros dro yn BIPBC (Y Pwyllgor Tâl)
- 23/254.4 Adolygiad cyflym o Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd, BIPBC (Y Pwyllgor Archwilio)

## BWRDD IECHYD 30 Tachwedd 2023

# Y Diweddaraf ar y Mesurau Arbennig

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o'r cynnydd mewn perthynas â'r ail gylch 90 diwrnod o Fesurau Arbennig (mis Medi i fis Tachwedd 2023), o 10 Tachwedd 2023 ymlaen. Mae hefyd yn rhoi trosolwg o'r dull sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cau'r ail gylch 90 diwrnod a chychwyn y trydydd cylch 90 diwrnod (Rhagfyr 2023 i Chwefror 2024).

## ▪ Diweddariad am Statws

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o gynnydd y cerrig milltir ar draws y pum maes canlyniad ar ddiwrnod 76 o'r cylch 90 diwrnod. Fel sy'n arferol mewn cynllunio 90 diwrnod, mae disgwyl i lawer o gerrig milltir gael eu cwblhau ar ddiwrnod olaf y cylch ac felly ni fydd sefyllfa derfynol y cylch hwn yn hysbys tan hynny.

| Canlyniad | Cerrig milltir wedi'u cwblhau | Ar waith – carreg filltir ar y trywydd iawn ond heb gyrraedd y dyddiad gorffen eto | Ar waith – mae'r garreg filltir mewn perygl o fethu'r dyddiad gorffen | Ar waith – mae'r dyddiad gorffen sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y garreg filltir wedi mynd heibio | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad 1:** Bwrdd sy'n gweithredu'n dda | 7 | 8 | 3 | 1 | 19 |
| **Canlyniad 2:** Cynllun clir y gellir ei gyflawni ar gyfer 2023/24 | 10 | 11 | 0 | 3 | 24 |
| **Canlyniad 3:** Gwell arweinyddiaeth ac ymgysylltiad | 6 | 12 | 1 | 3 | 22 |
| **Canlyniad 4:** Gwell mynediad, canlyniadau a phrofiad i ddinasyddion | 21 | 21 | 0 | 3 | 45 |
| **Canlyniad 5:** Sefydliad sy'n dysgu ac yn gwella ei hun | 7 | 6 | 0 | 4 | 17 |
| **Gyda'i gilydd** | **51** | **58** | **4** | **14** | **127** |

**Y Dull Gweithredu ar gyfer Cau Cylch 2 a Chychwyn Cylch 3**

Daw'r ail gylch 90 diwrnod i ben ar 30 Tachwedd 2023. Bryd hynny, bydd y PMO Mesurau Arbennig yn nodi'n derfynol pa gerrig milltir sydd heb gael eu cwblhau a bydd yn adolygu tystiolaeth yn erbyn y rheini sydd wedi'u marcio fel rhai sydd wedi'u cwblhau, er mwyn sicrhau bod y camau gweithredu sydd wedi cael eu cymryd yn canolbwyntio ar ganlyniadau, yn ôl y disgwyl. Caiff y sefyllfa derfynol ei hadrodd yng nghyfarfod cyntaf y Bwrdd ar ôl diwedd y cylch.

Er mwyn osgoi oedi wrth gwblhau cerrig milltir Cylch 3, y dull sy'n cael ei ddefnyddio yw creu'r cynnwys hwnnw yn ystod wythnosau olaf Cylch 2 ym mis Tachwedd. Bydd hyn yn galluogi'r Bwrdd i gael cyfres o gerrig milltir arfaethedig ar gyfer Cylch 3 yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd. Bydd unrhyw gerrig milltir hwyr yng Nghylch 2 yn cael eu holrhain ochr yn ochr â cherrig milltir Cylch 3.

**Cynghorwyr Annibynnol**

Rhan o'r cymorth a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru oedd penodi nifer o Gynghorwyr Annibynnol i feysydd pryder allweddol. Wrth i ni symud ymlaen drwy'r cam 'Sefydlogi', ac wrth i'r gwaith adolygu annibynnol agosáu at gael ei gwblhau, mae nifer y cynghorwyr annibynnol yn lleihau. Mae sgyrsiau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau mewn perthynas â'r math o gymorth sydd ei angen ar y sefydliad yn y maes hwn, gyda'r prif gyfeiriad tuag at symud cymorth o'r cam darganfod i'r cam dylunio hyd at y cam cyflawni.

## ▪ Cynnydd Cylch 2 hyd yma

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o lwyddiannau a chynnydd cylch 2 hyd yma, ar 10 Tachwedd 2023. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o fanylion.

| Canlyniad | Cyflawniadau a chynnydd |
|---|---|
| **1) Bwrdd sy'n gweithredu'n dda** | ▪ Recriwtio Is-gadeirydd parhaol a dau Aelod Annibynnol parhaol<br>▪ Cyfweld ar gyfer Cadeirydd parhaol ym mis Tachwedd<br>▪ Penodi Prif Weithredwr Parhaol<br>▪ Mae'r broses recriwtio ar gyfer rhagor o Aelodau Annibynnol yn cael ei rheoli ar y cyd â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru<br>▪ Cytunwyd ar y Fframwaith Rheoli Risg yn y Bwrdd ym mis Medi, gyda'r gweithredu ar y gweill yn adrodd i'r Pwyllgor Archwilio<br>▪ Rhaglen Datblygu'r Bwrdd yn cael ei rhoi ar waith, gan gynnwys meysydd ffocws fel Cynlluniau Gwrthsefyll Pwysau'r Gaeaf, gan gynnwys ymweliadau clinigol/gwasanaeth<br>▪ Ystyried adolygiadau a dderbyniwyd, yn Sesiynau Datblygu Pwyllgor y Bwrdd, cyn i Ymatebion y Rheolwyr gael eu datblygu<br>▪ Cytuno ar Strwythur Diwygiedig ar gyfer Pwyllgorau'r Bwrdd |
| **2) Cynllun clir y gellir ei gyflawni ar gyfer 2023/24** | ▪ Fframwaith Cynllunio Integredig wedi'i ddatblygu, ei gymeradwyo gan y Bwrdd a'i roi ar waith<br>▪ Fframwaith Perfformiad Integredig wedi'i ddatblygu, ei gymeradwyo yn y Bwrdd ym mis Medi, gyda'r gweithredu wedi dechrau<br>▪ Gwaith maes yr Adolygiad Cynllunio wedi'i gwblhau; yn aros am adroddiad drafft<br>▪ Adolygiad annibynnol drafft o Reoli Caffael Contractau wedi'i dderbyn gan y rheolwyr<br>▪ Cynllun Gweithredu Rheolaeth Ariannol yn mynd rhagddo'n dda, gyda Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (SFI), Cynllun Cadw a Dirprwyo (SORD) a Rheolau |

| | |
|---|---|
| | Sefydlog i gyd yn cael eu hadolygu, eu hadnewyddu a'u cymdeithasoli cyn eu cyflwyno i'r Bwrdd a'r is-bwyllgorau perthnasol.<br>▪ Darparwyd hyfforddiant caffael i dros 400 o staff PBC |
| **3) Arweinyddiaeth ac ymgysylltiad cryfach** | ▪ Roedd y Bwrdd wedi cymeradwyo Bwriad Strategol a chamau gweithredu ar unwaith o ran Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu.<br>▪ Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a Ffair Iechyd wedi'u cynnal ym mis Medi, gan alluogi sgyrsiau rhwng ein Bwrdd, ein Swyddogion Gweithredol a'n Cymunedau Lleol<br>▪ Tri digwyddiad ymgysylltu â'r gymuned wedi'u trefnu, gan weithio gyda'r Bwrdd ar gytuno ar ddyddiadau a lleoliadau o fis Ebrill ymlaen<br>▪ Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth newydd yn cael ei datblygu<br>▪ Gostyngiad sylweddol yn y defnydd o staff asiantaeth dros dro, o 41 ym mis Rhagfyr i saith ym mis Medi<br>▪ Mae camau gweithredu yn erbyn yr holl argymhellion yn yr Adolygiad Interim ar y gweill ac ar y trywydd iawn, gydag argymhelliad pwysig ynghylch sut mae'r Pwyllgor Taliadau eisoes wedi'i gwblhau<br>▪ Adroddiad drafft 'Gwrando ar Gleifion, Teuluoedd a Chymunedau' wedi'i dderbyn gan y rheolwyr<br>▪ Adroddiad Adolygiad Cyflym ar Ymgysylltu Clinigol wedi'i dderbyn a'i ystyried gan y Tîm Gweithredol. I'w ystyried yn y Pwyllgor Pobl a Diwylliant. |
| **4) Gwell mynediad, canlyniadau a phrofiad i ddinasyddion** | ▪ Gofal wedi'i gynllunio: Gwella'r amseroedd aros hiraf, gyda'r gwaith yn parhau i wella'r sefyllfa ar gyfer pob arhosiad hir. Dechreuwyd Dadansoddiad Manwl o'r Galw a'r Capasiti. Cytunwyd ar y Protocol Capasiti Llawn.<br>▪ Fasgwlaidd: Adroddiad Adolygiad Fasgwlaidd wedi'i dderbyn gan y rheolwyr.<br>▪ Dermatoleg: Cynllun i ddatrys materion brys wedi'i gymeradwyo, a dechreuwyd modelu gwasanaeth ar gyfer datrysiad cynaliadwy<br>▪ Iechyd Meddwl: Adolygiad Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yn mynd rhagddo'n dda. Ymateb y Rheolwyr i'r Adolygiad o Ddiogelwch Cleifion Mewnol Iechyd Meddwl wedi'i gytuno.<br>▪ Achos Busnes Orthopedig: wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru<br>▪ Gofal Brys ac Argyfwng: Gwella'r 4 awr o oedi wrth drosglwyddo ambiwlans, gan nodi bod angen rhagor o welliant o hyd. Cynllun Gwrthsefyll Pwysau'r Gaeaf yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Tachwedd |
| **5) Sefydliad sy'n dysgu ac yn gwella ei hun** | ▪ Datblygu cynnig Rhaglen Iechyd y Cyhoedd Gofal Iechyd, cytuno ar yr elfen graidd gan y Tîm Gweithredol<br>▪ Cynhaliwyd cyfarfod bwrdd crwn llywodraethu ansawdd ar 16 Tachwedd. Gwaith Systemau Ansawdd wedi dechrau (Gweithrediaeth y GIG)<br>▪ Fframwaith Sefydliad Dysgu drafft wedi'i greu a'i drafod gan y Tîm Gweithredol<br>▪ Canfod a gweithredu'n rhagweithiol mewn perthynas â materion brys y tu allan i Fesurau Arbennig |

**Adolygiadau Annibynnol**

Ceir crynodeb o'r deg adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a'u statws yn y tabl isod. Y cynllun yw cwblhau a bwrw ymlaen â phob un o'r deg adolygiad ynghyd ag ymateb rheolwyr cysylltiedig drwy Is-bwyllgorau perthnasol y Bwrdd, a'r Bwrdd, erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Bydd hyn yn golygu y bydd yr holl waith darganfod angenrheidiol ar draws holl feysydd pryder y Mesurau Arbennig wedi dod i ben cyn i'r cam 'Safoni' gael ei gynllunio.

| Adolygiad Annibynnol | Wedi cwblhau'r adolygiad | PBC wedi derbyn yr adroddiad | Cyflwyno'r adroddiad i sesiwn Datblygu'r Pwyllgor | Cyflwyno ymateb y rheolwyr i'r Pwyllgor Ffurfiol | Cyhoeddi adroddiad ac ymateb y rheolwyr drwy'r Bwrdd |
|---|---|---|---|---|---|
| 1) Diogelwch Cleifion Mewnol Iechyd Meddwl | | | | | 30 Tachwedd |
| 2) Diogelwch Cleifion | | | | | 30 Tachwedd |
| 3) Interim | | | | | 30 Tachwedd |
| 4) Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd | | | | 16 Tachwedd | 30 Tachwedd |
| 5) Portffolio Gweithredol | | | Amh.* | | |
| 6) Fasgwlaidd (rhan 1) | | | Tachwedd | | |
| 7) Rheoli Caffael Contractau | | | Rhagfyr | | |
| 8) Cynllunio | | Tachwedd | | | |
| 9) Adolygiad Cyfrif Stoc o adolygiadau Iechyd Meddwl blaenorol | 30 Tachwedd | | | | |
| 10) Systemau llywodraethu ansawdd | Bwrdd Crwn 16 Tachwedd | | | | |

* Bydd yr Adolygiad o'r Portffolio Gweithredol yn sail i waith ehangach y mae'r Prif Swyddog Gweithredol yn ei arwain o ganlyniad i gael ei benodi ac na fydd yn cael ei gyflwyno drwy is-bwyllgorau

## ▪ Cylch 3 'Sefydlogi' a 'Safoni'

**Cylch 3 (Rhagfyr 2023 i Chwefror 2024)**

Ffocws y cylch 90 diwrnod terfynol hwn yw cael eglurder a sicrhau bod 'sefydlogi' digonol yn digwydd ym mhob un o'r pum maes canlyniad, ac y gellir canolbwyntio wedyn ar 'safoni'. Mae crynodeb lefel uchel iawn o hyn ar gael yn y tabl isod ond bydd yn cael ei lywio gan fewnbwn gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddarach y mis hwn. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn gweithio i sicrhau ein bod yn cyd-fynd yn agos â chynlluniau blynyddol y flwyddyn nesaf.

| Canlyniad | Dylid bod wedi cyflawni 'Sefydlogi' ar sail y canlynol |
|---|---|
| **1) Bwrdd sy'n gweithredu'n dda** | Bwrdd Parhaol wedi'i sefydlu, wedi'i gynefino'n dda a'r holl is-bwyllgorau'n weithredol |
| **2) Cynllun clir y gellir ei gyflawni ar gyfer 2023/24** | Adeiladu ar yr adborth da a gafwyd am gynllun blynyddol Blwyddyn Ariannol 23/24, a chyflawni cynllun blynyddol o ansawdd da sy'n gyfrifol yn ariannol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 24/25, gan ystyried yr hyn a ddysgwyd o'r adolygiad cynllunio |

| | |
|---|---|
| **3) Arweinyddiaeth ac ymgysylltiad cryfach** | Cyfeiriad clir a chynllun i ddatblygu'r diwylliant, yr arweinyddiaeth a'r ymgysylltu sydd eu hangen ar y sefydliad |
| **4) Gwell mynediad, canlyniadau a phrofiad i ddinasyddion** | Cynlluniau gwella cadarn yn mynd rhagddynt, sy'n gwella meysydd pryder clinigol. |
| **5) Sefydliad sy'n dysgu ac yn gwella ei hun** | Wedi adeiladu'r sylfeini cywir i sicrhau bod data a dysgu o ystod eang o ffynonellau yn ein symud tuag at fod yn sefydliad sy'n dysgu ac yn gwella ein hunain |

**Cam 'Safoni' (2024/25)**
Rhaid sicrhau bod Mesurau Arbennig yn cael eu hymgorffori mewn cylchoedd cynllunio blynyddol 'busnes fel arfer' er mwyn symud tuag at un dull cynllunio cyson a safonol. Mae'r gwaith cynllunio ar gyfer 2024/25 yn mynd rhagddo ar hyn o bryd fel rhan o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2024 i 2027 ac felly mae'r meddylfryd 'Safoni' o'r Mesurau Arbennig yn cael ei ymgorffori yn y broses honno. Mae rhai meysydd allweddol yn cael eu hystyried fel rhan o'r cam 'Safoni' er mwyn ategu gwelliannau hirdymor a chynaliadwy i gleifion:

- Adolygu ac adnewyddu'r strategaeth
- Strategaeth a Chynllun Cyflawni Gwasanaethau Clinigol
- Cysondeb ac eglurder o ran ymreolaeth wrth wneud penderfyniadau ar draws gwahanol lefelau a rhannau o'r Model Gweithredu
- Cynlluniau adnoddau strategol a gweithredol
- Galluoedd Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau
- Cysondeb ym mhrofiad y claf fel baromedr allweddol o feysydd ffocws

## Rheoli Newid

Fel rhan o'r trefniadau llywodraethu Mesurau Arbennig, mae angen cymeradwyo unrhyw newidiadau arfaethedig drwy broses rheoli newid. Caiff hyn ei gymeradwyo drwy Uwch Swyddog Cyfrifol y Mesurau Arbennig cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd i'w gymeradwyo'n derfynol. Gweler Atodiad 3.

Mae'r Ceisiadau Rheoli Newid canlynol i'w gweld yn Atodiad 3.
- Cyf 018: Trosglwyddo cerrig milltir o Gylch 1 i Gylch 2 – I'w gymeradwyo gan y Bwrdd
- Cyf 019: Newidiadau i gerrig milltir Orthopedig o dan elfen i'w chyflawni 4.3 – I'w chymeradwyo gan y Bwrdd
- Cyf 016: Carreg filltir 1.5 Pwyllgorau'r Bwrdd – Er gwybodaeth yn unig, ynglŷn â newid yn yr Is-gadeiryddion.

## ▪ Casgliad

Cafwyd llawer o gynnydd a dysgu o'r ddau gylch 90 diwrnod cyntaf ar gyfer Mesurau Arbennig. Mae'r cam 'Sefydlogi' wedi bod yn hynod ddefnyddiol o ran sicrhau ffocws ar sefydlu'r sylfeini iawn i'r sefydliad adeiladu arnynt wrth symud ymlaen. Mae'r deg adolygiad annibynnol sydd bron â chael eu cwblhau yn nodi diwedd y prif waith darganfod, gyda'r sefydliad yn sicrhau bod y ffocws cywir yn cael ei roi ar ddylunio a chyflawni'r camau cynaliadwy cywir yn y pen draw.

Wrth i'r gwaith cynllunio ar gyfer y cam 'Safoni' fynd rhagddo, mae'r sefydliad yn ymgorffori'r hanfodion cywir mewn gweithgarwch 'busnes fel arfer', megis canfod a rheoli materion yn rhagweithiol. Mae'r math hwn o reolaeth ragweithiol yn bwysig i'r sefydliad ddangos yr hyn a ddysgwyd ganddo, a'i aeddfedrwydd mewn meysydd allweddol.

Rhaid cael Bwrdd sefydlog er mwyn ailadeiladu arweinyddiaeth, diwylliant ac ymgysylltiad effeithiol ar draws y sefydliad. Mae'r cynnydd a wneir yn y maes hwn yn bwysig, gan ei fod yn un o'r elfennau allweddol i lwyddiant y sefydliad yn y dyfodol.

Gofynnir i'r Bwrdd wneud y canlynol:

1) **DERBYN SICRWYDD** ar y cynnydd a wnaed yn yr ail gylch 90 diwrnod, gan gydnabod y meysydd sy'n peri her
2) **CYMERADWYO'R** dull gweithredu ar gyfer cau'r cylch 90 diwrnod a chychwyn y trydydd cylch 90 diwrnod
3) **CYMERADWYO'R** eitemau rheoli newid a restrir yn y papur

## ▪ Atodiad 1: Pwyntiau data sy'n tynnu sylw at gynnydd hyd yma

(Fel ym mis Hydref 2023)

### Gofal wedi'i Gynllunio:

- Roedd yr amseroedd aros eithafol wedi gostwng tua 700 o gleifion rhwng diwedd mis Mai a diwedd mis Gorffennaf (y gostyngiad mwyaf yng Nghymru)
- O'i gymharu â haf 2022:
    - Nifer y cleifion >52 wythnos ar gyfer claf allanol newydd – gostyngiad o 13,329 (52%)
    - Nifer y cleifion sy'n aros >104 wythnos rhwng atgyfeirio a thriniaeth – gostyngiad o 6,429 (42.8%)
    - Nifer y cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio am driniaeth >52 wythnos – gostyngiad o 8,662 (19.7%)

| Specialty | 4-5yrs | 5-6yrs | 6yrs+ |
|---|---|---|---|
| General Surgery | 42 | | |
| Maxillo Facial Surgery | 76 | 2 | |
| Orthopaedics | 35 | 1 | |
| ENT | 13 | | |
| Vascular Surgery | 43 | 23 | |
| Urology | 5 | | |
| Orthodontics | 15 | | |
| Gynaecology | 22 | 1 | |
| Ophthalmology | 11 | | |
| Pain Management | 0 | | |
| **Total** | **262** | **27** | **0** |

End of Sept 2023 – validated position







Up to end of Sept; Validated. Oct position; unvalidated

### Gofal Brys ac Argyfwng

Ers lansio'r rhaglen trosglwyddo ambiwlansys 4 awr a'r polisi uwchgyfeirio (ddechrau mis Awst 2023), bu gwelliant sylweddol gyda rhai wythnosau'n cael eu hadrodd yn is (gwell) na'r trywydd, a'r oedi'n cael ei haneru o'i gymharu â'r wythnos flaenorol a'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae cynnal y gwelliant hwn yn her.



### Defnyddio Staff Dros Dro Drud o Asiantaethau

- Mae hyn yn cynnwys ymgynghorwyr rheoli, cyfarwyddwyr dros dro, rheolwyr, arbenigwyr corfforaethol
- Gostyngiad o 83% yn y rolau hyn mewn llai na blwyddyn



## ▪ Atodiad 2: Crynodeb o Gerrig Milltir Cylch 2

| Allwedd: | Cerrig milltir wedi'u cwblhau | Ar waith – Dyddiad y garreg filltir heb ei chyrraedd eto | Ar waith – Mae'r garreg filltir mewn perygl o fethu'r dyddiad | Ar waith – mae'r dyddiad gorffen sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y garreg filltir wedi mynd heibio |
|---|---|---|---|---|

# 1. Bwrdd sy'n gweithredu'n dda

| Elfen i'w chyflawni | Testun cryno cerrig milltir | Uwch Swyddog Gweith-redol | Statws | Dyddiad Dyledus |
|---|---|---|---|---|
| C1-1.3: Rhoi proses gynefino cam 1 ar waith ar gyfer holl aelodau'r Bwrdd | 1.3.3 Cwblhau'r broses gynefino ar gyfer pob Aelod Annibynnol presennol (ar 01/09/23) gan ddefnyddio'r broses gynefino bresennol | Ysgrifennydd y Bwrdd | Cerrig milltir wedi'u cwblhau | 01/11/2023 |
| | 1.3.4 Aelodau'r Bwrdd yn cytuno ar raglen gynefino newydd y Bwrdd ar gyfer Aelodau Annibynnol | Ysgrifennydd y Bwrdd | Ar waith – Dyddiad y garreg filltir heb ei chyrraedd eto | 30/11/2023 |
| | ***Sylwadau Sicrwydd y PMO:*** *Mae'r Aelodau Annibynnol presennol wedi cael sesiwn gynefino gan ddefnyddio'r prosesau cynefino presennol, gydag adborth yn cael ei roi ar y meysydd sydd angen eu gwella. Ers hynny, mae Rhaglen Gynefino newydd sy'n cynnwys Llawlyfr a safle SharePoint wedi cael eu datblygu ac maent wrthi'n cael eu cwblhau gyda'r bwriad o gael eu cytuno gan y Bwrdd ym mis Tachwedd.* | | | |

| Elfen i'w chyflawni | Testun cryno cerrig milltir | Uwch Swyddog Gweith-redol | Statws | Dyddiad Dyledus |
|---|---|---|---|---|
| C1-1.4: Datblygu rhaglen datblygu'r Bwrdd ar gyfer cam 1 | 1.4.4 Mae Aelodau'r Bwrdd wedi cytuno ar Gam 1 rhaglen datblygu'r Bwrdd Newydd | Ysgrifennydd y Bwrdd | Ar waith – Dyddiad y garreg filltir heb ei chyrraedd eto | 30/11/2023 |
| | ***Sylwadau Sicrwydd y PMO:*** *Mae Rhaglen Datblygu'r Bwrdd newydd wedi cael ei datblygu a'i rhannu â'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Cadeirydd i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r gofynion. Cafodd y gwaith hwn ei gario drosodd o gylch 1, felly mae'r gymeradwyaeth arfaethedig yn y Bwrdd ym mis Tachwedd yn groesffordd hollbwysig.* | | | |

| Elfen i'w chyflawni | Testun cryno cerrig milltir | Uwch Swyddog Gweith-redol | Statws | Dyddiad Dyledus |
|---|---|---|---|---|
| C1-1.5: Pob pwyllgor ag Aelodau Annibynnol ar waith | 1.5.5 Derbyniwyd canfyddiadau adroddiadau Adolygiad Annibynnol gan bob un o Bwyllgorau perthnasol y Bwrdd | Ysgrifennydd y Bwrdd | Cerrig milltir wedi'u cwblhau | 01/10/2023 |
| | 1.5.6 Gweithredwyd y canfyddiadau canlynol o adolygiad Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd: 1) Cylch Gorchwyl ar gyfer pob Pwyllgor, 2) Cadarnhau aelodaeth ar gyfer pob Pwyllgor, 3) Cylch Busnes ar gyfer pob Pwyllgor, 4) Calendr corfforaethol i adlewyrchu'r Cylch Busnes | Ysgrifennydd y Bwrdd | Ar waith – Dyddiad y garreg filltir heb ei chyrraedd eto | 30/11/2023 |
| | ***Sylwadau Sicrwydd y PMO:*** *Mabwysiadwyd cynnig ar gyfer Pwyllgorau'r Bwrdd yn llwyddiannus gan y Bwrdd ym mis Medi. Bydd y Cylch Gorchwyl, y Cylch Busnes a'r Calendr Corfforaethol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ac yna i'r Bwrdd ar 30 Tachwedd.* | | | |

| Elfen i'w chyflawni | Testun cryno cerrig milltir | Uwch Swyddog Gweith-redol | Statws | Dyddiad Dyledus |
|---|---|---|---|---|
| C1-1.6: Dylunio fframwaith rheoli risg a dechrau ei roi ar waith | 1.6.3 Y Bwrdd yn cymeradwyo'r fframwaith Rheoli Risg yn y Bwrdd ym mis Medi | Ysgrifennydd y Bwrdd | Cerrig milltir wedi'u cwblhau | 30/09/2023 |
| | 1.6.4 Dechrau rhoi cynllun gweithredu'r fframwaith rheoli risg ar waith (a ddatblygwyd yn ystod y cylch hwn) | Ysgrifennydd y Bwrdd | Ar waith – Dyddiad y garreg filltir heb ei chyrraedd eto | 30/11/2023 |

| | |
|---|---|
| | ***PMO Assurance Comments:*** *Mae tystiolaeth glir o gynnydd wedi'i wneud a chadarnhad ffurfiol wedi'i dderbyn bod y Fframwaith Rheoli Risg wedi'i gymeradwyo yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi. Mae'r ddogfen Bolisi sy'n sail i'r Fframwaith yn cael ei datblygu i'w hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio ar 16 Tachwedd, a bydd Hyfforddiant Rheoli Risg ar gyfer timau yn cael ei brofi ym mis Ionawr 2024 yn barod i'w roi ar waith yn llawn ym mis Chwefror 2024.* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| C1-1.7: Recriwtio'r Weithrediaeth / Prif Swyddog Gweithredol / Aelodau Annibynnol / Cadeirydd Parhaol – yn dibynnu ar yr Adolygiad o'r Portffolio Gweithredol ac Achosion Adnoddau Dynol Uwch | 1.7.6 Recriwtio Is-gadeirydd Parhaol a 2 Aelod Annibynnol parhaol: Penodiadau "Cam 2" yn cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru | Ysgrifennydd y Bwrdd | | 30/10/2023 |
| | 1.7.7 Recriwtio Cadeirydd Parhaol: Pennu dyddiadau cyfweliad | Ysgrifennydd y Bwrdd | | 30/11/2023 |
| | 1.7.8 Recriwtio Prif Swyddog Gweithredol Parhaol: Pennu dyddiadau cyfweliad | Ysgrifennydd y Bwrdd | | 30/11/2023 |
| | 1.7.9 Recriwtio 3 Aelod Annibynnol Parhaol: Cau hysbysebion swyddi "Cam 3" | Ysgrifennydd y Bwrdd | | 30/11/2023 |
| | 1.7.10 Recriwtio swyddogion gweithredol: Hysbysebion yn weithredol i gau bylchau yn y Tîm Gweithredol lle bo hynny'n briodol (yn dibynnu ar Adolygiad Portffolio Gweithredol ac Achosion AD Uwch) | Ysgrifennydd y Bwrdd | | 30/11/2023 |
| | ***Sylwadau Sicrwydd y PMO:*** *Mae'n amlwg bod cynlluniau ar draws pob maes wedi dechrau, gyda chynnydd da'n cael ei wneud. Mae'r Gweinidog bellach wedi penodi'r Is-gadeirydd a dau Aelod Annibynnol ychwanegol ac wedi gwneud datganiad ysgrifenedig i'r perwyl hwn, ynghyd â chadarnhad bod recriwtio ar y gweill ar gyfer 3 Rheolwr Ymchwiliadau arall. Penodwyd Prif Weithredwr, a chadarnhawyd hynny yn y Pwyllgor Taliadau ym mis Tachwedd ac mae'r broses recriwtio ar gyfer Cadeirydd parhaol yn mynd rhagddi gyda chyfweliadau wedi'u trefnu ar 29 Tachwedd.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| C2-1.8: Tîm Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd – gweithredu strwythur dros dro a dylunio strwythur parhaol | 1.8.1 Asesu galluoedd presennol yn nhîm Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd, wedi'u cyfatebu â'r gofynion a nodir yn Adolygiad Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd a gwaith dilynol wedi hynny | Ysgrifennydd y Bwrdd | | 30/11/2023 |
| | 1.8.3 Cynnig ar strwythur parhaol i Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd | Ysgrifennydd y Bwrdd | | 31/10/2023 |
| | 1.8.4 Symud y swyddogaeth Rheoli Risg i Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd | Ysgrifennydd y Bwrdd | | 31/10/2023 |
| | 1.8.5 Cyflawni'r trefniadau llywodraethu angenrheidiol a sicrhau'r gymeradwyaeth angenrheidiol er mwyn gallu rhoi strwythur Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd ar waith yn llawn erbyn dechrau mis Ionawr | Ysgrifennydd y Bwrdd | | 30/11/2023 |
| | ***Sylwadau Sicrwydd y PMO:*** *Gwnaethpwyd cynnydd yn ystod Cylch 2 gyda dull dros dro o wella gwasanaeth Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd i'r Bwrdd Iechyd, y cytunwyd arno gyda'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol, ac a fydd ar waith o ganol mis Tachwedd 2023 ymlaen. Dechreuwyd trafodaethau ynghylch strwythur parhaol Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd i'r Bwrdd Iechyd; fodd bynnag mae cwblhau'r gwaith hwn yn dibynnu ar y recriwtio o Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol; a bydd angen ei gario ymlaen.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
Yn hanesyddol, mae Iechyd Cyhoeddus wastad wedi rhoi pwyslais ar bartneriaethau cryf i fynd i'r afael ag anghenion iechyd a lles y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.  Yn ystod y 12 mis diwethaf yng Ngogledd Cymru, rydym wedi cychwyn ar daith i ddefnyddio meddylfryd system gyfan a methodoleg system gyfan i ehangu gwaith y partneriaethau hyn a chynorthwyo'r system ehangach i gydnabod bod angen i bawb ohonom ni gyfrannu at fynd i'r afael â'r heriau rydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd, er enghraifft, pwysau iach, teithio llesol a chynaliadwy, a'r argyfwng costau byw.  Bydd yr adroddiad hwn yn ystyried ein dealltwriaeth o ddull gweithredu system gyfan a'n profiad o weithredu dull o'r fath yng Ngogledd Cymru ac yn cynnig enghreifftiau o waith sy'n digwydd yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol.

Hwn yw fy adroddiad blynyddol cyntaf ynghylch iechyd cyhoeddus ers i dimau lleol iechyd cyhoeddus gael eu trosglwyddo o Iechyd Cyhoeddus Cymru i Fyrddau Iechyd Lleol. Rwy'n rhagweld y bydd y datblygiad hwnnw yn parhau i gryfhau'r system iechyd cyhoeddus leol er budd ein dinasyddion.  Rwy'n hyderus y bydd y trosglwyddo yn cynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i barhau i ymgorffori gwaith atal, ymyriadau buan a lleihau anghyfartaleddau iechyd fel y prif ddull o ymdrin ag iechyd y boblogaeth yng Ngogledd Cymru.

Mae'r Tîm Iechyd Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru wedi bod yn hynod o ymroddgar a gwydn yn ystod y broses hon, ac maent wedi parhau i gyflawni mewn perthynas â blaenoriaethau iechyd cyhoeddus er budd poblogaeth Gogledd Cymru.  Hoffwn ddiolch i fy Nhîm Iechyd Cyhoeddus a phartneriaid ehangach am eu hymroddiad ac am eu gwaith caledyn ystod y 12 mis diwethaf - diolch yn fawr iawn.



## Teresa Owen

**Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus**
**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)**

# Cynnwys


Rhagair 2

Cynnwys 4

Crynodeb Gweithredol 5

1 Cyflwyniad i Ddull System Gyfan 6

2 Y Cyfleoedd Sy’n Deillio o Weithredu Dull System Gyfan 10

Dulliau System Gyfan Ar Y Lefelau Cenedlaethol A Rhanbarthol 11

Pwysau Iach: Dull System Gyfan Yng Ngogledd Cymru 11

Iechyd Meddwl A Lles Meddyliol: Dull System Gyfan Yng Ngogledd Cymru 14

Cyrhaeddiad Addysgol: Dull System Gyfan Ledled Cymru (Yn Cael Ei Arwain Gan Iechyd Cyhoeddus Cymru) 16

3 Dulliau System Gyfan Ar Y Lefel Leol 18

Heriau Ymgymryd Â Dull System Gyfan – Canlyniadau Anfwriadol 30

Gwerthuso Dull System Gyfan 32

Casgliadau 34

4 Deunyddiau Darllen Ychwanegol 36

Cyfeiriadau 37

Diolchiadau 38

# Crynodeb Gweithredol

**Cydnabyddir yn gynyddol bod yr heriau iechyd cyhoeddus presennol yn rhai aml-ffactor a chymhleth ac na all un sefydliad eu datrys ar ei ben ei hun.**

Yn aml iawn, gall gwahanol bobl ddehongli dull system gyfan yn wahanol, ond mae sicrhau bod pawb yn rhannu dealltwriaeth o'r broblem yn sail i'r dull.

Mae'r data yng Ngogledd Cymru yn dal i amlygu anghydraddoldebau o ran canlyniadau iechyd yn achos y sawl sy'n byw yn ein cymunedau tlotaf ac mae ystod o ffactorau'n gyfrifol am hyn gan gynnwys hygyrchedd ac ansawdd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ymddygiad unigolion a phenderfynyddion iechyd ehangach (er enghraifft, tai, incwm a'r amgylchedd ffisegol).

Mae Llywodraeth Cymru wedi amlygu ei hymrwymiad i ymgymryd â dull system gyfan mewn perthynas â'u holl raglenni gwaith. Mae strategaeth genedlaethol Pwysau Iach, Cymru Iach yn un o'r meysydd sy'n gweithredu'r dull hwn yn systematig leded Cymru. Mae tîm Dull System Gyfan Pwysau Iach, Cymru Iach BIPBC yn arwain y gwaith hwn yng Ngogledd Cymru.

Mae dulliau system gyfan hefyd yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael â nifer o broblemau cymhleth eraill ledled Cymru, yn cynnwys y bwlch cenedlaethol o ran cyrhaeddiad addysgol, ac yn achos iechyd meddwl a llesiant meddyliol yng Ngogledd Cymru.

Yn lleol ledled Gogledd Cymru, mae partneriaid yn cyfrannu'n sylweddol at y system trwy ystod o ddulliau sy'n rhoi sylw i leoedd penodol. Mae'r dulliau hyn yn mynd i'r afael ag achosion isorweddol iechyd gwael yn ein cymunedau, trwy nodi cyfleoedd i ddylanwadu yn y system.

Gall gweithredu dull system gyfan gynnig cyfleoedd a heriau. Un o'r cyfleoedd yw cyfranogiad rhannau o'r system sy'n aml yn cael trafferth nodi eu rôl mewn problem gymhleth.

Wrth weithredu dull system gyfan, mae'n allweddol sicrhau ein bod ni'n ystyried canlyniadau anfwriadol posibl. Gallai'r rhain fod yn gadarnhaol neu'n negyddol a byddant yn digwydd oherwydd ffactorau cysylltiedig mewn system. Wrth weithredu dull system gyfan, mae'n hanfodol i ni ystyried y darlun ehangach a'r cydgysylltedd rhwng ffactorau achosol.

Mae'n bwysig i ni hefyd werthuso dulliau system gyfan. Gall fod yn anodd llunio casgliadau ynghylch achosion ac effeithiau mewn dull system gyfan, ond gall defnyddio technegau sy'n cynnwys dadansoddi rhwydweithiau cymdeithasol a Mapio Effeithiau Crychdonnau ein galluogi i amlygu'r hyn sydd wedi digwydd a sut mae'r newid hwnnw wedi digwydd.

Rhennir yr adroddiad hwn yn bedair prif ran: Mae'r gyntaf yn trafod y cyd-destun a chyfleoedd sy'n deillio o waith system gyfan. Mae'r ail adran yn cynnig enghreifftiau o waith da. Mae'r drydedd adran yn ystyried yr heriau, y cyfleoedd a'r dull gwerthuso ac mae'r adran olaf ond un a'r adran olaf yn cynnwys manylion deunyddiau darllen ychwanegol, cysylltiadau a chyfeiriadau.



# 1. Cyflwyniad i Ddull System Gyfan

Mae llawer o'r heriau rydym yn eu hwynebu fel cymdeithas wedi'u galw'n 'broblemau cymhleth', ac maent yn cynnwys y newid yn yr hinsawdd, anghydraddoldeb, tlodi a gordewdra. Maent yn anawsterau hynod o gymhleth yn sgil y ffaith eu bod yn cynnwys ystod eang o ffactorau cydgysylltiedig. Ni cheir un dull cywir o'u datrys, ac nid oes un sefydliad nac asiantaeth sy'n gyfrifol am eu datrys ar ei ben ei hun. Mae'n rhaid i ystod amrywiol o sectorau a sefydliadau gyfrannu, gan ddylanwadu ar y rhannau hynny o'r system ble gallant wireddu newid. Mae dulliau system gyfan yn ffordd gynyddol boblogaidd o fynd i'r afael ag anawsterau iechyd cyhoeddus, ac mae enghreifftiau o ddefnyddio'r dull yn cynnwys atal gordewdra, troseddau ieuenctid, gweithgarwch corfforol, ac iechyd meddwl a lles meddyliol.

Er na cheir un diffiniad cytunedig o ddull system gyfan, dyma ddiffiniad rhai pobl o'r dull:

**'y rhai sy'n ystyried yr ysgogwyr aml-ffactor, yn cynnwys gweithredu trawsnewidiol cydlynol ledled ystod eang o ddisgyblaethau a rhanddeiliaid, gan weithredu ar bob lefel o lywodraethu ac ar hyd cwrs bywyd'[1]**

**'ffordd ddeinamig o weithio, sy'n dod â rhanddeiliaid ynghyd i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'r her, ac i integreiddio camau gweithredu i sicrhau newid cynaliadwy a hirdymor mewn systemau'[2]**



Bydd dynion sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yn mwynhau 13 blynedd yn fwy o iechyd da na'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. 17 mlynedd yw'r gwahaniaeth yn achos merched.

Mae llawer o ddiffiniadau eraill yn cynnwys cyfeiriadau at:

- **cydnabod bod gwaith yn digwydd mewn system gymhleth ac addasol**
- **defnyddio meddylfryd systemau i esbonio'r broblem**

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu cydweithio â phob cymuned a rhanddeiliad i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o broblem gymhleth, gan ystyried sut mae'r system yn gweithredu, a ble ceir y cyfleoedd gorau i wireddu newid. Felly, gan gydweithredu, gall rhanddeiliaid brofi ystod o atebion a gweithio i wireddu newidiadau hirdymor a chynaliadwy a rhoi sylw i wraidd y broblem. Mae angen i newidiadau lwyddo ar bob lefel yn y system, o weithredoedd unigol ar lefel digwyddiadau i newidiadau o ran polisi a phrosesau sy'n adlewyrchu'r hyn y gwelir gwerth ynddo yn y system.

Mae dull system gyfan yn cynnwys gweithredu meddylfryd systemau, arweinyddiaeth systemau ac ystod o ddulliau ac offerynnau i ddeall y broblem yn well, nodi atebion, a chydgysylltu blaenoriaethau i ddiffinio gweithredoedd ar y cyd.



Data Disgwyliad oes ar adeg geni:

| | Cymru | BIPBC |
|---|---|---|
| **Benywod** | **82.1** | **82.3** |
| **Gwrywod** | **78.3** | **78.8** |

Disgwyliad oes iach

| | Cymru | BIPBC |
|---|---|---|
| **Benywod** | **62.4** | **65.2** |
| **Gwrywod** | **61.5** | **63.9** |

Ffynhonnell: Disgwyliadau iechyd yng Nghymru gyda'r bwlch anghydraddoldeb - Iechyd Cyhoeddus Cymru

Data: Disgwyliad oes ar adeg geni:

## Diffiniadau Allweddol

### System

Set o gydrannau cyffyrddadwy ac anghyffyrddadwy (pobl, gwasanaethau, perthnasoedd a gwerthoedd) sy'n gweithio'n gydgysylltiedig gyda'i gilydd ac yn gweithredu fel cyfanrwydd. Yn aml iawn, disgrifir systemau wrth drafod problemau cymdeithasol a sut gall sefydliadau ymddwyn gyda'i gilydd.

### Newid Systemau

Addasir perthnasoedd rhwng cydrannau gwahanol yn y system er mwyn cyflawni deilliannau a nodau newydd.

### Cymhlethdod

Mae cymhlethdod yn cyfeirio at system anrhagweladwy â nifer o rannau sy'n rhyngweithio, sy'n golygu na cheir llinell syth rhwng achos ac effaith.

### Meddylfryd Systemau

Dull o ddeall cymhlethdod trwy ystyried fod pethau'n rhan o'r cyfan yn hytrach na chyfres o ddigwyddiadau unigol.

### Arweinyddiaeth System

Set o sgiliau a chymwyseddau y gall unrhyw sefydliad neu unigolyn eu defnyddio i ysgogi, galluogi a chefnogi'r broses o newid ar lefel system gyfan.  Mae arweinyddiaeth system yn ymwneud â sut gallwch chi arwain a dylanwadu pan na fyddwch chi'n gyfrifol, yn enwedig wrth weithio ar draws sefydliadau neu sectorau. Mae perthnasoedd da yn elfen allweddol o arweinyddiaeth system fel y gallwn ni gydweithio i gyflawni uchelgais a rennir.

### Mapio Systemau

Offeryn sy'n cael ei ddefnyddio'n aml mewn dulliau system gyfan. Diben ymarferion mapio systemau yw:

- **Darlunio elfennau'r system, yn cynnwys perthnasoedd a dolenni adborth**
- **Symleiddio cymhlethdodau a galluogi rhanddeiliaid i weld y darlun cyfan a sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth a rennir**
- **Nodi pwyntiau dylanwadu neu ymyrryd o'r mapiau**
- **Esbonio achosion yr anhawster iechyd cyhoeddus - yn cynnwys elfennau cyd-ddibynnol, y perthnasoedd rhwng elfennau ac unrhyw ddolenni adborth**
- **Sicrhau dealltwriaeth a rennir o'r broblem rhwng rhanddeiliaid**
- **Nodi pwyntiau gweithredu neu ddylanwadau i ymyrryd a newid y system bresennol**
- **Helpu rhanddeiliaid i nodi eu lle yn y system**
- **Ystyried canlyniadau anfwriadol posibl camau gweithredu**



Profiadau cadarnhaol gweithgarwch corfforol
Effaith Covid-19 e.e. ynysu a phryder cymdeithasol
Addysg (meddygol, nyrsio, iechyd a gofal cymdeithasol)
Gwybodaeth anghywir am fanteision gwneud ymarfer corff a bwyta'n iach
Cymhelliant i symud
Cyfleoedd gwaith
Costau byw
Polisïau a seilwaith cefnogol
Blaenoriaethau sefydliadol
Gofynion anghenion iechyd meddwl yn ystod beichiogrwydd
Cymorth ar gael mewn ysbytai ac yn y gymuned
Addysg cyn ac ar ôl cenhedlu
Iechyd meddwl a llesiant
Defnyddio banciau bwyd
Incwm gwario
Patrymau gwaith
Derbyn bwydo ar y fron (normau cymdeithasol)
Manteision / Hwylustder canfyddedig bwydo fformiwla
Y nifer sy'n bwydo ar y fron ac yn parhau i wneud hynny
Pwysau iach yn ystod beichiogrwydd
Bwyta er cysur
Mynediad at / Argaeledd bwyd iach
Ymrwymiadau teuluol
Galw am gyfleustra
Mynediad at / Argaeledd bwyd nad yw'n iach / bwyd brys
Ansawdd Diet
Cyfleoedd hyfforddi gweithgarwch corfforol ar gyfer athrawon
Athrawon yn blaenoriaethu gweithgarwch corfforol
Ansawdd seilwaith corfforol
Cyfrannu at weithgarwch corfforol
Pwysau
Modelau rôl rhieni / Amgylchedd bwyd cartref cadarnhaol
Sgiliau coginio
Maint dogn
Dealltwriaeth o'r manteision ar gyfer addysg a llesiant
Profiadau cadarnhaol gweithgarwch corfforol
Teithio llesol
Diogelwch canfyddedig
Ansawdd cynnig bwyd ysgol
Pwysau cyfoedion i fwyta bwyd nad yw'n iach
Addysg
Ansawdd a chyfleoedd ar gyfer gweithgaredd corfforol yn yr ysgol
Canfyddiad o dderbynioldeb gan bobl ifanc
Cyfranogiad teuluoedd mewn gweithgarwch corfforol
Derbynioldeb opsiynau bwyd
Pwysau cystadleuol / amser sydd ar gael
Cymryd rhan mewn gweithgareddau cystadleuol ac anghystadleuol y tu allan i'r ysgol
Mynediad at wasanaethau / cyfleusterau / mannau gwyrdd / mannau glas priodol
Mynediad / fforddiadwyedd trafnidiaeth
Fforddiadwyedd gweithgareddau

# 2. Y Cyfleoedd Sy'n Deillio o Weithredu Dull System Gyfan

**Mae gweithredu dull system yn cynnig cyfleoedd i'r system a'r sefydliadau sy'n gweithio yn y system. Mae problemau cymhleth yn golygu bod angen dull system gyfan sy'n cynnwys nifer o randdeiliaid a sectorau.  Mae angen ymyrryd â'r system i newid ei dull o weithredu er mwyn mynd i'r afael â'r broblem.**

Mae dull system gyfan yn tystiolaethu'r daith trwy broblem gymhleth ac yn galluogi amlygu'r deilliannau.  Mae'r dull yn caniatáu ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid ehangach, y buasai llawer ohonynt wedi methu â chydnabod eu rôl yn y broblem gymhleth ehangach.  Mewn dull system gyfan, nid oes sefydliad unigol sy'n atebol am broblem gymhleth ac nid oes unrhyw sefydliad unigol yn arwain.



Yn achos dull system gyfan, mae angen:

- **Arweinyddiaeth gref yn y system drwyddi draw trwy gyfrwng partneriaid sy'n cyfranogi'n weithgar**
- **Iaith gyson i hybu dull unedig**
- **Dealltwriaeth a rennir o'r broblem / anhawster**
- **Ymgysylltu ystyrlon â chymunedau lleol**
- **Cydnabod bod deilliannau yn cael eu dylanwadu gan system gymhleth ac addasol sy'n cynnwys cydrannau sy'n rhyngweithio**
- **Strwythurau llywodraethu cadarn a gwerthoedd a rennir**
- **Dysgu gwersi, myfyrio a mireinio yn rheolaidd**
- **Blaengareddau sy'n cael eu hymgorffori yn y polisi ehangach**

## Dulliau System Gyfan Cenedlaethol A Rhanbarthol

Mae iechyd cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio ar lefelau gwahanol i hybu ac amddiffyn iechyd a lles y cyhoedd.

Mae rhaglenni gwaith iechyd cyhoeddus ar lefel genedlaethol yn cael eu cynnal ledled Cymru.  Fel arfer, bydd gwaith rhanbarthol ym maes iechyd cyhoeddus yn cyd-fynd ag ardal ddaearyddol Bwrdd Iechyd.  Yn achos yr adroddiad hwn, mae rhaglenni gwaith rhanbarthol yn gweithredu ledled ardal Gogledd Cymru. Gall rhywfaint o waith rhanbarthol gael ei ddylanwadu gan waith cenedlaethol, a bydd angen gweithredu ar y lefel leol bob amser (bydd hynny'n aml iawn ar lefelau awdurdodau lleol neu gymunedau llai megis ward etholiadol).




## Pwysau Iach: Dull System Gyfan Yng Ngogledd Cymru

Pwysau Iach: Cymru Iach (PICI) yw strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru i atal a lleihau gordewdra yng Nghymru trwy gyfrwng dull system gyfan.  Lansiwyd y strategaeth 10 mlynedd hon yn 2019, ac mae'r sylw pennaf ar arweinyddiaeth, cydweithredu a chyfranogiad a galluogi gweithredu'n lleol.

Yng Ngogledd Cymru, rydym yn mynd ati i weithredu dull system gyfan trwy gydweithio â phawb sy'n dylanwadu ar y bwyd y byddwn yn ei fwyta a pha mor actif ydym ni.  Yng Ngogledd Cymru, rydym yn dilyn y 'Dull Naw Cam ar gyfer Ymagweddau System Gyfan yng Nghymru'.  Mae'r Tîm Dull System Gyfan o Ymdrin â Phwysau Iach yn BIPBC yn arwain y dull hwn ac yn cydweithio â phartneriaid o bob cwr o Ogledd Cymru.



## Mapio Achosion Gordewdra

Yng Ngogledd Cymru, rydym wedi defnyddio offeryn o'r enw **'mapio systemau'** i gydweithio â phartneriaid i fapio achosion pwysau nad yw'n iach.  Mae'r dull hwn wedi sicrhau bod gennym ystod o arbenigwyr sydd â chefndiroedd gwahanol a phrofiad o ymgysylltu â chymunedau yng Ngogledd Cymru i'n helpu i nodi achosion pwysau nad yw'n iach a sut mae'r achosion hyn yn dylanwadu ar ei gilydd.

Fe wnaeth y broses hon ganiatáu i bartneriaid nodi'r heriau go iawn y bydd pobl Gogledd Cymru yn eu profi wrth geisio bwyta'n iachach a symud mwy, yn cynnwys costau bwyd, cludiant cyhoeddus, ac amser i goginio a symud mwy.  Nododd y broses hon sut mae'r argyfwng costau byw yn effeithio'n sylweddol ar y dewisiadau sydd ar gael i deuluoedd yng Ngogledd Cymru pan fyddant yn ceisio bwyta'n dda a bod yn actif. Mae'r map ar dudalen naw yn amlinellu 94 achos pwysau nad yw'n iach yng Ngogledd Cymru a nodwyd yn ystod y gweithdai i fapio'r system.

## Pennu'r Blaenoriaethau

Ar ôl mapio'r system, daeth partneriaid o bob rhan o'r system ynghyd unwaith eto i gytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer y Dull System Gyfan o Ymdrin â Phwysau Iach yng Ngogledd Cymru.

**Is-systemau blaenoriaethol Gogledd Cymru:**

- **Mynediad at fwyd fforddiadwy ac iach**
- **Bwyta'n dda a bod yn actif mewn ysgolion**
- **Bwyta'n dda a bod yn actif mewn gweithleoedd**

Bydd iechyd meddwl a llesiant meddyliol, anghyfartaleddau iechyd a'r newid yn yr hinsawdd yn edeifion euraidd yn y tair is-system flaenoriaethol drwyddynt draw.



Dim ond pedwar oedolyn o bob deg sydd â phwysau corfforol iach

Ffynhonnell: CMP 2021/2022



Mae 2 o bob 7 plentyn 4-5 oed yn byw gyda gorbwysedd neu ordewdra

Ffynhonnell: CMP 2018/2019




Mae'r gyfradd gorbwysedd a gordewdra 36% yn uwch yn yr ardaloedd mwy difreintiedig nag yn yr ardaloedd mwyaf breintiedig

## Cytuno Ar Gamau Gweithredu

Yn y gweithdy pennu blaenoriaethau, gofynnwyd i randdeiliaid lunio Cofrestr Gweithredu'r System gan ddefnyddio'r Model Graddfeydd Gweithredu[3] ynghylch pob un o'r tair thema. Fe wnaeth y Model Graddfeydd Gweithredu helpu'r cyfranogwyr i ystyried sut gallant droi'r fantol o system sy'n hybu pwysau afiach (obesogenaidd, diagram a) i un sy'n hybu iechyd (diagram b).

Gofynnwyd iddynt nodi mannau ble dylid ymyrryd â'r system i sicrhau eu bod yn ystyried newidiadau hirdymor cynaliadwy i'r system. Defnyddiwyd y camau gweithredu a ystyriwyd yn y gweithdy i greu gweithredoedd yr is-systemau.




## Gweithredoedd Yr Is-systemau

### Mynediad at fwyd fforddiadwy ac iach

- **Sicrhau bod opsiynau bwyd a diod cynaliadwy, iach a fforddiadwy ar gael yn sefydliadau'r sector cyhoeddus**
- **Lleihau mynediad at fusnesau sy'n gwerthu cludfwyd poeth**
- **Gwella mynediad at fwyd fforddiadwy ac iach**

### Bwyta'n dda a bod yn actif mewn ysgolion

- **Cynorthwyo i ddarparu bwyd iach o ffynonellau lleol mewn ysgolion**
- **Ymgorffori gweithgarwch corfforol trwy gydol y diwrnod ysgol**
- **Cynorthwyo i weithredu'r cwricwlwm newydd ynghylch bwyta'n iach a bod yn actif yn ystod y diwrnod ysgol**

### Bwyta'n dda a bod yn actif mewn gweithleoedd

- **Cynorthwyo i ddarparu bwyd iach o ffynonellau lleol mewn gweithleoedd**
- **Ymgorffori gweithgarwch corfforol trwy gydol y diwrnod gwaith**
- **Cynorthwyo i weithredu'r Siarter Teithio Iach**

Camau gweithredu'r is-systemau hyn fydd y blaenoriaethau o ran newid yn rhaglen waith ein dull system gyfan o ymdrin â phwysau iach yng Ngogledd Cymru.

# Iechyd Meddwl A Lles Meddyliol: Dull System Gyfan Yng Ngogledd Cymru

Fel y gwnaethom gydnabod yn ein hadroddiad blynyddol diwethaf ynghylch iechyd cyhoeddus, mae ein hiechyd meddwl a'n lles meddyliol yn deillio o ystod eang o ffactorau.  Maent yn cynnwys ein genynnau, ein ffyrdd o fyw, ein teulu a pherthnasoedd a rhwydweithiau yn y gymuned.  Cânt hefyd eu dylanwadu gan benderfynyddion ehangach megis ein gwaith, addysg, mynediad at wasanaethau, a'n hamgylcheddau adeiledig a naturiol.

Roedd diwygio Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn cynnig cyfle i:

- **ail-gydbwyso'r sylw i fynd i'r afael â chanlyniadau iechyd meddwl a lles trwy gydol cwrs bywyd gan ystyried ffactorau risg ac amddiffynnol o'r blynyddoedd cynnar hyd at blant oedran ysgol, oedolion o oedran gweithio, a phobl hŷ n**
- **blaenoriaethu camau gweithredu yn ymwneud â gwaith atal sylfaenol ac eilaidd, ymyriadau cynharach a defnyddio asedau cymunedol i gryfhau cadernid**
- **nodi anghyfartaleddau o ran deilliannau iechyd meddwl a lles meddyliol a mynd i'r afael â hwy**
- **datblygu dull gweithredu gwahanol, diwylliant a naratif cyffredin i gryfhau ymddiriedaeth rhwng gwahanol rannau o'r system, yn cynnwys arweinyddiaeth ddirprwyedig**

Er mwyn hwyluso newid o ran elfennau 'beth' a 'sut' I ddatblygu'r Strategaeth newydd, cynhaliwyd pedwar gweithdy ar gyfer partneriaid yn 2022/23. Fe wnaeth pob gweithdy ychwanegu at ganlyniadau'r gweithdy blaenorol, ac fe wnaethant gynnig amser a chyfleoedd i sefydliadau sy'n bartneriaid ar draws y sectorau, yn cynnwys Grwpiau Eirioli ym maes Iechyd Meddwl, i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin ynghylch yr heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n gysylltiedig â gwella iechyd meddwl a lles meddyliol y boblogaeth. Roedd hyn yn cynnwys nodi'r meysydd ble gellid sicrhau'r dylanwad mwyaf trwy gydweithio.

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021




Dywed 81% o'r bobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru fod eu hiechyd yn dda neu'n dda iawn

Y Pum Ffordd at Les



Dros y 12 mis nesaf, bydd newid sylweddol yn digwydd o ran sut caiff pobl Gogledd Cymru eu cynorthwyo i gynnal eu hiechyd meddwl a'u lles meddyliol.  Bydd partneriaid yn troi eu sylw at:

- **Sicrhau bob pob plentyn yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd**
- **Atal ac ymyrryd yn gynnar**
- **Sicrhau bod pobl Gogledd Cymru yn cael y cymorth priodol y tro cyntaf y byddant yn gofyn am gymorth**

Cyflawnir hyn trwy gydweithio â phartneriaid ehangach i nodi eu rôl yn y system a sut gallant gyflawni newid er mwyn sicrhau bod poblogaeth Gogledd Cymru yn byw bywyd iach a boddhaus.



# Cyrhaeddiad Addysgol: Dull System Gyfan Ledled Cymru (Yn Cael Ei Arwain Gan Iechyd Cyhoeddus Cymru)

Mae cyflawniad addysgol yn benderfynydd allweddol ynghylch iechyd, llesiant a thegwch o ran iechyd ac mae'n cyfrannu at nodau llesiant eraill, er enghraifft, Cymru Ffyniannus. Mae'r Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) yn defnyddio dull system gyfan i archwilio cyfleoedd i gyfrannu at leihau'r bwlch anfantais economaidd-gymdeithasol mewn perthynas â chyrhaeddiad addysgol.

Er mwyn deall y berthynas rhwng achosion a chanlyniadau ffactorau sy'n dylanwadu ar gyflawniad addysgol yng Nghymru, mae ICC wedi cynnal ymarfer Mapio Systemau Cyfranogol trwy gyfres o weithdai gyda chyfranogwyr o'r sectorau addysg ac iechyd. Gyda chymorth gan weithwyr ieuenctid, cynhaliwyd gweithdai ar wahân hefyd gyda phobl ifanc i ddilysu'r ffactorau a nodwyd yn ystod yr ymarfer mapio.

Trwy'r dull hwn, mae ICC wedi sicrhau sawl safbwynt, wedi esbonio cymhlethdod y sefyllfa ac mae'n gallu deall a disgrifio'n well sut mae ffactorau plentyn a theulu, amgylchedd dysgu'r cartref, amgylchedd yr ysgol a ffactorau cymunedol, cymdeithasol ac economaidd ehangach yn cydberthyn ac yn dylanwadu ar ganlyniadau addysgol.





Mae canran y disgyblion yng Nghymru sy'n cyflawni pump neu ragor o raddau TGAU da yn 33 pwynt canran yn is yn achos myfyrwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim

Y camau nesaf fydd cydweithio ag eraill, yn cynnwys Anogwyr Cyrhaeddiad (penaethiaid ysgolion sy'n gweithio i fynd i'r afael ag effaith tlodi), i ddefnyddio'r map o systemau i ystyried sut gall y polisi Ysgolion Bro ddylanwadu ar y bwlch o ran cyrhaeddiad.  Byddant hefyd yn defnyddio'r map i ysgogi cydweithwyr eraill ym maes iechyd cyhoeddus i archwilio'r gydberthynas rhwng rhaglenni presennol a'r bwlch o ran cyrhaeddiad addysgol, ac ystyried ble gellir dylanwadu er mwyn cryfhau ein hymdrechion yn y dyfodol.

Mae partneriaid yng Ngogledd Cymru wedi bod yn nodi ystod o achosion cyrhaeddiad addysgol gwael ar sail dirnadaeth a phrofiadau teuluoedd yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn cynnwys:

- **Mynediad at wasanaethau gofal plant rhagorol**
- **Cymorth i rieni**
- **Anghenion o ran iaith a lleferydd**

Bydd BIPBC yn parhau i fod yn bartner allweddol yn y gwaith hwn a bydd yn cefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Gogledd Cymru i weithredu'r camau a nodwyd ar y lefel genedlaethol i sicrhau y gwnaiff holl blant Gogledd Cymru gyflawni eu potensial yn llawn. Hefyd, bydd cysylltiad agos rhwng y gwaith hwn a Siarter Plant BIPBC a lansiwyd yn ddiweddar ac a ddatblygwyd â chymorth 2,400 o blant a phobl ifanc o bob cwr o Ogledd Cymru.



Ffynhonnell: Inequalities in GCSE results across England and Wales, y Sefydliad Polisi Addysg a Sefydliad Nuffield

| | Prydau ysgol am ddim | Disgyblion eraill |
|---|---|---|
| Canran y disgyblion sy'n cyflawni 5 neu ragor o raddau TGAU da | 28 | 61 |

# 3. Dulliau System Gyfan Ar Y Lefel Leol

## Dull System Gyfan yn Wrecsam – Strategaeth Iechyd a Lles CEF Berwyn

**Mae CEF Berwyn yn garchar hyfforddi ac ailsefydlu ar gyfer gwrywod yn Wrecsam, Gogledd Cymru, ac mae oddeutu 1,900 o garcharorion yno. Hwn yw carchar mwyaf y DU.**

Mae pobl yn y system cyfiawnder troseddol (gan gynnwys pobl mewn carchardai, y rhai ar brawf a phobl mewn mannau cadw eraill) yn fwy tebygol o brofi baich uwch o ran salwch cronig, salwch meddwl a phroblemau camddefnyddio sylweddau (cyffuriau ac alcohol) na'r cyhoedd yn gyffredinol. Yn aml iawn, bydd troseddwyr yn hanu o gymunedau sydd eisoes ar y cyrion yn y gymuned ehangach. Trwy wella iechyd a lles pobl sydd mewn carchardai, ceir cyfle i wella bywydau'r unigolyn, ei deulu ar gymuned ehangach. Mae hefyd yn cynnig cyfle i leihau aildroseddu trwy fynd i'r afael â'r achosion sydd wrth wraidd ymddygiad troseddol.

Er mwyn manteisio'n llawn ar y cyfle hwn, mae CEF Berwyn wedi ymgymryd â dull system gyfan y carchar o ymdrin â gwella iechyd a lles. Yn 2022, lansiwyd Strategaeth Iechyd a Lles er mwyn creu amgylchedd sy'n galluogi dynion sy'n byw yn CEF Berwyn i wneud dewisiadau iachach yn haws, ac mae hefyd yn ystyried sut gallwn gynorthwyo staff a theuluoedd carcharorion i wneud dewisiadau iachach hefyd.



**Mae'r strategaeth uchelgeisiol yn cwmpasu:**

- **Iechyd meddwl a lles meddyliol**
- **Bwyta'n dda a bod yn actif**
- **Bod yn ddi-fwg**
- **Defnyddio cyffuriau ac alcohol**
- **Iechyd y geg**
- **Iechyd rhywiol**
- **Sgrinio ac imiwneiddio**

Mae ymgymryd â dull system gyfan y carchar yn golygu bod angen i bawb yn y carchar greu lle iachach i bobl fyw a gweithio ac i'r sawl sy'n ymweld â'r lle.  Caiff y strategaeth ei goruchwylio gan grŵp amlddisgyblaethol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o CEF Berwyn, Iechyd Cyhoeddus BIPBC, Gofal Iechyd BIPBC, Cymdeithas Swyddogion y Carchardai, Novus Cambria, Barnardo's, Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a chynrychiolwyr y carcharorion.

Mae rhaglen hyfforddi'r hyfforddwyr ym maes hunanladdiad wedi bod yn un o lwyddiannau allweddol y strategaeth. Yn yr hyfforddiant hwnnw, fe wnaeth carcharorion a staff fynychu'r hyfforddiant gyda'i gilydd.  Roedd y dull hwn yn cydnabod rôl pawb o ran atal hunanladdiad yn y carchar ac yn y gymuned ehangach.  Mae carcharorion wedi canmol y dull hwn yn arw, oherwydd mae wedi gwella'r perthnasoedd rhwng staff a charcharorion ac wedi galluogi'r ddau grŵp i nodi profiadau bywyd a rennir ganddynt mewn perthynas ag iechyd meddwl a lles meddyliol.

**"Yn fy marn i, roedd hi'n fuddiol cyfranogi yn yr hyfforddiant gyda swyddogion y carchar. Fe wnaeth fy helpu i i ddeall pethau o'u safbwynt hwy a'u helpu hwythau i ddeall pethau o'n safbwynt ni".**

**Carcharor yn CEF Berwyn**

# Dull System Gyfan yn Sir y Fflint - Cynlluniau Creu Lleoedd

Mae Creu Lleoedd yn ddull sy'n ystyried sut bydd pobl yn defnyddio gwasanaethau, yn byw, yn gweithio, yn cymdeithasu ac yn symud yn eu hardal leol, a'i nod yw creu cymunedau cynhwysol, cysylltiedig a ffyniannus. Mae Creu Lleoedd yn ceisio gwella a thrawsnewid mannau lleol trwy gydweithredu i ddeall anghenion a dyheadau pobl a busnesau lleol a rhanddeiliaid ehangach.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cydlynu datblygiad Cynlluniau Creu Lleoedd ar ran ystod o bartneriaid yn ystod y ddwy flynedd nesaf, mewn saith canol tref (Treffynnon, Shotton, Bwcle, Cei Connah, yr Wyddgrug, y Fflint a Queensferry). Bydd y gwaith hwn yn cychwyn i ddechrau yn Nhreffynnon, Shotton a Bwcle.

**Y daith Creu Lleoedd hyd yn hyn:**

- **Yn achos Creu Lleoedd, mae angen 'dull system gyfan' sy'n cynnwys ystod eang o randdeiliaid proffesiynol a chymunedol yn cydweithio i ddeall sut mae cymunedau yn meddwl (pen), yn teimlo (calon), a beth maent yn dymuno'i gael gan eu hardal leol (dwylo).**

Gan ddilyn Canllawiau Creu Lleoedd Comisiwn Dylunio Cymru (2020), mae Sir y Fflint yn dilyn proses wyth cam i lywio datblygiad cynlluniau lleol a'u gweithredu.




Mae Sir y Fflint wedi cwblhau cam un a dau o'r broses yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae hyn wedi cynnwys casglu a dehongli data ynghylch iechyd a lles, yr economi, diwylliant, adfywio a symud. Yn ogystal â dadansoddi data, casglwyd cipolygon lleol trwy gyfrwng arolwg digidol ar-lein a chyfres o ddigwyddiadau ymgynghori wyneb yn wyneb, a chafwyd dros 5,000 o ymatebion yn sgil hynny. Mae arweinwyr y system wedi cyfranogi trwy gyfrwng 'Grŵp Lleoedd' i ystyried canfyddiadau'r ymgynghori.

Trwy gydweithio ag arweinwyr o bob rhan o'r system, hyderir y bydd atebion i'r heriau a nodwyd trwy ymgynghori â'r gymuned yn sicrhau yr ystyrir cymhlethdod materion ac y cynigir atebion cynaliadwy tymor hir i sicrhau bod trefi yn Sir y Fflint yn fannau ble bydd pobl yn cael eu cynorthwyo i wneud dewisiadau iach.

Ffynhonnell: StatsCymru, data ynghylch y flwyddyn a ddaeth i ben yn Rhagfyr 2022.



Mae 75.3% o oedolion Gogledd Cymru yn gyflogedig. Mae'r gyfradd ddiweithdra yn 2.0%.

**1** Ymgynghoriadau digidol ac wyneb yn wyneb i gael eu cydlynu gan Gyngor Sir y Fflint

**2** Grŵp llywio amlasiantaethol i ystyried canfyddiadau'r ymgynghoriad

**3** Nodi themâu a blaenoriaethau allweddol

**4** Datblygu Cynllun Creu Lleoedd ar gyfer Canol y Dref

**5** Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru

**6** Y Cyngor Sir i gymeradwyo'r cynllun

**7** Cymeradwyo'r cynllun ymysg rhanddeiliaid allweddol

**8** Cyflwyno'r cynllun ochr yn ochr â rhanddeiliaid allweddol

## Dull System Gyfan Yn Sir Ddinbych - Archfarchnad Gymdeithasol Sir Ddinbych

Mae gweithredu dull system gyfan o ymdrin â lleihau tlodi bwyd yn gofyn am ddulliau sy'n sicrhau bod bwyd yn fforddiadwy, yn lleihau hyd y gadwyn gyflenwi ac yn mynd i'r afael â gwastraff bwyd.  Yn 2021, sefydlwyd **COGOG**, sef cynllun Archfarchnad Gymdeithasol Sir Ddinbych, er mwyn cydweithio i weithredu prosiectau bwyd cynaliadwy ledled y sir. Nod COGOG yw cynyddu a gwella argaeledd bwyd lleol, iach a fforddiadwy gan leiafu gwastraff bwyd ac ychwanegu gwerth at wasanaethau sydd eisoes yn bodoli ac asedau lleol sy'n ymwneud â bwyd. Trwy gynnig opsiwn bwyd amgen a chynaliadwy sy'n seiliedig ar ailddosbarthu bwyd sydd dros ben, mae'n ceisio cefnogi dull o wella iechyd a lles a lleihau anghyfartaleddau o ran mynediad at fwyd mewn modd sy'n canolbwyntio ar anghenion cymunedau.

Arweiniwyd prosiect peilot 2022-23 gan Gyngor Sir Ddinbych a chafodd ei ariannu gan BIPBC, a bu partneriaid o'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn rhan ohono. Roedd y prosiect yn ymwneud â gwasanaeth danfon prydau parod yn ardaloedd gwledig De Sir Ddinbych. Fe wnaeth Partneriaeth Cymuned De Sir Ddinbych (SDCP) redeg y gwasanaeth gan gydweithredu â Well-Fed, a rhwng Medi 2022 a Mawrth 2023, fe wnaeth 273 o gwsmeriaid yn Ne Sir Ddinbych ddefnyddio'r gwasanaeth i brynu 350 o brydau parod.

Yn ogystal â'r gwasanaeth danfon bwyd, sefydlwyd oergelloedd cymunedol i ddarparu prydau parod maethlon a fforddiadwy mewn pum lleoliad gwledig yn Ne a Chanol Sir Ddinbych, yn cynnwys Canolfan Ni yng Nghorwen a Neuadd y Farchnad yn Rhuthun.

BWYD LLEOL FFORDDIADWY I BAWB

COGOG

LOCAL AFFORDABLE FOOD FOR ALL

**"Mae'n wych fod prydau blasus, iach a fforddiadwy ar gael mor rhwydd ac yn cael eu danfon at fy nrws".**

**Georgina, un o drigolion Corwen**



Dywedodd y gwasanaeth danfon a chwsmeriaid y gwasanaeth adwerthu fod mynediad at fwyd fforddiadwy wedi gwella, a bod rhywfaint o welliant o ran mynediad at fwyd maethlon wedi deillio o'r prydau parod. Yn sgil y prosiect peilot, llwyddwyd i atal cyfanswm o 455kg o fwyd dros ben rhag cael ei anfon fel gwastraff i safleoedd tirlenwi. Er bod y gwasanaeth ar gael i bawb, roedd mwyafrif y cwsmeriaid yn perthyn i grŵp demograffig hŷn (60 mlwydd oed neu'n hŷn), ac ystyrid mai unigolion sy'n profi anawsterau a ran cludiant a llai o fynediad at wasanaethau a elwodd fwyaf yn sgil y prosiect.

**"Rwy'n falch fod y prydau ar gael. Maent y fuddiol iawn i'r gymuned.... maent wedi helpu yn sgil y cynnydd yng nghostau trydan, yn enwedig pan fydd unigolyn yn coginio iddo'i hun".**

Un o drigolion Corwen

## Dull System Gyfan Yng Nghonwy - Bwyd o Bwys / Food Matters

Mae dull system gyfan o fynd i'r afael â gordewdra yn cynnwys argaeledd prydau ysgol iach a rhaglenni bwyd ar gyfer ysgolion sy'n darparu addysg ynghylch maeth, sgiliau bwyd a llythrennedd. Mae darparu prydau ysgol yn cynnig nifer o fuddion, yn cynnwys cynorthwyo ag iechyd a datblygiad plant, lleihau anghydraddoldebau iechyd a chynorthwyo â dysgu a chyrhaeddiad[4] . Gan ymateb i heriau costau byw a thlodi bwyd, yn 2022, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi y byddai'r holl blant yn ysgolion cynradd Cymru yn cael prydau ysgol am ddim erbyn 2024. Nod y polisi yw dileu llwgu ymhlith plant, yn ogystal â hybu bwyta'n iach a gwella ymddygiad plant a'u hymddygiad yn yr ysgol.

Mewn ymateb i'r polisi newydd, fe wnaeth Gwasanaethau Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ddatblygu adnodd digidol arloesol o'r enw Bwyd o Bwys i hybu a chefnogi'r dull system gyfan o ymdrin â phwysau iach. Nod Bwyd o Bwys yw hyrwyddo gwerth maethol prydau ysgol ac annog disgyblion a rhieni i fanteisio ar y cynnig, a datblygu gwybodaeth a sgiliau plant ym maes coginio a chreu prydau iach a maethlon mewn modd sy'n ddifyr, yn ddiogel ac yn ddiddorol iawn. Mae'r wybodaeth a'r sgiliau a ddatblygir trwy gyfrwng Bwyd o Bwys yn hybu proffil a phwysigrwydd diet iach ac yn cynnig sylfaen ar gyfer taith gadarnhaol gyda bwyd iach a maethlon trwy gydol cwrs bywyd.

Gan ddefnyddio nawdd gan BIPBC, mae ysgolion wedi cael cymorth i brynu offer a theclynnau cynhyrchu a choginio bwyd i gynorthwyo i gyflawni'r rhaglen. Mae adnoddau addysgol wedi'u llunio i annog plant i ddatblygu sgiliau a dewisiadau yn ymwneud â bwyd iach, a'r nod yw dod â disgyblion, arlwywyr ysgolion ac athrawon ynghyd i hyrwyddo bwyta'n iach mewn amgylcheddau ysgolion. Mae'r rhaglen yn grymuso disgyblion i ddod yn llysgenhadon Bwyd o Bwys i hybu gwerth prydau ysgol ac annog pob disgybl yn eu hysgolion i elwa o brydau ysgol a'u mwynhau.



Roedd yr adnodd digidol dwyieithog yn cynnwys fideos, cynlluniau gwersi ac adnoddau i gynorthwyo athrawon i gydlynu a hwyluso sesiynau ymarferol gyda'u disgyblion. Roedd y pynciau a gafodd sylw yn adnodd bwyd o bwys yn cynnwys cyflwyniad ynghylch y grwpiau bwyd sylfaenol a'r Canllaw Bwyta'n Dda, sylw i nodi brasterau a siwgrau cuddiedig mewn bwydydd, a hylendid bwyd, gan gynnwys storio a pharatoi bwyd. Cynorthwywyd disgyblion hefyd i ymchwilio i'w bwydlen prydau ysgol ac i hyrwyddo prydau ysgol yn eu hysgol. Yn unol â gofynion cwricwlwm newydd Cymru, fe wnaeth Bwyd o Bwys hyrwyddo sgiliau entrepreneuraidd disgyblion mewn perthynas â bwyd trwy weithio'n gydweithredol i drefnu digwyddiadau a gweithgareddau i hyrwyddo prydau ysgol yn eu hysgol.

**"Mae'r adborth a gafwyd gan ysgolion wedi bod yn hynod o gadarnhaol, a dywed yr athrawon fod yr adnoddau yn rhagorol ac yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru... maent yn edrych ymlaen at gael cynnwys y rhaglen yng nghwricwlwm eu hysgol".**

**Nia Williams, Swyddog Iechyd a Lles Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**



Mae 45% o bobl ifanc 11-16 oed Conwy yn bwyta un dogn neu ragor o ffrwythau a llysiau bob dydd.

Ffynhonnell: Data Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion ar gyfer Dangosfwrdd Iechyd a Lles Plant 2021

## Dull System Gyfan Yng Ngwynedd - Prosiect Skyline Ym Mlaenau Ffestiniog

Mae'r Dref Werdd yn wasanaeth presgripsiynau cymdeithasol sy'n defnyddio dull system gyfan i ymdrin ag iechyd a lles trwy gyfrwng cynlluniau gwyrdd.  Mae prosiectau yn helpu teuluoedd i ddefnyddio llai o ynni, llywio a hyfforddi unigolion i ennill cymwysterau ynghylch cadwraeth, a gwella iechyd meddwl a llesiant meddyliol pobl trwy dreulio mwy o amser y tu allan. Mae'n enghraifft wych o allu presgripsiynau cymdeithasol gwyrdd i wella eich iechyd meddwl a'ch lles meddyliol ac yn eich addysgu am yr amgylchedd a'r ardal ble'r ydych yn byw a phwysigrwydd diogelu hynny.

Mae Skyline yn brosiect ym Mlaenau Ffestiniog a fydd yn cyfrannu at wella arlwy'r Dref Werdd.  Mae'n ymwneud ag ailgysylltu cymunedau â thir y cyhoedd fel y gall cymunedau reoli'r tir mewn modd sy'n sicrhau buddion amgylcheddol, iechyd, cymdeithasol ac economaidd. Nod y prosiect yw dod â bwyd, tanwydd a gwybodaeth yn ôl i'r cymunedau sy'n ei ddefnyddio i'w galluogi i ffynnu. Ynghyd â'r gymuned leol, maent yn sefydlu gardd farchnad ymarferol ac effeithlon, busnes coed tân cynaliadwy a fforddiadwy, a chanolfan sgiliau traddodiadol i addysgu hen sgiliau i gymunedau newydd.

Mae nawdd prosiect Skyline wedi galluogi'r Dref Wen i ddatblygu llecynnau mawr o dir diffaith. Roedd un llecyn yn destun pryder penodol yn sgil amrywiaeth o adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu yno. Mae tai o amgylch y llecyn hwn ac mae datblygu'r safle wedi gwneud i bobl deimlo'n fwy diogel yn eu cymuned a gallant gyfrannu at ddatblygu'r llecyn gyda'i gilydd er budd eu cymuned. Bwriedir i'r safle fod yn hunangynhaliol yn y tymor hir trwy osod paneli solar a thyrbin gwynt bychan yno.

ydrefwerdd





Mae'r nawdd wedi caniatáu adeiladu cwt potiau mawr yno i'w ddefnyddio gan y gymuned fel y gallant ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth ynghylch tyfu bwyd a bydd hefyd yn cynnig lle cynnes yn ystod misoedd oerach. Bydd twnnel polythen yn cael ei osod yno ymhen ychydig wythnosau er mwyn tyfu llysiau a dail salad. Bwriedir eu gwerthu i fusnesau lleol a'u darparu i ysgolion lleol yn y tymor hir hefyd. Ar y safle, ceir llecyn cegin allanol ar gyfer y gymuned ble bydd croeso i bawb ddod i goginio, bwyta a chymdeithasu gyda'i gilydd.





Dywed 9% o bobl Gwynedd eu bod yn teimlo'n unig

Ffynhonnell: PHOF

## Dull System Gyfan Yn Ynys Môn - Prosiect PIPYN

Nodwyd mai Ynys Môn yw un o'r tair ardal yng Nghymru sydd â chyfraddau uchaf o blant sydd dros eu pwysau. Mae prosiect peilot PIPYN yn rhoi sylw i waith atal ac ymyrraeth gynnar, ac mae'n ceisio profi dulliau effeithiol o ymdrin â gwaith system gyfan gan gydweithredu ag ystod eang o randdeiliaid proffesiynol ledled y sectorau statudol a gwirfoddol a'r teuluoedd eu hunain i fynd i'r afael â phwysau afiach ymhlith plant.

Mae grŵp partneriaeth newydd wedi'i sefydlu i alluogi gweithredu ar y cyd yn y system gan roi sylw i gamau ataliol mewn perthynas â phwysau iach ledled y sir. Dyma amcanion allweddol y bartneriaeth:

- **Gwella ymwybyddiaeth partneriaid allweddol o ddull system gyfan**
- **Defnyddio a manteisio'n llawn ar asedau presennol yn Ynys Môn trwy fapio'r system a chydweddu**
- **Creu llais cyffredin er mwyn galluogi creu cyfleoedd a chynlluniau lleol i deuluoedd**

**Mae'r deilliannau allweddol yn cynnwys:**

- **Ymgysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid ehangach a'r cyhoedd i nodi anawsterau, heriau a bylchau**
- **Gweithdy mapio'r system er mwyn sicrhau dealltwriaeth well o broblem gymhleth cyfraddau uchel gorbwysedd ymhlith plant**
- **Mapio cyfleoedd ac adnoddau i sicrhau dealltwriaeth well o'r asedau iach sydd ar gael ac yn cael eu cynnig yn Ynys Môn**
- **Sefydlu Tîm Ymyriadau Cynorthwyo Teuluoedd i gynnig cymorth un ac un i deuluoedd**



## Ymgysylltu â Theuluoedd

**Gofynnwyd i rieni:**

**Beth yn eich barn chi y gellid / y dylid ei wneud i fynd i'r afael â'r ffaith fod plant yn pwyso mwy na'r hyn sy'n iach?**

**"Gweithgareddau am ddim yn yr ardaloedd lleol, annog plant i fod yn fwy egnïol a chynnal mwy o sesiynau addysg gorfforol yn yr ysgol a gweithgareddau am ddim wedi'r ysgol, yn enwedig yn sgil y ffaith nad yw rhai yn gallu fforddio talu am weithgareddau erbyn hyn efallai, yn sgil y cynnydd yn yr holl filiau".**

**Un elfen allweddol o'r prosiect yw ymgysylltu â theuluoedd lleol er mwyn deall beth ym marn rhieni sy'n achosi pwysau afiach.**

**Yn sgil trafodaethau ag 85 o rieni, nodwyd diffyg cyfleoedd rhad ac am ddim i fod yn actif, a gan ymateb i'r adborth hwn, mae 40 o sesiynau chwarae actif yn cael eu cynnal ledled Ynys Môn gan Môn Actif a'r Urdd.**



Amser heb oruchwyliaeth i blant gael fyrbryd
Oriau gwaith hir
Opsiynau cyflogaeth ar Ynys Môn
Gwybodaeth arbed arian (cost a storio)
Cymudo
Rôl modelau/dylanwadwyr enwog
Sgiliau i gynllunio a chyllideb
Canfyddiad pa mor ddrud yw bwydydd iach
Talwyd i werthu cynnyrch afiach
Ymrwymiadau amser rhieni/gofalwyr
Mynediad i siopau cyfleus
Cael casgliad o ryseitiau
Mynediad i barciau
Gallu/sgiliau i gynllunio bwyd ymlaen llaw
Sgiliau trefnu
Cymharu gwobrau gyda chyfoedion
Pris bwyd iach
Dewis rhieni o beth yw gwobr
Gweithgaredd corfforol (e.e. taith i'r parc) ddim yn cael ei ystyried yn wobr
Gofal plant yn defnyddio gwobrau afiach
Argaeledd cyllid awdurdodau lleol
Presenoldeb mewn gweithgareddau plant
Blaenoriaethu iechyd plant dros eu pen eu hunain
Iechyd meddwl a lles
Canfyddiad rhieni o blant yn uwch na phwysau iach
Gwobrau afiach i flynyddoedd cynnar
Argaeledd gweithgareddau dan arweiniad y gymuned
Mynediad at fwydydd afiach
Modelu rôl rhieni
Asedau cymunedol ddim yn cael eu defnyddio'n llawn
Bwyd afiach yn cael ei ystyried yn wobr
Gwobrau rhieni yn afiach
Siopau cyfleus heb opsiynau iach
Dealltwriaeth rhieni o fwyd iach
Bwydydd cyfleus yn afiach
Pwysau afiach yn y blynyddoedd cynnar ar Ynys Môn
Newid cenedlaethau mewn agweddau a rolau cartref
Gwledigrwydd
Ymwybyddiaeth o lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus
Opsiynau afiach adeg cinio
Bwyd afiach yn rhad a chyfleus
Costau byw
Ysgolion yn cael polisi bocs bwyd
Ffyrdd cul a strwythur tirwedd
Cost trafnidiaeth gyhoeddus
Diffyg dealltwriaeth o labeli bwyd
Argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus
Ysgolion yn blaenoriaethu bwyd iach
Amseru trafnidiaeth gyhoeddus
Perthynas ysgolion â theuluoedd
Ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth
Amlder y bysiau'n rhedeg y dydd
Mynediad i drafnidiaeth
Blaenoriaeth yn cael ei roi i'r economi mewn strategaeth leol dros iechyd gynllunio
Cynigion a hyrwyddiadau ar fwyd iach
Galw am lwybrau bysiau
Dwysedd opsiynau bwyd cyflym
Dylanwad Llywodraethwyr ysgol
Cyfraniadau i ymgynghoriadau cynllunio
Llwybrau bysiau
Teuluoedd sy'n berchen car
Mynediad i feiciau a sgwteri
Stigma ynghlwm â defnyddio'r bws
Aelodau cymunedol yn blaenoriaethu bwyd iach
Deddfwriaeth ar amgylchedd bwyd
Cymhelliant i ddefnyddio beiciau a sgwteri i deithio
Cost
Amlygiad o fwyd afiach
Cyflogaeth
Ymwybyddiaeth o lwybrau beicio
Cynnal a chadw llwybrau beicio presennol
Blaenoriaethau lleol
Mynediad i ardaloedd diogel i ddysgu a mwynhau
Hyder mewn defnyddio beiciau
Dysgu seiclo mewn ysgolion (blwyddyn 6)
Hyblygrwydd cwricwlwm ysgolion
Hyfforddiant ar gael i ddysgu seiclo
Gwobrau afiach
Mynediad at fwydydd afiach
Mynediad i drafnidiaeth

## Heriau Ymgymryd Â Dull System Gyfan – Canlyniadau Anfwriadol

Oherwydd yr ystod o broblemau cydgysylltiedig sy’n dylanwadu ar broblem, wrth weithredu dull system gyfan, mae’n allweddol ystyried canlyniadau anfwriadol - deilliannau camau gweithredu na fwriadwyd neu na ragwelwyd. Gall canlyniadau anfwriadol fod yn gadarnhaol neu’n negyddol, ond mae’n bwysig bod yn ymwybodol ohonynt wrth weithredu dull system gyfan. Gallai deall y darlun ehangach a sut mae ffactorau achosol yn gydgysylltiedig ein helpu ni i ystyried beth allai gael ei ddylanwadu gan unrhyw newidiadau y byddwn yn eu gwneud. Gallai ymarfer mapio system fod yn ddull effeithiol o wneud hyn.

Mae deall canlyniadau anfwriadol hefyd yn amlygu pwysigrwydd cynlluniau peilot ‘profi a dysgu’ i sicrhau na fydd unrhyw ganlyniadau anfwriadol negyddol yn digwydd yn sgil ymyriad.

Mae’n bwysig sicrhau hefyd, fel rhan o unrhyw gynllun monitro a gwerthuso, bod mesurau procsi byrdymor ar waith i brofi a yw’r newid yn arwain at unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Er enghraifft, pe bai gweithle yn gwahardd bwyd afiach yn y ffreutur, gallai staff adael y gweithle i fynd i brynu bwyd afiach o fusnesau cludfwyd cyfagos, a buasai hynny’n ganlyniad anfwriadol. Buasai’n bwysig felly ystyried monitro gwerthiant neu nifer yr ymwelwyr â busnesau cludfwyd lleol wrth weithredu newid i bolisi bwyd mewn gweithle.





Disgyblion o Ysgol Llanllyfni yn dod i’r ysgol yn gwisgo’u dillad addysg gorfforol



I’r gwrthwyneb, gallai newid anfwriadol cadarnhaol ddigwydd wrth weithredu newidiadau i wisgoedd ysgol.  Mae gofyn i ddisgyblion wisgo dillad sy’n addas i fod yn actif trwy’r adeg yn yr ysgol yn golygu y bydd disgyblion yn fwy cyfforddus yn ystod y diwrnod ysgol, ond mae hefyd yn golygu na fydd yn rhaid iddynt newid eu dillad i gyfranogi mewn gweithgarwch corfforol, a bydd hynny’n arbed amser yn ystod y diwrnod ysgol ac yn caniatáu iddynt dreulio mwy o amser yn bod yn actif.

## Gwerthuso Dull System Gyfan

**Bydd dulliau systemau cyfan o ymdrin â problem gymhleth megis gordewdra yn aml yn gweithio mewn ffyrdd nad ydynt yn rhyng-gysylltiedig ac sy'n anrhagweladwy. Fel y cyfryw, gall fod yn anodd llunio casgliadau am achosion ac effeithiau, oherwydd gall nifer o ffactorau sy'n rhan o ymyriad ddylanwadu ar y canlyniad. Gallai cyd-destun y newid gyfrannu at y canlyniad hefyd. Mae canlyniadau anfwriadol (cadarnhaol a negyddol) yn gyffredin a gall fod yn anodd mesur yr effeithiau hyn gan ddefnyddio dulliau gwerthuso traddodiadol.**

Yn ychwanegol, efallai na chaiff newid ar lefel y boblogaeth ei wireddu am flynyddoedd lawer. Felly, mae angen sicrhau y ceir mesurau 'dangosol' eraill i sicrhau bod yr ymyriad, pa mor gymhleth bynnag y bydd hynny, yn cyflawni ei fwriad gwreiddiol. Wrth werthuso dulliau system gyfan, ystyrir sut mae newid wedi digwydd, yn ogystal â cheisio deall pa newid sydd wedi digwydd. Mae hynny'n helpu i wella ein dealltwriaeth ynghylch y rhannau o'r ymyriad sy'n llwyddo a'r rhai sy'n aflwyddiannus.



Mae'n bwysig hefyd nodi bod gwerthuso dulliau ar lefel systemau cyfan yn faes sy'n datblygu'n gyflym, ac nid oes un fethodoleg gymeradwy benodol i werthuso ymyriadau cymhleth neu ddulliau ar lefel systemau cyfan. Mae ystod o offerynnau gwerthuso dulliau cymysg wedi cael eu defnyddio yn achos dulliau systemau cyfan, ac maent yn cynnwys dulliau ansoddol megis adrodd straeon ac astudiaethau achos, damcaniaethau newid, fframweithiau a matricsau aeddfedrwydd, yn ogystal ag astudiaethau mwy traddodiadol a gynhelir cyn ac wedi ymyriadau. Mae dulliau creadigol eraill o werthuso dulliau system gyfan yn cynnwys mapio effaith crychdonnau a dadansoddi rhwydweithiau cymdeithasol.

## Mapio Effeithiau Crychdonnau (REM)

Mae Mapio Effeithiau Crychdonnau (REM) yn ddull o fapio a deall canlyniadau arfaethedig ac anfwriadol dros dreigl amser. Felly, gellir ei ddefnyddio i fesur rhai o effeithiau ehangach dull system gyfan.  Un enghraifft o hyn yng Ngogledd Cymru yw'r effeithiau crychdonnau a ddeilliodd o'r gweithdai cychwynnol i fapio'r system.  Yn y gweithdai hynny, nodwyd fod yr amser y bydd oedolion yn ei dreulio yn gwylio'u plant yn bod yn actif yn un o'r ffactorau sy'n achosi anweithgarwch ymhlith oedolion. Mae hynny'n golygu nad oes ganddynt hwy eu hunain amser i fod yn actif.  Gan ymateb i hyn, fe wnaeth Freedom Leisure yn Wrecsam gytuno i gynnig mynediad am ddim i gampfeydd i'r holl rieni sy'n dod â'u plant i gyfranogi mewn gweithgareddau wedi'r ysgol yn eu cyfleusterau.

## Dadansoddi Rhwydweithiau Cymdeithasol

Mae Dadansoddi Rhwydweithiau Cymdeithasol (SNA) yn dechneg sefydledig sy'n nodi ac yn dadansoddi'r cydgysylltiadau a'r dylanwadu sy'n bodoli rhwng pobl neu sefydliadau amrywiol sy'n rhan o system.  Mae hyn yn ein helpu i ddysgu sut caiff gwybodaeth ac adnoddau eu rhannu ledled y rhwydwaith a phwy sydd efallai'n fwy dylanwadol o ran creu newid.  Yng Ngogledd Cymru, fe wnaeth y dadansoddiad gwreiddiol o rwydweithiau cymdeithasol a wnaed gan Brifysgol Beckett Leeds nodi fod yr unigolion â'r nifer fwyaf o gysylltiadau yn rhan o BIPBC ac ICC.  Uchelgais gwaith system gyfan yw cychwyn datblygu rôl a dylanwad unigolion a sefydliadau eraill, a bydd dadansoddi rhwydweithiau cymdeithasol yn caniatáu i ni gasglu tystiolaeth ynghylch y newid hwn dros dreigl amser.



## Casgliadau

- Mae llawer ohonom ni yn gweithio i fynd i'r afael â materion cymhleth ar hyn o bryd, felly buasai'n fuddiol i sefydliadau ddatblygu dealltwriaeth well ynghylch sut i ddefnyddio dull system gyfan i fynd i'r afael â phroblem.
- Buasai'n fuddiol i staff sy'n gweithio ledled y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector gael hyfforddiant ynghylch methodolegau'r dull system gyfan a thechnegau i'w werthuso i sicrhau y gallant fynd ati'n hyderus i weithredu dull system gyfan ac y gall partneriaid rannu'r cyfrifoldeb am weithredu'r dull.
- Mae angen i sefydliadau sy'n bartneriaid sicrhau eu bod yn cyfranogi mewn dulliau system gyfan o fynd i'r afael â phroblemau cymhleth. Bydd cyfranogi'n gryf yn y broses yn sicrhau y ceir cyd-ddealltwriaeth o'r broblem ac yn sicrhau na fydd un achos neu un cam gweithredu yn orddylanwadol yn y dull.
- Mae perthnasoedd yn allweddol o safbwynt gweithredu dull system gyfan, cwrdd â phartneriaid, treulio amser yn deall blaenoriaethau'r naill a'r llall a meithrin cysylltiadau trwy gyfrwng cyfarfodydd wyneb yn wyneb, cyfarfodydd symudol a sesiynau diweddaru; dyma'r dulliau allweddol o hwyluso newid mewn system.





Partneriaid o bob cwr o Ogledd Cymru yn cael hyfforddiant ynghylch dulliau system gyfan

# 4. Deunyddiau Darllen Ychwanegol

## Dulliau System Gyfan o Fynd i'r Afael â Gordewdra

**Whole systems approaches to obesity and other complex public health challenges: a systematic review**

Bagnall, AM., Radley, D., Jones, R. et al.

**Guidance: Whole systems approach to obesity: Whole systems approach to obesity - GOV.UK (www.gov.uk)**

**Public Health England Whole System Approach to Obesity Resources: Public library - UKHSA national - Knowledge Hub (khub.net)**

## Mapio Systemau

**Systems Mapping: How to build and use causal models of systems | SpringerLink**

## Dadansoddi Rhwydweithiau Cymdeithasol

**Valente_2012+Science.pdf (fsu.edu)**

## Mapio Effeithiau Crychdonnau

**Ripple Effect Mapping: Ripple effects mapping: capturing the wider impacts of systems change efforts in public health**

Nobles, J., Wheeler, J., Dunleavy-Harris, K. et al.

## Newid Systemau

**Systems Change (lankellychase.org.uk)**

## Pecyn Cymorth Meddylfryd Systemau

**Systems Thinking Toolkit - FSG**

# Cyfeiriadau


1. A.-M. Bagnall, D. Radley, R. Jones, P. Gately, J. Nobles, M. Van Dijk, J. Blackshaw, S. Montel and P. Sahota, "Whole systems approaches to obesity and other complex public health challenges: a systematic review," BMC Public Health, 2019.
2. D. Buck, A. Baylis, D. Dougall and R. Robertson, "A Vision for Population Health: Towards a Healthier Future," The Kings Fund, 2018. [Ar-lein].

   Ar gael yn: https://www.kingsfund.org.uk/. [Cyrchwyd Tachwedd 2022].
3. The Action Scales Model: A conceptual tool to identify key points for action within complex adaptive systems - James D Nobles, Duncan Radley, Oliver T Mytton, , The Whole Systems Obesity programme team, The Whole Systems Obesity programme team, 2022 (sagepub.com)
4. Child Poverty Action Group. (2020). Expanding Eligibility for Free School Meals in England.

   https://cpag.org.uk/sites/default/files/files/policypost/CPAG-FSM-briefing-2020.pdf

# Diolchiadau

**Unwaith yn rhagor, lluniwyd ein Hadroddiad Blynyddol ynghylch Iechyd Cyhoeddus trwy ymdrech ar y cyd. Mae parodrwydd pawb i gyfrannu wedi'n plesio ni'n fawr. Felly, yn ogystal â gwaith y Tîm Iechyd Cyhoeddus, mae'r adroddiad hwn hefyd yn ffrwyth llafur ein cymunedau lleol yng Ngogledd Cymru, cydweithwyr o bob rhan o'r Bwrdd Iechyd, Awdurdodau Lleol a'r Sector Gwirfoddol. Mae eich sylwadau a'ch profiad wedi bod yn amhrisiadwy, ac rydym yn gobeithio ein bod wedi defnyddio eich cyfraniad yn deg.**

## Mae'r cyfranwyr allweddol yn cynnwys:

| Enw | Rôl a Sefydliad |
|---|---|
| Ceriann Tunnah | Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus (Awdures Arweiniol), Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Claire Jones | Arbenigwr ar Wybodaeth ynghylch Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Emily Woodward-Esseen | Uwch Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Fatima Sayed | Prif Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Gwydion Ap Wynn | Y Dref Werdd, Blaenau Ffestiniog |
| Hannah C Lloyd | Prif Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Karen Whitney-Lang | Rheolwr Adfywio, Cyngor Sir y Fflint |
| Kerry Chevreau | Uwch Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Kevin Stone | Cydlynydd Prosiect Well-Fed, Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych |
| Lydia Orford | Prif Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Matthew York | Cofrestrydd Arbenigol ym maes Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Nel Griffith | Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Nia Rees Williams | Swyddog Iechyd a Lles Addysg (Gwasanaethau Addysg), Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Nikki Jones | Swyddog Datblygu Partneriaethau (y Gwasanaeth Tai a Chymunedau), Cyngor Sir Ddinbych |
| Prosiect PIPYN | Tîm Prosiect a Phartneriaeth PIPYN, Ynys Môn |
| Rhiannon Mair | Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Siwan Jones | Prif Swyddog Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Wil Gritten | Rheolwr Prosiect Skyline, Blaenau Ffestiniog |
| Gwenlli Evans | Cwmni Bro, Blaenau Ffestiniog |

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
University Health Board

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus 2023

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus 2023

# Betsi Cadwaladr University Health Board
# Director of Public Health Annual Report 2023

**Tîm Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

**Public Health Team, Betsi Cadwaladr University Health Board**



GIG CYMRU NHS | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Gweithredu ar y Cyd Ar Gyfer Gogledd Cymru Iachach
Gweithredu Dull System Gyfan

Collective Action For A Healthier North Wales
Taking A Whole System Approach









# Cyflwyniad i Ddull Gweithredu System Gyfan

- Dull cynyddol boblogaidd o fynd i'r afael â'r hyn a elwir yn 'broblemau drwg', sef problemau cymhleth iawn
- Does dim un ffordd iawn o'u datrys ac ni all unrhyw asiantaeth unigol fod yn gyfrifol am eu datrys
- Mae llawer o faterion iechyd y cyhoedd yn 'broblemau drwg' cymhleth
    - Gordewdra
    - Troseddwyr Ifanc
    - Gweithgaredd corfforol
    - Iechyd meddwl a llesiant

*'Ffordd ddeinamig o weithio sy'n dod â rhanddeiliaid at ei gilydd i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o'r her, ac integreiddio camau gweithredu i sicrhau newid systemau cynaliadwy a thymor hir'*

# An Introduction to a Whole System Approach

- An increasingly popular approach to tackling what are know as 'wicked issues', issues that are highly complex
- No one right way to solve them and no-one agency can be responsible for solving them alone
- Many public health issues are complex 'wicked issues'
    - Obesity
    - Youth Offending
    - Physical activity
    - Mental health and wellbeing

*'A dynamic way of thinking, that brings together stakeholders to develop a shared understanding of the challenge, and integrate action to bring about sustainable, long-term system change'*



# Dulliau ac Offer System Gyfan

- Meddwl trwy Systemau
- Arweinyddiaeth Systemau
- Mapio systemau

# Whole System Methods and Tools

- Systems Thinking
- System Leadership
- System Mapping





# Enghreifftiau o Ddulliau Gweithredu System Gyfan

- Dull Gweithredu System Gyfan Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o Ymdrin â Phwysau Iach




- Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl BIPBC

# Examples of Whole System Approaches

- BCUHB Whole System Approach to Healthy Weight




- BCUHB Together for Mental Health Strategy



# Canlyniadau Anfwriadol

# Unintended Consequences





# Beth nesaf?

- Gan fod llawer ohonom bellach yn gweithio ar fynd i'r afael â materion cymhleth, byddai sefydliadau'n elwa o ddatblygu gwell dealltwriaeth o sut i fabwysiadu dull gweithredu system gyfan
- Byddai staff mewn sefydliadau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn elwa o hyfforddiant mewn methodolegau a thechnegau gwerthuso system gyfan
- Mae angen i sefydliadau sicrhau eu bod yn defnyddio dulliau gweithredu system gyfan o fynd i'r afael â phroblemau cymhleth
- Mae perthnasoedd yn hanfodol wrth fabwysiadu dull gweithredu system gyfan. Mae'n bwysig treulio amser yn meithrin perthnasoedd i sicrhau ein bod yn deall blaenoriaethau ein gilydd.

# Conclusions

- As many of us are now working on tackling complex issues organisations would benefit from developing a greater understanding of how to take a whole system approach
- Staff are public, private and third sector organisations would benefit from training in whole system methodologies and evaluation techniques
- Organisations need to ensure they engage in whole system approaches to tackling complex problems
- Relationships are crucial when taking a whole system approach it is important to spend time building relationships to ensure we understand each others priorities.



Diolch yn fawr

Thank you



| | |
|---|---|
| **Teitl adroddiad:**<br><br>***Report title:*** | **Adolygu Cynllun Dirprwyo Neilltuedig (SoRD) y Bwrdd Iechyd** |
| **Adrodd i:**<br><br>***Report to:*** | **Y Bwrdd Iechyd** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:**<br><br>***Date of Meeting:*** | Dydd Iau, 30 Tachwedd 2023 |
| **Crynodeb Gweithredol:**<br><br>***Executive Summary:*** | Yn dilyn y diweddariadau a wnaed i'r Rheolau Sefydlog (yn unol â Chyfarfod y Bwrdd ar 28 Medi 2023) a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ar gyfer y Bwrdd Iechyd, a gyflwynir hefyd yn y cyfarfod hwn, cynhaliwyd adolygiad hefyd o gyfrifoldebau'r Bwrdd, Pwyllgorau'r Bwrdd, y Tîm Gweithredol a Chyfarwyddwyr, a swyddogion a gweithwyr eraill y Bwrdd Iechyd. Mae'r newidiadau a wnaed yn mireinio'r prif feysydd cyfrifoldeb ac yn dyrannu'r pwerau dirprwyo i lefelau priodol yn y sefydliad. Maent wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau ers Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog 2023.<br><br>Mae'r Tîm Atal Twyll Lleol ac Archwilio Mewnol wedi craffu ar y SoRD hefyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud bod y diwygiadau'n drylwyr iawn, yn mynd i'r afael â'r prif agweddau ar gyfrifoldeb dirprwyedig ac wedi cael eu datblygu i wella effeithiolrwydd y SoRD.<br><br>Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio Dablau A, B a B2 drafft y Cynllun Dirprwyo Neilltuedig (SoRD) ar 16 Tachwedd ac maent wedi argymell mabwysiadu.<br><br>Yn dilyn y Pwyllgor hwnnw, mae rhagor o ddiwygiadau wedi cael eu gwneud i'r terfynau dirprwyedig ar gyfer Gwasanaethau Ymgynghori Allanol ac Achosion Busnes Refeniw a Chyfalaf, sy'n tynhau'r gafael a'r rheolaeth ymhellach ac i ymgorffori'r Tîm Gweithredol ymhellach fel y llwybr cymeradwyo llywodraethu cychwynnol. Mae'r Prif Weithredwr yn argymell cymeradwyo'r fersiwn hwn sydd wedi'i ddiweddaru.<br><br>Y camau nesaf pwysig fydd cysoni'r terfynau dirprwyedig a nodir yn y SoRD â'r system e-ariannol (Oracle) ac archwilio posibilrwydd cysylltu'r System Hepgor Unigol. Bydd yn hanfodol sefydlu sesiynau hyfforddi i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r sefydliad ehangach am weithredu'r SoRD, SFI a SO's sydd newydd gael eu cymeradwyo, gan sicrhau cydymffurfiad.<br><br>Bydd y SoRD yn cael ei adolygu ymhellach ymhen tua chwe mis, gydag unrhyw ddiwygiadau i'w cyflwyno'n ôl drwy'r Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd. |

| | |
|---|---|
| **Argymhellion:**<br><br>***Recommendations:*** | Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd gymryd sicrwydd o'r adroddiad a'r argymhelliad gan y Pwyllgor Archwilio a'r Prif Weithredwr, a chymeradwyo ymgorffori a mabwysiadu'r Cynllun Dirprwyo Neilltuedig diwygiedig fel y'i cyflwynwyd. |
| **Arweinydd Gweithredol:**<br><br>***Executive Lead:*** | Russell Caldicott, Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>***Report Author:*** | Andrea Hughes, Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro – Cyllid Gweithredol a Neil Williams, Uwch Reolwr Cyllid |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Pwrpas yr adroddiad:**<br><br>***Purpose of report:*** | I'w Nodi<br>*For Noting*<br>☐ | I Benderfynu arno<br>*For Decision*<br>☒ | Am sicrwydd<br>*For Assurance*<br>☒ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Lefel sicrwydd:**<br><br>***Assurance level:*** | Arwyddocaol<br>*Significant*<br>☒<br>Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives* | Derbyniol<br>*Acceptable*<br>☐<br>Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Rhannol<br>*Partial*<br>☐<br>Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Dim Sicrwydd<br>*No Assurance*<br>☐<br>Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>*No confidence / evidence in delivery* |

| |
|---|
| **Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' neu uwch, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:**<br><br>***Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:*** |

| | |
|---|---|
| **Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:**<br><br>***Link to Strategic Objective(s):*** | Nid oes unrhyw oblygiadau cysylltiedig o ran strategaeth |
| **Goblygiadau rheoleiddiol a chyfreithiol:**<br><br>***Regulatory and legal implications:*** | Mae'r Cynllun Dirprwyo yn elfen allweddol o lywodraethu ariannol a gweithredol yng Nghyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd |
| **Yn unol â WP7 (sydd bellach yn cynnwys WP68), a oedd EqIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP7 (which now incorporates WP68) has an EqIA been identified as necessary and undertaken ?*** | Ni nodwyd bod rhai yn angenrheidiol |

| | |
|---|---|
| **Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR)**<br><br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks (cross reference to the BAF and CRR)*** | BAF 2.3 a 2.7<br>Yn unol â’r gofyniad i gyflawni Dyletswyddau Ariannol Statudol yn unol â mabwysiadu Rheolau Sefydlog ar gyfer y Bwrdd Iechyd |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith***<br><br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Bydd lefelau priodol o reolaeth a dirprwyo yn cael eu rhoi ar waith dros reoli cyllideb a gwariant |
| **Goblygiadau i’r gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Mae’n rhaid i staff perthnasol fod yn ymwybodol o’r cyfrifoldebau a’r terfynau dirprwyedig a glynu wrthynt wrth gynnal achosion ariannol ar ran y Bwrdd Iechyd |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br><br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | Amherthnasol |
| **Cysylltiadau â risgiau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd:**<br>(neu gysylltiadau â’r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)<br><br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | BAF 2.3 a 2.7<br>Yn unol â’r gofyniad i gyflawni Dyletswyddau Ariannol Statudol yn unol â mabwysiadu Rheolau Sefydlog ar gyfer y Bwrdd Iechyd |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br><br>***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)*** | Amherthnasol |

**Y Camau Nesaf:**
**Gweithredu argymhellion**
***Next Steps:***
***Implementation of recommendations***
Os caiff ei gymeradwyo, bydd y Cynllun Dirprwyo Neilltuedig diwygiedig yn cael ei gyhoeddi a’i weithredu fel y model newydd ar draws y Bwrdd Iechyd a bydd systemau ariannol yn cael eu diweddaru fel y bo’n briodol i adlewyrchu terfynau dirprwyedig unigolion yn y Bwrdd Iechyd.

**Rhestr o Atodiadau:**
***List of Appendices:***

Atodiad 1: Tabl A - Cynllun Materion Dirprwyedig ar gyfer BIPBC
Atodiad 2: Tablau B a B2 Terfynau Dirprwyedig

**Adolygiad 2023 o'r Cynllun Dirprwyo Neilltuedig ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

**1. Cyflwyniad a Chefndir**

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd gymeradwyo a mabwysiadu Rheolau Sefydlog sy'n sail i'w "ffyrdd o weithio". Mae'r gyfres gyfan o Reolau Sefydlog yn cynnwys:

- Rheolau Sefydlog Enghreifftiol
- cyfres o Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog
- Cynllun o Benderfyniadau a gedwir yn ôl i'r Bwrdd;
- Cynllun Dirprwyo i swyddogion ac i eraill; ac
- amrywiaeth o ddogfennau fframwaith eraill sy'n nodi'r trefniadau y mae'r Bwrdd, ei Bwyllgorau, ei Grwpiau Cynghori a'i staff yn eu dilyn wrth wneud penderfyniadau a chyflawni eu gweithgareddau.

Cyflwynwyd y Rheolau Sefydlog Enghreifftiol i'r Bwrdd ar 28 Medi 2023. Mae Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog 2023 yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd yn y cyfarfod hwn i'w hadolygu ynghyd â Chynllun Dirprwyo Neilltuedig 2023 sy'n nodi'r Materion Dirprwyedig, yr Arweinydd Cyfrifol a'r Terfynau Ariannol Dirprwyedig.

**2. Ystyriaethau i'r Bwrdd**

Mae'n ofynnol sicrhau bod 'Materion' a ddirprwyir i'r Bwrdd, y Pwyllgorau, y Tîm Gweithredol a Chyfarwyddwyr ac Arweinwyr Gwasanaeth eraill yn cael eu diweddaru a'u hadolygu i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gywir ac yn gyfredol. Mae hyn yn rhan o'r fframwaith y mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd ei fabwysiadu yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

Cynhaliwyd adolygiad manwl o'r Cynllun Dirprwyo Neilltuedig (SoRD). Mae'r newidiadau arfaethedig i gyfrifoldebau dirprwyedig wedi bod yn destun ymgynghoriad eang gydag aelodau'r Tîm Gweithredol, Cyfarwyddwyr perthnasol eraill, Prif Swyddogion Cyllid (gan gysylltu â'u Cyfarwyddiaethau), y Gwasanaeth Atal Twyll Lleol, Archwilio Mewnol a Llywodraeth Cymru. Mae'r Is-adrannau a'r Cymunedau Iechyd Integredig wedi adolygu eu strwythurau a'u safleoedd lleol yn eu meysydd gwasanaeth er mwyn cael mewnbwn a chysondeb â'r SoRD arfaethedig.

Cafodd y Pwyllgor Archwilio adroddiad ar y mater hwn yn ei gyfarfod ar 16 Tachwedd 2023. Mae ganddo rôl i sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith mewn perthynas â sefydlu'r Cynllun Dirprwyo Neilltuedig (SoRD). Cafodd y Pwyllgor Archwilio sicrwydd o'r adroddiad a ddarparwyd ac argymhellodd y dylai'r Bwrdd gymeradwyo ymgorffori a mabwysiadu'r dogfennau yn ei gyfarfod ar 30 Tachwedd 2023.

Yn dilyn y Pwyllgor hwnnw, mae rhagor o ddiwygiadau wedi cael eu gwneud i'r terfynau dirprwyedig mewn perthynas â Gwasanaethau Ymgynghori ac Achosion Busnes Refeniw a Chyfalaf, sy'n tynhau'r gafael a'r rheolaeth ymhellach ac i ymgorffori'r Tîm Gweithredol ymhellach fel y llwybr cymeradwyo llywodraethu cychwynnol. Mae'r Prif Weithredwr yn argymell cymeradwyo'r fersiwn hwn sydd wedi'i ddiweddaru.

Bydd y SoRD yn cael ei adolygu ymhellach ymhen tua chwe mis, gydag unrhyw ddiwygiadau i'w cyflwyno'n ôl drwy'r Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd.

Cyflwynir y Materion Dirprwyedig, y cyfrifoldebau a’r terfynau ar gyfer Cronfeydd Elusennol i aelodau’r pwyllgor ar 27 Tachwedd.

Dylai pob Cymuned Iechyd Integredig (IHC) ac Is-adrannau gael Gweithdrefn Weithredu Safonol (SOP) leol sy’n cysylltu gweithgareddau â’r terfynau dirprwyedig a nodir yn Nhabl B2 ar lefel defnyddio fanwl yn eu maes gwasanaeth. Er enghraifft, mae terfyn gwariant cyffredinol Rheolwr Ward IHC Canolog, sef £500, yn berthnasol i gymeradwyo teithio a chynhaliaeth, staff banc a gwariant goramser staff.

Y camau nesaf pwysig fydd cysoni’r terfynau dirprwyedig a nodir yn y SoRD â’r system e-ariannol (Oracle) ac archwilio posibilrwydd cysylltu’r System Hepgor Unigol. Bydd yn hanfodol sefydlu sesiynau hyfforddi i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r sefydliad ehangach am weithredu’r SoRD, SFI a SO’s sydd newydd gael eu cymeradwyo, gan sicrhau cydymffurfiad.

Atodiad 1 – Mae Tabl A Cynllun Dirprwyo Neilltuedig (SoRD) yn cynnwys yr atodlen o Faterion Dirprwyedig ac Arweinwyr Cyfrifol i’w mabwysiadu gan y Bwrdd Iechyd.

Atodiad 2 – Mae Tablau B a B2 o Derfynau Dirprwyedig yn rhoi manylion cyfrifoldebau, gofynion cymeradwyo a therfynau ariannol y SoRD i’w mabwysiadu gan y Bwrdd Iechyd

**3. Newidiadau allweddol**

Mae’r rhan fwyaf o’r ‘Materion Dirprwyedig’ a restrir yn Nhabl A yn cael eu trosglwyddo o’r fersiwn flaenorol o’r SoRD. Mae’r cyfrifoldebau dirprwyedig wedi cael eu hadolygu’n sylweddol, gan ymgynghori ag Aelodau Gweithredol a chydweithwyr allweddol, a’u diweddaru yn ôl yr angen ar gyfer pob Mater Dirprwyedig. Mae’r ‘Materion’ a’r ‘Arweinwyr Cyfrifol’ hefyd wedi cael eu croesgyfeirio at y Rheolau Sefydlog a’r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog i sicrhau eu bod yn gyson a’u bod yn cael eu dirprwyo yn unol â hynny.

Mae Tablau B a B2 wedi cael eu diweddaru i ddiwygio’r terfynau dirprwyedig ar gyfer y rolau a restrir. Mae’r golofn Cytundebau Gofal Iechyd wedi’i hymestyn o’r un golofn sydd wedi’i chynnwys yn y fersiwn blaenorol i bedair colofn. Mae hyn er mwyn gwahaniaethu rhwng y gwahanol fathau o gytundebau gofal iechyd a’r terfynau cymeradwyo a’r gofynion adrodd sy’n berthnasol i bob math. Mae’r terfynau dirprwyedig mewn perthynas â Gwasanaethau Ymgynghori ac Achosion Busnes Refeniw a Chyfalaf wedi cael eu hadolygu, sy’n tynhau’r gafael a’r rheolaeth ymhellach ac i ymgorffori’r Tîm Gweithredol ymhellach fel y llwybr cymeradwyo llywodraethu cychwynnol.

Mae Tabl B2 hefyd wedi cael ei ymestyn i gynnwys y rolau a’r swyddi a oedd yn arfer ond yn cael eu cynnwys yn y SoRDs Gweithredol ym mhob maes gwasanaeth ac is-adran. Mae terfynau dirprwyedig ar gyfer y gweithgareddau wedi’u cynnwys ar gyfer y rolau hyn ar draws y gwahanol wasanaethau ac is-adrannau yn y Bwrdd Iechyd. Lle bo’n bosibl, mae rolau swyddi wedi cael eu cyfuno mewn bandiau o derfynau dirprwyedig i leihau nifer y cofnodion yn y tabl.

**4. Argymhellion**

Gofynnir i’r Bwrdd gymryd sicrwydd o’r adroddiad a’r argymhelliad gan y Pwyllgor Archwilio a’r Prif Weithredwr, a chymeradwyo mabwysiadu ac ymgorffori’r Cynllun Dirprwyo Neilltuedig fel rhan o Reolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd.

Bydd y SoRD yn cael ei adolygu ymhellach ymhen tua chwe mis, gydag unrhyw ddiwygiadau i’w cyflwyno’n ôl drwy’r Pwyllgor Archwilio a’r Bwrdd.

| | |
|---|---|
| **Teitl adroddiad:**<br><br>***Report title:*** | **Adolygu Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd** |
| **Adrodd i:**<br><br>***Report to:*** | **Y Bwrdd Iechyd** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:**<br><br>***Date of Meeting:*** | Dydd Iau, 30 Tachwedd 2023 |
| **Crynodeb Gweithredol:**<br><br>***Executive Summary:*** | Mae Llywodraeth Cymru wedi diwygio a diweddaru'r Rheolau Sefydlog Enghreifftiol ar gyfer cyrff y GIG yng Nghymru yn unol â'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Bwrdd ar 28 Medi 2023. Fel rhan o'r Rheolau Sefydlog, mae Atodlen 2.1 yn ymwneud â'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ar gyfer rheoleiddio trafodion ariannol a busnes y Bwrdd Iechyd yn ei weithrediadau o ddydd i ddydd.<br><br>Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd ymgorffori a mabwysiadu'r fersiwn ddiweddaraf o'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog fel y bo'n briodol fel Atodlen 2.1 y Rheolau Sefydlog.<br><br>Rhaid i holl aelodau a swyddogion y Bwrdd Iechyd fod yn ymwybodol o'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog hyn a, lle bo hynny'n briodol, dylent fod yn gyfarwydd â'u cynnwys manwl.<br><br>Mae'r Rheolau Sefydlog ar gyfer y Bwrdd Iechyd hefyd yn cynnwys y Rheolau Sefydlog ar gyfer Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) a'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC) fel Atodlenni 4.1 a 4.2 yn y drefn honno. Mae'r Rheolau Sefydlog Enghreifftiol ar gyfer WHSSC a EASC hefyd wedi cael eu diwygio a'u diweddaru ac maent i'w hymgorffori a'u mabwysiadu fel atodlenni perthnasol o fewn Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd. |
| **Argymhellion:**<br><br>***Recommendations:*** | Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol<br>• **cymryd sicrwydd** o'r adroddiad a'r argymhelliad gan y Pwyllgor Archwilio i **gymeradwyo** ymgorffori a mabwysiadu'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog fel Atodlen 2.1 y Rheolau Sefydlog.<br><br>• **cymeradwyo** ymgorffori a mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog ar gyfer WHSSC ac EASC fel Atodlenni 4.1 a 4.2 i Reolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd ei hun. |
| **Arweinydd Gweithredol:**<br><br>***Executive Lead:*** | Russell Caldicott, Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro |

| | |
|---|---|
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>***Report Author:*** | Andrea Hughes, Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro – Cyllid Gweithredol a Neil Williams, Uwch Reolwr Cyllid |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Pwrpas yr adroddiad:**<br><br>***Purpose of report:*** | I'w Nodi<br>*For Noting*<br>☐ | I Benderfynu arno<br>*For Decision*<br>☒ | Am sicrwydd<br>*For Assurance*<br>☒ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Lefel sicrwydd:**<br><br>***Assurance level:*** | Arwyddocaol<br>*Significant*<br>☒<br>Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives* | Derbyniol<br>*Acceptable*<br>☐<br>Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Rhannol<br>*Partial*<br>☐<br>Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Dim Sicrwydd<br>*No Assurance*<br>☐<br>Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>*No confidence / evidence in delivery* |

| |
|---|
| **Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' neu uwch, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:**<br><br>***Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:*** |

| | |
|---|---|
| **Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:**<br><br>***Link to Strategic Objective(s):*** | Nid oes unrhyw oblygiadau cysylltiedig o ran strategaeth |
| **Goblygiadau rheoleiddiol a chyfreithiol:**<br><br>***Regulatory and legal implications:*** | Mae'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn elfen allweddol o lywodraethu ariannol a gweithredol o fewn Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd ac mae'r adolygiad er mwyn cydymffurfio â Rheolau Sefydlog 1.4 a 2.0 |
| **Yn unol â WP7 (sydd bellach yn cynnwys WP68), a oedd EqIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP7 (which now incorporates WP68) has an EqIA been identified as necessary and undertaken ?*** | Ni nodwyd bod rhai yn angenrheidiol |
| **Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR)** | BAF 2.3 a 2.7<br>Yn unol â'r gofyniad i gyflawni Dyletswyddau Ariannol Statudol yn unol â mabwysiadu Rheolau Sefydlog ar gyfer y Bwrdd Iechyd |

| | |
|---|---|
| ***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks (cross reference to the BAF and CRR)*** | |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith***<br><br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Bydd lefelau priodol o reoli a dirprwyo yn cael eu rhoi ar waith dros reoli cyllideb a gwariant |
| **Goblygiadau i'r gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Mae'n rhaid i staff perthnasol fod yn ymwybodol o'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog hyn a glynu wrthynt wrth gynnal trafodion ariannol ar ran y Bwrdd Iechyd |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br><br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | Amherthnasol |
| **Cysylltiadau â risgiau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)<br><br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | BAF 2.3 a 2.7<br>Yn unol â'r gofyniad i gyflawni Dyletswyddau Ariannol Statudol yn unol â mabwysiadu Rheolau Sefydlog ar gyfer y Bwrdd Iechyd |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br><br>***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)*** | Amherthnasol |

**Y Camau Nesaf:**
**Gweithredu argymhellion**

***Next Steps:***
***Implementation of recommendations***

Os cânt eu cymeradwyo, bydd y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog diwygiedig yn cael eu cyhoeddi a'u gweithredu fel y model newydd ar draws y Bwrdd Iechyd a bydd systemau a phrosesau ariannol yn cael eu diweddaru yn ôl yr angen.

**Rhestr o Atodiadau:**

***List of Appendices:***

Atodiad 1: Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (SFIs) ar gyfer BIPBC

Atodiad 2: Tabl o'r diwygiadau yn y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog o'r fersiwn a fabwysiadwyd yn flaenorol

**Bwrdd Iechyd 30 Tachwedd 2023**

**Adolygiad 2023 o Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

## 1. Cyflwyniad a Chefndir

Rhaid i holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru gytuno ar Reolau Sefydlog sy'n sail i'w "ffyrdd o weithio". Dylai'r Rheolau Sefydlog fod yn seiliedig ar y Model a bennir gan Weinidogion Llywodraeth Cymru. Mae'r gyfres gyfan o Reolau Sefydlog yn cynnwys:

- Rheolau Sefydlog Enghreifftiol
- cyfres o Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog
- Cynllun o Benderfyniadau a gedwir yn ôl i'r Bwrdd;
- Cynllun Dirprwyo i swyddogion ac i eraill; ac
- amrywiaeth o ddogfennau fframwaith eraill sy'n nodi'r trefniadau y mae'r Bwrdd, ei Bwyllgorau, ei Grwpiau Cynghori a'i staff yn eu dilyn wrth wneud penderfyniadau a chyflawni eu gweithgareddau.

Cyhoeddwyd dogfennau enghreifftiol ddiwethaf gan Lywodraeth Cymru ar gyfer holl sefydliadau GIG Cymru ar 27 Gorffennaf 2023. Mae cylchlythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, at bob Bwrdd Iechyd, yn dweud yn glir "Mae'n rhaid i'ch Bwrdd ymgorffori a mabwysiadu'r adolygiad diweddaraf hwn yn Rheolau Sefydlog, Cadw a Dirprwyo Pwerau a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog eich sefydliad (sy'n rhan o'r Rheolau Sefydlog) fel y bo'n briodol". Felly, gall y Bwrdd Iechyd gryfhau'r cyfarwyddiadau hyn ymhellach os yw hynny'n briodol.

Cyflwynwyd y Rheolau Sefydlog Enghreifftiol i'r Bwrdd eu mabwysiadu ar 28 Medi 2023. Mae'r dogfennau ychwanegol a restrir uchod, sy'n rhan o'r gyfres ddiweddaraf o ddogfennau Model a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, wedi cael eu hadolygu'n helaeth.

Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru, fel aelodau o'r Pwyllgorau, hefyd gytuno ar Reolau Sefydlog (SOs) ar gyfer rheoleiddio Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC), a'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC), trafodion a busnes. Roedd y Rheolau Sefydlog yn seiliedig ar y Rheolau Sefydlog Enghreifftiol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gan ymgorffori newidiadau a diweddariadau perthnasol yn unol â'r Rheolau Sefydlog Enghreifftiol ar gyfer y Bwrdd Iechyd a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Medi.

## 2. Ystyriaethau i'r Bwrdd

Mae'n rhaid diweddaru Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd ac adolygu'r dogfennau i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gywir ac yn gyfredol. Cynhaliwyd adolygiad manwl o'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog arfaethedig a oedd yn cynnwys ymgynghori â Chyfarwyddwyr

Gweithredol, y Gwasanaeth Atal Twyll Lleol, Archwilio Mewnol a Phrif Swyddogion Cyllid (gan gysylltu â'u cyfarwyddiaethau).

Cafodd y Pwyllgor Archwilio adroddiad ar y mater hwn yn ei gyfarfod ar 16 Tachwedd 2023. Mae ganddo rôl i sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith mewn perthynas â mabwysiadu'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog. Cymerodd y Pwyllgor Archwilio sicrwydd o'r adroddiad a ddarparwyd ac argymell ymgorffori a mabwysiadu'r dogfennau fel Atodlen 2.1 yn y Rheolau Sefydlog.

Roedd y Pwyllgor Archwilio hefyd wedi adolygu Rheolau Sefydlog Enghreifftiol WHSSC ac EASC ac yn argymell eu mabwysiadu fel Atodlenni 4.1 a 4.2 yn y drefn honno o fewn Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd ei hun.

Mae'r Atodiadau'n tynnu sylw at y prif newidiadau i'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a gafwyd gan Lywodraeth Cymru

Mae Atodiad 1 (Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) yn cynnwys y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Drafft a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ac sydd i'w mabwysiadu gan y Bwrdd Iechyd. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r newidiadau gan Weinidogion Cymru a rhai diwygiadau pellach i adlewyrchu gweithdrefnau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fel y nodir isod yn adran 3.

Mae Atodiad 2 (Tabl o ddiwygiadau i'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog) yn rhoi manylion y newidiadau yn fersiwn ddiweddaraf y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Drafft o'r fersiwn flaenorol a fabwysiadod y Bwrdd yn 2021.

**3. Newidiadau allweddol yn yr adolygiad o'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog**

Mae'r Tabl Diwygiadau i'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (gweler atodiad 2) yn rhestru'r newidiadau a wnaed i'r fersiwn arfaethedig o'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog o'r fersiwn a fabwysiadodd y Bwrdd Iechyd yn 2021. Mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau'n seiliedig ar newidiadau i'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Enghreifftiol ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â diweddariadau i ddolenni gwefannau allanol yn y ddogfen lle mae dolenni wedi newid neu wedi cael eu dileu, ac mae nifer o newidiadau ychwanegol wedi cael eu cynnwys i gryfhau gweithdrefnau caffael.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud dau newid ychwanegol yn y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog arfaethedig i'r rheini a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru yn dilyn adolygiad gan Archwilio Mewnol. Mae'r rhain yn ymwneud ag adran 11.13, Cais am Ddyfynbris Unigol (SQA) neu Gais am Dendr Sengl (STA). Mae ychwanegiadau wedi cael eu gwneud i egluro'r broses ar gyfer cymhwyso a chymeradwyo Hepgor Unigol ac mae cyfeiriad at gynnwys Cyfarwyddwr Gweithredol y maes gwasanaeth yn y broses ymgeisio (11.13.2) ac eglurhad nad yw amser annigonol yn rheswm derbyniol dros wneud SQA / STA (11.13.4).

**4. Argymhellion**

Gofynnir i'r Bwrdd gymryd sicrwydd o'r adroddiad a'r argymhelliad gan y Pwyllgor Archwilio a chefnogi Mabwysiadu ac Ymgorffori'r canlynol fel rhan o Reolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd

- Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Atodlen 2.1)

- Rheolau Sefydlog ar gyfer Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) (Atodlen 4.1)
- Rheolau Sefydlog ar gyfer y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC) (Atodlen 4.2)

| | |
|---|---|
| **Teitl yr adroddiad:**<br><br>***Report title:*** | Deddf Iechyd Meddwl 1983 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007.<br>Cyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru) 2018.<br><br>Diweddaru'r Cofrestrau:-<br><br>**1.** Clinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan)<br>**2.** Meddygon Adran 12(2) (Cymru Gyfan).<br><br>Cyfnod Adrodd: 1 Gorffennaf 2023 – 31 Hydref 2023. |
| **Adrodd i:**<br><br>***Report to:*** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| **Dyddiad y Cyfarfod:**<br><br>***Date of Meeting:*** | Dydd Iau 30 Tachwedd 2023. |
| **Crynodeb Gweithredol:**<br><br>***Executive Summary:*** | Mae'r adroddiad hwn yn eitem sefydlog a ddarperir fel sicrwydd o gydymffurfio â deddfwriaeth, polisi a phroses y Ddeddf Iechyd Meddwl. Gofynnir i'r Bwrdd nodi cynnwys yr adroddiad a chadarnhau'n ffurfiol y cymeradwyaethau a roddwyd yn flaenorol drwy Lythyrau Gweithredu wythnosol y Cadeirydd.<br><br>Mae'r manylion a gyflwynir i'r Bwrdd yn yr Adroddiad hwn yn grynodeb o'r cymeradwyaethau sydd wedi cael eu cadarnhau yn barod ar gyfer cymeradwyaethau Clinigwyr Cymeradwy a Meddygon Adran 12(2) ledled Cymru. Mae'r adroddiad yn darparu cofnod llywodraethu o ran cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd yn 2007) yng nghyswllt y broses gymeradwyo a chadarnhau. Ar ôl cael sêl bendith Cadeirydd y Bwrdd yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Mawrth 2023, cafodd y broses o gadarnhau cymeradwyaeth drwy Lythyrau Gweithredu brys y Cadeirydd ei dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol. Ceisir cymeradwyaeth drwy lythyr Gweithredu ysgrifenedig gan y Cadeirydd ac fe'i cyflwynir i Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol i'w hystyried. Yna, daw cymeradwyaeth gan y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol i law yn ysgrifenedig a'i dychwelyd i Dîm Cymeradwyo Cymru Gyfan. Ar ôl cael cadarnhad ysgrifenedig, bydd y Clinigydd wedyn yn cael gwybod ei fod wedi cael ei gymeradwyo, a chaiff hyn ei gadarnhau yn ysgrifenedig mewn llythyr cymeradwyo wedi ei lofnodi gan y Bwrdd Cymeradwyo. Yna, mae'r Bwrdd Iechyd yn cadarnhau'r penderfyniadau'n ffurfiol drwy'r papur hwn sy'n cael ei gyflwyno bob deufis – fel y nodir yn Atodiad 1 ac Atodiad 2.<br><br>Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adroddiad hwn a chadarnhau'r cymeradwyaethau yn unol â gofynion Dogfen Ganllaw Llywodraeth Cymru, "Deddf Iechyd Meddwl 1983 Cymeradwyo Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) Gorffennaf 2018 ar gyfer Clinigwyr Cymeradwy", Cyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl GIG Cymru 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru) 2018 a Dogfen Meini Prawf a Phrosesau Adran 12(2) Cymru Gyfan ar gyfer cymeradwyaethau Meddygon Cymeradwy Adran 12(2). |

| | |
|---|---|
| **Argymhellion:**<br><br>***Recommendations:*** | Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r cynnwys ac argymhellir y dylai gadarnhau'n ffurfiol Lythyrau Gweithredu blaenorol y Cadeirydd sy'n cynnwys argymhellion i roi cymeradwyaeth neu ail-gymeradwyaeth ar gyfer Clinigwyr Cymeradwy a Meddygon Adran 12(2) ledled Cymru. |
| **Arweinydd Gweithredol:**<br><br>***Executive Lead:*** | Dr Nick Lyons, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol. |

| | |
|---|---|
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>***Report Author:*** | Meryl Roberts, Rheolwr Cymeradwyo Cymru Gyfan ar gyfer Clinigwyr Cymeradwy a Meddygon Adran 12(2). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Pwrpas yr adroddiad:**<br>***Purpose of report:*** | I'w Nodi<br>*For Noting*<br>☐ | I Benderfynu arno<br>*For Decision*<br>☐ | Am sicrwydd<br>*For Assurance*<br>☒ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Lefel sicrwydd:**<br><br>***Assurance level:*** | Arwyddocaol<br>*Significant*<br>☒<br>Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives* | Derbyniol<br>*Acceptable*<br>☐<br>Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Rhannol<br>*Partial*<br>☐<br>Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Dim Sicrwydd<br>*No Assurance*<br>☐<br>Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>*No confidence / evidence in delivery* |

**Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' neu uwch, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:**

***Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:***

| | |
|---|---|
| **Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:**<br><br>***Link to Strategic Objective(s):*** | Gwnaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gais llwyddiannus i ymgymryd â swyddogaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer y Broses Gymeradwyo yn 2009 ar ran yr holl gyn Fyrddau Iechyd Lleol. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn gweithredu yn ei rinwedd fel prif Fwrdd Cymeradwyo Cymru, wedi parhau i ymgymryd yn effeithiol â swyddogaeth ddirprwyedig Gweinidogion Cymru ar gyfer cymeradwyo Clinigwyr Cymeradwy a Meddygon Adran 12(2) ar ran yr holl Fyrddau Iechyd yng Nghymru.<br><br>Mae'r Bwrdd Cymeradwyo a'r Broses Gymeradwyo yn parhau i gyflawni'r holl amcanion yn llawn. |
| **Goblygiadau rheoleiddiol a chyfreithiol:**<br><br>***Regulatory and legal implications:*** | Mae'r broses gymeradwyo'n bodloni gofynion rheoleiddio Clinigwyr Cymeradwy a nodir yn Neddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd) a Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cydnabyddiaeth Gilyddol) 2008, Rhif 1204. |

| | |
|---|---|
| | Mae’r Bwrdd Iechyd yn parhau i sicrhau bod prosesau effeithiol ar waith ar gyfer cymeradwyo, ail-gymeradwyo, atal a therfynu cymeradwyaeth Clinigwyr Cymeradwy a Meddygon Adran 12(2) yng Nghymru. |
| **Yn unol â WP7 (sydd bellach yn cynnwys WP68), a oedd yr Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP7 (which now incorporates WP68) has an EqIA been identified as necessary and undertaken ?*** | Ie/Na<br><br>Na<br><br>Os naddo, rhowch esboniad yn ymwneud â'r rheswm pam nad yw'r ddyletswydd yn *berthnasol*<br><br>*If no please provide an explanation as to why the duty does not apply*<br><br>Nid yw’n berthnasol. |
| **Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)**<br><br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks (cross reference to the BAF and CRR)*** | Er mwyn sicrhau bod yr holl Glinigwyr yn cael eu cymeradwyo a'u hail-gymeradwyo o fewn yr amserlenni ysgrifenedig y cytunwyd arnynt, mae Panel Cymeradwyo Cymru Gyfan yn asesu ceisiadau yn unol â'r Trefniadau Gweithdrefnol y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru a Dogfen Meini Prawf a Phrosesau Adran 12(2). Os nad ydw Clinigwyr yn gwneud cais am ail-gymeradwyaeth yn unol â’r amserlenni y cytunwyd arnynt, gallai eu cymeradwyaeth ddod i ben a chael effaith niweidiol ar argaeledd Clinigwyr Cymeradwy, Clinigwyr Cyfrifol a Meddygon Cymeradwy Adran 12(2) ar draws y gweithlu yng Nghymru. |

| | |
|---|---|
| | Yn unol â Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cydnabyddiaeth Gilyddol) 2008, gofynnir i'r Bwrdd nodi bod Meddyg cymeradwy Adran 12(2) yn Lloegr hefyd wedi'i gymeradwyo yng Nghymru, ac fel arall. (Dydy hyn ddim yn berthnasol i Glinigwyr Cymeradwy).<br><br>Oherwydd diffyg Cyfarwyddydau Adran 12(2) ar gyfer Cymru, mae risg na fydd Meddyg cymeradwy Adran 12(2) yng Nghymru yn gyfreithlon yn Lloegr. Mae llawer o waith wedi cael ei wneud hyd yma gyda Llywodraeth Cymru, y Tîm Cymeradwyo a Chadeirydd Panel Cymeradwyo Cymru Gyfan er mwyn unioni'r diffyg. Mae Cyfarwyddydau Adran 12(2) drafft bellach wedi cael eu hysgrifennu gan Lywodraeth Cymru ac mae'r Tîm Cymeradwyo yn aros am adolygiad cyfreithiol o'r Cyfarwyddydau drafft gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Hyd nes bydd Cyfarwyddydau Adran 12(2) yn bodoli, bydd Dogfen Meini Prawf a Phrosesau Adran 12(2) Cymru Gyfan yn parhau i fod yn ddogfen gyfeirio a ddefnyddir i gymeradwyo, ail-gymeradwyo, atal neu derfynu cymeradwyaeth Adran 12(2). |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith***<br><br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Nid oes goblygiadau cyllidebol yn deillio o'r papur hwn. Mae adnoddau ar gyfer cynnal cydymffurfiaeth yn cael eu goruchwylio gan Dr N Lyons, Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol. |

| | |
|---|---|
| **Goblygiadau i'r gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Os nad ydw Clinigwyr yn gwneud cais am ail-gymeradwyaeth yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt, gallai eu cymeradwyaeth ddod i ben a chael effaith niweidiol ar argaeledd Clinigwyr Cymeradwy, Clinigwyr Cyfrifol a Meddygon Cymeradwy Adran 12(2) ar draws y gweithlu yng Nghymru. Os nad yw'r Bwrdd Cymeradwyo yn cadarnhau cymeradwyaethau, gallai hyn hefyd gael effaith niweidiol ar argaeledd Clinigwyr Cymeradwy, Clinigwyr Cyfrifol a Meddygon Cymeradwy Adran 12(2) ar draws y gweithlu yng Nghymru.<br><br>Cadarnhau cymeradwyaethau gan y Bwrdd Cymeradwyo ar gyfer pob Bwrdd Iechyd yw'r cam olaf yn y broses o roi cymeradwyaeth neu ail-gymeradwyaeth i'r gweithlu ym mhob un o'r Byrddau Iechyd yng Nghymru. |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br><br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | Mae hon yn broses barhaus. |
| **Cysylltiadau â risgiau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol)<br><br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | Mae diffyg Cyfarwyddydau Adran 12(2) yng Nghymru yn cael ei gofnodi ar Gofrestr Risg Datix, dan gyfeirnod: 4134. |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br><br>***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)*** | Amherthnasol |

**Y Camau Nesaf:**
**Gweithredu argymhellion**

***Next Steps:***

Gweithredu argymhellion yr adroddiad hwn fydd y cam olaf o ran cadarnhau'r broses gymeradwyo a bydd yn cydymffurfio'n llwyr â'r holl ofynion deddfwriaethol a phroses.

**Rhestr o Atodiadau:**
***List of Appendices:***

**<u>Atodiad 1:</u> Diweddaru'r Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy - Cymru.**
Deddf Iechyd Meddwl 1983 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007, Cyfarwyddydau Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) 2018.

**<u>Atodiad 2</u>: Diweddaru'r Gofrestr Meddygon Cymeradwy Adran 12(2) - Cymru.**
Deddf Iechyd Meddwl 1983 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007.

# ATODIAD 1

| Diweddaru'r Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy yng Nghymru<br><br>Cyfnod Adrodd:- 1 Gorffennaf 2023 – 31 Hydref 2023 | |
|---|---|
| | **Clinigwyr Cymeradwy** |
| **Cymeradwyo ac Ail-gymeradwyo** | 19 |
| **Atal cymeradwyaeth dros dro** | 1 |
| **Adfer cymeradwyaeth/ dychwelyd i weithio yng Nghymru** | 1 |
| **Tynnwyd (Gadael Cymru)** | 3 |
| **Wedi ymddeol** | 0 |
| **Wedi cofrestru heb drwydded i ymarfer ac wedi ymddeol** | 1 |
| **Trosglwyddwyd o'r Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy (i Gofrestr Adran 12)** | 2 |
| **Trosglwyddwyd/Tynnwyd o dan Adran 12 i Ddod yn Glinigwr Cymeradwy** | / |
| **Cymeradwyaeth wedi dod i ben** | 2 |
| **Marw yn y Swydd** | 0 |

# ATODIAD 1

Derbyniwyd y traciwr Mewnol / Allanol ond ni chafodd y Pwyllgor sicrwydd digonol ar yr adroddiad hwnnw, ac yn benodol yr adroddiad cau arfaethedig, a gofynnodd am gael papur wedi'i ddiweddaru yn y cyfarfod canlynol ym mis Ionawr. Cafwyd adborth ar y gwelliannau a oedd yn ofynnol i'r adroddiad ond nodwyd rhywfaint o gynnydd i'r cynllun. Cafwyd diweddariad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau ac Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd ar eu hargymhellion sy'n weddill.

Derbyniodd a nododd y Pwyllgor ddau adroddiad sicrwydd cyfyngedig ynghylch Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau a Rheoli Codymau. Mewn perthynas â'r adroddiad Rheoli Codymau, mynegodd yr Archwilwyr Mewnol bryder ynghylch y nifer isel o adroddiadau RIDDOR sy'n cael eu hadrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Gofynnodd y Cadeirydd am fynd ar drywydd hyn a rhoi nodyn yn ôl i'r pwyllgor yn y cyfarfod ym mis Ionawr. Derbyniwyd cynnydd ar yr argymhellion a chamau gweithredu mewn perthynas â'r ddau adroddiad gan nodi cynnydd da mewn perthynas â Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau.

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad dilynol ar yr archwiliad o wasanaethau Cleifion Allanol o 2015, gan nodi mai dim ond 1 argymhelliad allan o 5 oedd wedi'i gwblhau. Yn dilyn diweddariad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol gweithrediadau cytunwyd bod yr ymateb gan reolwyr yn y ddogfen yn brin o dystiolaeth o'r cynnydd gwirioneddol a wnaed. Cytunwyd y dylid drafftio ymateb rheoli wedi'i ddiweddaru cyn i'r adroddiad gael ei gyhoeddi gan Archwilio Cymru.

Derbyniwyd diweddariad yr Archwilydd Cyffredinol a nodwyd y gwaith a ddechreuodd ym mis Medi 2024, yn ogystal â nodi'r ffioedd ychwanegol a oedd yn gysylltiedig ag archwilio cyfrifon 2022-23.

Nododd y Pwyllgor y bydd asesiad strwythuredig effeithiolrwydd y Bwrdd yn dechrau ym mis Rhagfyr.

Trafodwyd adroddiad yr Archwiliad Cenedlaethol ar ddata'r Gweithlu Cenedlaethol – cytunwyd y dylai'r pwyllgor Pobl a Diwylliant newydd ystyried hyn ar ôl iddo gael ei sefydlu.

**EITEMAU I'W HUWCHGYFEIRIO I'R BWRDD**

Nid oedd dim eitemau i'w huwchgyfeirio i'r Bwrdd.

| Y CYFARFOD NESAF |
| --- |
| Bydd cyfarfod nesaf y Grŵp Archwilio yn cael ei gynnal ar 12fed Ionawr 2024. |

| | |
|---|---|
| **Teitl yr adroddiad:**<br><br>***Report title:*** | Monitro Cynllun Blynyddol 2023/24 |
| **Adrodd i:**<br><br>***Report to:*** | Y Bwrdd Iechyd |
| **Dyddiad y Cyfarfod:**<br><br>***Date of Meeting:*** | 30 Tachwedd 2023 |
| **Crynodeb Gweithredol:**<br><br>***Executive Summary:*** | Pwrpas y papur hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Fonitro'r Cynllun Blynyddol (Chwarter 2) ar gyfer 2023/24 |
| **Argymhellion:**<br><br>***Recommendations:*** | Gofynnir i'r Pwyllgor **DDERBYN SICRWYDD** ar y cynnydd hyd yma, gan gydnabod y meysydd heriol. |
| **Arweinydd Gweithredol:**<br><br>***Executive Lead:*** | Dr Chris Stockport, Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol (Swyddog Gweithredol Arweiniol) |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>***Report Author:*** | Dylan Pierce Williams – Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro – Strategaeth a Chynllunio Iechyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Pwrpas yr adroddiad:**<br><br>***Purpose of report:*** | I'w Nodi<br>*For Noting*<br>☐ | I Benderfynu arno<br>*For Decision*<br>☐ | Am sicrwydd<br>*For Assurance*<br>☒ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Lefel sicrwydd:**<br>***Assurance level:*** | Arwyddocaol<br>*Significant*<br>☐<br>Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives* | Derbyniol<br>*Acceptable*<br>☒<br>Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Rhannol<br>*Partial*<br>☐<br>Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Dim Sicrwydd<br>*No Assurance*<br>☐<br>Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>*No confidence / evidence in delivery* |

| |
|---|
| **Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' neu uwch, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:**<br><br>***Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:*** |

| | |
|---|---|
| **Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:**<br><br>***Link to Strategic Objective(s):*** | Cefnogi'r Cynllun Tymor Canolig<br><br>Integredig a'r Mesurau Arbennig |
| **Goblygiadau rheoleiddiol a chyfreithiol:**<br><br>***Regulatory and legal implications:*** | Amherthnasol |

| | |
|---|---|
| **Yn unol â WP7, a oedd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?*** | Amherthnasol |
| **Yn unol â WP68, a oedd Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?*** | Amherthnasol |
| **Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)**<br><br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks( cross reference to the BAF and CRR)*** | Amherthnasol |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith***<br><br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Amherthnasol |
| **Goblygiadau i'r gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Amherthnasol |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br><br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | Amherthnasol |
| **Cysylltiadau â risgiau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol)<br><br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | Amherthnasol |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br><br>***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)*** | Amherthnasol |
| **Y Camau Nesaf:**<br>Gweithredu argymhellion<br>***Next Steps:***<br>Gweithredu argymhellion | |

**Bwrdd Iechyd 30 Tachwedd 2023**
**Monitro Cynllun Blynyddol (Chwarter 2) 2023/24**

## 1) Cyflwyniad

Fel rhan o gynlluniau strategol y Bwrdd Iechyd, disgwylir i ni fynegi'n glir y gwasanaethau y byddwn yn eu darparu i sicrhau ansawdd, diogelwch a gwerth am arian, ochr yn ochr â mynd i'r afael â thargedau perfformiad. Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran cyflawni'r camau/blaenoriaethau a adroddwyd yng nghynllun blynyddol 2023-24 ar gyfer Chwarter 2 (1 Gorffennaf a 30 Medi 2023) ac mae hefyd yn edrych ymlaen at y rheini a fydd yn cael eu cyflawni rhwng 1 Hydref a 31 Mawrth 2024. Sylwch nad oedd unrhyw gamau gweithredu wedi'u proffilio ar gyfer Ch1 yng Nghynllun Blynyddol 2023-24 oherwydd yr oedi y cytunwyd arno cyn cyflwyno'r cynllun i Lywodraeth Cymru.

## 2) Cefndir

Yn ystod y cylch cynllunio ar gyfer 2023-2026, a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, canfu'r Bwrdd Iechyd na fyddai'n bosibl gwneud toriad ariannol yn ystod y cyfnod o dair blynedd oherwydd pwysau costau sylweddol cyfredol a disgwyliedig. O ganlyniad, roedd y cylch cynllunio ar gyfer 2023 yn canolbwyntio ar gynllun blynyddol, gyda gofyniad am fframwaith monitro diwygiedig i oruchwylio'r gwaith o gyflawni amcanion gweinidogol, strategol a lleol.

Mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud yn y Bwrdd Iechyd o ran adrodd ar gyflawni Mesurau Arbennig. Erbyn hyn, mae'r cynnydd hwn a'r dysgu cysylltiedig a gafwyd mewn Mesurau Arbennig wedi cael eu datblygu ymhellach er mwyn adrodd yn erbyn cyflawniad y Cynllun Blynyddol. Mae'r amser a fu'n ofynnol i wneud hyn yn egluro pam y bu rhywfaint o oedi yn yr adroddiad hwn i'r Bwrdd sy'n amlinellu statws cyflawni'r Cynllun Blynyddol ar ddiwedd chwarter 2. Dylid ystyried yr adroddiad hwn ochr yn ochr â Fframwaith Perfformiad y Bwrdd Iechyd, y Fframwaith Rheoli Risg a'r Fframwaith Cynllunio Integredig.

## 3) Sefyllfa Cynllun Monitro Blynyddol 2023/24 – Ch2

Mae Cynllun Blynyddol 2023-24 yn cynnwys 52 o gamau gweithredu allweddol a oedd i gael eu cyflawni yn ystod Ch2 (1 Gorffennaf a 30 Medi 2023).

Ers hynny, mae 19 o'r camau gweithredu hynny wedi cael eu cynnwys yn llawn mewn blaenoriaethau sydd wedi'u cynnwys yn y cylchoedd Sefydlogi Mesurau Arbennig ac, o ganlyniad, maent eisoes yn cael eu hadrodd drwy'r fframwaith adrodd Mesurau Arbennig.

Er mwyn sicrhau eglurder o ran adrodd, nid ydynt wedi cael eu hail-adrodd yn y papur hwn. Mae'r tabl crynodeb lefel uchel canlynol yn rhoi trosolwg o'r 32 cam gweithredu allweddol sy'n weddill yn y Cynllun Blynyddol y disgwylir iddynt gael eu cyflawni o fewn chwarteri un a dau yn 2023/24.

| Cyf | Cyfanswm | Maes Perfformiad Allweddol | Cyflawnwyd yn Ch2 | Ar Waith |
|---|---|---|---|---|
| KP1 | 4 | Atal a Diogelu Iechyd | 4 | - |
| KP2 | 5 | Gofal Sylfaenol | 2 | 3 |
| KP3 | 9 | Gofal wedi'i Gynllunio | 8 | 1 |
| KP4 | 1 | Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng | - | 1 |
| KP5 | 3 | Canser | 2 | 1 |
| KP6 | 3 | Iechyd Meddwl | 3 | - |
| KP7 | 1 | Camddefnyddio Sylweddau | 1 | - |
| KP9 | 1 | Gwasanaethau Merched | 0 | 1 |
| KP10 | 1 | Plant | 1 | - |
| KP16 | 1 | Arweinyddiaeth y Bwrdd a llywodraethu | - | 1 |
| KP18 | 3 | Ansawdd, Arloesi a Gwella | 3 | - |
| | | | **24** | **8** |

Mae'r tabl yn cadarnhau cyfradd cyflawni o 75% ar gyfer y camau gweithredu hyn. Mewn perthynas â'r camau gweithredu sy'n weddill, cytunwyd ar gamau gydag arweinwyr priodol i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau heb ormod o oedi, a bydd adrannau Perfformiad, Cynllunio a Thrawsnewid yn goruchwylio cynnydd.

Mae dadansoddiad o gamau gweithredu unigol wedi'i gynnwys o dan adran 4 yn yr adroddiad hwn.

## 4) Dadansoddiad yn ôl Blaenoriaeth Allweddol

| Cyf | Amcan Cyflawni'r Sefydliad | | Arweinydd | Amserlenni Cwblhau (chwarteri) | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| P1.1 | Lansio a gweithredu cerrig milltir y Cynllun Cyflenwi Strategol ar Bwysau Iach | | EDPH | | |
| | P1.1.1 | Lansio'r cynllun Pwysau Iach yn ffurfiol, a thracio ei gerrig milltir<br><br>Mae'r cynllun wedi cael ei lawnsio mewn achlysur partneriaeth gyda cydweithwyr o'r Cynulliad, Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC), Chwaraeon Cymru a partneriaid lleol. Bydd tim ICC yn parhau i dracio pob carreg filltir. | | 1 **2** 3 4 | Wedi'l gwblhau |
| P1.2 | Cymryd y camau sy'n flaenoriaeth i leihau nifer yr ysmygwyr ac effaith ysmygu | | EDPH | | |
| | P1.2.1 | Cytuno i gryfhau ymateb y Bwrdd Iechyd i'r rheoliadau di-fwg<br><br>Mae Swyddog di-fwg wedi cael ei benodi ar gyfer safle Ysbyty Glan Clwyd ac mae swyddogion ar safleoedd Ysbyty Gwynedd a Wrecsam ar fin cael eu penodi. Mae cynnydd wedi bod yn cyfanswm o sesiynau 'Helpwch fi roid gorau' yn ystod Hydref 2023. | | 1 **2** 3 4 | Wedi'i gwblhau |
| | P1.2.2 | Gweithredu Polisi Di-fwg BIPBC<br><br>Mae polisi presennol wedi cael ei adnewyddu ac ei diweddaru. Fe cymeradwyed y polisi yn ystod mis Mehefin 2023, ac daeth i fodolaeth yn Gorffennaf 2023. | | 1 **2** 3 4 | Wedi'i gwblhau |
| P1.8 | Ail-lunio a darparu Gwasanaeth Diogelu Iechyd newydd | | EDPH | | |
| | P1.8.1 | Adleoli staff TTP a datblygu model gwasanaeth newydd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru<br><br>Mae hwn wedi ei gwblhau yn llwyddiannus | | 1 **2** 3 4 | Wedi'i gwblhau |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| P2.1 | Rhoi camau gweithredu ar waith i wella mynediad at wasanaethau meddygon teulu a gwasanaethau cymunedol | | DPC | | |
| | P2.1.1 | Cwblhau'r gwaith o werthuso'r Model Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys presennol, ac adolygu'r dull o integreiddio a gwella effeithiolrwydd y gwasanaeth lle bo angen.<br><br>Asesiad o'r oedi cyn cwblhau:<br>Mae'r gwaith hwn wedi bod yn fwy cymhleth na'r disgwyl yn wreiddiol. Mae tîm y prosiect wedi cynnal adolygiad a oedd yn cynnwys 580 o arolygon, 14 o gyfweliadau cleifion, cyfarfodydd gofal sylfaenol ac adolygu dogfennau (cyllid; SOPs ac ati). Mae dogfen drafod wedi cael ei chwblhau ac mae'n cael ei thrafod ar hyn o bryd yn y Bwrdd Iechyd er mwyn cytuno ar ddull unedig gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr unedig ar gyfer UPCC. Mae tîm y prosiect wedi diwygio'r dyddiad cyflawni i Ch4. | | 1 2 3 4 | Yn mynd rhagddo |
| P2.2 | Gweithredu cam nesaf Datblygu Clwstwr Carlam | | DPC | | |
| | P2.2.1 | Adolygu, diwygio a dechrau gweithredu cam nesaf Datblygu Clwstwr Carlam gan gynnwys prosiectau cydweithredol proffesiynol<br><br>Asesiad o'r oedi cyn cwblhau:<br>Diwylliannol a pherthynol yw'r newidiadau angenrheidiol, a bydd hyn yn cymryd mwy o amser i'w cyflawni nag a oedd yn bosibl yn Ch2. Nid yw hyn yn benodol i BIPBC. Mae cynnydd wedi'i wneud i sefydlu'r mentrau cydweithredol Deintyddol, Optometreg a Fferylliaeth Gymunedol. Diwygiwyd y dyddiad cyflawni i Ch4. | | 1 2 3 4 | Yn mynd rhagddo |
| P2.4 | Cymryd camau i wella mynediad at wasanaethau deintyddol | | EDO | | |
| | 2.4.1 | Comisiynu gweithgarwch deintyddol cymunedol ychwanegol gan ddefnyddio'r Asesiad o Anghenion y Geg i nodi'r meysydd sydd â'r angen fwyaf<br><br>Asesiad o'r oedi cyn cwblhau:<br>Daeth y broses gaffael i ben ym mis Gorffennaf a chafodd ei sgorio ym mis Awst. Mae'r adroddiad argymhellion gyda chydweithwyr caffael a chyllid, gan symud ymlaen drwy brosesau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd i ganiatáu dyfarniad. | | 1 2 3 4 | Yn mynd rhagddo |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2..4.2 | Cymryd camau i wella mynediad at wasanaethau deintyddol, gan gynnwys: Dechrau gweithio gydag AaGIC i fynd i'r afael â'r rhwystrau i recriwtio staff deintyddol rhyngwladol<br><br>Mae trafodaethau wedi dechrau gyda'r Deon Deintyddol, Tim hyfforddi, Gwaith, Tim Byw a gyda Grŵp Cynllunio Gweithlu Strategol Deintyddol. | | 1 **2** 3 4 | Wedi'i gwblhau |
| P2.5 | Cymryd camau i wella'r defnydd o fferylliaeth gymunedol | | DPC | | |
| | P2.5.3 | Ehangu'r Gwasanaeth Cymorth Fferylliaeth i Gartrefi Gofal<br><br>Mae pob fferyllfa gymunedol â diddordeb a gomisiynwyd i ddarparu'r gwasanaeth (34 o fferyllfeydd) a 220 o Gartrefi Gofal wedi'u dyrannu i fferyllfa a gomisiynwyd i'w galluogi i fanteisio ar y gwasanaeth. Mae chwarter y cartrefi gofal eisoes wedi cael eu hymweliad cyntaf o dan y gwasanaeth hwn. | | 1 **2** 3 4 | Wedi'i gwblhau |
| P3.1 | Sefydlu Rhaglen ddiwygiedig ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio sy'n datblygu ac yn darparu Cynllun Strategol Gofal wedi'i gynllunio ar gyfer y tymor byr, tymor canolig a thymor hir. | | DPC | | |
| | P3.1.1 | Adolygu a newid ffocws y rhaglen gofal wedi'i gynllunio i sicrhau cynnydd cynnar o ran mynediad, canlyniadau a phrofiad, ac i osod y sylfeini ar gyfer cynaliadwyedd tymor hir gan gynnwys GIRFT a chyfleoedd effeithlonrwydd eraill<br><br>Mae'r rhaglen wedi cael ei hailffocysu ac mae bwrdd Rhaglen Gofal wedi'i cyfarfod cyntaf a gynhaliwyd ym mis Awst 2023 | | 1 **2** 3 4 | Wedi'i gwblhau |
| P3.2 | Gweithredu blaenoriaethau a chamau gweithredu uniongyrchol craidd i wella systemau a phrosesau ar gyfer gofal wedi'i gynllunio | | EDO | | |
| | P3.2.1 | Safoni dulliau archebu, cynllunio capasiti a gweinyddu llwybrau<br><br>Asesiad o'r oedi cyn cwblhau:<br>Bu oedi o ran cyllid ar gyfer y cam gweithredu hwn, gyda chyllid yn cael ei ryddhau ar ddiwedd Chwarter 2. Mae hyn wedi arwain at lithriad yn y gwaith o gynllunio'r ddarpariaeth er mwyn cyflawni'r amcan hwn. Diwygiwyd y dyddiad cyflawni i Ch4. | | 1 2 3 **4** | Yn mynd rhagddo |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | P3.2.2 | Symleiddio, safoni ac amlygu gwybodaeth fusnes er mwyn galluogi dulliau mwy effeithiol o ddefnyddio adnoddau cyfredol<br><br>Mae dangos-fyrddau perfformiad cyson Poer BI ar gyfer gofal wedi'i gynllunio bellach y fyw o fewn system Adrodd IRIS, mae'r rhain yn rhoi crynodeb o berfformiad fesul arbenigedd a rhanbarth Gofal Iechyd Integredig | 1 2 3 4 | Wedi'i gwblhau |
| | P3.2.3 | Dechrau gwella'r defnydd o theatrau, gyda chefnogaeth Tîm GIRFT<br><br>Sefydlwyd grŵp Defnyddwyr Theatr Mewnol (DTM) yn Ch2 gyda chylch gorchwyl. Bydd y DTM yn goruchwylio'r amcanion a argymhellir gan GIRFT, gan sicrhau bod cynnydd yn cael ei fonitro, a cynyddu meysydd sydd angen i gynnal ffocws ychwanegol. Bydd canlyniadau ar gyfer amcanion a weithredwyd yn ystod Ch2 yn cael eu hadrodd yn adroddiad monitro blynyddol Ch3 | 1 2 3 4 | Wedi'i gwblhau |
| | P3.2.4 | Dechrau gweithredu'r cynllun Moderneiddio Gwasanaethau Cleifion Allanol<br><br>Rhoddwyd y rhaglen trawsnewid cleifion allanol ar waith yn ystod Ch1/Ch2, ac roedd yn canolbwyntio ar gymhwyso safonau 'Gwneud Pethau'n Iawn y Tro Cyntaf' o ran cyfluniad cleifion allanol. Bydd effaith safonau diwygiedig a'n hamcanion gweithredol sylfaenol yn cael eu monitro ac adroddir arnynt yn yr adroddiad Ch3. | 1 2 3 4 | Wedi'i gwblhau |
| | P3.2.5 | Galluogi cynlluniau gwella a datblygu arbenigedd ar gyfer pob maes sydd wedi cymryd rhan yn y gwaith Gwneud Pethau'n Iawn y Tro Cyntaf: - Orthopedeg, Wroleg, Gynaecoleg, Llawdriniaeth Gyffredinol<br><br>Yn ystod Ch2, mabwysiadodd pob un o'r meysydd clinigol gynllun gwella GIRFT. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro ar draws pob maes arbenigol yn ystod Ch3. Darperir diweddariadau rheolaidd hefyd i'r Cynlluniedig Grŵp Gweithredol Gofal sy'n cyfarfod yn wythnosol. | 1 2 3 4 | Wedi'i gwblhau |
| P3.3 | Datblygu ymhellach a gweithredu Cynllun Arbenigedd penodol ar gyfer Orthopedeg | EDTSP | | |
| | P3.3.2 | Cwblhau'r Achosion Busnes ar gyfer Canolfannau Orthopedeg yn unol â'r Strategaeth Glinigol Genedlaethol ar gyfer Orthopedeg<br><br>Mae achos busnes wedi ei gyflwyno yn llwyddiannus i Lywodraeth Cymru. | 1 2 3 4 | Wedi'u cwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| P3.5 | Cymryd camau i ail-lunio llwybrau er mwyn gwella mynediad, drwy fabwysiadu dull 'syth am brawf' | | EDO | |
| | P3.5.1 | Paratoi gwasanaethau ar gyfer dull syth am brawf prostad a model ar gyfer teledermosgopi<br><br>Mae dull syth am brawf bellach ar waith. Fe gymeradwywyd ein hachos busnes Teledermosgopi gan Llywodraeth Cymru ac mae'r model gofal a gytunwyd yn cael ei ddarparu. | 1 **2** 3 4 | Wedi'i gwblhau |
| | P3.5.2 | Gweithredu llwybrau newydd 'syth am brawf'<br><br>Mae llwybr prostad yn syth i'w brofi wedi'i baratoi a'i roi ar waith. Bydd y llwybr yn cael eu monitro yn ystod Ch3 a Ch4 a bydd amrywiadau yn cael eu hystyried fel rhan o ddatblygiad llwybrau parhaus | 1 **2** 3 4 | Wedi'i gwblhau |
| P4.2 | Rhoi blaenoriaethau a chamau craidd a brys ar waith i wella mynediad, ansawdd a chanlyniadau gofal brys a gofal mewn argyfwng | | EDO | |
| | P4.2.4 | Adolygu effeithiolrwydd y dull 'gofal canolraddol' cymunedol ac ystyried a oes angen addasu'r model (i gyd-fynd â'r adolygiad llinell sylfaen o ysbytai cymunedol a chartrefi gofal)<br><br>Asesiad o'r oedi cyn cwblhau:<br>Dechreuodd yr adolygiad o gapasiti cymunedol gyda phob un o'r tair Cymuned Iechyd Integredig, ond gydag oedi. Diwygiwyd y dyddiad cyflawni i Ch4. Yn ystod Ch3 bydd yr CII yn cydlynu amserlenni i sicrhau bod golwg gyfannol Gogledd Cymru o wasanaethau yn cael ei gwblhau. Bydd cynnydd yn cael ei adolygu fel rhan o fonitro Ch3 ac mae'r dyddiad cyflawni wedi'i ddiwygio i Ch4 | 1 2 3 **4** | Yn mynd rhagddo |
| P5.1 | Cynnal safonau mynediad yn y meysydd hynny sy'n bodloni safonau mynediad canser, a pharhau i wella'r meysydd hynny nad ydynt yn eu bodloni, gan anelu at sicrhau bod 70% o atgyfeiriadau canser yn dechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod erbyn diwedd y flwyddyn | | EDO | |
| | P5.1.1 | Gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau clinig ac endosgopi yn unol â modelau capasiti a galw<br><br>Mae'r modelu Galw a Chapasiti wedi'i adnewyddu gyda chymorth cydweithwyr yng Ngweithrediaeth y GIG. Mae hyn bellach yn cael ei fonitro o fewn ffrwd gaith diagnosteg y Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio i sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf posibl o adnoddau yn erbyn y modelu wedi'i adnewyddu. | 1 **2** 3 4 | Wedi'i gwblhau |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| P5.3 | Cymryd camau uniongyrchol wedi'u targedu i wella mynediad mewn diagnosteg ac arbenigeddau allweddol | | EDO | | |
| | P5.3.1 | Anelu at drefnu apwyntiad cyntaf o fewn 10 diwrnod<br><br>Asesiad o oedi wrth gwblhau:<br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn ymrwymedig i wella mynediad at wasanaethau ar draws pob arbenigedd. Er bod rhywfaint o welliant wedi'i wneud, mae bwlch capasiti sylweddol yn enwedig ym maes Dermatoleg wedi golygu bod angen i'r Bwrdd Iechyd adolygu ei sefyllfa a dilyn dulliau amgen o reoli bylchau yn y gweithlu a gwasanaethau. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro'n agos yn Ch3 i sicrhau cyflawni erbyn Ch4 | | 1 2 3 **4** | Yn mynd rhagddo |
| | P5.3.2 | Ailddylunio llwybrau sy'n galluogi dull 'syth am brawf'<br><br>Mae llwybr canser y brostad wedi'i ailgynllunio a'i roi ar waith, gyda llai o arosiadau yn cael eu profi oherwydd y dull gweithredu syth i brawf | | 1 **2** 3 4 | Wedi'i gwblhau |
| P6.1 | Bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu a gweithredu Strategaeth Iechyd Meddwl ddiwygiedig Gogledd Cymru, ar ôl adolygu'r strategaeth genedlaethol Law yn Llaw at Iechyd Meddwl | | EDPH | | |
| | P6.1.1 | Cymeradwyo'r strategaeth yn Ch2 er mwyn dechrau ei rhoi ar waith<br><br>Strategaeth wedi'i datblygu mewn partneriaeth â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'i chymeradwyo wedyn i'w gweithredu | | 1 **2** 3 4 | Wedi'i gwblhau |
| P6.2 | Gwasanaeth cymorth iechyd meddwl ac emosiynol '111 dewis 2' | | EDPH | | |
| | P6.2.1 | Gwerthuso gwasanaeth cymorth iechyd meddwl ac emosiynol '111 dewis 2', gan gymryd camau gwella yn ôl yr angen<br><br>Cynhaliwyd adolygiad gan gymheiriaid gan yr Uned Comisiynu Cydweithredol Genedlaethol (NCCU). Roedd yr adolygiad hwn yn gadarnhaol, a thynnodd sylw at nifer o feysydd o arfer rhagorol i'w rhannu ledled Cymru | | 1 **2** 3 4 | Wedi'i gwblhau |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| P6.5 | Cefnogi'r Adolygiadau Iechyd Meddwl | | EDPH | | |
| | P6.5.1 | Cynnal cam 1 yr archwiliad fel rhan o'r fframwaith gwella mewn Mesurau Arbennig<br><br>Mae cam 1 yr adolygiad Cyfrif Stoc Iechyd Meddwl wedi'i gwblhau. Mae'r gwasanaeth wedi symud ymlaen i cam 2 a chyfweliadau a gwaith maes gyda'r RCPsych ar y gweill. | | 1 2 3 4 | Wedi'i gwblhau |
| P7.1 | Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau | | EDPH | | |
| | P7.1.1 | Parhau i weithredu Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau<br><br>Gweithredwyd y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Ch2 yn unol â'r disgwyl o fewn Ch2 ac mae'n parhau i roi ffocws i'r gwasanaeth. Disgwylir cynllun cyflawni diwygiedig gan Lywodraeth Cymru yn ystod Ch3 a bydd yn parhau i gael ei roi ar waith gyda phrosesau 'busnes fel arfer' | | 1 2 3 4 | Wedi'i gwblhau |
| P9.2 | Gweithredu'r Rhaglen Cefnogi Diogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol (Blaenoriaethau ar gyfer Gwelliannau a'r Rhaglen Perisperm yng Nghymru) – | | EDO | | |
| | P9.2.1 | Cwblhau a monitro'r gwaith o gyflawni'r argymhellion cychwynnol ar gyfer blwyddyn 1<br><br>Asesiad o'r oedi cyn cwblhau:<br>Cyhoeddwyd argymhellion Darganfod Rhaglen Gymorth Diogelwch Newyddenedigol Mamolaeth genedlaethol yn Ch2 ac mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl canllawiau pellach yn ystod Ch3, a fydd yn rhoi manylion y gofynion ar gyfer y cam nesaf. Mae'r dyddiad cyflawni wedi'i ddiwygio i Ch4, a bydd cynnydd yn cael ei fonitro agos. | | 1 2 3 4 | Yn mynd rhagddo |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| P10.2 | Gwneud gwelliannau sy'n galluogi mynediad amserol at wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, yn unol â gofynion mynediad Iechyd Meddwl Llywodraeth Cymru | | EDO | | |
| | P10.2.1 | Adnewyddu a gweithredu cynllun adfer CAMHS<br><br>Mae pob CII wedi cyflwyno llwybrau canol blwyddyn sydd wedi eu hadnewyddu i Lywodraeth Cymru. Mae cynlluniau adfer wedi eu rhoi ar waith ac yn cael eu monitro'n wythnosol. | | ➀➋➂➃ | Wedi'i gwblhau |
| P16.2 | Datblygu a gweithredu Fframwaith Perfformiad y sefydliad | | EDOF | | |
| | P16.2.1 | Rhoi trefniadau perfformiad ac atebolrwydd diwygiedig ar waith<br><br>**Asesiad o oedi wrth gwblhau:**<br>Cymeradwywyd y Fframwaith Perfformiad Integredig gan y Bwrdd Iechyd ar 28 Medi 2023, gyda threfniadau perfformiad ac atebolrwydd diwygiedig i'w rhoi ar waith yn ystod Ch3. O ganlyniad, mae'r garreg filltir hon wedi'i hailbroffilio i Ch3. Bydd y Fframwaith Perfformiad Integredig yn gweithredu ochr yn ochr â'r Fframwaith Cynllunio Strategol, a hefyd y Fframwaith Rheoli Risg. | | ➀➋➂➃ | Yn mynd rhagddo |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| P18.2 | Ymgorfforri methodoleg gwella Ffordd Betsi ar draws y sefydliad | EDTSP | | |
| | P18.2.1 | Datblygu model cynaliadwy o gymorth i wella gwasanaethau ar gyfer rhaglenni gwaith y Gymuned Iechyd Integredig/ rhaglenni gwaith rhanbarthol a rhaglenni gwaith ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr<br><br>Mae gan fodel diwygiedig ar gyfer cefnogi cymunedau iechyd a rhwydweithiau a rhaglenni clinigol BCU gyfan wedi'i gyd-gynllunio, ei gytuno a'i weithredu gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gweithrediadau a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd. | 1 2 3 4 | Wedi'i gwblhau |
| | P18.2.2 | Sicrhau bod adnoddau gwella gwasanaethau yn cael eu dyrannu i flaenoriaethau strategol y sefydliad drwy fforwm dynodedig<br><br>Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gweithrediadau a Chyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd a'r llall mae timau wedi cadarnhau eu blaenoriaethau ar gyfer ailddyrannu adnoddau gwella a llwybrau, gyda chefnogaeth gan y triongli mewn perthynas â'r hyn y gellir ei gyflawni mewn Mesurau Arbennig, blaenoriaethau Gweinidogol, risgiau sefydliadol allweddol ac adolygiadau GIRFT. Wrth symud ymlaen, yr EDG ar gyfer Cynllunio Strategol a Thrawsnewid yw'r fforwm dynodedig ar gyfer monitro a chefnogi'r broses o ddyrannu adnoddau gwella a newid er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r portffolio o newid mawr y cytunwyd arno. Mae hyn yn cyd-fynd ag arfer gorau rheoli rhaglenni P3O. | 1 2 3 4 | Wedi'i gwblhau |
| | P18.2.3 | Datblygu Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Gwella i gydlynu'r gwaith o ddarparu methodoleg gwella yn gyson, ac annog hyfforddiant staff mewn methodoleg, offer a thechnegau gwella.<br><br>Mae'r Tîm Trawsnewid a Gwella yn parhau i hyfforddi ac ymgysylltu â'r sefydliad i wreiddio Methodoleg gwella 'Ffordd Betsi'. Mae cwrs hyfforddi newydd 'Betsi Bitesize' wedi'i ddatblygu ac mae wedi'i ddatblygu cael ei gyflwyno fel cyflwyniad i welliant i ddechreuwyr. Mae'r cwrs canolradd hirach 'Gwella mewn Ymarfer' hefyd yn cael ei gyflwyno a'i deilwra i anghenion PBC. Mae'r tîm hefyd wedi lansio cymuned gwella Betsi o'r enw 'Gwell gan Betsi' i ymgysylltu a dathlu'r bobl hynny sy'n cefnogi gwelliant, ac maent hefyd yn datblygu rhwydwaith gwella ledled Betsi. | 1 2 3 4 | Wedi'i gwblhau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **DPC** | Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol | **EDPH** | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus |
| **EDO** | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau | **EDTSP** | Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol |
| **EDOF** | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | **EDWOD** | Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol |

## 5) Hyder Chwarter 3 a 4

Mae asesiadau presennol gan arweinwyr perthnasol yn dangos bod dwy ran o dair o'r camau gweithredu sydd i fod i gael eu cwblhau yn Ch3 neu Ch4 ar y trywydd iawn heb fesurau lliniaru sylweddol.

| | |
|---|---|
| Ar y trywydd iawn heb fod angen mesurau lliniaru sylweddol | 64% o gamau gweithredu Ch3 a Ch4 |
| Mesurau lliniaru cywiro cyrsiau ar waith, neu'n cael eu hystyried er mwyn cyflawni ar amser neu gyda mân oedi | 27% o gamau gweithredu Ch3 a Ch4 |
| Mae oedi sylweddol cyn cyflawni yn debygol er gwaethaf y mesurau lliniaru | 9% o gamau gweithredu Ch3 a Ch4 |

Fel rhan o broses gynllunio integredig y Bwrdd Iechyd, ac yn unol â dull y Fframwaith Triad, bydd y Timau Cynllunio, Perfformiad a Risg yn monitro ac yn herio pob DPA Ch3 a Ch4.

Gan ddefnyddio'r system casglu data a sicrwydd sydd newydd ei datblygu a ddatblygwyd gan y Tîm Trawsnewid, byddwn yn rheoli perfformiad y Cynllun Blynyddol, yn gwerthuso ei effeithiolrwydd ac yn rhannu'r hyn a ddysgir o'n cyflawniadau a'n heriau o fewn y sefydliad, gan sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn bodloni ei heriau. ar gyfer hunan-wella.

## 6) Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor **DDERBYN SICRWYDD** ar y cynnydd hyd yma, gan gydnabod y meysydd heriol.

<table>
<tr><td>Teitl adroddiad:<br>Report title:</td><td colspan="4">Adroddiad Ansawdd Integredig</td></tr>
<tr><td>Adrodd i:<br>Report to:</td><td colspan="4">Y Bwrdd Iechyd</td></tr>
<tr><td>Dyddiad y Cyfarfod:<br>Date of Meeting:</td><td colspan="4">30 Tachwedd 2023</td></tr>
<tr><td>Crynodeb Gweithredol:<br>Executive Summary:</td><td colspan="4">Mae’r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth a dadansoddiad i’r Bwrdd Iechyd am faterion pwysig yn ymwneud ag ansawdd sydd wedi codi yn ystod y cyfnod blaenorol, ochr yn ochr â data tueddiadau tymor hwy, a gwybodaeth am y gwelliannau sydd ar y gweill.</td></tr>
<tr><td>Argymhellion:<br>Recommendations:</td><td colspan="4">Gofynnir i’r Bwrdd nodi’r adroddiad hwn.</td></tr>
<tr><td>Arweinydd Gweithredol:<br>Executive Lead:</td><td colspan="4">Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth<br>Dr Nick Lyons, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol<br>Gareth Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd</td></tr>
<tr><td>Awdur yr Adroddiad:<br>Report Author:</td><td colspan="4">Matthew Joyes, Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu Ansawdd</td></tr>
<tr><td>Pwrpas yr adroddiad:<br>Purpose of report:</td><td>I’w Nodi<br>For Noting<br>☐</td><td colspan="2">I Benderfynu arno<br>For Decision<br>☐</td><td>Am sicrwydd<br>For Assurance<br>☒</td></tr>
<tr><td>Lefel sicrwydd:<br>Assurance level:</td><td>Arwyddocaol<br>Significant<br>☐<br>Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu’r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives</td><td>Derbyniol<br>Acceptable<br>☐<br>Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu’r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</td><td>Rhannol<br>Partial<br>☒<br>Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu’r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</td><td>Dim Sicrwydd<br>No Assurance<br>☐<br>Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>No confidence / evidence in delivery</td></tr>
<tr><td colspan="5">Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd ‘Rhannol’ neu ‘Dim Sicrwydd’ wedi’i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd ‘Derbyniol’ neu uwch, a’r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:<br>Justification for the above assurance rating. Where ‘Partial’ or ‘No’ assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve ‘Acceptable’ assurance or above, and the timeframe for achieving this:</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae hyder yn y data a ddarperir yn yr adroddiad, fodd bynnag, mae cyflymder y dysgu a’r gwella yn dal i fod yn faes sy’n peri pryder ac yn ganolbwynt allweddol i’r gwaith. Mae hyn yn cael sylw drwy amrywiaeth o fesurau gan gynnwys y camau gweithredu sy’n cyd-fynd â Mesurau Arbennig a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:<br>Link to Strategic Objective(s):</td><td colspan="3">Ansawdd</td></tr>
<tr><td colspan="2">Goblygiadau rheoleiddiol a chyfreithiol:<br>Regulatory and legal implications:</td><td colspan="3">Mae’r Ddyletswydd Ansawdd yn ofyniad statudol o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.<br><br>Mae’r ddyletswydd ansawdd statudol yn mynnu bod y prosesau gwneud penderfyniadau gan y Bwrdd Iechyd yn ystyried gwella gwasanaethau iechyd a chanlyniadau i bobl Cymru – mae’r ddyletswydd hefyd yn cynnwys Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal newydd.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | Gall enghreifftiau o niwed i gleifion ddangos methiant i gydymffurfio â safonau GIG Cymru neu ddeddfwriaeth diogelwch. |
| **Yn unol â WP7, a oedd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br>***In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?*** | Amh. |
| **Yn unol â WP68, a oedd Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br>***In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?*** | Amh. |
| **Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)**<br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks (cross reference to the BAF and CRR)*** | BAF1.2 |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith***<br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Amh. |
| **Goblygiadau i'r gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Amh. |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | Amh. |
| **Cysylltiadau â risgiau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)<br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | BAF1.2 |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br>***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)*** | Amh. |
| **Y Camau Nesaf: Gweithredu argymhellion**<br>***Next Steps: Implementation of recommendations***<br>Amh. | |
| **Rhestr o Atodiadau:**<br>***List of Appendices:***<br>1. Adroddiad Ansawdd Integredig y Bwrdd | |

# Adroddiad Ansawdd Integredig y Bwrdd – Tachwedd 2023

## CYFLWYNIAD

Ar gyfer y GIG yng Nghymru, ystyrir bod ansawdd yn cael ei ddiffinio fel diwallu anghenion y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu yn barhaus, yn ddibynadwy ac yn gynaliadwy. Wrth gyflawni hyn, o dan y Ddyletswydd Ansawdd statudol, bydd angen i Weinidogion Cymru a chyrff y GIG sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn **ddiogel**, **yn amserol**, **yn effeithiol**, **yn effeithlon**, **yn deg** ac **yn canolbwyntio ar yr unigolyn**. Mae chwe galluogwr yn sail i'r meysydd hyn, sef **arweinyddiaeth, y gweithlu, diwylliant, gwybodaeth, dysgu ac ymchwil** a **dull systemau cyfan.** Mae'r meysydd a'r galluogwyr hyn yn ffurfio'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal ar gyfer Cymru a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2023 drwy ganllawiau statudol.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb i'r Bwrdd Iechyd o wybodaeth allweddol sy'n ymwneud ag ansawdd. Nod yr adroddiad hwn yw rhoi uchafbwyntiau ansawdd allweddol i'r Bwrdd Iechyd ym mhob cyfarfod. Mae gwybodaeth fanwl am dueddiadau, themâu, dysgu a gwella yn cael ei darparu i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau (QSE).

Mae'r Adroddiad Ansawdd Integredig cysylltiedig wedi cael ei ailfformatio ac mae'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd fel drafft cychwynnol o fformat adroddiad newydd. Croesewir adborth gan y Bwrdd. Mae'r adroddiad wedi ei strwythuro, er hwylustod, o gwmpas tri maes ansawdd: diogelwch cleifion, profiad cleifion ac effeithiolrwydd clinigol.

## DIOGELWCH CLEIFION

<u>Digwyddiadau sy'n Adroddadwy yn Genedlaethol (NRI)</u>

Rhwng mis Medi a mis Hydref 2023, cafwyd 42 o ddigwyddiadau a oedd yn adroddadwy yn genedlaethol.

Ar ddiwedd mis Hydref, cyfanswm yr ymchwiliadau hwyr i ddigwyddiadau a oedd yn adroddadwy yn genedlaethol oedd 27 (i fyny o 18 adeg ysgrifennu'r adroddiad diwethaf). Mae'r Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio dros ddiogelwch cleifion yn parhau i arwain cyfarfodydd cymorth a chraffu wythnosol gydag is-adrannau i leihau'r nifer hwn.

Gellir dadansoddi'r digwyddiadau sy'n adroddadwy yn genedlaethol a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod hwn yn ôl themâu fel a ganlyn:

- Briw pwyso a gafwyd drwy ofal iechyd (HAPU), Graddfa 3 neu uwch
- Cleifion mewnol yn cwympo
- Asesu a chydnabod dirywiad claf/defnyddiwr gwasanaeth

Mae pob digwyddiad sy'n adroddadwy yn genedlaethol yn destun Adolygiad Cyflym Gwneud yn Ddiogel, Panel Dysgu Cyflym o bosibl (dan arweiniad swyddog gweithredol clinigol neu ddirprwy), ac ymchwiliad pellach. Mae'r dysgu a'r camau gweithredu sy'n deillio o bob un yn cael eu cofnodi ar fodiwl rheoli digwyddiadau Datix Cymru. Caiff ffurflenni dysgu eu drafftio ar gyfer pob ymchwiliad a'u cyflwyno'n genedlaethol i Weithrediaeth GIG Cymru i roi sicrwydd o ran dysgu a chamau gweithredu.

Mae manylion y gwaith gwella sy'n mynd rhagddo o ran y themâu wedi cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau ac mae ymchwiliad manwl i'r cwympiadau wedi'i gyflwyno yn y cyfarfod diwethaf. Mae ymchwiliad manwl o HAPU ar y gweill yn y dyfodol.

Mae adolygiad archwilio mewnol o atal a rheoli cwympiadau wedi'i gwblhau ac mae'n mynd drwy'r broses gymeradwyo. Bydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Rhagfyr. Mae NOC yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch sy'n ymwneud â chwympiadau ac argymhellion yr Archwiliad Mewnol wedi cael eu cyfuno mewn un cynllun gwella cyffredinol ar gyfer y Bwrdd Iechyd a fydd yn cael ei adolygu, ei fonitro ar gyfer cynnydd a chyfleoedd i rannu arferion da gan y Grŵp Cwympiadau misol a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i ddatrys pryderon a godwyd gan Uwch Grwneriaid Ei Fawrhydi ynghylch ansawdd ymchwiliadau ac mae'n gweithio drwy adolygiad ac ailddyluniad llawn o'r broses ymchwilio a digwyddiadau. Bydd hyn yn digwydd dros y misoedd nesaf a bydd yn cael ei ddylunio ar y cyd â staff a rhanddeiliaid, gan gyd-fynd yn llwyr â'r gwaith gwella dysgu a'r gwaith mesurau arbennig. Bydd y gwaith hefyd yn cynnwys sicrhau aliniad agosach rhwng y broses digwyddiadau a'r broses adolygu marwolaethau (gan gynnwys adborth gan Arholwyr Meddygol Annibynnol) sydd ar hyn o bryd yn cyfrif am lawer o'r pryderon diweddar a nodwyd gan grwneriaid.

Digwyddiadau Byth

Rhwng mis Medi a mis Hydref 2023, cafwyd un Digwyddiad Byth. Yn yr achos hwn roedd yn ymwneud â meddyginiaeth drwy'r llwybr anghywir. Barnwyd mai isel oedd y niwed i'r claf a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad. Cynhaliwyd Panel Dysgu Cyflym i nodi gwersi i'w dysgu ar unwaith ac mae ymchwiliad llawn ar y gweill.

Yn y flwyddyn ariannol flaenorol, adroddwyd am bum digwyddiad byth, o'i gymharu â 10 dros yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol (wrth ystyried digwyddiadau a israddiwyd yn ddiweddarach).

Rhybuddion a Hysbysiadau Diogelwch Cleifion

Nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw rybuddion hwyr.

Rheoli ac Atal Heintiau

Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud yn well na'r disgwyl ar gyfer yr holl organebau perfformiad allweddol, ond o'i gymharu â byrddau iechyd darparwyr ysbytai acíwt eraill, ni yw'r ail isaf ac rydym yn is na'r cyfartaledd ar gyfer heintiau llif gwaed Staphylococcus aureus, MRSA ac MSSA. Ar ben hynny, rydym yn adrodd llai o achosion nag ar gyfer yr un cyfnod y llynedd.

Ar gyfer ein heintiau llif gwaed gram-negyddol, rydym yn is na'r cyfartaledd ac yn cyflawni'r gyfradd isaf ar gyfer Klebsiella. Rydym ar y cyfartaledd ac yn drydydd uchaf ar gyfer E.coli ond eto'n uwch na'r cyfartaledd ac yn ail uchaf ar gyfer Pseudomonas aeruginosa.

Rydym ni dim ond ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Clostridioides difficile a'r trydydd isaf yng Nghymru, ond yn adrodd llai o achosion nag ar gyfer yr un cyfnod y llynedd.

Ar ôl gweld cynnydd yn nifer yr achosion COVID-19 ym mis Medi, roedd nifer yr achosion yn debyg iawn ym mis Hydref. Nid yw'r Ffliw na'r Norofeirws yn peri unrhyw bryder ar draws y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd.

Mae'r Tîm Atal Heintiau a'r Cymunedau Iechyd Integredig yn cydweithio'n agos i wneud y canlynol:

- Sicrhau bod yr hyn a ddysgir o adolygiadau ar ôl haint yn cael ei raeadru a bod gwelliannau'n cael eu monitro drwy grwpiau atal heintiau lleol a'r grŵp atal heintiau strategol.

- Darparu rhaglen archwilio gadarn o arferion sy'n gysylltiedig â'r prif heintiau ac adrodd ar ddata perfformiad i lywio gwelliannau.
- Cynyddu ymwybyddiaeth drwy ymgyrchoedd hyrwyddo a sefydlu ymgyrch newydd "HABITS" i ymgysylltu ymhellach â'n staff, ein cleifion a'r cyhoedd.

Adolygiad o COVID Nosocomaidd

Mae angen ymchwilio i gyfanswm o 1,483 o achosion yn unol â'r rhaglen genedlaethol (mae 58.94% o achosion wedi'u cwblhau). Ar sail trywydd mis Awst 2022, roedd y Bwrdd Iechyd 559 o achosion ar ei hôl hi er mwyn cwblhau pob ymchwiliad erbyn mis Mawrth 2024 (gwybodaeth a ddarparwyd ym mis Hydref gan Ddadansoddwr Busnes Gweithredol GIG Cymru).

Mae ymchwilydd clinigol ychwanegol yn ymuno â'r tîm ar secondiad ac mae cyfarfodydd strategaeth yn cael eu cynnal bob tair wythnos i gefnogi'r rhaglen. Mae'r trywydd mewnol nawr yn awgrymu y bydd yr ymchwiliadau'n cael eu cwblhau erbyn y dyddiad cau. Mae gwaith goruchwylio wythnosol yn cael ei wneud a chymerir camau lliniaru os yw'n ymddangos bod y trywydd yn mynd yn ansefydlog eto.

Mae pob llythyr rhagarweiniol Ton 1 – 4 wedi cael ei anfon at gleifion. Disgwylir i lythyrau canlyniad Ton 1 a Thon 2 gael eu postio yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 13 Tachwedd 2023.

Call 4 Concern

Mae cynnwys cleifion yn eu penderfyniadau ynghylch triniaeth gofal iechyd yn gwella diogelwch cleifion, yn lleihau niwed ac yn ailgydbwyso'r berthynas rhwng unigolion a gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae hefyd yn un ffordd o ddangos ymateb i'r galwadau diweddar am "Reol Martha".

Mae Call 4 Concern yn caniatáu i gleifion a theuluoedd gyfeirio'n uniongyrchol at y Tîm Ymyriadau Acíwt os oes ganddynt bryderon eu bod nhw eu hunain neu'r claf/perthynas yn dirywio, ac nad yw eu pryderon wedi cael eu cydnabod. Bydd y claf ei hun a pherthnasau yn aml yn sylwi ar ddirywiad cyn y bydd staff. Mae cael gwasanaeth Call 4 Concern yn rhoi llais i gleifion a theuluoedd, ac yn ychwanegu rhwyd diogelwch i gleifion.

Cafodd y gwasanaeth ei dreialu i ddechrau gyda chleifion yn cael eu rhyddhau o ofal critigol i'r wardiau cyffredinol yn Ysbyty Gwynedd. Roedd hyn yn eu galluogi i brofi'r system alw/atgyfeirio ar gyfer grŵp bach iawn o gleifion. Rhwng mis Mai 2022 a mis Mawrth 2023 roedd ail gam yr astudiaeth beilot yn cynnwys un ward lawfeddygol. Yn ystod y cyfnod peilot cafwyd cyfanswm o 8 galwad. O'r galwadau hyn, cafodd un claf ei uwchgyfeirio i ofal critigol a chafodd claf arall ei drin ar y ward gan osgoi cael ei dderbyn i ofal critigol drwy ymyriad y Tîm Ymyriadau Acíwt. Cofrestrodd y fenter Call 4 Concern ar y Rhaglen Gydweithredol Gofal Diogel ym mis Tachwedd 2022, sydd wedi rhoi'r gefnogaeth a'r arweiniad i'r Tîm Ymyriadau Acíwt roi'r gwasanaeth ar waith i bob oedolyn sy'n glaf mewnol yn Ysbyty Gwynedd ym mis Ebrill 2023. Ers mis Ebrill 2023, mae cyfanswm o 50 o alwadau wedi dod i law.

Yr argymhelliad yw parhau â gwaith parhaus Call 4 Concern yn Ysbyty Gwynedd, gyda'r nod o sicrhau bod y gwasanaeth ar gael yn y Canolbarth a'r Dwyrain yn y dyfodol agos.

## PROFIAD CLEIFION

Cwynion

Rhwng mis Medi a mis Hydref 2023, aethpwyd i'r afael â 344 o gwynion o dan y Rheoliadau Gweithio i Wella, yn ogystal â 67 o gwynion fel Datrysiadau Cynnar. Cafodd y Tîm PALS 1,149 o gysylltiadau.

Y themâu cyson oedd oedi o ran amser apwyntiadau, diffyg triniaeth neu asesiad, ac agwedd ac ymddygiad staff clinigol. Bydd y themâu hyn yn sail i weithgareddau gwella a dysgu a fydd yn cael

eu cynnal gyda'r tîm i nodi'r camau gweithredu a'r ymyriadau sydd eu hangen i leihau'r cwynion yn y maes hwn drwy fynd i'r afael â gwraidd yr achosion.

Mae ymchwiliadau hwyr i gwynion yn dal yn her – ddiwedd Hydref 2023, roedd 287 o ymchwiliadau'n dal heb eu cwblhau ac mae'n ymddangos bod y llwybr gwella wedi sefydlogi. Mae'r Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio ar gyfer profiad cleifion a gofalwyr yn parhau i arwain cyfarfodydd cymorth a chraffu wythnosol gydag uwch adrannau i leihau'r nifer hwn, ac mae'r tîm wedi gweithio gyda Chymunedau Iechyd Integredig i ddatblygu cynlluniau gwella a llwybrau newydd. Gan gydnabod bod y llwybr gwella wedi sefydlogi a'r dirywiad yn y sefyllfa, mae ymchwiliad trylwyr i gwynion yn cael ei gynnal yn ystod mis Tachwedd gyda phob un o'r Cymunedau Iechyd Integredig a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio.

<u>Adborth gan gleifion</u>

Rhwng mis Mehefin a mis Medi 2023, cafodd 16,040 o arolygon adborth cleifion eu cwblhau drwy'r system adborth amser real. Mae cynnydd sylweddol yn nifer yr arolygon a gwblhawyd oherwydd bod system negeseuon testun ar waith i ofyn am adborth gan gleifion mewn meysydd penodol: roedd 78.62% o'r ymatebwyr yn teimlo bod eu profiad yn dda iawn.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu'r dull o gasglu, defnyddio a dysgu o adborth cleifion ac mae tasglu ar waith i wneud gwelliannau cyflym.

## EFFEITHIOLRWYDD CLINIGOL

Mae'r Grŵp Adfywio wedi lleihau'r risg sy'n gysylltiedig â darparu hyfforddiant cynnal bywyd yn yr ardal ganolog o 20 i 12, oherwydd bod yr adeilad hyfforddi ar y safle yn Ysbyty Glan Clwyd wedi cael ei ailddatblygu'n llwyddiannus.

Mae'r adolygiad o'r strategaeth gofal lliniarol wrthi'n cael ei gwblhau. Mae ymgysylltu â thimau clinigol yn mynd rhagddo a bydd yn llywio unrhyw newidiadau.

Mae'r Archwiliad Cenedlaethol o Ofal ar Ddiwedd Oes (NACEL) wedi dangos tystiolaeth o sefyllfa lle mae'r Bwrdd Iechyd yn disgyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar draws y DU, ac mae'r mater yn cael ei drafod yn y Grŵp Cyflawni Ansawdd ym mis Tachwedd i nodi materion a nodi cynllun gwella.

## SICRWYDD A RHEOLEIDDIO

<u>Cyfraith Gofal Iechyd</u>

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gael nifer o Hysbysiadau Atal Marwolaethau yn y Dyfodol (PFD) (Rheoliad 28). Ers yr adroddiad diwethaf, cafwyd 3 Hysbysiad PFD. Roedd yr Hysbysiadau hyn yn codi pryderon ynghylch:

- Pwysau parhaus a lefelau staffio yn yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Gwynedd;
- Ansawdd ymchwiliadau i ddiogelwch cleifion;
- Diffyg cofnodion electronig yn yr Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu.

Mae'r themâu allweddol sy'n codi o hysbysiadau eleni yn ymwneud â'r canlynol:

- Prydlondeb ac ansawdd ymchwiliadau i ddiogelwch cleifion;
- Diffyg cofnodion electronig a risgiau cysylltiedig cofnodion papur;
- Oedi wrth drosglwyddo cleifion ambiwlans, llif cleifion a chapasiti mewn Adrannau Achosion Brys.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gwrdd â Chrwneriaid lleol i sicrhau arferion gweithio da ac i sicrhau bod proses cwest yn gweithio'n effeithiol. Mae'r Tîm Gweithredol wedi cymeradwyo gweithdrefn Cwest newydd er mwyn safoni prosesau yn well ar draws y Bwrdd Iechyd.

Rheoleiddio Ansawdd

Rhwng mis Medi a mis Hydref 2023, cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) eu hadroddiadau arolygu i Uned Hergest ac Uned Ablett.

Yn Uned Hergest, canfu AGIC fod staff wedi ymrwymo i ddarparu gofal diogel ac effeithiol a bod protocolau addas ar waith i reoli risg, iechyd a diogelwch a rheoli heintiau. Fodd bynnag, roedd angen gwneud gwelliannau i atal cleifion rhag dod ag eitemau a oedd yn peri risg diogelwch ar y wardiau. Roedd meysydd eraill i'w gwella yn cynnwys darparu gweithgareddau therapiwtig i gleifion a chydymffurfio â hyfforddiant gorfodol i staff yn gyffredinol. Roedd cynlluniau gofal cleifion yn adlewyrchu anghenion a risgiau unigol ac yn cael eu cynnal i safon. Roedd y dogfennau statudol a welsom yn cadarnhau bod y cleifion yn cael eu cadw'n briodol dan y gyfraith.

Yn Uned Ablett, roedd AGIC wedi gweld staff yn trin cleifion â pharch ac yn cefnogi cleifion ar Ward Tegid gydag anghenion gofal personol mewn ffordd urddasol a sensitif. Roedd y cleifion y siaradom â nhw yn canmol y gofal a ddarparwyd a'r modd maen nhw'n rhyngweithio â staff. Roedd y cofnodion cleifion a adolygwyd yn ystod yr arolygiad yn gynhwysfawr ac o safon. Roedd prosesau llywodraethu a goruchwylio priodol o ran gweithgareddau a chyfarfodydd i drafod materion yn ymwneud â gofal cleifion a nodi gwelliannau. Fodd bynnag, roedd AGIC wedi nodi materion yn ymwneud â chynllun ffisegol, lleoliad a gofynion staffio ystafell Adran 136. Canfu AGIC broblemau tebyg yn ystod eu harchwiliad blaenorol o Uned Ablett ym mis Ionawr 2019. Mae AGIC wedi gofyn i'r Bwrdd Iechyd gynnal adolygiad o'r defnydd o ystafell Adran 136 i ganfod atebion i'r materion amgylcheddol ac i'r gofynion staffio er mwyn darparu gwasanaeth diogel i staff yn ystafell Adran 136 yn ogystal â chynnal lefelau staffio diogel ar y wardiau.

Ombwdsmon

Cyhoeddodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru un Adroddiad Budd y Cyhoedd yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi a mis Hydref 2023. Nodwyd hyn yn yr adroddiad diwethaf. Cyhoeddwyd Adroddiad arall ar Fudd y Cyhoedd ar 02 Tachwedd 2023. Yn yr achos hwn, cafodd y claf ei weld yn Ysbyty Glan Clwyd ym mis Ionawr 2018, ond cymerodd 11 mis cyn iddo gael llawdriniaeth frys gan arwain at golli golwg yn barhaol mewn un llygad a bod angen triniaeth gydol oes i reoli'r boen a'r cyflwr a achoswyd gan y difrod. Beirniadodd yr Ombwdsmon hefyd yr oedi cyn ymateb i'r gŵyn. Fe wnaeth yr Ombwdsmon nifer o argymhellion, ac mae pob un wrthi'n cael ei gyflawni.

Sicrhau Ansawdd

I ymateb i'r gwersi a ddysgwyd o Ymgyrch Jasmine (adolygiad o esgeulustod difrifol mewn cartrefi gofal yn Ne Cymru) ac argymhellion allweddol o adolygiad y Comisiynydd Pobl Hŷn o gartrefi gofal ledled Gogledd Cymru, mae'r Tîm Ansawdd Cartrefi Gofal wedi datblygu Fframwaith Sicrhau Ansawdd. Un o elfennau allweddol y Fframwaith hwn yw datblygu cyfres o adnoddau cymorth ansawdd clinigol (CQSTau) dan arweiniad y Tîm Ansawdd Cartrefi Gofal ar y cyd â thimau clinigol arbenigol, Cymunedau Iechyd Integredig a darparwyr. Mae'r CQSTau yn ffordd o fonitro ansawdd yn rhagweithiol, canfod yn gynnar, atal a chefnogi mewn cartrefi gofal ledled Gogledd Cymru. Mae hefyd yn cynnwys y dystiolaeth ddiweddaraf, cynlluniau gweithredu a deunyddiau addysg ar gyfer cartrefi gofal fel rhan o becyn adnoddau ac maent hefyd yn tynnu sylw at y meysydd hyfforddiant sydd eu hangen. Mae'r CQSTau wedi cael eu cydnabod yn genedlaethol fel arfer gorau gyda'r argymhelliad gan swyddfa Prif Swyddog Nyrsio Cymru y dylai byrddau iechyd eraill eu mabwysiadu.

## CASGLIAD

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth a dadansoddiad i'r Bwrdd Iechyd am faterion sy'n ymwneud ag ansawdd, gan gynnwys Digwyddiadau sy'n Adroddadwy yn Genedlaethol, Digwyddiadau Byth a gweithgareddau rheoleiddiol sydd wedi digwydd yn ystod y ddau fis diwethaf.

Dyma'r prif bwyntiau i'w nodi:

- Prif themâu'r Digwyddiadau sy'n Adroddadwy yn Genedlaethol o hyd yw cwympiadau, briwiau pwyso a gafwyd yn sgil gofal iechyd, ac adnabod cleifion sy'n dirywio a chymryd camau ar eu rhan. Mae gwaith gwella ar gyfer yr holl feysydd hyn yn mynd rhagddo o dan arweinyddiaeth uwch staff clinigol.
- Mae un Digwyddiad Byth wedi digwydd.
- Mae dau Adroddiad Budd y Cyhoedd gan yr Ombwdsmon wedi cael eu cyhoeddi.
- Mae'r Crwneriaid yn parhau i godi pryderon mewn nifer o feysydd. Mae'r meysydd hyn yn cael eu hadolygu ac mae camau gweithredu'n cael eu cymryd.
- Mae nifer yr ymchwiliadau hwyr i ddigwyddiadau diogelwch cleifion yn parhau i fod yn her, sy'n golygu bod cwblhau o fewn yr amserlen darged yn her hefyd.
- Mae nifer y cwynion hwyr yn dal i fod yn annerbyniol o uchel, gydag effaith annerbyniol ar gleifion, ac mae hynny'n effeithio ar gydymffurfio â'r targed cwblhau.
- Mae'r cynllun Call 4 Concern yn YG bellach wedi'i gyflwyno'n llawn ar draws y safle.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i gyflwyno gwybodaeth fanylach i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau.

Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd nodi'r adroddiad.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board




# Adroddiad Ansawdd Integredig y Bwrdd

## November 2023

Cynhyrchir yr adroddiad hwn gan Gyfarwyddiaeth Ansawdd y Bwrdd Iechyd. Dyma adroddiad newydd sy’n datblygu i roi dangosyddion ansawdd allweddol i’r Bwrdd, y cyhoedd a rhanddeiliaid.

# Adroddiad Ansawdd Integredig y Bwrdd - Diogelwch Cleifion

| Dangosydd | Aug-22 | Sep-22 | Oct-22 | Nov-22 | Dec-22 | Jan-23 | Feb-23 | Mar-23 | Apr-23 | May-23 | Jun-23 | Jul-23 | Aug-23 | Sep-23 | Oct-23 | Cyfanswm | Gweddol | Gweithchlin |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Digwyddiadau diogelwch cleifion gyda niwed | 1,674 | 1,556 | 1,632 | 1,558 | 1,742 | 1,730 | 1,552 | 2,103 | 2,111 | 2,254 | 2,347 | 2,445 | 2,446 | 2,335 | 2,479 | 29,964 | 1,998 | |
| Digwyddiadau sy'n Adroddadwy yn Genedlaethol (NRI) | 17 | 18 | 22 | 25 | 21 | 22 | 22 | 20 | 22 | 25 | 19 | 12 | 17 | 26 | 16 | 304 | 20 | |
| NRIs Hwyr | 33 | 47 | 48 | 40 | 39 | 39 | 37 | 43 | 37 | 30 | 29 | 16 | 18 | 28 | 27 | Amh. | 34 | |
| NRIs - Cwympiadau Cleifion | 1 | 5 | 3 | 5 | 5 | 5 | 3 | 5 | 5 | 2 | 3 | 0 | 3 | 1 | 1 | 47 | 3 | |
| NRIs - Briwiau Pwyso a Gafwyd yn Sgil Gofal Iechyd | 7 | 6 | 8 | 8 | 4 | 10 | 12 | 6 | 9 | 11 | 10 | 7 | 4 | 13 | 6 | 121 | 8 | |
| NRIs – Dirywiad Claf | 0 | 1 | 3 | 2 | 1 | 1 | 1 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 | 0 | 15 | 1 | |
| NRIs - Digwyddiadau Byth | 1 | 2 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 1 | 7 | 0 | |

**Nodiadau ategol:** Mae data'n cael ei ddarparu o system Datix y Bwrdd Iechyd ac mae'n gywir adeg adrodd (08/11/2023). Mae data am ddigwyddiadau yn dangos dyddiad y digwyddiad (sy'n wahanol i'r dyddiad yr adroddwyd amdano).

**Meysydd ffocws allweddol:**















# Adroddiad Ansawdd Integredig y Bwrdd - Profiad Cleifion a Gofalwyr

| Dangosydd | Aug-22 | Sep-22 | Oct-22 | Nov-22 | Dec-22 | Jan-23 | Feb-23 | Mar-23 | Apr-23 | May-23 | Jun-23 | Jul-23 | Aug-23 | Medi | Oct-23 | Cyfanswm | Gweddol | Gwreichlin |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cwynion dan Gweithio i Wella | 194 | 169 | 159 | 160 | 138 | 133 | 149 | 168 | 133 | 169 | 178 | 182 | 181 | 168 | 176 | 2,457 | 164 | |
| Datrysiadau cynnar | 98 | 69 | 64 | 48 | 49 | 51 | 48 | 23 | 26 | 44 | 28 | 43 | 28 | 42 | 25 | 686 | 46 | |
| Cwynion hwyr dan Gweithio i Wella | 438 | 464 | 420 | 341 | 335 | 359 | 307 | 295 | 271 | 254 | 266 | 260 | 284 | 260 | 287 | Amh. | 323 | |
| Cysylltiadau'r Ombwdsmon | 19 | 15 | 10 | 12 | 10 | 18 | 10 | 6 | 11 | 8 | 17 | 10 | 5 | 14 | 6 | 171 | 11 | |
| Ymchwiliadau llawn yr Ombwdsmon | 3 | 5 | 4 | 1 | 4 | 5 | 5 | 1 | 1 | 1 | 5 | 2 | 0 | 3 | 0 | 40 | 3 | |
| Cysylltiadau PALS | 554 | 578 | 645 | 505 | 432 | 479 | 518 | 694 | 563 | 519 | 595 | 556 | 566 | 583 | 654 | 8,441 | 563 | |

**Nodiadau ategol:** Mae data'n cael ei ddarparu o system Datix y Bwrdd Iechyd ac mae'n gywir adeg adrodd (08/11/2023). Mae data profiad yn dangos dyddiad y gŵyn neu'r cyswllt.

**Meysydd ffocws allweddol:**


















| | |
|---|---|
| Y Pwyllgor sy'n Adrodd: | **Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau** |
| Cadeirydd y Pwyllgor: | Rhian Watcyn Jones |
| Dyddiad y cyfarfod diwethaf: | 27.10.23 |
| Paratowyd y papur gan: | Swyddog Llywodraethu Corfforaethol |

**PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL / MATERION A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR**

Gofynnir i'r Bwrdd nodi bod y materion canlynol wedi cael eu trafod yn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau ar 27 Hydref 2023:

- Amlinelliad o'r Cylchoedd Adrodd
- Adroddiad Gofal Sylfaenol
- Adroddiad Blynyddol Stori'r Claf
- Y Gofrestr Risg
- Adroddiad Diogelwch Cleifion
- Adroddiad Blynyddol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) ar Addasrwydd i Ymarfer – Ebrill 2022 – Mawrth 2023
- Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol
- Adroddiad Perfformiad Mis 5
- Archwiliad Dwfn i Gwympiadau
- Cyflwyniad ar y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio
- Adroddiad Mesurau Arbennig (Cylch 2) gan gynnwys Allbwn o'r Sesiynau Datblygu ar Adolygiadau Annibynnol

**EITEMAU I'W HUWCHGYFEIRIO I'R BWRDD**

- Teimlwyd y byddai Gweithdy Bwrdd am hyfforddiant risgiau strategol yn ddefnyddiol iawn
- bod hwn yn gam rhagweithiol pwysig, yn hytrach nag yn ymateb i wendidau a nodwyd.

**Y CYFARFOD NESAF**

Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau yn cael ei gynnal ar 19 Rhagfyr 2023.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Teitl adroddiad:**<br>***Report title:*** | Lefelau Staff Nyrsio | | | |
| **Adrodd i:**<br>***Report to:*** | Bwrdd BIPBC | | | |
| **Dyddiad y Cyfarfod:**<br>***Date of Meeting:*** | Dydd Iau, 30 Tachwedd 2023 | | | |
| **Crynodeb Gweithredol:**<br><br>***Executive Summary:*** | Yn unol â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, mae angen cyflwyniad blynyddol ffurfiol i'r Bwrdd sy'n rhoi manylion y lefelau staff nyrsio perthnasol ar gyfer pob ward unigol sy'n ymwneud ag adrannau 25B i 25E o'r Ddeddf.<br><br>Nod yr adroddiad hwn a'r atodiadau cysylltiedig yw sicrhau'r Bwrdd bod y gofynion deddfwriaethol sy'n gysylltiedig ag Adran 25B o'r Ddeddf a dyletswydd i gyfrifo a chymryd camau i gynnal lefelau staff nyrsio yn cael eu bodloni. | | | |
| **Argymhellion:**<br>***Recommendations:*** | Gofynnir i'r Bwrdd dderbyn yr adroddiad hwn er mwyn cael sicrwydd mewn perthynas â'r sefydliad yn cyflawni ei *"ddyletswydd i gyfrifo a chymryd camau i gynnal lefelau staff nyrsio"* ymhob ward sy'n dod o dan feini prawf cynhwysiant Adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016. | | | |
| **Arweinydd Gweithredol:**<br>***Executive Lead:*** | Mrs Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth | | | |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>***Report Author:*** | Mrs Alison Griffiths, Cyfarwyddwr Nyrsio ar gyfer y Gweithlu, Staffio a Safonau Proffesiynol<br>Miss Joanna Brown, Arweinydd y Rhaglen Staff Nyrsio | | | |
| **Pwrpas yr adroddiad:**<br>***Purpose of report:*** | I'w Nodi<br>*For Noting*<br>☐ | I Benderfynu arno<br>*For Decision*<br>☐ | Am sicrwydd<br>*For Assurance*<br>☒ | |
| **Lefel sicrwydd:**<br><br>***Assurance level:*** | Arwyddocaol<br>*Significant*<br>☐<br>Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives* | Derbyniol<br>*Acceptable*<br>☒<br>Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Rhannol<br>*Partial*<br>☐<br>Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Dim Sicrwydd<br>*No Assurance*<br>☐<br>Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>*No confidence / evidence in delivery* |
| **Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' neu uwch, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:**<br><br>***Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:*** | | | | |
| **Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:**<br><br>***Link to Strategic Objective(s):*** | Mae *Adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* yn berthnasol i wardiau meddygol acíwt i gleifion mewnol sy'n oedolion, wardiau llawfeddygol acíwt i gleifion mewnol sy'n oedolion, a wardiau cleifion mewnol pediatrig. | | | |

| | |
|---|---|
| | Mae *Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol* yn nodi gofyniad i sbarduno'r newidiadau y mae angen i ni eu gweld yn ein system iechyd a gofal cymdeithasol, fel ei bod yn gallu diwallu anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yng Nghymru. Mae recriwtio a chadw staff yn themâu allweddol yn y cynlluniau hyn, ac mae'n nodi, er bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gallu denu'r doniau gorau yn y byd, bod tystiolaeth o fregusrwydd mewn gwasanaethau penodol sydd wedi effeithio ar ddarparu gofal o safon i gleifion.<br><br>Mae *Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol* yn dwyn cysylltiad uniongyrchol rhwng cyfraddau swyddi gwag a gwariant uchel ar asiantaethau.<br><br>Mae *blaenoriaethau'r Prif Swyddog Nyrsio* yn cynnwys uchelgais i ddenu, recriwtio, hyfforddi, addysgu a chadw'r gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth fel bod nifer y swyddi gwag ym maes nyrsio a bydwreigiaeth yn lleihau, gan weithio tuag at ddim swyddi gwag dros 3-5 mlynedd |
| **Goblygiadau rheoleiddiol a chyfreithiol:**<br><br>***Regulatory and legal implications:*** | Gofynion adrodd statudol sy'n cyd-fynd â "*dyletswydd i gyfrifo a chymryd camau i gynnal lefelau staff nyrsio*" Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 |
| **Yn unol â WP7, a oedd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?*** | Ddim yn berthnasol |
| **Yn unol â WP68, a oedd Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?*** | Ddim yn berthnasol |
| **Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)**<br><br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks (cross reference to the BAF and CRR)*** | CRR2113 - Staff Nyrsio (Efallai y bydd parhad y gwasanaeth yn y fantol oherwydd bod llai o weithlu nyrsio). Oherwydd nifer y swyddi gwag nyrsio ar draws y Bwrdd Iechyd, mae risg i'r ddarpariaeth gofal nyrsio diogel ac effeithiol o safon.<br><br>Gall methu â darparu lefelau staff nyrsio priodol i sicrhau amser i ofalu am gleifion mewn modd sensitif beryglu gallu'r Bwrdd Iechyd i ddarparu gofal iechyd yn effeithiol, a rhoi enw da gwasanaethau nyrsio'r Bwrdd Iechyd yn y fantol. |

| | |
|---|---|
| | Gallai'r effaith ar gydnerthedd y gweithlu yn sgil y canlynol waethygu hyn ymhellach;<br>1) effeithiau pandemig Covid 19<br>2) proffil oedran uwch o fewn y gweithlu<br>3) cyfradd cadw staff nyrsio ar draws y Bwrdd Iechyd.<br><br>CRR15 Recriwtio a Chadw (mae hyn yn berthnasol i'r holl staff ar draws y Bwrdd Iechyd ond mae'r gweithlu nyrsio yn elfen sylweddol o'r risg).<br><br>Mae risg y bydd y Bwrdd Iechyd yn ei chael hi'n anodd recriwtio a chadw staff o safon mewn meysydd penodol. Gallai hyn fod oherwydd prinder grwpiau staff penodol yn y DU a natur wledig rhai ardaloedd o'r bwrdd iechyd. Gallai hyn arwain at brofiad a chanlyniadau gwael i gleifion, morâl a lles isel a phresenoldeb gwael gan staff. |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith***<br><br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Bydd asesiad ariannol sy'n deillio o ddyletswydd statudol y sefydliad i gyfrifo lefelau staff nyrsio yn cael ei ystyried yn y cylch cynllunio ariannol ar gyfer 2024/25. |
| **Goblygiadau i'r gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Mae goblygiadau i'r gweithlu yn ymwneud â'r gallu i ariannu a recriwtio gweithlu digonol o nyrsys cofrestredig a chynorthwywyr gofal iechyd. |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br><br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | Ddim yn berthnasol |
| **Cysylltiadau â risgiau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)<br><br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | Fel y nodir uchod - ID Risg 1976 |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br><br>***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)*** | Ddim yn berthnasol |
| **Y Camau Nesaf:**<br><br>**Gweithredu argymhellion**<br><br>***Next Steps:***<br><br>***Implementation of recommendations*** | |

| |
|---|
| ***Bydd asesiad ariannol sy'n deillio o ddyletswydd statudol y sefydliad i gyfrifo lefelau staff nyrsio yn cael ei ystyried yn y cylch cynllunio ariannol ar gyfer 2024/25.*** |
| **Rhestr o Atodiadau:**<br>**List of Appendices:**<br><br>1. Cyflwyno Lefelau Staff Nyrsio yn Flynyddol i'r Bwrdd<br>2. Crynodeb o Lefelau Staff Nyrsio ar gyfer wardiau lle mae Adran 25B yn berthnasol |

**Atodiad 1**

<table>
<tr><th colspan="4">Cyflwyno Lefelau Staff Nyrsio yn Flynyddol i’r Bwrdd</th></tr>
<tr><td>Bwrdd Iechyd</td><td colspan="3">Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr</td></tr>
<tr><td>Dyddiad cyflwyno Lefelau Staff Nyrsio yn flynyddol i’r Bwrdd</td><td colspan="3">30 Tachwedd 2023</td></tr>
<tr><td>Y cyfnod dan sylw</td><td colspan="3">01 Hydref 2022 i 30 Medi 2023</td></tr>
<tr><td rowspan="4">Nifer ac enwau wardiau adran 25B yn ystod y cyfnod adrodd.<br>• Wardiau <u>meddygol</u> acíwt i gleifion mewnol sy’n oedolion (gan gynnwys wardiau cleifion mewnol Oncoleg a Hematoleg)<br>• Wardiau <u>llawfeddygol</u> acíwt i gleifion mewnol sy’n oedolion (gan gynnwys wardiau cleifion mewnol Gynaecolegol i Fenywod)<br>• Wardiau cleifion mewnol <u>pediatrig</u></td><td colspan="3">Roedd cyfanswm o 46 o wardiau yn bodloni’r gofynion mewn perthynas ag Adran 25B[1] o Ddeddf 2016 ar ddiwedd y cyfnod adrodd hwn. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae tair ward arall wedi bodloni gofynion Adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, sef ward Bonney yn Ysbyty Maelor Wrecsam, a wardiau Aran a Ffrancon yn Ysbyty Gwynedd.<br><br>Mae’r tablau isod yn nodi’r wardiau sydd wedi cael eu cynnwys o dan Adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn ystod y cyfnod adrodd hwn.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Wardiau <u>meddygol</u> acíwt i gleifion mewnol sy’n oedolion<br>Cyfanswm ar ddechrau’r cyfnod adrodd (Hydref 2022) 24 ward<br>Cyfanswm ar ddiwedd y cyfnod adrodd (Medi 2023) 26 ward</td></tr>
<tr><td>Ysbyty Gwynedd x 8</td><td>Ysbyty Glan Clwyd x 9</td><td>Ysbyty Maelor Wrecsam x 9</td></tr>
<tr><td>Aran<br>Glaslyn<br>Glyder<br>Hebog<br>Moelwyn<br>Prysor<br>Tryfan<br>Alaw (Oncoleg a Hematoleg)</td><td>Ward 1<br>Ward 2<br>Ward 4<br>Ward 6 (Ward 11 gynt)<br>Ward 9<br>Ward 10<br>Ward 12<br>Ward 14<br>Enfys (Oncoleg a Hematoleg)</td><td>Acton<br>Uned Gardiaidd Acíwt<br>Bersham<br>Bonney<br>Cunliffe<br>Fleming<br>Morris<br>Pantomime<br>Tywysog Cymru (ENT gynt)</td></tr>
</table>

---

[1]Mae adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn berthnasol i wardiau meddygol acíwt i gleifion mewnol sy’n oedolion; wardiau llawfeddygol acíwt i gleifion mewnol sy’n oedolion; ac wardiau cleifion mewnol pediatrig. Wedi’u heithrio o’r diffiniad o wardiau Adran 25B mae adrannau Cleifion Allanol, pyrth derbyn/unedau asesu, unedau gofal critigol/dibyniaeth uchel, ardaloedd achosion dydd, ardaloedd adsefydlu, theatrau, unedau triniaethol ac unedau gofal coronaidd.  Mae’r meysydd hyn fel arfer yn cael adolygiad staff nyrsio blynyddol (o leiaf) i sicrhau bod digon o nyrsys i ddarparu gofal amserol a sensitif i gleifion.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Wardiau llawfeddygol aciwt i gleifion mewnol sy'n oedolion (ar ddiwedd y cyfnod adrodd ym mis Medi 2023)**<br>Cyfanswm ar ddechrau'r cyfnod adrodd (Hydref 2022) 16 ward<br>Cyfanswm ar ddiwedd y cyfnod adrodd (Medi 2023) 17 ward | | | | | |
| | **Ysbyty Gwynedd x 5** | | **Ysbyty Glan Clwyd x 6** | | **Ysbyty Maelor Wrecsam x 6** | |
| | Enlli<br>Dulas<br>Ogwen<br>Tegid<br>Ffrancon (Menywod) | | Ward 3<br>Ward 5<br>Ward 6 (ABH)<br>Ward 7<br>Ward 8<br>Ward 19a Glaslyn (Menywod) | | Cleifion sy'n cyrraedd<br>ENT (Ward Tywysog Cymru bellach)<br>Erddig<br>Mason<br>Glyndŵr / Uned Asesu Llawfeddygol<br>U5 (Samaritan gynt)<br>Bonney (Menywod) | |
| | **Wardiau cleifion mewnol pediatrig (ar ddiwedd y cyfnod adrodd ym mis Medi 2023)**<br>Cyfanswm ar ddechrau'r cyfnod adrodd (Hydref 2022) 3 ward<br>Cyfanswm ar ddiwedd y cyfnod adrodd (Medi 2023) 3 ward | | | | | |
| | **Ysbyty Gwynedd x 1** | | **Ysbyty Gwynedd x 1** | | **Ysbyty Maelor Wrecsam x 1** | |
| | Uned y Plant | | Uned y Plant | | Uned y Plant | |
| **Gofynion staffio ar ddechrau'r cyfnod adrodd (Hydref 2022)** | **Wardiau meddygol aciwt i gleifion mewnol sy'n oedolion** | | **Wardiau llawfeddygol aciwt i gleifion mewnol sy'n oedolion** | | **Wardiau cleifion mewnol pediatrig** | |
| **Staff gofynnol (WTE) a gyfrifwyd (Hydref 2022)** | **Nyrs Gofrestredig** | **Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd** | **Nyrs Gofrestredig** | **Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd** | **Nyrs Gofrestredig** | **Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd** |
| | 482.43 | 432.23 | 308.16 | 273.78 | 83.46 | 31.27 |
| **WTE o'r staff gofynnol a ariannwyd (Hydref 2022)** | 470.61 | 326.05 | 298.20 | 201.15 | 79.47 | 30.37 |
| **Gofynion staffio yn dilyn Cylch y Gwanwyn (Mai 2023)** | **Wardiau meddygol aciwt i gleifion mewnol sy'n oedolion** | | **Wardiau llawfeddygol aciwt i gleifion mewnol sy'n oedolion** | | **Wardiau cleifion mewnol pediatrig** | |

| Staff gofynnol (WTE) a gyfrifwyd (Mai 2023) | Nyrs Gofrestredig | Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd | Nyrs Gofrestredig | Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd | Nyrs Gofrestredig | Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 495.22 | 450.71 | 318.72 | 279.76 | 83.46 | 31.27 |
| **WTE o'r staff gofynnol a ariannwyd (Mai 2023)** | 484.15 | 335.44 | 308.58 | 205.99 | 79.45 | 31.27 |
| **Gofynion staffio ar ddiwedd y cyfnod adrodd (Medi 2023)** | **Wardiau meddygol acíwt i gleifion mewnol sy'n oedolion** | | **Wardiau llawfeddygol acíwt i gleifion mewnol sy'n oedolion** | | **Wardiau cleifion mewnol pediatrig** | |
| **Staff gofynnol (WTE) a gyfrifwyd (Medi 2023)** | **Nyrs Gofrestredig** | **Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd** | **Nyrs Gofrestredig** | **Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd** | **Nyrs Gofrestredig** | **Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd** |
| | 517.96 | 475.85 | 321.44 | 283.66 | 83.46 | 31.27 |
| **WTE o'r staff gofynnol a ariannwyd (Medi 2023)** | 518.05 | 465.80 | 318.93 | 275.5 | 80.98 | 28.95 |
| **Prif nyrs Band 7 Ychwanegol WTE ar ddiwedd y cyfnod adrodd (wedi'i hariannu ond wedi'i heithrio o'r rhestr staffio a gynlluniwyd)** | 26 | | 17 | | 3 | |
| **Staff gofynnol (WTE) a gyfrifwyd a WTE o'r staff gofynnol a ariannwyd** | Er bod goblygiadau ariannol cyfrifiadau lefel staff nyrsio hydref 2022 wedi cael eu hystyried yn ystod cylch cynllunio ariannol 2022/23, er mwyn sicrhau bod gofal nyrsio sensitif ac amserol yn cael ei ddarparu i gleifion, roedd pob ward sy'n ymwneud ag Adran 25B yn gallu recriwtio a staffio i'r lefel staffio ofynnol gan ddefnyddio staff dros dro yn ôl yr angen er mwyn cyflawni'r rhain.<br><br>Mae'r Crynodeb o'r Lefelau Staff Nyrsio ar gyfer Wardiau 25B (atodiad 2) yn rhoi rhagor o fanylion am weithlu'r wardiau unigol a'r gofynion cyfwerth ag amser llawn cysylltiedig. Y lefelau staffio a nodir yn Atodiad 2 yw'r lefelau staff nyrsio a gyfrifwyd sy'n ofynnol i staffio gwelyau a ariennir yn unig. Mae gwaith yn mynd rhagddo yn y Cymunedau Iechyd Integredig perthnasol o ran defnyddio gwelyau uwchgyfeirio. | | | | | |

| | |
|---|---|
| **Defnyddio'r dull trionglog i gyfrifo lefel staff nyrsio ar wardiau adran 25B** | Yn unol â gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, mae wardiau sy'n ymwneud ag Adran 25B yn destun adolygiadau ddwywaith y flwyddyn (o leiaf)[2] er mwyn cyfrifo'n briodol beth yw lefelau staff nyrsio a gynlluniwyd. Mae'r fethodoleg drionglog a ddisgrifir yn adran 25C o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn nodi'r egwyddorion i'w defnyddio wrth gyfrifo'r lefelau staff nyrsio.<br><br>Mae tri cham i'r broses o gyfrifo'r lefelau staff nyrsio yn BIPBC:<br><br>**Cam 1: Adolygiad Cychwynnol**<br>Mae'r broses adolygu'n dechrau ar lefel ward drwy gwblhau'r ffurflen ddynodedig yn unol â Chanllawiau Gweithredol 'Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016' fel tystiolaeth bod y fethodoleg drionglog yn cael ei hadolygu a'i defnyddio. Mae hyn hefyd yn sicrhau dull cyson a thryloyw o wneud cyfrifiadau am lefel staff nyrsio. Cyflwynir hyn ar lefel safle, er mwyn ei adolygu, ei drafod a'i herio'n gefnogol.<br><br>Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio Cymuned Iechyd Integredig / Cyfarwyddwr Cyswllt Nyrsio yn arwain yr adolygiad safle i gyfrifo lefelau staff Nyrsio ar y cyd â'r Penaethiaid Nyrsio, Metronau, Rheolwyr/Prif Nyrsys Ward, a chydweithwyr o'r Adran Gyllid. Mae'r adolygiad yn seiliedig ar wybodaeth ansoddol a meintiol sy'n cynnwys:<br><br>➢ Data aciwtedd – mesurir aciwtedd drwy ddefnyddio adnodd cynllunio'r gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer Lefelau Gofal Cymru[3].<br>➢ Barn broffesiynol – mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio Cymuned Iechyd Integredig / Cyfarwyddwr Cyswllt Nyrsio ar y cyd â'r Pennaeth Nyrsio, y Metron a'r Rheolwr Ward perthnasol yn defnyddio eu gwybodaeth am y maes clinigol ynghyd â'r dystiolaeth o'r archwiliad aciwtedd i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch cyfrifo lefelau staff Nyrsio.<br>➢ Dangosyddion Ansawdd – mae'r adolygiad yn cynnwys dadansoddi'r dangosyddion ansawdd sy'n arbennig o sensitif i ofal a ddarperir gan Nyrs yn unig. Dyma'r dangosyddion ansawdd y dangoswyd bod ganddynt gysylltiad â lefelau staffio isel a rhaid adrodd arnynt:<br>o *Cleifion yn cwympo* – unrhyw gwymp y mae claf wedi'i gael ar y ward;<br>o *Briwiau pwyso* – cyfanswm nifer y briwiau pwyso y mae claf yn eu cael yn yr ysbyty yr ystyrir eu bod wedi datblygu tra roedd y claf ar y ward; |

[2] Mae cyfrifiadau statudol o ran lefelau staff nyrsio ar draws wardiau sy'n ymwneud ag Adran 25B fel arfer yn digwydd rhwng mis Mawrth/Ebrill (adroddiad i'r Bwrdd ym mis Mai) a mis Awst/Medi (adroddiad i'r Bwrdd ym mis Tachwedd).
[3]Mae Lefelau Gofal Cymru yn cynnwys pum lefel o aciwtedd; o Lefel 5 lle mae'r claf yn ansefydlog iawn ac mewn perygl, a bod angen lefel ddwys o ofal nyrsio parhaus ar sail 1:1 arno, i Lefel 1 lle mae'r claf mewn cyflwr sefydlog a rhagweladwy, a bod angen gofal nyrsio arferol arno.

| | |
|---|---|
| | - *Camgymeriadau o ran meddyginiaethau* – unrhyw gamgymeriad a wneir gan staff Nyrsio wrth baratoi, rhoi neu hepgor meddyginiaeth (mae hyn yn cynnwys digwyddiadau byth sy'n ymwneud â meddyginiaeth).<br>- *Cwynion* – yn gyfan gwbl neu'n rhannol am ofal a ddarperir i gleifion gan nyrsys a wneir yn unol â'r rheoliadau cwynion.<br>Ar gyfer wardiau cleifion mewnol pediatrig lle mae adrannau 25B o Ddeddf 2016 yn berthnasol, yn ogystal â'r dangosyddion ansawdd gofal a nodir uchod, rhaid adrodd ar anafiadau ymdreiddiad/alldro hefyd.<br><br>Mae'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd yn yr adolygiad cychwynnol yn cynnwys y canlynol, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt:<br><br>➢ Nifer y gwelyau ac arbenigedd ar y ward ar hyn o bryd, gan gynnwys triniaethau penodol.<br>➢ Amgylchedd, cynllun a safle daearyddol y ward<br>➢ Manylion newidiadau i wasanaethau a llwybrau cleifion<br>➢ Mentrau, rhaglenni gwella neu gynlluniau gweithredu ar wardiau<br>➢ Y ddarpariaeth bresennol o staff nyrsio, gan gynnwys y rhai nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr staffio graidd (rheolwr ward goruchwyliol, gweithwyr cymorth dementia, gofalwyr adeilad, gweinyddwyr wardiau ac ati).<br>➢ Data metrig sy'n ymwneud â'r Gweithlu/Staffio hy cydymffurfio ag Adolygiad Perfformiad a Datblygiad (PADR), cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol, salwch, absenoldeb mamolaeth.<br>➢ Data sy'n ymwneud â llif/gweithgarwch cleifion.<br>➢ Data sy'n ymwneud â chyllid/gweithlu hy defnyddio staff parhaol/dros dro.<br>➢ Defnyddio gwelyau uwchgyfeirio heb eu hariannu<br><br>**Cam 2: Adolygiad o'r Bwrdd Iechyd cyfan**<br><br>Cynhelir adolygiad o'r Bwrdd Iechyd cyfan (aml-safle, penodol i wasanaeth/arbenigedd), dan arweiniad y Cyfarwyddwr Nyrsio ar gyfer y Gweithlu, Staffio a Safonau Proffesiynol, gan ystyried canllawiau cenedlaethol a thystiolaeth o'r arferion gorau, er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae'r adolygiad yn cynnwys rhannu arferion da a gwersi a ddysgwyd a sicrwydd o gydymffurfio â gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 sef bod pob model gweithlu sydd wedi'i gynnwys yn cael cynnydd o 26.9% ac mae Prif Nyrs Ward Band 7 ychwanegol wedi cael ei chyfrifo yn y cynllun gweithlu cyffredinol ar gyfer pob ward. |

| | |
|---|---|
| | Mae heriau a thrafodaethau cefnogol yn cael eu cynnal rhwng yr uwch dîm arwain nyrsys[4], a chydweithwyr o'r gweithlu a chyllid i sicrhau bod y fethodoleg drionglog yn cael ei rhoi ar waith yn ddilys ac yn gywir.<br><br>**Cam 3: Cyflwyno Lefelau Staff Nyrsio yn Ffurfiol i Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth**<br><br>Cyfarwyddwr Nyrsio Cymuned Iechyd Integredig / Cyfarwyddwr Cyswllt Nyrsio yn cyflwyno eu lefelau staff nyrsio arfaethedig yn ffurfiol i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth fel y person dynodedig a gadarnhawyd[5] ac ar ôl cael cymeradwyaeth, caiff hyn ei gyflwyno'n ffurfiol i'r Bwrdd.<br><br>Cyflwynwyd y lefelau staffio yn ffurfiol i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth ar 5 Hydref 2023 gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid ar gyfer Comisiynu a Strategaeth a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl yn bresennol. |
| **Goblygiadau o ran cyllid a'r gweithlu** | Yn ystod y cyfnod adrodd, **nid** yw 35 ward wedi gweld **unrhyw** newidiadau i'w lefelau staffio gofynnol; mae 8 ward wedi gofyn am newid ac mae 3 ward ychwanegol wedi bodloni'r diffiniad o ward sy'n ymwneud ag Adran 25B o'r Ddeddf. O'r 8 ward yr oedd angen newid i'w staffio gofynnol, roedd 4 o'r rhain yn deillio o ail-ddylunio gwasanaethau ar draws yr arbenigeddau strôc ac orthopedig. Bydd newidiadau sy'n gysylltiedig ag ailddylunio gwasanaethau yn cael eu monitro a bydd lefelau staffio'n cael eu haddasu fel y bo'n briodol wrth i'r rhain ddatblygu ac aeddfedu.<br><br>Mae gofynion gweithlu wardiau unigol ac unrhyw ailgyfrifo cysylltiedig o ran gofynion staff nyrsio FTE wedi'u crynhoi yn atodiad 2. Mae'r naratif a nodir yn atodiad 2 yn darparu sail resymegol dros unrhyw newidiadau i'r lefelau staff nyrsio, er enghraifft newidiadau i ganlyniadau ansawdd gofal, neu newid parhaus ym mhatrwm aciwtedd cleifion a gweithgarwch ward. Mae amrywiadau hysbys ar hyn o bryd o ran hyd seibiannau heb dâl ar draws y wardiau Adran 25B gydag Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Maelor Wrecsam yn draddodiadol yn cael egwyl heb dâl o 30 munud yn ystod sifftiau dydd a nos hir, ac Ysbyty Glan Clwyd yn cael awr heb dâl. Adlewyrchir y gwahaniaethau hyn yn y gofynion staffio yn Atodiad 2.<br><br>Mae'r newidiadau cyfwerth ag amser llawn cyffredinol wedi'u crynhoi yn y tabl isod: |

[4] Cyfarwyddwr Nyrsio ar gyfer y Gweithlu, Staffio a Safonau Proffesiynol, Cyfarwyddwr Nyrsio Cymuned Iechyd Integredig / Cyfarwyddwr Cyswllt Nyrsio a Phenaethiaid Nyrsio

5 Rhaid i'r person dynodedig weithredu o fewn fframwaith llywodraethu'r Bwrdd Iechyd gan awdurdodi'r person hwnnw i ymgymryd â'r cyfrifiad staff nyrsio ar ran Prif Swyddog Gweithredol y Bwrdd Iechyd. O ystyried y gofyniad i arfer barn nyrsio broffesiynol, dylai'r person dynodedig fod wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a bod â dealltwriaeth o gymhlethdodau pennu lefel staff Nyrsio yn yr amgylchedd clinigol, fel y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth.

| | Staff **Gofynnol** ar ddechrau'r cyfnod adrodd (Hydref 2022) | | Staff a **Ariannwyd*** (ym mis Hydref 2023)* | | Staff **Gofynnol** ar ddiwedd y cyfnod adrodd (Medi 2023) Yn cynnwys wardiau ychwanegol sy'n bodloni'r diffiniad sy'n ymwneud ag Adran 25B | | **Amrywiant FTE** rhwng y staff wedi'i ariannu ar hyn o bryd (Hydref 2023) a'r staff gofynnol (Medi 2023) Yn cynnwys wardiau ychwanegol sy'n bodloni'r diffiniad sy'n ymwneud ag Adran 25B | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nyrs Gofrestredig | Cynorthwywyr Gofal Iechyd | Nyrs Gofrestredig | Cynorthwywyr Gofal Iechyd | Nyrs Gofrestredig | Cynorthwywyr Gofal Iechyd | Nyrs Gofrestredig | Cynorthwywyr Gofal Iechyd |
| Cyfanswm YMW | 277.14 | 219.90 | 277.14 | 219.9 | 279.17 | 229.45 | 2.03 | 9.55 |
| Cyfanswm YG | 207.51 | 195.71 | 228.92 | 217.91 | 228.83 | 218.01 | -0.09 | 0.1 |
| Cyfanswm YGC | 261.51 | 253.56 | 261.51 | 253.56 | 264.23 | 258.88 | 2.72 | 5.32 |
| Cyfanswm Pediatreg | 83.46 | 31.27 | 80.98 | 28.95 | 83.46 | 31.27 | 2.48 | 2.32 |
| Cyfanswm Oncoleg a Hematoleg | 33.3 | 31.27 | 33.3 | 31.27 | 33.3 | 31.27 | 0 | 0 |
| Cyfanswm Gynaecolegol Menywod ** | 11.37 | 5.69 | 36.11 | 18.66 | 33.87 | 21.9 | -2.24 | 3.24 |
| Cyfanswm BIPBC | 874.29 | 737.40 | 917.96 | 770.25 | 922.86 | 790.78 | 4.9 | 20.53 |

* Staff **a ariannwyd** sy'n deillio o'r Cyfriflyfr Cyllid
** Staff gofynnol ar waith cyn bodloni'r diffiniad sy'n ymwneud ag Adran 25B
Sylwch: Nid yw'r ffigurau ar gyfer staff gofynnol a staff a ariannwyd yn cynnwys prif nyrsys ychwanegol a staff cymorth ward hy gofalwyr adeilad, gweithwyr cymorth dementia ac ati.
Mae unrhyw ofynion ychwanegol a nodir sy'n cael eu hystyried yn rhai dros dro, er enghraifft gwelyau uwchgyfeirio heb eu hariannu, yn cael eu derbyn fel pwysau cost ar gyfer y Cymunedau Iechyd Integredig ac nid ydynt wedi cael eu cynnwys yn yr uchod.

Bydd goblygiadau ariannol yr adolygiad o gyfrifiadau lefel staff nyrsio yn ystod hydref 2023 yn cael eu hystyried yng nghylch cynllunio ariannol 2024/25.

Fel Bwrdd Iechyd, mae gwaith sylfaenol wedi cael ei gyflawni i sicrhau cynlluniau ar gyfer cynnal lefelau staff Nyrsio a chydymffurfiad â Deddf 2016 hyd yma, ac mae'n parhau. Mae datblygiad parhaus wrth i fwy o

| | |
|---|---|
| | wybodaeth, dadansoddi a dealltwriaeth gael eu meithrin yn lleol ac yn genedlaethol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd amrywiaeth o gamau tymor byr a thymor hir i wella i ba raddau y mae gweithlu digonol ar gael i weithio fel Nyrsys Cofrestredig (RN) a Chynorthwywyr Gofal Iechyd (HCA) ar draws pob lleoliad iechyd. Mae Gwasanaethau Pobl yn parhau i weithio'n agos gydag uwch gydweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth i recriwtio a chadw cymaint â phosibl o fentrau staff nyrsio a bydwreigiaeth sy'n cynnwys:<br><br>• Mentrau sy'n cael eu harwain gan y timau Gwasanaethau Pobl a Nyrsio Corfforaethol i ddatblygu a gweithredu dulliau arloesol o recriwtio Nyrsys Cofrestredig a Chynorthwywyr Gofal Iechyd<br>• Parhau i ymgysylltu â'r Rhaglen genedlaethol Cymru Gyfan ar gyfer Recriwtio Nyrsys Rhyngwladol gyda 148 o Nyrsys a Addysgwyd yn Rhyngwladol FTE wedi'u recriwtio ers mis Hydref 2022.<br>• Llwybr carlam Baglor mewn Nyrsio ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd a gyflogir gan y sefydliad i sicrhau ein bod yn gallu "tyfu ein staff ein hunain"<br>• Roedd Ymarferwyr Cynorthwyol (Band 4) wedi integreiddio'n dda o fewn sefydliadau, ac maen nhw'n ymgymryd â dyletswyddau estynedig ar sail asesu cymhwysedd yn unol â Fframwaith Cymru Gyfan. Gwaith parhaus yn genedlaethol i geisio rheoleiddio/cofrestru'r gweithwyr gofal hyn yn broffesiynol.<br>• Adolygiadau sefydlu blynyddol ar gyfer meysydd sydd wedi'u heithrio o Adran 25B o'r Ddeddf i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i ddarparu digon o nyrsys i'w galluogi i ofalu am gleifion mewn modd sensitif lle bynnag y bydd gwasanaethau nyrsio'n cael eu darparu neu eu comisiynu.<br>• Defnyddio system SafeCare Allocate i gael darlun byw o'r lefelau staffio a'r galw gan gleifion er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol. Darperir adroddiadau wythnosol i'r Cyfarwyddwr Nyrsio/Cyfarwyddwr Cyswllt Nyrsio i sicrhau cefnogaeth wedi'i thargedu i feysydd lle mae'r cydymffurfiad yn wael.<br>• Cyflwyno system awto-raeadru'r rhestr staffio i sicrhau bod staff dros dro yn cael eu defnyddio'n effeithlon; a Wagestream i sicrhau lles ariannol gweithwyr rheng flaen drwy roi mynediad at gyflog a enillir.<br>• Adolygu a gwella fframwaith gyrfaoedd BIPBC yn barhaus<br>• Mae mesurau lliniaru tymor byr yn parhau drwy ddefnyddio staff dros dro (staff banc ac asiantaeth) ac adleoli staff parhaol yn fewnol. |
| **Casgliad ac Argymhellion** | |
| | Mae'r adroddiad yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd Iechyd ei fod, yn unol â chanllawiau statudol, yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yng nghyswllt cyfrifiadau bob dwy flynedd ar gyfer wardiau meddygol a llawfeddygol i gleifion mewnol sy'n oedolion 25B; a wardiau cleifion mewnol pediatrig. |

| | |
|---|---|
| | Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, mae lefelau staff nyrsio ar gyfer pob lleoliad gofal iechyd ar draws BIPBC wedi cael eu cyfrifo ar lefel sy'n dangos yr ymrwymiad i 'ystyried pwysigrwydd darparu digon o nyrsys i ganiatáu amser i'r nyrsys ofalu am gleifion mewn modd sensitif'. Mae'r gofyniad statudol hwn wedi sicrhau bod y lefelau staffio ar gyfer pob ward a maes ar draws BIPBC sy'n gofalu am gleifion mewnol wedi'u pennu a, lle bo'n bosibl, eu cynnal. Pan nad yw wedi bod yn bosibl cynnal lefelau staffio, mae'r camau gweithredu a'r mesurau lliniaru ac uwchgyfeirio priodol wedi bod yn unol â Pholisi Lefelau Staff Nyrsio BIPBC<br><br>Mae wedi bod yn heriol bodloni'r rhestr staffio a gynlluniwyd yn gyson ar wardiau, ac o ystyried y sefyllfa glinigol ddeinamig sy'n datblygu'n gyson, gwelwyd dibyniaeth fawr ar farn broffesiynol arweinwyr a rheolwyr nyrsio. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r holl staff wedi dangos cadernid ac undod wrth i'r sefydliad geisio:<br><br>• Cynnal lefelau staff nyrsio yn ystod cyfnodau o lawer o swyddi gwag, absenoldebau staff, a mwy o anghenion gofal cleifion<br>• Rheoli pwysau gofal heb ei drefnu<br>• Rheoli pwysau gwasanaethau wedi'u cynllunio/dewisol yn erbyn cefndir o amseroedd aros sylweddol<br>• Rheoli'r capasiti gwelyau uwchgyfeirio heb eu hariannu<br><br>Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r camau nesaf canlynol:<br><br>1. Adolygiad parhaus o'r gofynion o ran adnoddau i gefnogi'r agenda Gweithlu, Staffio a Safonau Proffesiynol Nyrsio i sicrhau bod y sefydliad yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016; canolbwyntio ar fodloni'r gofynion staff nyrsio drwy ymgyrchoedd recriwtio uchelgeisiol a llwyddiannus; canolbwyntio ar gadw staff ymrwymedig a medrus.<br>2. Mae Strategaeth a Chynllun Pobl BIPBC yn gyfrwng galluogi hanfodol ar gyfer darparu gweithlu nyrsio cynaliadwy, sy'n cael ei gefnogi ymhellach gan Gynllun Gweithredu Gweithlu Cenedlaethol Cymru Gyfan a'r Cynllun Cadw Nyrsys dilynol, sy'n canolbwyntio ar gadw staff ac arloesi.<br>3. Bydd timau cyllid corfforaethol yn gweithio gyda thimau cyllid gweithredol i addasu cyllidebau fel rhan o'r cylch cynllunio blynyddol i adlewyrchu'r rhestrau staffio cymeradwy diwygiedig.<br>4. Bydd y tîm E-amserlennu yn addasu templedi galw rhestrau staffio i adlewyrchu'r 'rhestrau staffio wedi'u cynllunio' y cytunwyd arnynt<br>5. Bydd Rheolwyr Ward yn prosesu recriwtio staff, ar sail y gofyniad staffio diwygiedig ar gyfer nyrsys (lle bo hynny'n berthnasol) |

| | |
|---|---|
| | 6. Bydd Rheolwyr Ward yn arddangos unrhyw newidiadau i'r rhestr staffio a gynlluniwyd ar fyrddau'r ward a ddangosir wrth fynedfa'r ward |

**Atodiad: Adroddiad Cyflwyno Lefel Staff Nyrsio yn Flynyddol i'r Bwrdd**

| | |
|---|---|
| **Ymddiriedolaeth/bwrdd iechyd** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| **Cyfnod yr adroddiad** | Hydref 2022 - Medi 2023 |
| **Wardiau Cleifion Mewnol Pediatrig** | 3 |

Mae angen cofnodi nifer y staff fesul shifft. Dylai'r wybodaeth adlewyrchu'r wybodaeth ar y templed hysbysu cleifion.

Yn unol â gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 a'i Chanllawiau Statudol cysylltiedig, y 'lefel staff nyrsio' yw lefel y nyrsys cofrestredig – a staff eraill y mae dyletswyddau nyrsio wedi'u dirprwyo iddynt gan NG (NG) – sy'n ofynnol i gyflawni'r rhestr staffio a gynlluniwyd. Cydnabyddir bod amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd proffesiynol ychwanegol sy'n cyfrannu at ddarparu a chydlynu gofal a thriniaeth i gleifion. Fodd bynnag, nid yw'r staff hyn wedi'u cynnwys yn y data ar gyfer yr adroddiad hwn. Darperir rhagor o wybodaeth yn yr adroddiad sicrwydd blynyddol (https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/25-5-23-agenda-bundle-public-vf2-compressed-n-v3-0/) am y staff amlbroffesiynol ychwanegol sy'n cyfrannu at gydlynu a darparu gofal cleifion.

**Wardiau Cleifion Mewnol Pediatrig**

**Adroddwyd i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2022**

| Safle | Enw'r Ward | SHIFFT | Rhestr staffio wedi'i chynllunio fel y nodir yn y cyflwyniad blynyddol i adroddiad y Bwrdd (ym mis Tachwedd 2022): NG (bandiau 5 a 6) | Rhestr staffio …: GCGI (bandiau 2, 3 a 4) | Staff Gofynnol fel y nodwyd yn y cyflwyniad blynyddol i adroddiad y Bwrdd (ym mis Tachwedd 2022) gan gynnwys cynnydd o 26.9%: CYFANSWM NG WTE (bandiau 5 a 6) | Staff Gofynnol …: CYFANSWM GCGI WTE (bandiau 2, 3 a 4) | CYFANSWM Prif Nyrs ward ychwanegol Band 7 WTE |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YMW | Uned y Plant | Cynnar | | | 28.43 | 8.53 | 1 |
| | | Hwyr | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | 5 | 2 | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | |
| | | Nos | 5 | 1 | | | |
| YGC | Uned y Plant | Cynnar | | | 28.43 | 11.37 | 1 |
| | | Hwyr | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | 5 | 2 | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | |
| | | Nos | 5 | 2 | | | |
| YG | Uned y Plant (Llun - Gwener) | Cynnar | | | 26.6 | 11.37 | 1 |
| | | Hwyr | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | 5 | 2 | | | |
| | | Gyda'r nos | 1 | | | | |
| | | Nos | 4 | 2 | | | |
| | Uned y Plant (Sad a Sul) | Cynnar | | | | | |
| | | Hwyr | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | 5 | 2 | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | |
| | | Nos | 4 | 2 | | | |

**Cyfrifwyd yn ystod cylch gwanwyn 2023**

| Safle | Enw'r Ward | SHIFFT | Rhestr staffio wedi'i chynllunio a gyfrifwyd gan y person dynodedig yn ystod cylch gwanwyn 2023: NG (bandiau 5 a 6) | Rhestr staffio …: GCGI (bandiau 2, 3 a 4) | Staff Gofynnol fel y'i cyfrifwyd gan y bobl ddynodedig yn ystod cylch gwanwyn 2023 gan gynnwys cynnydd o 26.9%: CYFANSWM NG WTE (bandiau 5 a 6) | Staff Gofynnol …: CYFANSWM GCGI WTE (bandiau 2, 3 a 4) | CYFANSWM Prif Nyrs ward ychwanegol Band 7 WTE | Y dyddiad y cyfrifodd y person dynodedig y lefel staff nyrsio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YMW | Uned y Plant | Cynnar | | | 28.43 | 8.53 | 1 | 28/03/2023 |
| | | Hwyr | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | 5 | 2 | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | |
| | | Nos | 5 | 1 | | | | |
| YGC | Uned y Plant | Cynnar | | | 28.43 | 11.37 | 1 | 28/03/2023 |
| | | Hwyr | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | 5 | 2 | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | |
| | | Nos | 5 | 2 | | | | |
| YG | Uned y Plant (Llun - Gwener) | Cynnar | | | 26.6 | 11.37 | 1 | 28/03/2023 |
| | | Hwyr | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | 5 | 2 | | | | |
| | | Gyda'r nos | 1 | | | | | |
| | | Nos | 4 | 2 | | | | |
| | Uned y Plant (Sad a Sul) | Cynnar | | | | | | |
| | | Hwyr | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | 5 | 2 | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | |
| | | Nos | 4 | 2 | | | | |

**Cyfrifwyd yn ystod cylch hydref 2023**

| Safle | Enw'r Ward | SHIFFT | Rhestr staffio wedi'i chynllunio a gyfrifwyd gan y person dynodedig yn ystod cylch hydref 2023: NG (bandiau 5 a 6) | Rhestr staffio …: GCGI (bandiau 2, 3 a 4) | Staff Gofynnol fel y'i cyfrifwyd gan y bobl ddynodedig yn ystod cylch hydref 2023 gan gynnwys cynnydd o 26.9%: CYFANSWM NG WTE (bandiau 5 a 6) | Staff Gofynnol …: CYFANSWM GCGI WTE (bandiau 2, 3 a 4) | CYFANSWM Prif Nyrs ward ychwanegol Band 7 WTE | Y dyddiad y cyfrifodd y person dynodedig y lefel staff nyrsio | Adolygiadau cylch cyfrifo ddwywaith y flwyddyn, ac unrhyw newidiadau a wnaed a'r sail resymegol yn ystod cylchoedd cyfrifo gwanwyn 2023 a hydref 2023: Cwblhawyd (Do/Naddo) | Newidiwyd | Rhesymeg | Unrhyw adolygiadau heblaw cyfrifo ddwywaith y flwyddyn. Os oes, rhowch sail resymegol dros unrhyw newidiadau a wnaed: Cwblhawyd (Do/Naddo) | Dyddiad | Newidiwyd | Rhesymeg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YMW | Uned y Plant | Cynnar | | | 28.43 | 8.53 | 1 | 05/10/2023 | Do | Naddo | Dim newid i'r staffio | Naddo | | | |
| | | Hwyr | | | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | 5 | 2 | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 5 | 1 | | | | | | | | | | | |
| YGC | Uned y Plant | Cynnar | | | 28.43 | 11.37 | 1 | 05/10/2023 | Do | Naddo | Dim newid i'r staffio | Naddo | | | |
| | | Hwyr | | | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | 5 | 2 | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 5 | 2 | | | | | | | | | | | |
| YG | Uned y Plant (Llun - Gwener) | Cynnar | | | 26.6 | 11.37 | 1 | 05/10/2023 | Do | Naddo | Dim newid i'r staffio | Naddo | | | |
| | | Hwyr | | | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | 5 | 2 | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | 1 | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 4 | 2 | | | | | | | | | | | |
| | Uned y Plant (Sad a Sul) | Cynnar | | | | | | | | | | | | | |
| | | Hwyr | | | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | 5 | 2 | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 4 | 2 | | | | | | | | | | | |

GIG CYMRU NHS WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

# Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol



## 2022-2023

# Datganiad Hygyrchedd

Mae’r adroddiad hwn ac unrhyw ddogfennau ategol ar gael yn Saesneg, a gellir eu darparu mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.

Am fformatau eraill, cysylltwch â'r: Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion  Ffôn 03000 851234 BCU.PALS@wales.nhs.uk

I gysylltu â Thîm Cydraddoldeb BIPBC anfonwch e-bost at: BCU.Equality@wales.nhs.uk

# Cynnwys

**DATGANIAD HYGYRCHEDD** ........ **2**

**RHAGAIR** ........ **5**

**ADRAN 1: CYFLWYNIAD** ........ **7**

**ADRAN 2: CYFLAWNI DYLETSWYDDAU CYDRADDOLDEB** ........ **9**

3.2 FFOCWS AR BROFIADAU CLEIFION A GOFALWYR - YN GYSYLLTIEDIG AG AMCANION: ........ 18
3.3 GWNEUD PENDERFYNIADAU CYNHWYSOL - YN GYSYLLTIEDIG AG AMCANION ........ 25
3.4 PARTNERIAETHAU SECTOR CYHOEDDUS – YN GYSYLLTIEDIG AG AMCANION ........ 27
3.5 FFOCWS AR EIN GWEITHLU - YN GYSYLLTIEDIG AG AMCANION ........ 28
3.6 FFOCWS AR WELL DEALLTWRIAETH AC YMWYBYDDIAETH - YN GYSYLLTIEDIG AG AMCANION ........ 32
3.7 FFOCWS AR HYFFORDDIANT A DATBLYGU – YN GYSYLLTIEDIG AG AMCANION ........ 38
3.8 FFOCWS AR GANLLAWIAU YNGHYLCH GOFAL CYNHWYSOL – YN GYSYLLTIEDIG AG AMCANION ........ 42
3.9. FFOCWS AR GIPOLYGON YNGHYLCH COVID-19 - YN GYSYLLTIEDIG AG AMCANION ........ 44
3.10 FFOCWS AR IECHYD CYHOEDDUS - YN GYSYLLTIEDIG AG AMCANION ........ 45
3.11 FFOCWS AR GYMORTH Â CHOSTAU BYW - YN GYSYLLTIEDIG AG AMCANION ........ 49
3.12 FFOCWS AR GYNLLUNIAU CYFLOGADWYEDD - YN GYSYLLTIEDIG AG AMCANION ........ 50
3.13 FFOCWS AR GYNLLUNIAU CENEDLAETHOL - YN GYSYLLTIEDIG AG AMCANION ........ 53
3.14 FFOCWS AR GYMORTH I GYMUNED Y LLUOEDD ARFOG – YN GYSYLLTIEDIG AG AMCANION ........ 55
3.15 FFOCWS AR OFAL YSBRYDOL - YN GYSYLLTIEDIG AG AMCANION ........ 56

**ADRAN 4: CAMAU NESAF EIN CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2023-2024** ........ **59**

**RHAN 5: CASGLIAD** ........ **60**

**DIOLCHIADAU** ........ **63**

**ATODIADAU** .......... **65**
ATODIAD A: GWYBODAETH AM Y BOBLOGAETH .......... 65
ATODIAD B: DEDDFWRIAETH YNGHYLCH CYDRADDOLDEB A'R CYD-DESTUN STRATEGOL .......... 65
ATODIAD C: GWELEDIGAETH, GWERTHOEDD A PHWRPAS BIPBC .......... 65
**ATODIAD A: GWYBODAETH AM Y BOBLOGAETH** .......... **66**
**ATODIAD B: DEDDFWRIAETH YNGHYLCH CYDRADDOLDEB A'R CYD-DESTUN STRATEGOL** .......... **70**
**ATODIAD C: GWELEDIGAETH, GWERTHOEDD A PHWRPAS BIPBC** .......... **76**

# Rhagair

Croeso i Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ar gyfer y cyfnod Ebrill 2022 - Mawrth 2023. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r gwaith rydym wedi'i wneud i ddangos ein hymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol.

Ers i mi ymuno â’r Bwrdd Iechyd ym mis Ionawr 2023, rwyf wedi gweld yr heriau sy’n ein hwynebu a’r ymrwymiad aruthrol sydd gan staff i’r agenda cydraddoldeb.

Ym mis Chwefror 2023, rhoddwyd ein Bwrdd Iechyd dan Fesurau Arbennig. Rydym yn cydnabod bod cynnydd sylweddol i’w wneud o ran arweinyddiaeth a diwylliant ein sefydliad, a bydd cydraddoldeb a chynhwysiant ochr yn ochr ag arweinyddiaeth dosturiol wrth wraidd y gwelliannau hyn.

Nod ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw darparu gwasanaethau cynhwysol a chynnig gweithle lle nad oes gwahaniaethu. Cyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-2024 ym mis Mawrth 2020 gyda’r nod o ymgorffori a chryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws holl swyddogaethau’r Bwrdd Iechyd, er mwyn sicrhau bod ein bod yn cyflawni ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Ers cyhoeddi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, rydym wedi gweld heriau Covid-19 a'i effeithiau anghymesur ac andwyol ar rai cymunedau. Ynghyd â hyn, bu newidiadau deddfwriaethol allweddol yng Nghymru gyda chyflwyno'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, a sbardunau i ysgogi cydraddoldeb cenedlaethol megis Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a Chynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru. Mae’r sbardunau cydraddoldeb hyn yn cynnig cyd-destun ar gyfer gwella profiadau i bawb yn ein cymunedau ac i’n gweithlu amrywiol.

Gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn dangos tystiolaeth o'n hymrwymiad sefydliadol a'r cynnydd a wnaed yn ystod 2022-2023 wrth i ni hefyd edrych ymlaen at gynnal ein hymrwymiad i hybu cydraddoldeb yn ystod 2023 ac ymlaen i 2024.



Jason Brannan - Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl, Gweithlu a Datblygu Sefydliadol BIPBC

# Adran 1: Cyflwyniad

## 1.1 Strwythur yr adroddiad

Mae hyrwyddo cydraddoldeb, cynhwysiant a gwerthfawrogi amrywiaeth i gyd yn hanfodol ar gyfer mynediad at ofal iechyd a mynd i'r afael â chanlyniadau iechyd gwell. Mae’r adroddiad canlynol wedi’i rannu’n adrannau gwahanol, sy’n rhoi gwybodaeth a thystiolaeth i ddangos sut rydym wedi cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb. Mae'r dystiolaeth yn cynnwys:

- Cyflawni’r Ddyletswydd Cydraddoldeb – Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a’r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol
- Adrodd ar gynnydd ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol - Cynllun Blwyddyn 3
- Y Camau Nesaf - Cynllun Cydraddoldeb Strategol Blwyddyn 4

## 1.2 Poblogaeth

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae gan Ogledd Cymru boblogaeth breswyl o 686,909 o bobl yn byw mewn ardal sydd tua 2,500 milltir sgwâr o faint. Mae'n ffinio â Môr yr Iwerydd i'r gogledd a'r gorllewin, Ceredigion a Phowys i'r de, a Lloegr i'r dwyrain.







Mae gan y rhanbarth arfordir ac ardaloedd gwledig yn arbennig yn y gorllewin, ac ardaloedd mwy trefol megis Wrecsam a Glannau Dyfrdwy yn y dwyrain. Mae'r rhan fwyaf o'r aneddiadau ar hyd yr arfordir, gan gynnwys cyrchfannau sy'n boblogaidd gyda thwristiaid fel y Rhyl, Llandudno, Pwllheli, Prestatyn a Thywyn. Mae’n ardal fynyddig ac yn gartref i Barc Cenedlaethol Eryri, ac mae’r cymysgedd o nodweddion naturiol yn atyniad cryf i dwristiaid ac ymwelwyr.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru, ac mae'n gyfrifol am ddarparu gofal sylfaenol, gofal cymunedol, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau ysbyty acíwt i boblogaeth Gogledd Cymru. Ceir rhagor o wybodaeth ddemograffig yn Atodiad A.

# Adran 2: Cyflawni Dyletswyddau Cydraddoldeb

## 2.1 Sefydliad Angor



Rydym yn ‘sefydliad angor’, sy’n golygu ein bod yn sefydliad mawr, ac mae ein cynaliadwyedd hirdymor ynghlwm wrth les y poblogaethau rydym yn eu gwasanaethu. Mae gennym gyfrifoldebau fel darparwr iechyd a chyflogwr.

## 2.2 Ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Cyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y cyfnod 2020-2024 ym mis Mawrth 2020. Yn gorff rhestredig yng Nghymru, mae'n ofynol i ni dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, lunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol o leiaf bob 4 blynedd. Diben y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw dogfennu'r camau y mae BIPBC yn eu cymryd i gyflawni ei ddyletswydd.

Lluniwyd ein Hamcanion Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu Blwyddyn 3 cysylltiedig drwy gasglu a dadansoddi gwybodaeth a thystiolaeth o ffynonellau cenedlaethol a lleol, asesiadau effaith ac ymgysylltu parhaus â staff a defnyddwyr y gwasanaeth. Datblygwyd y gwaith a gynlluniwyd yn ystod 2022-2023 gan ddefnyddio egwyddorion cyd-ddylunio gyda'n Rhanddeiliaid Cydraddoldeb a'n Rhwydweithiau Staff.

## 2.3 Ein Hamcanion Cydraddoldeb

| | |
|---|---|
| ❶ | Byddwn yn blaenoriaethu camau gweithredu i helpu nodi a lliniaru effaith tlodi ar unigolion yng Ngogledd Cymru sy'n derbyn gofal iechyd ac sy'n byw mewn cartrefi incwm isel neu sydd â risg o fod mewn cartrefi incwm isel. |
| ❷ | Byddwn yn blaenoriaethu camau gweithredu i leihau anghydraddoldebau iechyd a chynyddu hygyrchedd gofal iechyd i unigolion yng Ngogledd Cymru sydd â nodweddion gwarchodedig. |
| ❸ | Byddwn yn blaenoriaethu camau gweithredu i ymateb i ddatblygiadau allweddol o ran polisi a chyfraith mewn gofal iechyd ar gyfer unigolion yng Ngogledd Cymru sydd â nodweddion gwarchodedig. |
| ❹ | Byddwn yn blaenoriaethu camau gweithredu i hybu cydraddoldeb rhywiol yng Ngogledd Cymru. |
| ❺ | Byddwn yn blaenoriaethu camau gweithredu i fynd i'r afael â diogelwch personol unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd yng Ngogledd Cymru. |
| ❻ | Byddwn yn cynyddu ymgysylltiad ag unigolion a grwpiau yng Ngogledd Cymru sydd â nodweddion gwarchodedig. |
| ❼ | Byddwn yn blaenoriaethu camau gweithredu i annog unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan y gwasanaethau iechyd ar draws Gogledd Cymru. |
| ❽ | Byddwn yn blaenoriaethu camau gweithredu i ddatblygu diwylliant cynhwysol lle mae arweinwyr fel mater o drefn yn dangos eu hymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb o fewn BIPBC a thu hwnt, er mwyn galluogi gweithlu teg a chynhwysol. |
| ❾ | Byddwn yn blaenoriaethu camau gweithredu i hybu cydraddoldeb hiliol yng Ngogledd Cymru. |
| ❿ | Byddwn yn blaenoriaethu camau gweithredu i gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. |

## 2.4 Trefniadau llywodraethu

Yn ystod 2022-2023, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i sicrhau bod y ddyletswydd cydraddoldeb yn rhan o holl drefniadau llywodraethu newydd y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn cynnwys cyfeirio ystyriaethau cydraddoldeb gyda chylch gorchwyl newydd i bob cyfarfod llywodraethu a lle bo'n briodol, bod cynrychiolydd o'r tîm Cydraddoldeb yn bresennol.

Yn ystod 2022/23, parhaodd y gwaith i hybu cydraddoldeb drwy gyflawni Blwyddyn 3 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r Bwrdd Iechyd bellach ym mlwyddyn olaf y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ac yn paratoi i ddechrau ar y gwaith cydgynhyrchu i nodi'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y pedair blynedd nesaf.

## 2.5 Adrodd statudol



Yn unol â'n dyletswyddau statudol, rydym wedi cyhoeddi'r canlynol:

2.5.1 Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Mae'r Amcanion Cydraddoldeb y bwriedir eu cyflawni yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 4 blynedd yn gosod y sylfaen ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb ledled y Bwrdd Iechyd. Cytunwyd ar ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y cyfnod 2020-2024 a chafodd ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2020. Mae'r cynllun pedair blynedd yn cyd-fynd â Rheoliadau 14 a 15 o Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

2.5.2 Adroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol

Cyhoeddir ein Hadroddiadau Blynyddol Cydraddoldeb ar ein gwefan yn unol â Rheoliad 16 o Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus: Cymru.

https://bipbc.gig.cymru/use-of-site/cynllun-cyhoeddi/class-five-our-policies-and-procedures/cydraddoldeb-a-hawliau-dynol/

Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys datganiadau cynnydd sy'n deillio o gydymffurfio â'r dyletswyddau penodol o fewn yr amserlenni a ganiateir ac a osodir gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Yn unol â Rheoliad 16, mae ein hadroddiad blynyddol yn cynnwys:

- Y camau a gymerwyd i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol
- Sut mae'r Bwrdd Iechyd wedi defnyddio'r wybodaeth berthnasol sydd ganddo i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletswyddau penodol
- Y cynnydd a wneir er mwyn cyflawni pob amcan cydraddoldeb
- Datganiad am effeithiolrwydd y canlynol:
    - Trefniadau ar gyfer nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol, a
    - Camau a gymerir er mwyn cyflawni pob amcan cydraddoldeb
    - Gwybodaeth am gyflogaeth mae'r awdurdod rhestredig wedi'i chasglu

2.5.3 Adroddiad Data Cyflogaeth Statudol BIPBC

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys data cynhwysfawr am ein staff gan gynnwys setiau data recriwtio, ymadawyr a disgyblu/cwynion. Rydym hefyd wedi cyhoeddi dogfen sylwadau i ategu dadansoddiad yr adroddiad data llawn.



2.5.4 Adrodd am y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am Reoliadau 2017 sydd yn y Ddeddf Cydraddoldeb ac sy'n nodi'r gofynion i sefydliadau sydd â mwy na 250 o weithwyr gyfrifo a chyhoeddi eu gwybodaeth am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Rydym wedi cyhoeddi ein pumed Adroddiad Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau. Mae'r holl ffigyrau'n seiliedig ar ddata a gymerwyd o systemau cyflogres ESR (Cofnod Staff Electronig) y GIG ar ddyddiad y ciplun diweddaraf (31 Mawrth 2022). Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y canlynol:

- Cyfraddau Cyfartalog a Chanolrif Fesul Awr a Bylchau Cyflog
- Bonws Cyfartalog a Chanolrif a Bylchau Cyflog
- Cyfran y staff sy'n derbyn bonws
- Nifer a chanran y dynion a menywod wedi eu rhannu'n bedwar grŵp (Chwartel Cyflog) a'u trefnu o'r cyflog isaf i'r cyflog uchaf.

Mae Adran 3 ein hadroddiad yn amlinellu'r cynnydd a wnaed yn ystod Blwyddyn 3 ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r adran ganlynol yn cynnwys ein hamcanion cydraddoldeb a gweithgareddau cysylltiedig.

# Adran 3: Adrodd ar ein cynnydd

## 3.1 Ffocws ar Ymgysylltu - yn gysylltiedig ag amcanion ❻ ❼ ❽ ❾ ❿

Drwy gydol 2022-23, parhaodd ein Tîm Ymgysylltu i gydweithio a chydweithredu â phartneriaid i ddarparu cyfleoedd ymgysylltu a rennir, lleihau dyblygu ymdrechion, a chyflawni canlyniadau a rennir. Drwy ddatblygu a chreu perthnasau newydd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi creu cyfleoedd i ymgysylltu â chynnwys cymunedau wrth wneud penderfyniadau.




Mae'r tîm ymgysylltu â'r cyhoedd wedi dechrau datblygu pecynau cymorth a chanllawiau er mwyn hybu ymgysylltu. Mae tudalennau'r fewnrwyd yn cael eu hadolygu a'u diweddaru i roi cyngor ac arweiniad ymgysylltu i staff. Mae ymgysylltu â chymunedau ledled Gogledd Cymru yn parhau drwy gynnal a datblygu rhwydweithiau a sianeli ymgysylltu y gall gwasanaethau eu defnyddio i gynnwys y cyhoedd a phartneriaid, a gwrando arnynt.

3.1.1 Enghraifft o Ymyriad wedi'i Dargedu

Mae adborth gan Lywodraeth Cymru o ran ymgysylltu a dilyniant ar draws y maes ymgysylltu wedi bod yn gadarnhaol. O safbwynt ymgysylltu â’r cyhoedd, rydym wedi canolbwyntio ar ymgorffori gwaith ymgysylltu ar

draws y sefydliad. Mae hyn wedi cynnwys rhoi cyngor a chymorth am ymgysylltu cadarn ac ystyrlon i'r Cymunedau Iechyd Integredig newydd a'r timau corfforaethol.

Yn ystod 2022-2023, rydym wedi ymgymryd ag ymgysylltiad eang ar ystod o strategaethau gan gynnwys Strategaeth Gwasanaethau Clinigol y Bwrdd Iechyd. Defnyddiwyd ystod o ddulliau ac adnoddau ymgysylltu gan gynnwys:

- Arolwg ar-lein i'r cyhoedd.
- Y cyfryngau cymdeithasol megis Facebook a Twitter i hyrwyddo negeseuon allweddol, ac arolwg i'r cyhoedd.
- Rhannu dolenni at arolygon a gwybodaeth yn eang gyda rhydweithiau a grwpiau rhanbarthol, ardal a chymunedol.
- Ymgysylltu â staff drwy sianeli cyfathrebu mewnol gan adeiladu ar ddulliau a ddatblygwyd drwy’r rhaglen newid sefydliadol fewnol ‘Mewn Undod Mae Nerth’.

### 3.1.2 Digwyddiadau Cnoi Cil ar Iechyd

Mae ein digwyddiadau Cnoi Cil ar Iechyd bellach yn symud i fod yn ddigwyddiadau wyneb yn wyneb yn hytrach na rhai rhithwir. Mae Cnoi Cil ar Iechyd yn cryfhau ein ymgysylltiad â busnesau wrth i ni ddarparu cyngor a chanllawiau ar iechyd yn uniongyrchol i drigolion Gogledd Cymru yn eu gweithleoedd. Mae’n gydweithrediad rhwng y Tîm Ymgysylltu â’r Cyhoedd, gwasanaethau BIPBC, a’n sefydliadau partner, sy’n cydweithio i wella mynediad at wybodaeth. Mae sesiynau Cnoi Cil ar Iechyd yn cynnig amrywiaeth o wybodaeth a chyngor am iechyd gan gynnwys:

- Gwiriadau pwysedd gwaed
- Iechyd meddwl a llesiant
- Sgrinio iechyd
- Rhoi'r gorau i ysmygu, alcohol a chamddefnyddio sylweddau
- Gwybodaeth am yrfaoedd




<u>3.1.3 Rhwydweithiau Ymarferwyr Ymgysylltu</u>

Mae ein fforymau yn rhwydwaith o weithwyr proffesiynol ym maes ymgysylltu sy'n gallu rhannu gwybodaeth ac arfer da, nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio, lleihau dyblygu gwaith a rhannu adnoddau. Mae'r fforymau yn rhoi cyfle i rannu heriau cyffredin, amlygu pryderon, a chefnogi ein gilydd. Yn ystod 2022-2023, cynhaliwyd ein rhwydweithiau/fforymau ymgysylltu i ymarferwyr ar draws Gogledd Cymru yn Ardaloedd y Canol, y Dwyrain a'r Gorllewin.

<u>3.1.4 Ymgysylltu â Chymunedau Du a Lleiafrifoedd Ethnig</u>



Yn ystod 2022-2023, rydym wedi parhau i feithrin perthnasau a helpu i hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anghenion gwahanol gymunedau. Ymgymerwyd â gwaith ymgysylltu a'r canlynol:

- Diwrnod Iechyd a Lles ym Mangor, mewn cydweithrediad â Chymdeithas Affrica Gogledd Cymru.

- Mynychu dathliadau Eid al-Adha
- Yr Hwb Lloches yn Wrecsam
- Hwb Cymdeithas Affrica Gogledd Cymru – gwasanaethau Fedra'i.

3.1.5 Ymgysylltu ar lefel Cymunedau Iechyd Integredig

Mae gwaith ymgysylltu wedi bod yn mynd rhagddo ar ystod o raglenni a newidiadau i wasanaethau. Rydym wedi ymgysylltu â chleifion, gofalwyr a phartneriaid allweddol i archwilio opsiynau ar gyfer:

- Datblygu Gwasanaeth Adsefydlu Niwro yng Ngogledd Cymru.
- Prosiect Hwb Iechyd a Lles Integredig Caergybi.
- Datblygu Canolfan Addysgol Wledig Tywyn i gefnogi hyfforddiant a recriwtio meddygon teulu i wasanaeth gofal iechyd gwledig.
- Cyfleusterau gofal sylfaenol newydd fel rhan o brosiect gofal sylfaenol Conwy a Chyffordd Llandudno.
- Adolygu gwaith Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol Dinbych.

3.1.6 Rôl Rhanddeiliaid Cydraddoldeb

Mae'r rhanddeiliaid cydraddoldeb yn grŵp o bobl sy'n cynrychioli gwahanol rannau o boblogaeth Gogledd Cymru ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod gwasanaethau gofal iechyd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae cyfarfodydd y

Grŵp Rhanddeiliaid Cydraddoldeb yn parhau i drafod y materion a'r rhwystrau sy'n wynebu cleifion a gofalwyr. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn 2023-2024 i hyrwyddo rôl Rhanddeiliaid Cydraddoldeb a chynyddu amrywiaeth ein Grŵp Rhanddeiliaid Cydraddoldeb.

## 3.2 Ffocws ar Brofiadau Cleifion a Gofalwyr - yn gysylltiedig ag amcanion: 6 7 8 9 10




Mae ein Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr yn cynnig cymorth cynhwysfawr drwy gasglu gwybodaeth am brofiad cleifion, a ddefnyddir i lywio penderfyniadau wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Bob dydd, rydym yn casglu barn ein defnyddwyr gwasanaeth fel y gallwn ddeall yn iawn yr hyn sy'n bwysig iddynt, yn enwedig pan fyddant ar eu mwyaf bregus. Yna, gyda chaniatâd, rydym yn rhannu'r adborth gyda'r rheolwyr perthnasol drwy'r Tîm Diogelwch Cleifion a Phrofiad er mwyn i ni ddysgu, a nodi'r meysydd lle mae angen i ni wella. Mae'r Gwasanaeth Cleifion a Chyswllt (PALS) yn gweithio'n uniongyrchol gyda Swyddfa'r Archwiliwr Meddygol i sicrhau bod teuluoedd yn cael atebion i unrhyw gwestiynau sydd heb eu hateb ynglŷn â cholli anwyliaid, ac i rannu eu profiadau.

3.2.1 Pencampwyrwyr Cleifion a Gofalwyr



Mae rôl Pencampwr Cleifion a Gofalwyr yn galluogi aelodau staff i gefnogi'r Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr yn bersonol i ysgogi newid a deall adborth cleifion. Rôl Pencampwrwr Cleifion a Gofalwyr yw:

- Cydgysylltu â'r tîm profiad cleifion a hyrwyddo'r broses o gasglu adborth am brofiadau cleifion.
- Cyfeirio cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr at wasanaethau cefnogi.
- Sicrhau bod gwybodaeth profiad cleifion ward/ardal yn gyfredol.
- Sicrhau bod anghenion gofalwyr yn cael eu nodi a’u cefnogi.
- Uwchgyfeirio unrhyw broblemau profiadau cleifion i'r gwasanaeth a'r Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr.

Mae staff sy'n Bencampwyr Cleifion a Gofalwyr yn cyfarfod bob mis. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mynychodd 16 o siaradwyr gwadd y cyfarfodydd hyn i gyflwyno hyfforddiant cyfeirio ac ymwybyddiaeth yn cynrychioli’r pynciau canlynol:

- Age Cymru - Prosiect Eiriolaeth HOPE
- Hyfforddiant Cydraddoldeb BIPBC

- Hyfforddiant Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu i’r Gymraeg.
- Uned Diogelwch Cam-drin Domestig.



3.2.2 Gwasanaethau Dehongli a Chyfieithu

Er mwyn cefnogi cleifion a staff gyda Gwasanaethau Dehongli a Chyfieithu, rydym wedi lansio rhaglen ddigidol sy’n rhoi mynediad 24 awr at ddehonglwyr a chyfieithwyr. Mae adnoddau digidol o’r enw ‘Interpreter on Wheels’ yn cael eu gosod mewn Adrannau Achosion Brys, a Gwasanaethau Cleifion Allanol a Gwasanaethau Merched. Ar gyfartaledd, mae staff yn gwneud cais i'r Gwasanaeth Cyfieithu Cymraeg am gyfieithu 500 eitem bob mis. Cynhyrchwyd posteri amlieithog i helpu i godi ymwybyddiaeth a grymuso cleifion i ofyn am ddehonglydd neu gyfieithydd.

### 3.2.3 Cymorth i ofalwyr

Mae cefnogi gofalwyr di-dal yn flaenoriaeth i'r Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr. Mae gweithgareddau profiadau gofalwyr y cyfnod adrodd hwn yn cynnwys:

- Y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS) yn parhau i gefnogi ymholiadau cymhleth.
- Parhau i gasglu straeon profiadau gofalwyr – gan gynnwys profiadau o gael mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl.

I ddathlu Diwrnod Cenedlaethol Hawliau Gofalwyr ar 24 Tachwedd 2022, cydlynwyd cyfres o ddigwyddiadau gan gynnwys stondinau gwybodaeth mewn ardaloedd ysbytai a gynhaliwyd gan Wasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCIS) a Chynnal Gofalwyr a fideos gwybodaeth yn hyrwyddo cymorth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl i staff a'r cyhoedd.

### 3.2.4 Cyfathrebu Hygyrch

Mae hwb gwybodaeth Nam ar y Synhwyrau a Gofal Iechyd Hygyrch wedi'i sefydlu ar gyfer staff, sy'n cynnwys canllawiau pecyn cymorth colli synhwyraidd ar gyfer Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Cymunedol a Gofal Eilaidd. Mae gwybodaeth hefyd yn cynnwys cyfeirio at sefydliadau cymorth eraill i gefnogi cleifion a gofalwyr. Gweler Atodiad B am wybodaeth am Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Cyfathrebu Hygyrch.

Ym mis Medi 2022, mynychodd 18 aelod o staff sydd mewn rolau rheng flaen hyfforddiant Ymwybyddiaeth o fod yn Fyddar. Nododd y cwrs y rhwystrau y mae pobl fyddar a phobl â nam ar eu clyw yn eu hwynebu a'r ffordd orau o gyfathrebu. Dysgodd y staff a fynychodd sut i sillafu'r wyddor gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain.

### 3.2.5 Gwybodaeth i Gleifion a Gofalwyr

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth o ansawdd wrth gynhyrchu unrhyw fath o wybodaeth i gleifion, boed ar lafar neu'n ysgrifenedig.




Mae'r Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr yn hwyluso Panel Darllenwyr sy'n cynnwys tîm amlddisgyblaethol o staff a adolygodd 51 o daflenni gwybodaeth i gleifion y Bwrdd Iechyd y llynedd. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- Llyfryn Gwybodaeth i Berthnasau Uned Gofal Critigol Ysbyty Glan Clwyd.
- Gwybodaeth Gofal Dwys i Berthnasau Ysbyty Glan Clwyd.
- Cartref yn Gyntaf – Rhyddhau o'r Ysbyty.
- Gwybodaeth i Berthnasau am y Clinig Profedigaeth.

### 3.2.6 Straeon cleifion - CEF Berwyn

Mynychodd Swyddogion Gwasanaeth Cleifion a Chyswllt (PALS) CEF Berwyn i ddarparu hyfforddiant Straeon Cleifion i'r Mentoriaid Cymheiriaid, yn unol â gweithdrefnau Straeon Cleifion BIPBC. Mae Mentoriaid Cymheiriaid

yn cynnig gwasanaeth tebyg i PALS a’r bwriad yw defnyddio’r adnodd hwn i gasglu profiadau gofal iechyd yn CEF Berwyn. Mae CEF Berwyn bellach wedi’i sefydlu ar system adborth CIVICA Cymru Gyfan i fesur profiad a adroddir gan gleifion (PREMs). Mae’r Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr yn cefnogi CEF Berwyn i gynyddu adborth cleifion ar Wasanaethau Gofal Iechyd CEF Berwyn

### 3.2.7 Menter Ymchwil Busnesau Bach

Rydym yn gweithio â Menter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI) a ariennir gan Lywodraeth Cymru i chwilio am ddatrysiadau digidol arloesol er mwyn gwella cyfathrebu rhwng perthnasau pan fydd aelod o'u teulu yn yr ysbyty. Mae staff, cleifion a gofalwyr wedi bod yn rhan o grwpiau ffocws i rannu eu profiadau ynglŷn â'r hyn a allai weithio'n dda. Er mwyn cefnogi'r Fenter Ymchwil Busnesau bach, bu'r Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr ar ran pum busnes, yn cyfweld 99 o gleifion i gasglu adborth ynglŷn â datrysiadau digidol. Bydd yr adborth hwn yn helpu i lunio datrysiadau digidol y dyfodol er mwyn cefnogi teuluoedd i gyfathrebu ynglŷn â’u hanwyliaid wrth iddynt dderbyn gofal.

### 3.2.8 Straeon unigol – helpu i wella profiadau cleifion

Cydnabyddir bod straeon sy'n cael eu hadrodd gan unigolion ynglŷn â lleoliadau gofal iechyd, neu'r gofal y maent wedi'i dderbyn, yn arf pwerus i ddeall eu profiad bywyd. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

**Stori Sue:** Cysylltodd Sue â'r tîm PALS ynglŷn â phroblem roedd hi a'i phlentyn wedi'i brofi wrth geisio mynediad at gyfleusterau Changing Places. Yn y lle cyntaf, roedd yr ystafell dan glo ac roedd angen ei glanhau. Roedd hi'n

amlwg bod staff yn defnyddio'r ystafell fel ardal storio ac nid oedd yr offer codi yn gweithio. Gwnaeth y tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr ffilm am brofiad Sue ac fe’i dangoswyd mewn Cyfarfod o'r Bwrdd. O ganlyniad, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r profiad gwael a gafodd Sue a'i phlentyn. Mae'r camau hyn yn cynnwys:

- Ymddiheuro i Sue a'i phlentyn.
- Gwella arwyddion y cyfleusterau.
- Datgloi drws y cyfleusterau i wella mynediad atynt.
- Gwiriadau cynnal a chadw rheolaidd ar yr offer.
- Darparu loceri i staff mewn ardal arall er mwyn datrys y broblem storio.
- Glanhau'r ystafell yn rheolaidd.

**Stori Eileen:** Eglurodd Eileen pa mor bwysig oedd cael cyfle i siarad â staff a chleifion eraill yn Gymraeg, sef ei mamiaith. Mae Eileen yn tynnu sylw at y gofal nyrsio rhagorol a gafodd a'i phrofiad cadarnhaol o faeth a hydradu i gleifion. Mae profiad Eileen yn dangos pa mor bwysig i gleifion a gofalwyr y mae ymwybyddiaeth staff am y Cynnig Rhagweithiol.

**Stori Matthew:** Cafodd Matthew ddiagnosis o broblemau'r goden fustl ac roedd angen llawdriniaeth frys arno. Teimlai Matthew fod y wisg o ffit safonol yn peryglu ei urddas, yn peri embaras iddo ac yn gwneud iddo deimlo nad oedd ei anghenion yn cael eu diwallu oherwydd diffyg ymwybyddiaeth y staff a diffyg adnoddau. Yn dilyn

stori Matthew, mae gwisgoedd mwy o faint nawr ar gael, ac mae adolygiad caffael ar y gweill i sicrhau bod gan gyflenwyr wybodaeth ac ymwybyddiaeth am gydraddoldeb - nid yw un maint yn addas i bawb.

## 3.3 Gwneud penderfyniadau cynhwysol - yn gysylltiedig ag amcanion 2 3 7 10

### 3.3.1 Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiadau Effaith Economaidd-gymdeithasol

Mae gweithdrefnau Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb (EQIA) ac Asesiadau Effaith Economaidd-gymdeithasol (SEIA) ar waith i sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau statudol. Dangosodd archwiliad mewnol o bapurau'r bwrdd fod yr holl strategaethau a phenderfyniadau cynllunio mawr wedi cael EQIA. Mae gweithdrefnau wedi eu sefydlu i sicrhau bod EQIA wedi'i gwblhau ym mhob polisi clinigol. Mae ystod o hyfforddiant, cyngor ac arweiniad ar gael i gefnogi staff sy'n cynnal yr asesiadau. Mae gwaith allweddol yn cynnwys:



3.3.2 Data a gwybodaeth i lywio penderfyniadau a monitro cynnydd

Rydym wedi adolygu ein dulliau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn dilyn cyhoeddiad Archwiliad Cymru, 'Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Mwy Nag Ymarfer Blwch Ticio?' Mae gweithdrefnau newydd wedi'u cynllunio i'w rhoi ar waith yn 2023-2024 gyda ffocws cynyddol ar risg cydraddoldeb, aliniad â'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a chroestoriadedd.




3.3.3 Cynnydd o ran y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

Ym mis Rhagfyr 2022, cynaliwyd sesiwn hyfforddi i'r Bwrdd er mwyn rhoi gwybodaeth am y ddyletswydd a'r cyfrifoldebau allweddol ar gyfer gwneud penderfyniadau strategol.

Rydym wedi cwblhau archwiliad mewnol ac wedi defnyddio system tracio cynnydd Llywodraeth Cymru i fonitro cydymffurfiaeth. Mae'r system tracio cynnydd yn dangos bod cynnydd yn ystod Blwyddyn 1 a 2 yn y meysydd canlynol:

- Ystyried anfantais economaidd-gymdeithasol a lleihau anghydraddoldebau wrth wneud penderfyniadau/datblygu polisïau.

- Tracio ac adrodd ar effaith.
- Ymgysylltu, cynnwys ac ymgynghori.

Mae'r ddyletswydd bellach wedi'i chynnwys yn y gweithdrefnau llywodraethu a chwblheir SEIA ar gyfer y rhan fwyaf o benderfyniadau strategol yn ystod y broses gwneud penderfyniadau, yn hytrach nag yn ôl-weithredol.




## 3.4 Partneriaethau Sector Cyhoeddus – yn gysylltiedig ag amcanion 1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

3.4.1 Dulliau Cymru Gyfan – Grŵp Arwain Cydraddoldeb

Rydym wedi parhau i weithio gyda Grŵp Arwain Cydraddoldeb GIG Cymru i rannu arfer da a nodi meysydd gwaith lle gallwn fabwysiadu dull “Unwaith i Gymru”. Drwy’r Grŵp Arwain Cydraddoldeb, rydym wedi cyfrannu’n sylweddol at waith cenedlaethol gan gynnwys ymgynghoriadau a sesiynau ymgysylltu ar Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, Cynllun Gweithredu LHDTC+, yr adroddiad Drws ar Glo, Adroddiad A yw Cymru’n Decach a Rhaglen Gwella Gofal wedi’i Gynllunio “3Ps”.

3.4.2 Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru - NWPSEN

Rydym wedi parhau i weithio gyda'n partneriaid sector cyhoeddus sy'n cynnwys Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Gogledd Cymru, Awdurdodau Parc Cenedlaethol Eryri, a Chymdeithas Tai Gogledd Cymru. Yn ystod 2022-2023, mae'r rhwydwaith wedi:

- Hyrwyddo a chynnal digwyddiadau yn ystod wythnos Troseddau Casineb
- Cynnal trafodaeth bord gron ar Strategaeth 5 Mlynedd Stonewall Cymru
- Cytuno i rannu dulliau sefydliadol o ymdrin â Chynlluniau Gweithredu Llywodraeth Cymru

## 3.5 Ffocws ar ein gweithlu - yn gysylltiedig ag amcanion ❶❺❻❽❾

3.5.1 Rhwydweithiau Cydraddoldeb Staff

Drwy gydol 2022-2023, mae ein rhwydweithiau staff wedi parhau i ddarparu cymorth cymheiriaid a gweithredu fel llais ar y cyd i gydweithwyr a grwpiau sydd, yn draddodiadol, wedi cael eu tangynrychioli yn y gweithle, neu wedi profi gwahaniaethu yn y gweithle. Yn ystod y flwyddyn, mae ein rhwydweithiau wedi trefnu nifer o weithgareddau i godi ymwybyddiaeth am faterion sy'n effeithio ar staff. Dyma rai enghreifftiau;

- Trefnodd Rhwydwaith Cydraddoldeb BIPBC ddigwyddiad panel i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod a thrafod gyrfaoedd y merched ar y panel a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu.

- Mae'r Rhwydwaith RespectAbility (staff a gofalwyr anabl) wedi cynhyrchu cylchlythyr yn canolbwyntio ar gyflyrau penodol a phrofiadau bywyd. Cafodd y cylchlythyr ei groesawu ac yn ôl yr adborth, mae ein cydweithwyr yn ei weld yn ddefnyddiol ac yn llawn gwybodaeth.




- Mae rhwydwaith Undod Lleiafrifoedd Ethnig a Staff Tramor PBC wedi chwarae rhan bwysig o ran rhoi Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol y Bwrdd Iechyd ar waith, ac mae aelodau hefyd yn gwneud gwaith ymgysylltu a goruchwylio'r gwaith.

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu ein rhwydweithiau cydraddoldeb staff ymhellach yn ystod 2023-2024.

<u>3.5.2 Strategaeth Pobl 2022</u>

Yn ystod 2022-2023, datblygwyd Strategaeth Pobl 2022-2025. Un o fesurau llwyddiant y strategaeth yw ‘Diwylliant caredig a chynhwysol, wedi'i fodelu gan arweinwyr a rheolwyr rhagorol'.

Yn ystod 2022-2023, gwnaed gwaith sylweddol i ddatblygu dangosfwrdd data cydraddoldeb y gweithlu. Fe'i datblygwyd er mwyn gwella monitro data staff yn ôl nodwedd warchodedig. Mae hwn ar gael i lywio gwneud penderfyniadau cynhwysol mewn meysydd megis recriwtio, disgyblu a chwynion, yn ogystal â mynediad at gyfleoedd datblygu.

## 3.5.3 Gwasanaeth Cefnogi Lles Staff

Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Lles Staff (SWSS) yn cynnig amrywiaeth o gymorth i staff. Eleni, mae'r gwasanaeth wedi cydlynu nifer o brosiectau gan gynnwys:

- Ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r adnoddau sydd ar gael
- Gwasanaeth cymorth ac adnoddau menopos ‘Menopos -mae'n bwysig’
- Grŵp Cymorth Costau Byw - gweler adran 10 am ragor o wybodaeth
- Codi Llais yn Ddiogel
- Canllawiau i Staff mewn Argyfwng
- Gwasanaeth Rheoli Risg Trawma.

Rydym yn monitro'r nifer sy'n manteisio ar SWSS yn ôl nodwedd warchodedig i nodi unrhyw rwystrau neu rwystrau a ganfyddir at fynediad neu ganlyniadau gwahaniaethol.




## 3.5.4 Codi Llais yn Ddiogel

Codi Llais yn Ddiogel - Speak out Safely yw dull BIPBC o gefnogi staff i godi pryderon pan nad yw'r llwybrau ffurfiol yn opsiwn i'r aelod o staff dan sylw. Mae'r dull hwn yn cynnig platfform ar-lein annibynnol a chyfrinachol o'r enw 'Work in Confidence', sy'n cefnogi sgwrs ddwy ffordd gyfrinachol rhwng staff ac aelod o dîm Codi Llais yn Ddiogel. Gall hyn fod wyneb yn

wyneb, yn rhithiol, ar y ffôn neu drwy e-bost. Cyflwynwyd Codi Llais yn Ddiogel i sicrhau bod holl staff, myfyrwyr, contractwyr a gwirfoddolwyr y Bwrdd Iechyd yn cael cyfle i leisio eu pryderon ac y byddant yn cael eu cymryd o ddifri.

3.5.4 Cefnogi ein gweithwyr rhyngwladol i ymgartrefu yng Ngogledd Cymru




Cynhyrchwyd pecyn cymorth mewn prosiect ar y cyd â Thîm Rheoli Datblygu Ymarfer Nyrsio Rhyngwladol (y Dwyrain), y Tîm Cydraddoldeb Corfforaethol a rhwydwaith Lleiafrifoedd Ethnig a Staff Tramor i helpu cydweithwyr i ymgartrefu yng Ngogledd Cymru wrth iddynt adleoli i ymuno â'r Bwrdd Iechyd. Cynlluniwyd y pecyn gwybodaeth hwn i roi cymorth i gydweithwyr yn ystod y cyfnod o drawsnewid i weithio yn y DU.

Mae'r pecyn croeso yn rhoi'r atebion i'r nifer o gwestiynau sydd gan gydweithwyr rhyngwladol cyn iddynt deithio. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth ar ystod eang o bynciau gan gynnwys bancio, siopa, plismona ac addysg, a'r camau i'w cymryd wrth gyrraedd y DU, gan gynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ac argymhellion gan gydweithwyr sydd newydd gyrraedd. Y nod yw cefnogi ein cydweithwyr rhyngwladol cymaint

â phosibl er mwyn eu paratoi ar gyfer eu hamser yng Ngogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd.

## 3.6 Ffocws ar well dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth - yn gysylltiedig ag amcanion 2 6 7 10

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cynyddu ein gwaith hyrwyddo yn fewnol ac yn allanol, er mwyn parhau i feithrin ein dealltwriaeth o gydraddoldeb a chynhwysiant a'n rôl wrth i ni geisio lleihau anghydraddoldebau. Mae'r gwaith o hyrwyddo digwyddiadau allweddol wedi dod â llawer o bobl at ei gilydd i rannu arfer da a dealltwriaeth am brofiadau bywyd mewn amrywiaeth o ymgyrchoedd cydraddoldeb. Cafodd y rhain eu hyrwyddo drwy rwydwaith o 61 o Bencampwyr Cydraddoldeb.







### <u>3.6.1 Wythnos Cydraddoldeb GIG Cymru</u>

Cafodd Wythnos Cydraddoldeb 16-20 Mai 2022, ei hyrwyddo i holl staff y GIG yng Nghymru. Cydlynwyd yr wythnos gan Gadeirydd Grŵp Arwain Cydraddoldeb GIG Cymru Gyfan gyda chefnogaeth gan sefydliadau'r GIG yng Nghymru. Darparwyd dehongliad BSL ar gyfer pob un o'r sesiynau hyn. Cafwyd sesiynau dysgu dros amser cinio ar y pynciau canlynol:

- Arweinyddiaeth a Blaenoriaethau GIG Cymru
- Gofal iechyd ar gyfer y rhai sy'n chwilio am loches
- Profiadau o weithio yn y GIG gyda Nam ar y Synhwyrau

- The Gay Dementia Venture
- Anableddau Dysgu a Niwroamrywiaeth
- Hunaniaeth, Eithrio a Pherthyn

3.6.2 Pride Gogledd Cymru – Mehefin 2022



Roedd mynychu Pride Gogledd Cymru yn gyfle gwych i ddathlu amrywiaeth ar draws Gogledd Cymru. Cefnogwyd y digwyddiad gan ein Tîm Iechyd Rhywiol, cydweithwyr Iechyd Cyhoeddus a chydweithwyr ymgysylltu Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru. Buom yn siarad ag aelodau o'r cyhoedd i godi ymwybyddiaeth am y Gwasanaeth Iechyd Rhywiol a gwaith y Tîm Cydraddoldeb yn ogystal ag annog pobl i rannu eu profiadau am y system gofal iechyd er mwyn ein helpu i lywio ein cynlluniau gweithredu a'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Diolch i'r cannoedd o bobl a ddaeth i ddweud helo.



### 3.6.3 Cystadleuaeth Llyfrau Cydraddoldeb i Blant Bob Mis

Lansiwyd ein Cystadlaethau Llyfrau Cydraddoldeb i Blant yn gynnar yn 2023 i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant ar draws ystod o bynciau. Mae gan bob llyfr gysylltiad â thema benodol megis Mis Hanes Anabledd, Mis Treftadaeth De Asia, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod a Derbyn Awtistiaeth. Mae'r cystadlaethau yn hybu dealltwriaeth am faterion cydraddoldeb a gofal iechyd cynhwysol.







Maent wedi eu hanelu at staff y bwrdd iechyd ac mae dros 100 o staff wedi cofrestru ar gyfer y cystadlaethau. Caiff y rhain eu hywyddo yn ddwyieithog ac mae fersiynau Cymraeg.

### 3.6.4 Diwrnod Rhyngwladol y Menywod – 8 Mawrth 2023

I nodi’r diwrnod eleni, cynhaliodd Rhwydwaith Staff Cydraddoldeb Rhywiol BIPBC Ddigwyddiad Panel gyda rhestr o fenywod ysbrydoledig. Cefnogwyd y digwyddiad hwn gan wasanaeth Cymorth i Ddioddefwyr Gogledd Cymru a oedd yn un o’n siaradwyr ac aelodau’r panel. Nod y digwyddiad oedd cynyddu dealltwriaeth y staff o faterion rhywedd yn y gweithle ac mewn gofal iechyd. Anogwyd y staff i ymuno â'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhywiol ac i gofrestru fel Pencampwyr Cydraddoldeb.

Thema eleni oedd #CofleidioCydraddoldeb. Bu ymweliad ag Ysbyty Glan Clwyd yn gyfle i staff ddangos eu cefnogaeth i gydraddoldeb rhywiol a dangos eu hystum ‘cofleidio’.




“Rwy’n dad sy’n magu dau fab ac rydw i wir eisiau iddyn nhw gael gwell dealltwriaeth o ryw a rhywedd nag oedd gen i yn yr 1980au a’r 1990au”

### 3.6.5 Menopos - mae'n bwysig

Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo drwy gydol 2022-2023 i nodi’r cymorth sydd ei angen ar yr holl staff a allai gael eu heffeithio gan y peri-menopos, gan gynnwys menopos gwrywaidd. Yn ysod 2022-2023, trefnwyd sesiynau ymwybyddiaeth menopos a oedd yn agored i’r holl staff. Mae'r staff yn cael negeseuon allweddol a'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu a gweithredu mentrau drwy'r bwletin staff. Cynllunir mwy o gymorth yn y dyfodol drwy gaffis menopos.

Cynhaliwyd hyfforddiant ar gyfer pencampwyr menopos a sefydlwyd gweithgor i yrru'r camau gweithredu yn 2023-2024.

### 3.6.6 Cynhadledd Clywch Ein Llais

Cynhaliwyd Cynhadledd a drefnwyd gan Grŵp Hunan Eiriolaeth Anabledd Dysgu Conwy a Hunan Eiriolaeth ar gyfer Anabledd Dysgu Prestatyn ar 21ain Hydref 2022.






Mynychodd ein tîm Iechyd Cyhoeddus y digwyddiad i gynnal stondin hybu iechyd ochr yn ochr â siaradwr o’r tîm Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu.  Rhoddodd y gynhadledd gyfle i rannu materion allweddol, rhannu syniadau a thrafod atebion ynghylch materion pwysig.

### 3.6.7 Mwstashwedd 2022

I nodi Mwstashwedd 2022 a hybu iechyd meddwl dynion, fe wnaethom gynnal digwyddiad trafod rhithiol. Roedd y sesiwn yn canolbwyntio ar Aros yn Iach yn Feddyliol yn y Gwaith, gyda siaradwyr o Dîm Iechyd Meddwl BIPBC, Tîm Cydraddoldeb BIPBC, Aelodau'r Senedd, y diwydiant adeiladu a galwedigaethau eraill. Cynhaliwyd hwn gan y tîm Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a buom yn cydweithio â Chydffederasiwn Cenedlaethol yr Adeiladwyr i hyrwyddo’r digwyddiad. Roedd y digwyddiad rhithiol yn cael ei gynnig i unigolion a chyflogwyr ledled Gogledd Cymru a oedd yn dymuno deall yn well sut i gynorthwyo dynion i ofalu am eu hiechyd meddwl yn y gwaith. Mynychodd dros 100 o gyfranogwyr.  Mae'r sesiynau hyn ar gael yn gyhoeddus i'w cyrchu a'u defnyddio fel adnodd hyfforddi.

Dolenni at y digwyddiadau ar-lein hyn:

- Trafodaeth am Iechyd Meddwl Dynion, 2022
- Wakelet Lles Meddyliol Dynion

### 3.6.8 Digwyddiadau eraill a hyrwyddwyd yn ystod 2022-2023

- Digwyddiad Diwrnod AIDS y Byd yng Nghadeirlan Bangor.
- Mis Hanes Pobl Dduon.
- Launched Here and Proud - ymwybyddiaeth o bobl LHDTC+
- Wythnos Troseddau Casineb.



- Diwrnod Rhyngwladol y Nyrsys.
- Wythnos Hawliau Gofalwyr a sesiynau ynghylch Model Cymdeithasol Anabledd.
- Wythnos Cynnig Cymraeg.




## 3.7 Ffocws ar hyfforddiant a datblygu – yn gysylltiedig ag amcanion 1 2 3 5 8 9 10



### 3.7.1 Hyfforddiant Gorfodol Fy Nhrin yn Deg

Mae'n ofynnol i'r holl staff gwblhau'r hyfforddiant gorfodol ynghylch Cydraddoldeb - o'r enw Fy Nhrin yn Deg. Erbyn diwedd Mawrth 2023, roedd cyfradd ein cydymffurfiaeth ledled y Bwrdd iechyd yn 88.87%.

### 3.7.2 Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiadau o'r Effaith Gymdeithasol-economaidd

Cynhaliwyd ystod eang o hyfforddiant ynghylch cydraddoldeb yn ystod 2022/23, wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cynhaliwyd sesiynau hyfforddiant ynghylch yr asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a'r effaith gymdeithasol-economaidd ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus, y Tîm Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, y Tîm Thrawsnewid a Chynllunio, Fforwm y Myfyrwyr Nyrsio a Thîm Brechu BIPBC.

### 3.7.3 Hyfforddiant Cyffredinol ynghylch Cydraddoldeb

Mae hyfforddiant cyffredinol ynghylch cydraddoldeb wedi cael ei ddarparu ar gyfer Pencampwyr Cleifion a Gofalwyr ac i staff meddygfeydd mewn ymateb i geisiadau. Hyrwyddir digwyddiadau hyfforddiant gan gyrff allanol hefyd, ac maent yn cynnwys hyfforddiant ynghylch Troseddau Casineb trwy law Cymorth i Ddioddefwyr, i helpu timau i ddatblygu eu gwybodaeth ynghylch ffyrdd gwell o gynorthwyo pobl sy'n profi gwahaniaethu.

### 3.7.4 Hyfforddiant ac Achrediad Cymhwysedd Diwylliannol

Mae Diverse Cymru wedi rhedeg hyfforddiant ynghylch Cynhwysedd Diwylliannol, gan sicrhau mwy o ymwybyddiaeth o ofal sy'n sensitif o safbwynt diwylliannol a mwy o gydnabyddiaeth i'r amrywiaeth sy'n bodoli

ledled Cymru a thu hwnt. Mae'r hyfforddiant wedi'i hyrwyddo fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol ac fe wnaeth 95 o bobl gyfranogi yn ystod 2022-2023.

3.7.5 Astudiaeth achos: Ymgorffori Cymhwysedd Diwylliannol: Arferion Da yn y Gweithle

Yn ystod 2022, fe wnaeth y Gwasanaeth Cymorth Therapiwtig gwblhau'r Cynllun Ardystio Cymhwysedd Diwylliannol ar y cyd â Diverse Cymru. Cafodd y gwasanaeth ddyfarniad arian am y gwaith. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:



- Ymgorffori ystyriaethau diwylliannol trwy gynnwys y grŵp o ddefnyddwyr y gwasanaeth ac ymgynghori ag aelodau ein cymunedau a chynhyrchu ar y cyd â hwy.
- Cynnal digwyddiadau amlddiwylliannol i sicrhau bod amrywiaeth ddiwylliannol wrth wraidd y gwasanaeth a darparu gweithgareddau a dathliadau ystyrlon y gallai defnyddwyr y gwasanaeth edrych ymlaen atynt.
- Codi ymwybyddiaeth staff am ragfarn anymwybodol, a'n hangen i wrthweithio hyn ymhen amser.

Mae'r adborth yn cynnwys y canlynol:

“Diolchaf i'r tîm am fy nghroesawu i ar sail pwy wyf i - gan werthfawrogi fy nghefndir Pacistanaidd a bod yn ystyriol o fy Nghredoau Islamaidd.  Credaf fod y cynllun cymhwysedd diwylliannol yn amlygu arwyddocâd a gwerth tegwch ym maes gofal iechyd.”

“Y llynedd, fe wnaethom ni ddathlu gŵyl diolchgarwch am y cynhaeaf, Diwali, Strafagansa Rege Jamaicaidd, y Nadolig, Dydd Santes Dwynen, y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, Dydd Gŵyl Ddewi, Dydd Sant Padrig, Eid a gweithdy drymio Affricanaidd. Fe wnaeth y dathliadau hyn ein helpu i ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd ochr yn ochr â'r dathliad a threulio amser yn ein gwasanaeth i gleifion, ac mae hynny'n rhywbeth sy'n galluogi ac yn grymuso ac yn enghraifft wych o fodel cymdeithasol gofal. Mae ein posteri yn fwyfwy amlddiwylliannol erbyn hyn….ac rydym wedi cynnwys Gaeleg a Tsieinëeg, ynghyd ag ieithoedd eraill, yn ein hamgylchedd.”

“Wrth i gymunedau Cymru ddod yn fwyfwy amrywiol… gallwn weld sut mae'r gwaith hwn wedi'n helpu i gydweithio'n agosach… gan gofio grym cysylltiadau rhwng pobl fel catalydd i ysgogi newid.” Rheolwr, y Gwasanaeth Anableddau Dysgu

## 3.8 Ffocws ar ganllawiau ynghylch gofal cynhwysol – yn gysylltiedig ag amcanion ❶❷❸❹❺❻❼❽❾❿

Mae ystod o ganllawiau wedi'u llunio i helpu i lywio penderfyniadau a wneir yn y Bwrdd Iechyd. Cyhoeddir y rhain yn fewnol ar y tudalennau adnoddau ar ein mewnrwyd.

### 3.8.1 Dogfen arweiniad ynghylch Gofal i Bobl Draws

Dogfen arweiniad ynghylch Gofal i Bobl Draws o'r enw ‘Gofal Da Ydyw’ a'r ‘Pecyn Cymorth Iaith sy'n Gynhwysol o ran Rhywedd’. Lluniwyd hyn ar y cyd â Rhwydwaith Trawsryweddol Unique. Mae'r arweiniad hwn yn cynnig gwybodaeth bwysig i staff i'w galluogi i gynnig gofal cynhwysol sy'n ystyriol o anghenion cleifion a gofalwyr.

3.8.2 Pecyn Cymorth ynghylch Cydraddoldeb ar gyfer Gofal Sylfaenol




Datblygiad y Pecyn Cymorth ynghylch Cydraddoldeb ar gyfer Gofal Sylfaenol yn ystod 2022-2023 ac mae ar gael ar gyfer unrhyw Bractis Gofal Sylfaenol yng Ngogledd Cymru. Diben hyn yw annog dealltwriaeth well o anghenion gwahanol cymunedau ledled Gogledd Cymru. Datblygwyd y pecyn cymorth ar y cyd â Meddygfa Cambria yn Ynys Môn a Meddygfa Laurels yn y Fflint, y gwnaeth eu staff ddarparu gwybodaeth ynghylch meysydd penodol, a fuasai'n ddefnyddiol. Mae'r pecyn cymorth yn cynnig gwybodaeth allweddol am faterion yn ymwneud â chydraddoldeb a gofal iechyd hygyrch.  Datblygwyd y pecyn cymorth hwn gan ddefnyddio egwyddorion cyd-lunio gyda rhanddeiliaid ym maes cydraddoldeb.

3.8.3 Canllawiau ynghylch Prosiectau Trawsnewid

Arweiniad ynghylch “Cynnwys Ystyriaethau Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wrth Ddatblygu Strategaethau a Phrosiectau Trawsnewid ar Raddfa Fawr” a luniwyd ar gyfer y sawl sy'n gwneud penderfyniadau i sicrhau bod ystyriaethau o ran cydraddoldeb yn cael eu hymgorffori pan fydd newid trawsnewidiol yn cychwyn.

## 3.9. Ffocws ar gipolygon ynghylch COVID-19 - yn gysylltiedig ag amcanion ❷❸❿

### 3.9.1 Ailadeiladu'n Decach




Mae effeithiau COVID-19 yn parhau ledled holl sefydliadau'r GIG sy'n ymdrin â chanlyniadau oedi hir, rhestrau aros ac ôl-groniad o gleifion yn disgwyl am driniaethau yn ogystal ag effeithiau yn sgil Covid Hir.

Rydym wedi parhau i ychwanegu at yr ymateb i COVID-19 gan gyflawni'r rhaglen frechu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, ac mae'r gwaith hwn yn cael ei lywio gan Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys annod staff y GIG i gael eu brechu a blaenoriaethu grwpiau o gleifion sy'n agored i niwed.

### 3.9.2 COVID Hir

Mae Covid Hir yn un o effeithiau hirymarhous Covid-19. Rydym wedi dod i ddeall effeithiau Covid Hir ar ein gweithle ac o safbwynt y boblogaeth. Sefydlwyd grŵp Partneriaeth Covid Hir ar y cyd â chleifion ac mae hynny wedi gwneud cyfraniad pwysig at lywio datblygiad y gwasanaeth newydd. Fe wnaeth y dull hwn o gynhyrchu gwasanaethau ar y cyd â chleifion sicrhau Gwobr GIG Cymru am rymuso pobl i gyd-gynhyrchu eu gofal, a chyrhaeddodd y rhestr fer yng Ngwobrau Cenedlaethol y Rhwydwaith Profiadau Cleifion yn 2022, yn y categori gwaith partneriaeth i wella profiadau.

Datblygwyd y Gwasanaeth Covid Hir i gynorthwyo unrhyw unigolion yng Ngogledd Cymru y mae Covid Hir arnynt. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyhoeddi gwybodaeth i gleifion, gan gynnwys ap ynghylch Gwella wedi Covid-19 a hunangyfeirio at y Gwasanaeth Covid Hir.

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig rhaglen o gymorth ynghylch rheoli blinder, cymorth i gysgu'n well, ymarferion a strategaethau i reoli diffyg anadl, ymyrraeth ynghylch anawsterau “niwl yr ymennydd” megis anawsterau'r cof a chanolbwyntio, adolygu a monitro meddyginiaethau, rheoli poen, cymorth ynghylch hwyliau isel a phryder; a chymorth i ymateb i'r ffyrdd y mae Covid Hir yn effeithio ar rolau a chyfrifoldebau pobl yn eu bywyd ehangach gartref ac yn y gwaith.

Mae hwn yn wasanaeth newydd a sefydlwyd yn Rhagfyr 2021, ac mae'n sicrhau bod ei wasanaethau yn hygyrch i bobl o bob cefndir. Datblygwyd taflenni i gleifion mewn ieithoedd allweddol ac mae cynlluniau yn eu lle i alluogi staff i gyfranogi mewn hyfforddiant ynghylch cymhwysedd digidol.

## 3.10 Ffocws ar Iechyd Cyhoeddus - yn gysylltiedig ag amcanion 2 3 6 7 8 9 10

Mae lleihau anghydraddoldebau iechyd yn elfen anhepgor o'n gwaith Iechyd Cyhoeddus. Mae gan ein Tîm Iechyd Cyhoeddus rôl weithgar yn Fforwm Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, yn y gwaith o gyflawni'r Cynllun Strategol ynghylch Cydraddoldeb a'r Cynllun Gweithredu, a datblygu a chyflawni ein Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol.

3.10.1 Adroddiad Blynyddol Tîm Iechyd Cyhoeddus Gogledd Cymru

Fe wnaeth Tîm Iechyd Cyhoeddus Gogledd Cymru lunio eu hadroddiad blynyddol ar gyfer 2022 a oedd yn rhoi sylw i iechyd meddwl eleni. Roedd yr adroddiad yn rhoi sylw i waith atal, lles meddyliol yn ogystal â lles corfforol, ac ysgogwyr presennol salwch meddwl, ynghyd â nifer o astudiaethau achos ysbrydolgar.

3.10.2 Knowing Our Patch

Mae Tîm Iechyd y Cyhoedd mewn partneriaeth â'r Tîm Cydraddoldeb wedi cynorthwyo i lunio ein dogfen “Knowing Our Patch”. Mae'r ddogfen yn cyflwyno gwybodaeth ddemograffig gyfun ynghylch Nodweddion Gwarchodedig a gwybodaeth gymdeithasol-economaidd, a'i diben yw cynnig cymorth i lunio a chyflawni gwasanaethau cynhwysol.




3.10.4 Gogledd Cymru Iach

Rhaglen anghydraddoldebau iechyd y Bwrdd Iechyd yw Gogledd Cymru Iach, sef rhaglen ranbarthol sy’n canolbwyntio ar weithio gyda’r poblogaethau mwyaf difreintiedig yng Ngogledd Cymru. Yn fwy diweddar, mae

rhaglen Gogledd Cymru Iach wedi cael ei hategu gan ddatblygiad y rhaglen Cyfraith Gofal Gwrthgyfartal a datblygiad yr Hybiau Cymorth Cymunedol.

Mae Gogledd Cymru Iach wedi datblygu i roi sylw ar gynorthwyo i gyflawni pedair thema allweddol:

- Seilwaith: datblygu hybiau Iechyd a Lles ym Mhenygroes a Bangor. Bydd y rhain yn meithrin dulliau newydd o weithio ac yn galluogi gweithgareddau atal yn ogystal ag ymyriadau mwy traddodiadol. Trwy gynnwys y sectorau gwirfoddol a chymunedol, a rhoi sylw i bresgripsiynau cymdeithasol fel dull o ddatrys anawsterau anghlinigol, gellir gwella deilliannau iechyd ar gyfer pobl sy'n byw mewn tlodi.
- Tlodi bwyd: Cefnogaeth weithredol i rwydwaith o fentrau ar draws y rhanbarth, gan sicrhau bod rhai o'r poblogaethau mwyaf difreintiedig wedi:
    - Cyrchu bwyd maethlon, fforddiadwy.
    - Gwella eu sgiliau coginio.
    - Gwneud dewisiadau iachach o ran eu ffordd o fyw.
- Digartrefedd a grwpiau sy'n agored i niwed: Cydweithio ag awdurdodau lleol a'r sector tai i hybu gwasanaethau lles.
- Presgripsiynau cymdeithasol; galluogi unigolion i gyrchu rhaglenni presgripsiynau cymdeithasol sy'n eu galluogi i gyfranogi mewn gweithgareddau sy'n helpu i wella eu hiechyd a'u lles.

3.10.5 Brechiadau Plant

Diben ymgyrch 'Brechwch eich Plentyn' BIPBC yw sicrhau y caiff pob plentyn eu himiwneiddiadau rheolaidd. Yn ystod 2022/2023, fe wnaeth Tîm Iechyd Cyhoeddus BIPBC a Thîm Cyfathrebu BIPBC gydweithio i drefnu i gyfieithu deunyddiau'r ymgyrch farchnata i'r 15 o ieithoedd a siaredir yn amlaf yng Ngogledd Cymru, a chreu ffilm fer yn Iaith Arwyddion Prydain.

3.10.6 Prosiect Pontio'r Cenedlaethau Sir Ddinbych

Nod y prosiect hwn oedd cyflawni prosiect creadigol a oedd yn ystyriol o drawma i gynorthwyo plant oedd wedi profi trawma pan oeddent yn ifanc iawn ac a oedd wedi'u hail-leoli yn Sir Ddinbych o Syria, Affganistan a Wcráin.

3.10.7 Prosiect Dirnad Alcohol

Fe wnaeth ein Tîm Iechyd Cyhoeddus gyflawni prosiect ar y cyd â'n Bydwraig Camddefnyddio Sylweddau ynghylch y gwasanaeth presennol i leihau'r defnydd o alcohol yn ystod beichiogrwydd. Roedd hyn yn cynnwys:

- Arolwg o weithwyr iechyd proffesiynol.
- Dadansoddiad o'r adnoddau a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael.



- Gwybodaeth am wasanaethau cymorth, a chymorth yn ystod beichiogrwydd.

Mae adroddiad terfynol yn cynnwys argymhellion yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i ategu camau gweithredu i gynyddu'r ddarpariaeth gwybodaeth sydd ar gael, gwella sgiliau, a datblygu ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol.

## 3.11 Ffocws ar gymorth â chostau byw - yn gysylltiedig ag amcanion 1 2 10

Ym Medi 2022, fe wnaeth NHS Employers gyhoeddi adroddiad o'r enw 'The rising cost of living: key facts, employer response and resources'. Roedd hyn yn dwyn sylw at effeithiau andwyol yr argyfwng costau byw ar staff y GIG ledled y DU, yn cynnwys 19% o staff yn dweud eu bod yn colli cwsg a 10% yn profi anawsterau o ran canolbwyntio neu wneud penderfyniadau yn sgil pryderon am arian.

### 3.11.1 Yr argyfwng costau byw

Sefydlwyd ein Grŵp Costau Bwyd yn ystod 2022-2023 i drafod sut i gynorthwyo staff sydd ag incwm isel a'r rhai sy'n profi caledi ariannol. Yn sgil hyn, sefydlwyd ystod o flaengareddau i gynorthwyo staff, yn cynnwys:

- Gwella'r tudalennau sy'n cynnwys gwybodaeth am gymorth ariannol ar fewnrwyd BetsiNet.
- Cydgasglu gwybodaeth am sefydliadau cynorthwyo sy'n cynnig cyngor ynghylch caledi ariannol a dyledion.
- Gweithredu cynlluniau prydau rhad megis 'pryd am £1'.

- Trefnu a hyrwyddo sesiynau ymwybyddiaeth a chyngor.

## 3.12 Ffocws ar Gynlluniau Cyflogadwyedd - yn gysylltiedig ag amcanion ❶❷❻❼❽❿

Mae ein cynlluniau cyflogaeth yn cynnig cyfleoedd i bobl gael cymorth sy'n cynnwys profiad a lleoliadau gwaith i'w helpu i gael swydd yn y Bwrdd Iechyd. Mae'r gwaith hwn yn amlygu'r Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd a'n rôl o ran cynorthwyo unigolion i gael swyddi. Caiff ystod o gynlluniau eu rhedeg trwy bartneriaethau â'r canlynol:

- Canolfannau Gwaith.
- Agoriad, Scope, Remploy, Canolfan Sain Golwg Arwyddion,

Gisda.

- Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru

(NWREN).

- Lleoliadau addysg.
- Myfyrwyr Prifysgolion trwy raglen 'Go Wales'.

## 3.12.1 Cynlluniau Cyflogaeth




## 3.12.2 Rhaglen Camu Mewn i Waith

Mae ein Rhaglen Camu Mewn i Waith yn cynnig cymorth ar gyfer ystod o bobl, yn enwedig y rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur, yn cynnwys:

- Pobl sy'n ddi-waith ers tro byd.
- Pobl ifanc nad ydynt yn gweithio nac mewn addysg amser llawn.
- Pobl sy'n profi 'tlodi mewn gwaith'.
- Pobl anabl.

Mae ein cynlluniau cyflogaeth yn cynnig cyfleoedd i gael profiad, cymorth i feithrin sgiliau a magu hyder. Ers 2017, mae ein rhaglen 'Camu Mewn i Waith' wedi helpu dros 330 o gyfranogwr i gael gwaith yn y Bwrdd Iechyd.

### 3.12.3 Cydweithio ag Ysgolion a Cholegau

Yn ystod 2022-2023, rydym wedi hyrwyddo'r Bwrdd Iechyd mewn ysgolion a cholegau yng Ngoledd Cymru. Mae hyn yn cynnwys:

- Mynychu ffeiriau gyrfaoedd.
- Ymweld ag ysgolion a cholegau a rhoi sgyrsiau yno - yn cynnwys sesiynau cyfweliadau ffug.
- Cynnig cymorth trwy gylchoedd mentora

### 3.12.4 Y Robiniaid – Ein Cynllun Gwirfoddoli

Mae Cynllun Gwirfoddoli y Robiniaid yn cynnig cymorth i gleifion, gofalwyr, eu teuluoedd, ymwelwyr a staff. Bydd gwirfoddolwyr yn gweithio yn y tri ysbyty acíwt, ac yn llawer o'r ysbytai cymunedol. Mae gan y Robiniaid ddwy brif rôl: Gwirfoddolwyr mewn wardiau yn yr holl ysbytai a Thywyswyr Gwirfoddol yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Roedd dros 200 o bobl wedi cofrestru i fod yn rhan o gynllun y Robiniaid erbyn Mawrth 2023.

Y Robiniaid | The Robins

Yn ystod 2022-2023, mae ein Llawlyfr i Wirfoddolwyr wedi cael ei ddiwygio, a gwnaed gwelliannau i'r wybodaeth am gydraddoldeb a chynhwysedd.

## 3.13 Ffocws ar Gynlluniau Cenedlaethol - yn gysylltiedig ag amcanion 2 3 6 7 8 9 10

Yn ystod 2022-2023, rydym wedi ymateb i ymgynghoriadau a chynlluniau gweithredu yn deillio ohonynt a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Trowch at Atodiad B i gael rhagor o wybodaeth am y cynlluniau dilynol.

### 3.13.1 Y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol a'i gynnydd

Ym Mehefin 2022, cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, ac rydym wedi datblygu cynllun lleol cynhwysfawr i fynd i'r afael â'r camau gweithredu ynghylch iechyd ac rydym yn parhau i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid i weithredu'r cynllun. Rydym wedi:

- Datblygu cynllun ar gyfer BIPBC i weithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a sefydlu trefniadau i'w lywodraethu
- Comisiynu Diverse Cymru i redeg cyrsiau cymhwysedd diwylliannol
- Cychwyn ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol
- Rhedeg sesiwn ar gyfer y Bwrdd ynghylch gofynion y cynllun
- Penodi Hyrwyddwr Cydraddoldeb Hiliol Gweithredol.
- Cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ynghylch y cynllun
- Cyhoeddi cynllun ar dudalen - dolen yma

### 3.13.2 Cynllun Gweithredu LHDTC+ Llywodraeth Cymru

Yn Chwefror 2023, cyhoeddodd Gynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu cynllun gweithredu sy'n cael ei lunio ar y cyd ar gyfer BIPBC er mwyn gweithredu'r camau sy'n ymwneud ag iechyd. Rydym wedi:

- Nodi rhanddeiliaid
- Hyrwyddo'r cynllun yn fewnol
- Hyrwyddo ymgyrch fewnol - Yma a Balch

### 3.13.3 Cod Ymarfer Gwasanaethau Awtistiaeth

Rydym wedi lansio Grŵp Llywio cyd-gynhyrchu i alluogi'r Bwrdd Iechyd i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer. Rydym wedi cytuno i weithio yn unol â set o egwyddorion yn ymwneud â chyd-gynhyrchu ac asesu hynny'n flynyddol.


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

PUBLICATION

**Code of Practice on the delivery of autism services: impact assessment**

An assessment of impact of the Code of Practice on the delivery of autism services across Wales.

First published: 24 March 2021

## 3.14 Ffocws ar gymorth i gymuned y Lluoedd Arfog – yn gysylltiedig ag amcanion ❸ ❼ ❽

Rydym wedi gweithredu'r gofynion newydd mewn perthynas â Deddf y Lluoedd Arfog 2021 i ymrwymo i Gyfamod y Lluoedd Arfog. Ceir rhagor o wybodaeth yn Atodiad B Deddf y Lluoedd Arfog. Yn ystod 2022-2023, mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- Sefydlu rhwydwaith ar gyfer staff sy'n Gyn-aelodau o'r Lluoedd
- Sefydlu tudalennau mewnrwyd ar gyfer Cymuned y Lluoedd Arfog yn cynnwys gwybodaeth i Aelodau'r Lluoedd Wrth Gefn.
- Gwella rhannau o wefan gyhoeddus y Bwrdd Iechyd sy'n ymwneud â chymorth sydd ar gael i aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog, boed yn staff neu'n gleifion.
- Gweithredu rhaglen Poppy, sy'n nodi cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog.
- Bwriedir gweithredu rhaglen Poppy ledled yr holl feysydd sy'n derbyn cleifion acíwt yn y Bwrdd Iechyd.
- Cynnal Gwasanaeth Coffa ar 11 Tachwedd 2022.
- Sicrhau Achrediad gan Veterans Covenant Healthcare Alliance (VCHA), ac yn sgil hynny, mae Ysbyty Wrecsam Maelor, Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Gwynedd wedi sicrhau statws Ysbytai sy'n 'Ystyriol o Gyn-aelodau'r Lluoedd'.

## 3.15 Ffocws ar Ofal Ysbrydol - yn gysylltiedig ag amcanion ❷❸❺❻❼❽❾❿

Disgwylir i holl aelodau ein staff ddarparu lefel o gymorth ysbrydol sy'n briodol i'w rôl a chânt eu cynorthwyo yn hyn o beth gan ein Gwasanaeth Caplaniaeth, sy'n cynrychioli cymunedau ffydd ledled Gogledd Cymru.

### 3.15.1 Cymorth gan gaplaniaid

Mae ein cymorth i gleifion, gofalwyr, teuluoedd a staff yn cynnwys:

- Cynnig clust i wrando a gofal bugeiliol ar adegau anodd - yn cynnwys gwasanaeth gofal bugeiliol brys 24 awr
- Gofal crefyddol
- Cyswllt â chymunedau ffydd gwahanol
- Cynorthwyo i roi'r eneiniad olaf i gleifion
- Cynorthwyo pobl sy'n galaru
- Adnoddau - trolïau aml-ffydd a mynediad at gapeli

3.15.2 Ciwbiau Qur’an




I nodi diwedd Ramadan, cawsom giwbiau Qur’an yn rhodd. Mae'r ciwbiau hyn yn seinyddion Bluetooth bychan sy'n adrodd adnodau'r Qur’an mewn 24 o ieithoedd gwahanol. Cafwyd y rhodd garedig hon gan elusen Quran for Hospitals ac maent ar gael i gleifion a staff.

3.15.2 Dathliadau aml-ffydd

Yn ystod 2022-2023, fe wnaethom gydnabod ystod eang o grefyddau a dathliadau, a chynhwyswyd y rhain yn ein ffrwd Twitter Equality@BCU.

Mae enghreifftiau o ddyddiadau'r calendr ffydd yn cynnwys Ramadan, Eid, y Pasg Iddewig, Bendith y Pasg, digwyddiad Diwali ym Mangor, diwrnod agored ym Mosg Canolfan Ddiwylliannol Islamaidd Wrecsam a Vaisakhi Hapus.

## 3.16 Ffocws ar Addewidion a Siarteri - yn gysylltiedig ag Amcanion

❶❷❸❹❺❻❼❽❾❿

Dyma ein haddewidion, ein siarteri a'n cynlluniau achrededig ar gyfer 2022-2023. Mae'r cynlluniau hyn yn ein galluogi i fabwysiadu arferion gorau a rhannu ystod eang o adnoddau sy'n cwmpasu sefydliadau eraill.

- Hyderus o ran Anabledd: Fe wnaethom ni adnewyddu ardystiad ein hachrediad Arweinydd Hyderus o ran Anabledd ym Mawrth 2023.
- Siarter Troseddau Casineb: Fe wnaethom adnewyddu ein haddewid i gydymffurfio a'r siarter yn 2022.
- Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall: Fe wnaethom adnewyddu ein haelodaeth fel hyrwyddwr amrywiaeth ar gyfer 2022-2023.
- Dim Hiliaeth Cymru: Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd addo cefnogi egwyddorion Dim Hiliaeth Cymru yn 2022.
- Deall Dementia: Gwasanaethau sy'n Deall Dementia ers 2019.
- Croesawu Bwydo ar y Fron: Parhau â'n haelodaeth o gynllun Croesawu Bwydo ar y Fron.
- Siarter Plant: Datblygwyd y Siarter yn ystod 2022

# Adran 4: Camau nesaf ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2023-2024

- Cynorthwyo staff â chostau byw
- Hyrwyddo ymgyrchoedd allweddol ym maes cydraddoldeb
- Cefnogi rhwydweithiau cydraddoldeb staff a chynllun Hyrwyddwyr Cydraddoldeb
- Parhau â gwaith ynghylch y Ddeddf
- Datblygu gwasanaeth i gynorthwyo â'r menopos
- Gwella canllawiau a hyfforddiant ynghylch cydraddoldeb i gynorthwyo pob aelod o'r staff
- Adroddiadau statudol ynghylch cydraddoldeb
- Cynyddu amrywiaeth ein Rhanddeiliaid Cydraddoldeb
- Datblygu canllawiau 'Gofal Iechyd Hygyrch'
- Hyrwyddo Siarter Troseddau Casineb
- Gweithredu Cynllun Gweithredu LHDTC+ Llywodraeth Cymru
- Hysbysu a dylanwadu ar Gynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ynghylch Hawliau Pobl Anabl
- Annog dulliau cyd-gynhyrchu
- Cyflawni Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol
- **Datblygu Cynllun Strategol Cydraddoldeb Strategol 2024-2028**

# Rhan 5: Casgliad

Mae'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol hwn yn amlygu rhywfaint o waith mewn meysydd allweddol yr ydym wedi'i gyflawni gyda thimau ac unigolion a thrwy bartneriaethau i weithio tuag at gryfhau cydraddoldeb, hyrwyddo hawliau dynol a mynd i'r afael ag anghyfartaleddau o ran iechyd.

Yn sgil cyhoeddi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a Chynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru, mae'n ofynnol i ni fel Bwrdd Iechyd ddatrys gwahaniaethu a chynnig mynediad teg at ein gwasanaethau. Fel rhan o'r cynlluniau hyn, mae'n rhaid mynd ati i nodi a newid y polisïau, yr ymddygiadau a'r credoau sy'n cynnal gwahaniaethu ac anghydraddoldeb.

Mae ein Strategaeth Pobl yn ysgogi amrywiaeth o gamau i wella recriwtio staff a dal gafael ynddynt, a chyfleoedd datblygu ar eu cyfer. Rydym wedi gwella ein data monitro yn sylweddol ac wedi sicrhau bod y gwaith hwn yn cyd-fynd â'n Strategaeth Cydraddoldeb. Rydym yn ymdrechu i fod yn gyflogwr delfrydol, heb unrhyw wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth, sy'n cael ei arwain gan arweinwyr tosturiol.

Ym mis Chwefror 2023, rhoddwyd ein Bwrdd Iechyd dan Fesurau Arbennig. Rydym yn cydnabod bod cynnydd sylweddol i’w wneud o ran arweinyddiaeth a diwylliant ein sefydliad, a bydd cydraddoldeb a chynhwysiant ochr yn ochr ag arweinyddiaeth dosturiol wrth wraidd y gwelliannau hyn.

Mae gweithdrefnau'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiadau o'r Effaith Gymdeithasol-economaidd wedi'u hymgorffori yn yr holl newidiadau allweddol yn ein gwasanaethau, cynlluniau'r Bwrdd Iechyd, adolygiadau o bolisïau a strategaethau i sicrhau y gwneir penderfyniadau cynhwysol.

Mae penodi Pencampwyr Cydraddoldeb Gweithredol wedi bod yn gam cadarnhaol tuag at sicrhau cyfranogiad uniongyrchol y gweithredwyr yn ein hagenda cydraddoldeb. Mae angen cyflawni rhagor, ond mae hyn yn fan cychwyn o ran sicrhau mwy o atebolrwydd ynghylch meysydd allweddol megis Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a Chynllun Gweithredu LHDTC+ Llywodraeth Cymru.

Mae Rhanddeiliaid Allanol ym maes Cydraddoldeb wedi gwneud cyfraniad allweddol at gynnydd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, a sicrhau ein bod yn atebol. Mae rôl ein rhanddeiliaid wedi'n helpu i lunio ystod o ganllawiau, ar sail dirnadaeth yn deillio o brofiadau bywyd. Diolch i'n Rhanddeiliaid am eu hamser, eu herio cefnogol a'u craffu rheolaidd ynghylch ein dull o amlygu ein hymrwymiad i gydraddoldeb a hawliau dynol. Bydd gan ein rhanddeiliaid allanol ym maes cydraddoldeb lais cynrychiadol cryfach fyth yn ystod y blynyddoedd sy'n dod.

Ceir enghreifftiau o weithgareddau beunyddiol yn y Bwrdd Iechyd yn cael eu cyfoethogi trwy ymgorffori ethos cynhwysiant ac amrywiaeth. Mae ymgorffori cymhwysedd diwylliannol yng ngwaith ein Gwasanaeth Cymorth Therapiwtig yn enghraifft sy'n amlygu buddion a dylanwad cyfranogi a chydnabod amrywiaeth.

Mae gwaith ein tîm ymgysylltu yn amlygu ein partneriaethau â sefydliadau a chymunedau gwahanol ledled Gogledd Cymru. Mae ein gwaith ymgysylltu yn cysylltu â chymunedau gwahanol i sicrhau gwrandawiad i leisiau o bob cymuned ynghylch penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mae gan bawb ledled Gogledd Cymru hawl i gael gofal iechyd hygyrch. Rydym yn cydnabod na fydd cleifion neu ofalwyr yn cael profiad cadarnhaol bob amser wrth geisio cyrchu a derbyn gofal. Mae ein tîm Cleifion a Gofalwyr yn gweithio'n galed i sicrhau y byddwn yn dysgu gwersi cyson yn sgil adborth gan gleifion a gofalwyr, ac y byddwn yn sicrhau y gall defnyddwyr gwasanaethau, eu gofalwyr a'u teuluoedd rannu eu safbwyntiau â ni mor rhwydd ag y bo modd.

Mae newidiadau wedi gwella dull pobl o gyrchu gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd yn ystod 2022-2023, ac erbyn hyn, mae mynediad digidol yn caniatáu i staff drefnu gwasanaethau cyfieithydd ar y pryd heb oedi. Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd wyneb yn wyneb yn dal yn opsiwn i'n cleifion pan fo hynny'n ofynnol.

Wrth i flwyddyn olaf ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 4 blynedd gychwyn, mae angen i ni gyflawni llawer o waith i sicrhau bod pobl ledled Gogledd Cymru a'n staff yn gallu cael gwasanaethau cynhwysol a hygyrch sy'n diwallu eu hanghenion. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y caiff ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 4 blynedd newydd ar gyfer 2023-2028 ei ddatblygu trwy bartneriaeth â'n rhanddeiliaid ym maes cydraddoldeb er mwyn cynrychioli safbwyntiau o bob cwr o Ogledd Cymru.

# Diolchiadau

**Byddwn bob amser yn ddiolchgar am y cymorth y byddwn yn ei gael gan ein rhanddeiliaid, sy'n cynrychioli ystod amrywiol a chynhwysol o sefydliadau a phobl, gan gynnwys:**

Autistic UK

Gwasanaeth Eirioli Annibynnol Gogledd Cymru

Rhwydwaith Trawsryweddol Unique

Y Cyngor Iechyd Cymuned (Llais erbyn hyn)

Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru

Wheelieability

Grŵp Mynediad Arfon

Canolfan Byw'n Annibynnol Fforwm Anabledd Sir y Fflint

Triniaeth Deg i Fenywod Cymru (FTWW)

Y Ganolfan Arwyddo Golwg Sain

Cymorth i Ddioddefwyr

EYST

BAWSO

Cyngor Hil Cymru



Cydraddoldeb Hiliol yn Gyntaf

Cymdeithas Affricanaidd Gogledd Cymru

Anabledd Cymru

**Dymunwn ddiolch hefyd am y cymorth y byddwn yn ei gael gan bob aelod o'n rhwydweithiau staff:** Celtic Pride, BCUnity a Rhwydwaith y Staff Rhyngwladol, RespectAbility, Rhwydwaith Cydraddoldeb o ran Rhywedd a Rhwydwaith Staff sy'n Gyn-aelodau'r Lluoedd.

**Dymunwn ddiolch hefyd i bob un o'n Pencampwyr Cydraddoldeb am eu cymorth.**

**Yn olaf, diolch hefyd i'r holl aelodau hynny o'r staff, sy'n rhy niferus i'w henwi, sydd wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at gryfhau Cydraddoldeb a Hawliau Dynol eleni.**

# Atodiadau

**Atodiad A: Gwybodaeth am y boblogaeth**

**Atodiad B: Deddfwriaeth ynghylch Cydraddoldeb a'r Cyd-destun Strategol**

**Atodiad C: Gweledigaeth, Gwerthoedd a Phwrpas BIPBC**

# Atodiad A:  Gwybodaeth am y boblogaeth

Cipolwg ar Ogledd Cymru: Ffynhonnell: Nomis, 2022




Ledled Gogledd Cymru, ceir y boblogaeth fwyaf (156,100) yn Sir y Fflint a phoblogaeth Wrecsam (135,957) yw'r ail fwyaf. Ynys Môn sydd â'r boblogaeth leiaf (70,043).

Sir y Fflint a Wrecsam sydd hefyd â'r boblogaeth ieuengaf ac mae 19% o'r bobolgaeth yno yn 15 mlwydd oed neu'n iau. Ceir poblogaeth hŷn yn Ynys Môn a Chonwy; mae 26% a 28% o'u poblogaeth (yn y drefn honno) yn 65 mlwydd oed neu'n hŷn. Conwy sydd hefyd â'r ganran fwyaf o bobl sy'n 85 mlwydd oed neu'n hŷn (dros 4% o'r

Pobl sy'n Siarad Cymraeg:

Ceir mwy o bobl sy'n siarad Cymraeg yng Ngogledd Cymru nag yn unman arall yng Nghymru. Roedd y canrannau uchaf o bobl (ledled Cymru) tair blwydd oed neu'n hŷn a oedd yn gallu siarad Cymraeg yng ngogledd orllewin Cymru, a gallai 64.4% siarad yr iaith yng Ngwynedd a 55.8% yn Ynys Môn.

## Cipolwg ar ein demograffeg

**Rhyw / Rhywedd**

Gwrywod 48.9%

Benywod 50.1%

**Crefydd**

Cristnogion - 49.8%%
Mwslimiaid - 0.8%
Hindŵiaid - 0.2%
Sikhiaid - 0% - 248
Iddewon - 0% - 311
Bwdhyddion - 0.3%
Eraill - 0% (59)
Dim crefydd - 47.1%



**Cyfeiriadedd Rhywiol**

Hoyw neu Lesbiaidd 1.3%
Deurywiol 1.0%
Panrywiol 0.1%
Arywiol 0% (269)
Cwiar 0% (88)
Eraill 0% (59)
Dim ateb 8.1%
Heterorywiol 89.4%

**Hunaniaeth o ran rhywedd**

Traws - 703 o bobl
Anneuaidd - 254 o bobl
Heb ateb - 39,253 o bobl



Dylid ymdrin yn ofalus iawn â data'r cyfrifiad ynghylch pobl LHDTC+ oherwydd ystyrir bod y niferoedd wedi'u tangynrychioli'n sylweddol.

**Anableddau / cyflyrau tymor hir a namau**
72,235 o bobl (10.5%) yn unol â diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb
**Gofalwyr** 10.3% >19 awr o ofal bob wythnos



**Ethnigrwydd**

Gwyn - 96.8% o gymharu â 93.8% yng Nghymru

Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Gymry Asiaidd – 1.4% o gymharu â 2.9% yng Nghymru

Du, Du Prydeinig, Cymry Du (Caribïaidd neu Affricanaidd) - 0.3% o gymharu â 0.9% yng Nghymru

Grwpiau ag ethnigrwydd cymysg neu aml-ethnig - 1.1% o gymharu ag 1.6% yng Nghymru

## Map yn dangos Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn ôl pumedau amddifadedd, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, Gogledd Cymru, 2019



# Atodiad B: Deddfwriaeth ynghylch Cydraddoldeb a'r Cyd-destun Strategol

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn pobl a grwpiau rhag triniaeth anffafriol ac yn ei gwneud yn anghyfreithlon i wahaniaethu, aflonyddu neu erlid pobl oherwydd rheswm sy'n ymwneud â'u nodwedd warchodedig.

**Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus**

Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED), sy’n gosod dyletswydd statudol ar y Bwrdd Iechyd i:

- Ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon;
- Cryfhau cydraddoldeb o ran cyfleoedd rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol (e.e. anabledd) a'r rhai nad ydynt;
- Meithrin perthnasoedd da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig benodol a'r sawl nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.

Hefyd, mae gan ein Bwrdd Iechyd ddyletswydd benodol yn unol â gofynion y PSED i gyflawni'r camau canlynol:

- Cyhoeddi gwybodaeth i ddangos ein bod yn cydymffurfio â'r Dyletswyddau Cydraddoldeb, yn flynyddol neu'n amlach;
- Pennu amcanion o ran cydraddoldeb, bob pedair blynedd neu'n amlach.

**Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

Cyflwynwyd y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol gan Lywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2021, gan weithredu un o adrannau'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) a oedd wedi bod yn segur cyn hynny.  Ei nod yw sicrhau deilliannau gwell i'r sawl sy'n profi anfanteision economaidd-gymdeithasol. Mae'n ychwanegu at ddeddfwriaeth bresennol ynghylch cydraddoldeb a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd, wrth wneud penderfyniadau strategol, roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran deilliannau sy'n deillio o anfanteision economaidd-gymdeithasol.

## Deddf Hawliau Dynol 1998

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn nodi'r safonau cyffredinol sy'n ofynnol i sicrhau y caiff anghenion sylfaenol unigolyn eu cydnabod a'u diwallu.  Mae gan Gyrff Cyhoeddus ddyletswydd orfodol i sicrhau bod ganddynt drefniadau ar waith i gydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998.  Mae'n anghyfreithlon i unrhyw sefydliad gofal iechyd weithredu mewn unrhyw ffordd sy'n anghyson â Deddf Hawliau Dynol 1998.  Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni drin unigolion gan sicrhau Tegwch, Parch, Cydraddoldeb, Urddas ac Annibyniaeth. Gelwir y rhain yn egwyddorion FREDA.




Ffeithlun gan CQC

## Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Dulliau Cyfathrebu Hygyrch

Mae Safonau Cymru Gyfan ar gyfer dulliau Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a luniwyd gan Lywodraeth Cymru (2013) yn nodi lefel y gwasanaeth y dylai pobl sydd â nam ar y synhwyrau allu disgwyl ei chael wrth gyrchu gofal iechyd. Mae'r safonau hyn yn berthnasol i oedolion, pobl ifanc a phlant.

## Deddf Lluoedd Arfog 2021

Nod y cyfamod yw sicrhau na wnaiff personél a chyn-aelodau'r Lluoedd Arfog a'u teuluoedd brofi anfanteision wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Fe wnaeth hyn gyflwyno dyletswydd statudol i roi 'sylw priodol' i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog.

**Llywodraeth Cymru - Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol**

Ym Mehefin 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru "Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol". Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn pennu cyfrifoldeb i gyrff cyhoeddus ddangos eu bod yn gwneud cynnydd profadwy mewn perthynas â meysydd a ddisgrifir yn y camau penodol.  Mae iechyd yn un o elfennau penodol y cynllun, a bydd BIPBC yn ymgymryd â'r camau sydd wedi'u cynnwys ym mhum maes gweithredu blaenoriaethol yr elfen Iechyd:

1. Arweinyddiaeth
2. Y Gweithlu
3. Data
4. Cyrchu Gwasanaethau
5. Anghyfartaleddau Iechyd




**Llywodraeth Cymru - Cynllun Gweithredu LHDTC+**

**Ar 7 Chwefror 2023, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r Cynllun Gweithredu LHDTC+.  Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod yn dymuno "sicrhau mai Cymru yw'r genedl fwyaf cyfeillgar yn**

**Ewrop i bobl LHDTC+" with ac mae'n datgan mai ei nod yw "dangos ein hymrwymiad clir i barchu, diogelu a chyflawni hawliau dynol holl bobl LHDTC+ Cymru". Mae iechyd yn un o elfennau penodol y cynllun.**

Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno sicrhau mai Cymru yw'r genedl fwyaf cyfeillgar yn Ewrop i bobl LHDTC+. Mae'n nod uchelgeisiol, ond credwn y gallwn gefnogi holl bobl LHDTC+ Cymru i fyw eu bywydau i'r eithaf: i fod yn iach, yn hapus, a theimlo'n ddiogel. Mae Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru wedi'i sefydlu er mwyn helpu i gydlynu gweithredu gan Lywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill. Mae'r Cynllun yn amlinellu gweledigaeth gyffredinol i wella bywydau pobl LHDTC+ a chanlyniadau iddynt. Mae'n cynnwys  amrywiaeth eang o gamau polisi penodol sy'n ymwneud â hawliau dynol,  addysg, gwella diogelwch, tai, iechyd a gofal cymdeithasol, chwaraeon,  diwylliant, a hyrwyddo cydlyniant cymunedol.

Mae iechyd yn un o elfennau penodol y cynllun, a bydd BIPBC yn ymgymryd â'r camau sydd wedi'u cynnwys yn yr elfen iechyd:

- Deall a gwella profiad pobl LHDTC+ yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Sicrhau bod gwasanaethau mamolaeth a ffrwythlondeb yn hygyrch ac yn syml i'w defnyddio i bobl LHDTC+.
- Sicrhau bod y gwaith o ddatblygu'r strategaeth iechyd meddwl newydd yn ystyried pobl LHDTC+.
- Cyhoeddi Cynllun Gweithredu HIV newydd a gweithredu arno a goresgyn y rhwystrau sy'n atal pobl LHDTC+ rhag defnyddio gwasanaethau iechyd rhywiol.

- Adolygu’r llwybr Datblygiad Hunaniaeth Rhywedd i bobl ifanc yng Nghymru.
- Parhau i ddatblygu Gwasanaeth Rhywedd Cymru.
- Gwella’r ffordd y cofnodir data a newid  prosesau ar gyfer cynnal cofnodion meddygol pobl draws, anneuaidd a rhyngryw.

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol BIPBC**

Cymeradwywyd a chyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoleb Strategol <https://bipbc.gig.cymru/use-of-site/cynllun-cyhoeddi/class-five-our-policies-and-procedures/cydraddoldeb-a-hawliau-dynol/cynlluniau-strategol-cydraddoldeb/> ar gyfer 2020-2024 ym mis Mawrth 2020. Fel corff rhestredig yng Nghymru mewn perthynas â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, mae'n ofynnol i ni lunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol bob 4 blynedd neu'n amlach na hynny. Diben y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw dogfennu'r camau y mae BIPBC yn eu cymryd i gyflawni ei ddyletswydd.

# Atodiad C: Gweledigaeth, Gwerthoedd a Phwrpas BIPBC

I gael rhagor o wybodaeth, trowch at: [Ynglŷn â’r Bwrdd Iechyd]

**Ein gweledigaeth**

Byddwn yn gwella iechyd y boblogaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.Byddwn yn gwneud hyn drwy ddatblygu gwasanaeth iechyd integredig sy'n darparu gofal rhagorol a ddarperir mewn partneriaeth gyda'r cyhoedd a sefydliadau statudol a thrydydd sector eraill.

Byddwn yn datblygu ein gweithlu fel bod ganddo'r sgiliau cywir ac yn gweithredu mewn diwylliant dysgu llawn ymchwil.

**Ein Gwerthoedd**

Rhoi cleifion yn gyntaf.
Cydweithio.
Parchwch a pharch tuag at eich gilydd.
Dysgu ac arloesi.
Cyfathrebu'n agored ac yn onest.

**Ein pwrpas**

Gwella iechyd a
Darparu gofal rhagorol.

**Amcanion strategol y Bwrdd Iechyd**

Gwella iechyd a lles i bawb a lleihau anghydraddoldebau iechyd.Gweithio mewn partneriaeth i ddylunio a darparu mwy o ofal yn nes at adref.
Gwella diogelwch a chanlyniadau gofal i gyd-fynd â gorau'r GIG.
Parchwch unigolion a chynnal urddas a gofal.
Gwrandewch ar brofiadau unigolion a'u dysgu ohonynt.
Cefnogi, hyfforddi a datblygu ein staff i ragori.
Defnyddio adnoddau'n ddoeth, gan drawsnewid gwasanaethau trwy arloesi ac ymchwil.

I gael rhagor o wybodaeth, trowch at:
Ynglŷn â’r Bwrdd Iechyd

| | |
|---|---|
| Pwyllgor Adrodd: | **Pwyllgor Cyflogau** |
| Cadeirydd y Pwyllgor: | Dyfed Edwards, Cadeirydd BIPBC |
| Dyddiad y cyfarfod diwethaf: | 14.11.23 |
| Papur wedi'i baratoi gan: | Diane Davies, Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol |

**PRIF BENDERFYNIADAU / MATERION A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR**

Gofynnir i'r Bwrdd nodi i'r materion canlynol gael eu trafod yn y cyfarfod Pwyllgor a gynhaliwyd mewn sesiwn breifat ar 14.11.23

- cytuno ar benodiad Prif Weithredwr parhaol BIPBC
- nodwyd diweddariadau gan y Prif Uwch Reolwyr
- nodwyd ymateb y rheolwyr i adolygiad annibynnol o benodiadau gweithredol dros dro
- nodwyd diweddariad ar Benodiadau ac Estyniadau Dros Dro Uwch Staff Asiantaeth
- nodwyd diweddariadau o ran Dyfarniadau Cyflog Meddygol a Deintyddol
- cytunwyd ar ddyfarniadau cyflog meddygon teulu mewn practisiau a reolir
- nodwyd canlyniadau tribiwnlys cyflogaeth

**EITEMAU I'W HUWCHGYFEIRIO I'R BWRDD**

Dim un

**CYFARFOD NESAF**

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 23.1.24

V1.0

| | |
|---|---|
| Grwp sy'n Adrodd: | **Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid** |
| Cadeirydd y Pwyllgor: | Mike Parry |
| Dyddiad y cyfarfod diwethaf: | 4.9.23 |
| Paratowyd y papur gan: | Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu |

**MATERION A YSTYRIWYD GAN Y GRWP**

Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid ar 4 Medi 2023.

Gofynnir i'r Bwrdd nodi bod y materion canlynol wedi cael eu trafod yn y cyfarfod:

- Ethol Cadeirydd newydd a'r camau nesaf
- Y diweddaraf ar y Mesurau Arbennig
- Ymarfer Cwmpasu Gwirfoddoli
- Achos Busnes Gofal wedi'i Gynllunio Ychwanegol Drafft, Llandudno

**Log Gweithredu'r Grŵp**

Roedd y Grŵp wedi cael Log Gweithredu'r Pwyllgor ac wedi'i drafod.

Fe wnaeth y Cadeirydd Etholedig -

- ddiolch i'r Cyfarwyddwr Partneriaethau, Cyfathrebu ac Ymgysylltu am adroddiad y Cyfarwyddwr newydd ac am yr wybodaeth am ddatblygiad Llais, nid yn unig ar sail leol ond hefyd ar berthynas newydd yn genedlaethol
- nodi bod Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd yn bwriadu ail-alinio'r Rheolau Sefydlog gyda'r Cylch Gorchwyl a bod Cadeirydd CIC Gogledd Cymru / cynrychiolydd Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam a chynrychiolydd Hosbisau Gogledd Cymru wedi cynnig helpu yn hyn o beth.

**Ethol Cadeirydd newydd a'r Camau Nesaf**

Etholwyd y Cyng. Mike Parry yn Gadeirydd newydd, ond bydd yn parhau i fod yn Gadeirydd Etholedig nes daw cymeradwyaeth gan y Gweinidog. Mae'r broses etholiadol wrthi'n mynd rhagddi i benodi Is-gadeirydd newydd.

**Y Diweddaraf ar y Mesurau Arbennig**

Cafodd y Grŵp gyflwyniad ar Fesurau Arbennig a oedd yn cynnwys trosolwg o'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar y cyd â Llywodraeth Cymru.

Ceisiodd a chafodd y Grŵp sicrwydd y byddai'n ymwneud â datblygiadau yn y dyfodol yn y cam cynllunio, yn hytrach na'r hyn sydd wedi digwydd yn hanesyddol. Teimlai'r aelodau fod hwn yn gyfle i ailsefydlu ymddiriedaeth yn y berthynas – sylw a gymeradwywyd gan y Prif Weithredwr Dros Dro. Cytunodd Cadeirydd Dros Dro'r Bwrdd i roi mwy o ystyriaeth i'r hyn y dylai'r Bwrdd fod yn ei rannu â'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, a dywedodd fod awydd hefyd dros y flwyddyn nesaf i fynd allan yn gorfforol i'r cymunedau i ofyn am eu barn a'u safbwyntiau ar y sefydliad.

**Ymarfer Cwmpasu Gwirfoddoli**

Darparwyd yr adroddiad drafft i'r Grŵp ar yr Ymarfer Cwmpasu Gwirfoddoli yn BIPBC. Roedd yr adroddiad yn asesu'r sefyllfa bresennol ac yn rhoi syniadau ynglŷn â sut i greu agwedd fwy cydlynol a strategol tuag at wirfoddolwyr yn y sefydliad.

Croesawyd yr adroddiad gan y Prif Weithredwr Dros Dro gan ei bod yn teimlo y dylai manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd gwirfoddoli fod yn ddull gweithredu canolog yn y sefydliad. Teimlai fod gwirfoddoli'n rhoi cyfle i bobl o bob oed – pobl iau i gael profiad i brofi gwahanol opsiynau gyrfa; pobl sydd wedi ymddeol yn rhannol; i'r bobl hynny a allai fod wedi bod â rôl ofalu yn eu bywydau ac sy'n dymuno rhoi'n ôl i'r gymuned; bancio amser yn ogystal â chymrodoriaethau ymddeol.

**Achos Busnes Gofal wedi'i Gynllunio Ychwanegol Drafft, Llandudno**

Cafodd yr Achos Busnes Gofal wedi'i Gynllunio Ychwanegol Drafft – i adeiladu dwy theatr lawdriniaeth newydd, ailwampio ward 19 gwely a datblygu uned gofal ôl-anesthetig â 8 gwely, yn Llandudno – ei gyflwyno ar lafar a'i groesawu'n fawr.

Mynegodd yr aelodau bryderon ynglŷn â'r posibilrwydd o golli gwelyau cymunedol yn Llandudno/YGC – ond nodwyd mai uned annibynnol wedi'i neilltuo fydd y prosiect hwn.

**EITEMAU I'W HUWCHGYFEIRIO I'R BWRDD**

Ni chafodd unrhyw eitemau eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd.

**Y CYFARFOD NESAF**

Bydd cyfarfod nesaf y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn cael ei gynnal ar 4 Rhagfyr 2023.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Teitl yr adroddiad:**<br><br>***Report title:*** | Crynodeb o Fusnes Preifat y Bwrdd | | | |
| **Adrodd i:**<br><br>***Report to:*** | Bwrdd Iechyd – Cyhoeddus | | | |
| **Dyddiad y Cyfarfod:**<br><br>***Date of Meeting:*** | Thursday, 30 November 2023 | | | |
| **Crynodeb Gweithredol:**<br><br>***Executive Summary:*** | Mae Rheol Sefydlog 6.5.3 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd adrodd yn ffurfiol ar unrhyw benderfyniadau a wneir mewn sesiwn breifat i gyfarfod nesaf y Bwrdd mewn sesiwn gyhoeddus. Mae'r egwyddor hon hefyd yn berthnasol i gyfarfodydd y Pwyllgor. | | | |
| **Argymhellion:**<br><br>***Recommendations:*** | Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad | | | |
| **Arweinydd Gweithredol:**<br><br>***Executive Lead:*** | Phil Meakin – Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd | | | |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>***Report Author:*** | Diane Davies – Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol | | | |
| **Pwrpas yr adroddiad:**<br>***Purpose of report:*** | I'w Nodi<br>*For Noting*<br>☒ | I Benderfynu arno<br>*For Decision*<br>☐ | Am sicrwydd<br>*For Assurance*<br>☒ | |
| **Lefel sicrwydd:**<br><br>***Assurance level:*** | Arwyddocaol<br>*Significant*<br>☐<br>Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives* | Derbyniol<br>*Acceptable*<br>☒<br>Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Rhannol<br>*Partial*<br>☐<br>Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Dim Sicrwydd<br>*No Assurance*<br>☐<br>Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>*No confidence / evidence in delivery* |
| **Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' neu uwch, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:**<br><br>***Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:*** | | | | |
| **Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:**<br><br>***Link to Strategic Objective(s):*** | Nac ydw - Amh/ | | | |
| **Goblygiadau rheoleiddiol a chyfreithiol:**<br><br>***Regulatory and legal implications:*** | Nac ydw - Amh/ | | | |

| | |
|---|---|
| **Yn unol â WP7, a oedd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?*** | Nac ydw - Amh/ |
| **Yn unol â WP68, a oedd Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?*** | Nac ydw - Amh/ |
| **Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)**<br><br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks( cross reference to the BAF and CRR)*** | Nac ydw - Amh/ |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith***<br><br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Dim |
| **Goblygiadau i'r gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Dim |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br><br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | Amherthnasol |
| **Cysylltiadau â risgiau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol)<br><br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | Amherthnasol |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br><br>***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)*** | Amherthnasol |

**Y Camau Nesaf:**
**Gweithredu argymhellion**

***Next Steps:***
***Gweithredu argymhellion***

Ystyriodd y Bwrdd Iechyd y materion canlynol mewn sesiynau preifat ar y dyddiadau canlynol:

25.5.23

- wedi cael diweddariad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)
- cymeradwywyd Achos Busnes Llawn Caffael Systemau Gwybodeg Radioleg (RISP)
- cymeradwywyd tendrau'r Fframwaith Ymgynghorwyr Adeiladu
- cymeradwywyd setliadau hawliadau Gwerth Uchel
- nodwyd newidiadau i Orchmynion Ymyrryd

22.6.23

- cytunwyd ar osod Ffioedd 2023/4 ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus/ Darparwyr Gofal

31.7.23

- cymeradwywyd ymestyn cyfnod cytundeb Rhaglen etifeddol Rhwydwaith Gwybodaeth Labordai Cymru (LINC)
- wedi cael diweddariad HSE
- wedi cael diweddariad RISP
- nodwyd Cynllun Ariannol ar gyfer 2023/24

24.8.23

- nodwyd y wybodaeth ddiweddaraf am broses etholiadol y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid

28.9.23

- cymeradwywyd cyflwyno achos busnes y Ganolfan Llawfeddygaeth Orthopedig Ddewisol yn Ysbyty Llandudno i Lywodraeth Cymru
- cymeradwywyd ymestyn contract presennol fel cam wrth gefn ar gyfer yr oedi yn Rhaglen RISP
- cymeradwywyd adnewyddu contract deintyddol sy'n darparu gwasanaethau orthodontig
- cymeradwywyd setliad hawliad Gwerth Uchel

**Rhestr o Atodiadau:**

Dim

***List of Appendices:***

*Dim*